4255.aaa.30.

MER
DIFINYDDIAETH IACHUS.
NEU
BORTREIAD
O'R
CYFAMMOD GRAS
a'r
CYFAMMOD GWEITHREDOEDD;
YNGHYD A
DEFNYDD a *DIBEN* pob un *o'r* DDAU
DAN ORUCHWYLIAETH
YR HEN DESTAMENT A'R NEWYDD:
lle y ceir
EGLUR DDARLUNIAD o'r *Fforddi Fywyd Tragywyddol* trwy
IESU GRIST.
MEWN DULL O YMDDIDDAN
RHWNG
EFANGELISTA, *Gweinidog yr Efengyl.*
NOMISTA, *Gwr yn dal yn rhy bell o Ochor y Ddeddf.*
ANTINOMISTA, *Gwrthwynebwr y Ddeddf.*
NEOPHITUS, *Criſtion Ieuanc.*

Gan EDWARD FISHER. A. C.

Y TRYDYDD ARGRAPHIAD,
Wedi ei Ddiwygio a'i Gŷd-gymmharu â'r Saeſ'neg.

Bydded gennyt ffurf yr ymadroddion iachus. 2 Tim. i. 13.

TREFECCA; Argraphwyd, dros y Cyhoeddwr. 1782.
(Pris Swllt.)

HYSPYSIAD.

Y Llyfr hwn a gyfeithwyd er's llawer o amſer, ac a Argraphwyd ddwy-waith o'r blaen yn y Iaith Gymraeg, ond gyd â llawer o amherffeithrwydd; Er yn wir fod yr ail Argraphiad dan olygiad Mr. *M. J.* yn rhagori ymhell ar y cyntaf, etto ni ddiangodd hwnnw ychwaith heb lawer o gamſyniadau, yn enwedig beiau yr Argraph-waſg, fel yr oedd yn anhawdd dyall yſtyr priodol amrywiol o fannau o hono. Eithr yn awr fe wnaethpwyd cymmaint ag a allefid er diwygio Rîf lioſog o feiau ynddo, trwy ei gyd gymmharu â'r unfed Argraphiad ar bymtheg yn y Saeſneg, a goſod rhai pethau yn fwy amlwg, ac yn hawſach eu dyall nag yn yr Argraphiadau o'r blaen. Cymmerwyd hefyd ychydig gymmorth, er eglurhau rhai lleoedd anhawdd eu dyall, oddi wrth Nodau Mr. *Boſton*, pa rai a 'ſgrifennodd ef yn y Saeſneg, yn aml, ac yn helaeth iawn arno. Ac fel y gallo'r darllenydd gymmeryd yſtyr pob rhan o hono, fe oſodwyd Cynnhwyſiadau'r Llyfr yn Rheolaidd, fel y byddai hawſach ei ddefnyddio.

D. S. Er mwyn cyfarwyddo'r darllenydd anghyfarwydd, gorchymynir iddo gymmeryd ſulw, lle y cyfarfyddo â'r llythrennau D. S. y maent yn ſefyll am *Daiſwch Sylw*; a'r un modd H. Y. y rhai ſydd yn ſefyll am *Hynny Yw*. Ac hefyd pan gyfarfyddoch â'r Nodau-cyfeiriad hyn, * † ‡ ‖ § ¶ y maent yn eich cyfarwyddo at y Sylw-nôd ar yr ymadrodd hwnnw a ddarllenir o'i flaen. A. C. am Athraw yn y Celfyddydau.

BRITISH MUSEUM

At y

DARLLENYDD.

Y Mae amſer o ddiwygiad yn waſtadol yn amſer terfyſglyd, fel y gwelwn yn Epiſtolau Paul, *a llythyrau* Ioan *at y ſaith Eglwys; ynghyd â hanes diwygiadau oddi yno hyd yma. Ac mae'n hamſer ninnau yn brawf galarus o'r un peth. Yn gymmaint a bod y Llyfr gwerthfawr hwn, trwy gydſyniad cyfarfod o Weinidogion yr Eſengyl, yn cael ei gynnyg fel cymmorth i iawn ddyall athrawiaethau'r 'ſgrythyrau, nid yw yn anghymmwys i mi nodi rhai o'r ffyrdd, y deliais ſylw arnynt, ſydd yn achos o'u cam-gymmeryd.*

1. *Trwy gredu fod y fath yſprydoliaeth ddigyfrwng ag oedd yn amſer yr Apoſtolion; heb yſtyried, fod achoſion neillduol, i ddechreuad yr oruchwyliaeth efangylaidd fod felly; o herwydd (ymmyſg pethau eraill) fod y Teſtament newydd, dan dywalltiad yr Yſpryd Glan, yn cael ei roddi bob yn rhan, ac na 'ſgrifenaſid ef hyd yn hyn i fod gyfrwng gras ſyfedledig gyd â'r hen Deſtament. Y camſynied ſydd, o eiſiau i ni ddiſgwyl am yr un pethau, mor bell ag y perthynant i Iachawdwriaeth, adeiladaeth, o chyſur, trwy gyfryngau ag oeddent hwy gynt yn ei gael, heb y cyfrwng o'r Teſtament newydd.*

2. *Trwy'r Tyb falch o fod pwerau'r enaid mor rhydd oddi wrth lygredd, fel y gall ddyall y 'ſgrythur, yn ddigonol er Iachawdwriaeth, heb weithrediadau'r Yſpryd Glan. Ond y gwirionedd yw, fod dyn dan gymmaint o angenrheidrwydd i gael Yſpryd Duw i gymmhwyſo'r Iachawdwriaeth, a chael* Crist *i'w brynu.*

3. *Trwy gam-oſodiad o bwerau'r enaid wrth ymdrin â* Gair Duw, *gan roi lle i'r ſerchiadau fyned o flaen y rhan arweiniol, ſef dyall a chydwybod, a gwneuthur y rhai'n yn weiſion i'r anwydau afreolus. Y fath an-*

rhesn a hyn (yn enwedig dan wthiadau'r gelyn) a wna ddyn yn hŷ i gadarnhau, nid yn unig cyfeiliornadau gwrthwyneb i'r 'sgrythyrau, ond hefyd i'r ychydig oleuni sydd gennym wrth natur; fel y tystia'r Bibl, a hanesion yr amseroedd.

4. *Trwy gymmeryd rhan fychan o'r gair i sylfaenu tybiau arno, heb ystyried y cwbl sydd yn perthyn i'r lle o'r 'sgrythur. Rhai o ddiffyg pwyll a wnant hyn: Ac eraill yn gyffelyb i'r Diafol (fel y mae i'w ofni) pan y daeth at* GRIST, *yn fwriadol a adawodd y cwbl o'r* Salm *a goffaodd, ond cymmaint a wasanaethodd i lunio ei demtasiwn arno. Felly yn fynych y mae dynion yn cymmeryd y rhan hynny o'r gair y fyddo yn debyg o ddal eu tybiau rhag cwympo. A phe ystyrient y cwbl mewn cyd-undeb â'u gilydd, byddent fel plentyn wrth ddechrau ei lyfr, sydd yn rwym i gymmeryd gwers newydd. Ond fel y dywedodd un gwr yn gall iawn, mai'r gair mwyaf anhawdd ei adrodd, yw dywedyd,* "Mi a gamsyniais."

5. *Trwy dderbyn cam ddarluniad i'r meddwl o eiriau yr 'sgrythur, yr hwn a wna i ddyn, yn angenrheidiol, ac yn annocheladwy, osod allan gam athrawiaeth.*

6. *Trwy wneuthur Alegori, neu gyffelybiaeth, o'r rhannau o'r gair a ddylid eu cymmeryd yn ôl y llythyren. Hyn sydd debyg i'r* Papistiaid *a roddant dri neu bedwar meddwl i'r un 'sgrythur, megis llyth'rennol, ysprydol, a chyffelybiaethol, &c. fel y gwelwch yn well yngwaith Mr.* * Percins *ac eraill. Y modd hyn y gwneir hi fel cŵyr, ac y galler newid yr argraph a fyddo arno pan y mynnir; ac felly y profir y camsyniadau mwyaf trwy'r Bibl, ac y gosoair y cwbl yn an-sicr.*

7. *Trwy wadu dull o ymadroddion, neu Rhetoric, yn y lleoedd o'r gair ag y mae'r Yspryd Glan wedi eu osod yn naturiol, heb oddef cyfyngu neu helaethu ymadroddion yn ôl Amgylchiadau'r lle.*

8. *Trwy dynnu rheol gyffredin oddi wrth bethau anghyffredin. I roi un esampl o lawer, fel pe profir ei fod yn ddyledswydd i ni ddawnsio, a neidio, yn yr addoliad, o herwydd i* Dafydd *wneuthur hynny unwaith o flaen yr Arch.* 9.

* PERKINS Art of Propheey.

9. *Trwy wadu'r angenrheidrwydd o fyfyrdod, a darllain, &c. yr hyn ſydd gynnorthwy i'r ffyrdd cyfeiliornus a rhag-ddywedwyd uchod. Ond mae'r Apoſtol yn dywedyd wrth* Timotheus, Myfyria ar y pethau hyn. A glŷn wrth ddarllain, *&c.* 1 *Tim.* iv. 13, i'r 15. *Ac amryw o leoedd yng ngair* Duw *ſydd eglur annogaeth iddo. Y rhag farn ddrwg atto ſy'n annog* Duw *i adael dynion i'w meddyliau eu hunain, o herwydd dirmygu'r moddion y mae ei Rhagluniaeth dyner ef yn ei rhoddi i'w dwylaw, ac yn eu gwneuthur yn agored i ddiafol i'w cymmeryd yn ei law i hau cyfeiliornadau yn lle gwirionedd iachus y 'ſgrythyrau. Rhai o'r llwybrau hyn ſydd yn arwain i'r ddau gamſyniad marwol a wrthwynebir yn y Llyfr hwn; ſef pwyſo ar y ddeddf fel cyfammod am fywyd, a'i gwrthod fel rheol o fywyd. Yma, gyd â Bendith* Duw, *y cynhwyſir meddyginiaeth briodol ac effeithiol rhagddynt, ac hefyd i ſefydlu'r gweiniaid ſy'n cael eu hyſgwyd rhyngddynt.*

Gwaithyr Awdwr a ganmol ei hun. Canys y Cyfammod o weithredoedd a eglurir yn helaethrwydd ei ofynion, ac ſydd yn Llaw'r Arglwydd yn abl i argyoeddi pob deddfwr o'i gamſyniad. Eglurir hefyd y Cyfammod gras yn ei helaethrwydd, a digonolrwydd Abertb Crist *tros bechod yn y modd og ſydd yn abl codi calon y llwythog a'r blinderog o ddyfnder amheuaeth i orfoledd ffydd, i ymddigoni ar gyflawnder Cyfryngwr pechaduriaid euog. Hyn ſydd felus-gerdd i'r gwir Griſton, yn fwy peraidd nâ holl gerddoriaeth Teml* Salomon *i'r Iſraeliaid. Yma hefyd yr agorir ac yr amddiffynnir Cyfraith* Duw, fel Rheol bywyd pob Credadyn; *yr hon nid oes le i'r Criſtion fyned oddi dani fel y cyfryw, ond i'r pydew erchyll o bechod, lle na chair ond gwrthgilwyr fel môch aſlan i ymdroi ynddo*

Yn awr, dymunaf ar bawb, y dalo'r Llyfr hwn i'w dwylaw, ei ddarllen bob gair, ac ymoſod i'w ddyall: Canys mae rhai o bethau dyfnion Duwioldeb ynddo. Gweddiwch hefyd am gymmorth Yſpryd Duw, *beb waith yr hwn ni ddyallwch byth y Cyfammod gras er Iachawdwriaeth, na'r Ddeddf fel y mae hi yn waſ'naeth-*

gar iddo. Mae Mr. Caryl, *a Mr.* Strong, *ac eraill, wedi ei anrhydeddu â Llythyrau canmoliaeth yn y Saes-'neg, y rhai oedd Awdwyr canmoladwy ac Iachus. Yn awr nid oes gennyf ond ei adael rhwng yr Arglwydd a thithau, ddarllenydd, a'i Fendith ef arno i ti er gwir lesâd dy enaid, yw Gweddi*

dy anheilwng Wasʼnaethwr.

M. J.

COF-RESTR o Enwau'r Difeinyddion, ailan o walth pa rai y darfu i Awdwr y Llyfr hwn gasglu llawer o'r Desnyddiau sydd gynnwysedig ynddo.

A
Mr. Ainſworth
Dr. Ames

B
Eſgob Babington
Mr. Bâl
Mr. Baſtinjus
Mr. Beſa
Mr. Robert Bolton
Mr. Samuel Bolton
Mr. Bradfford
Mr. Bulinger
Mr. Jer. Burrws

C
Mr. Calfin
Mr. Carleſs
Mr. Caryl
Mr. Cornwal
Mr. Cotton
Mr. Culferwel

D
Mr. Dent
Dr. Diodati
Mr. D. Dicſon
Mr. Dawnham
Mr. Du Pleſs
Mr. Dyck

E
Mr. Elton

F
Mr. Forbes
Mr. Fox
Mr. Frith

G
Mr. Gibbons
Mr. Gwdwin
Mr. Grau
Mr. Grînham
Mr. Groſius

H
Eſgob. Hâl
Mr. Hwccer

L
Mr. Laſtanno
Mr. Leitffwt
Dr. Martin Luwther
Mr. Marbeg
Mr. Marſial
Pedr Martyr
Dr. Maër
Wlffanjus Muſculus

O
Bernardin Occin

P
Dr. Pembl
Mr. Perccins
Mr. Polannus
Dr. Preſton

R
Mr. Reynolds
Mr. Rolocc
Mr. Rows

S
Dr. Sibs
Mr. Slater
Dr. Smith
Mr. Stock

T
Mr. Tindal
Mr. Robert Town

V
Mr. Vaometh

U
Dr. Urban Rejus
Dr. Urſinus

W
Mr. Waccer
Mr. Ward
Dr. Wilet
Dr. Wiliams
Mr. Wilſon

Cynnhwyſiadau y Llyfr.

Tu Dal.

1 Y *Mryſonau ynghylch y Ddeddf.* - - 1
2 *Tair rhyw o Ddeddfau* - - - - - 3
3 *Nattur y Cyfammod Gweithredoedd.* - - - 5
4 *Cwymp* Adda. - - - - - - - - 9
5 *Trueni Dynol-ryw trwy'r Cwymp.* - - 11
6 *Nad oes Ymwared trwy'r ddeddf, neu'r Cyfammod Gweithredoedd.* - - - - - - 14
7 *Am Ddeddf ffydd, neu'r Cyfammod Gras.* - 16
8 *Arfaeth Dragywyddol o Ras.* - - - - 18
9 *Yr Addewid yn cael ei gwneuthur i* Adda. - 20
10 *Adnewyddu yr Addewid i* Abraham. - - 23
11 *Y Ddeddf, fel Cyfammod Gweithredoedd, yn cael ei rhoi yn waſanaethgar i'r Addewid.* - - 27
12 *Yr Addewid a'r Cyfammod âg* Abraham *yn cael ei Adnewyddu â'r* Iſraeliaid. - - - - 34
13 *Y Cyfammod o Ras dan Oruchwyliaeth* Moſes. 37
14 *Tuedd naturiol i'r Cyfammod Gweithredoedd.* 53
15 *Ffydd Antinomiaidd yn cael ei Cwrthod.* - 65
16 *Drwg Deddfoldeb.* - - - - - - 70
17 CRIST *yn cyflawni'r Ddeddf yn lle'r Etholedigion.* 73
18 *Y Ffyddloniaid yn feirw i'r Ddeddf fel Cyfammod o Weithredoedd.* - - - - - - - 77
19 *Sail i Gredu yng* NGHRIST. - - - - 82
20 *Edifeirwch Efangylaidd yn canlyn Ffydd.* - 94
21 *Priodas Yſprydol â* IESU GRIST. - - 95
22 *Nad oes y fath beth a Chyfiawnhad o flaen Ffydd.* 100
23 *Y Ffyddloniaid yn rhydd oddi wrth Allu Damniol a Gorch'mynol y Cyfammod o Weithredoedd.* - 101
24 *Nattur Cyfraith* CRIST. - - - - - 105

25

25 *Cyfraith y Deg Gorchymun yn Rheol o Fywyd i'r Credinwyr.* - - - - - - - - - 107
26 *Gwrth-Ddadleuon Antinomiaid yn cael eu hatteb.* 110
27 *Yr Angenrheidrwydd o Nodau ac Arwyddion Gras.* - - - - - - - - - 114
28 *Gwrth-Ddadleuon Antinomiaid yn cael eu hatteb.* 116
29 *Sancteiddrwydd a Gweithredoedd Da i'w cael yn unig Trwy Ffydd.* - - - - - - - 119
30 *Nad yw Ofn Slafaidd a Gobaith Caethiwus yn dwyn Gwir Ufudd-dod.* - - - - - - 124
31 *Effaith Ffydd yn Dwyn Sancteiddrwydd Calon a Bywyd.* - - - - - - - - - 126
32 *Arferiad o Foddion i gadarnhau Ffydd.* - 134
33 *Gwahaniaethu Cyfraith Gweithredoedd a Chyfraith* CRIST, *mewn chwech o Bethau.* - - - 136
34 *Y Defnydd a'r Ymarferiad o'r gwahaniaeth hynny.* - - - - - - - - - - 138
35 *Y Gwahaniaeth hynny yn ganol Ffordd rhwng Deddfoldeb ac Antinomiaeth.* - - - - - 143
36 *Pa fodd i gael Sicrwydd.* - - - - - 145
37 *Nodau ac Arwyddion o Wir Ffydd.* - - 147
38 *Pa fodd i Ail gaffael Arwyddion a gollwyd.* 149
39 *Nodau ac Arwyddion o Undeb â* CHRIST - 150
40 *Dim Gorphwysfa i'r Enaid, hyd oni Ddelo at* DDUW. - - - - - - - - - - 156
41 *Pa fodd y mae'r Enaid yn cael ei gadw rhag Gorphwys yn* NUW. - - - - - - - - 158
42 DUW *yng* NGHRIST *yr unig wir Orphwysfa i'r Enaid.* - - - - - - - - - - 164
43 *Y Diwedd-glo.* - - - - - - - - 170

MER
DIFINYDDIAETH IACHUS,
MEWN
DULL O YMDDIDDAN
RHWNG

Efangeliſta, Gweinidog yr Efengyl.
Nomiſta, Gwr yn dal yn rhy bell o Ochor y Ddeddf.
Antinomiſta, Gwrthwynebwr y Ddeddf.
Neophitus, Criſtion ieuangc.

Nomiſta.

GAN fod rhyngof fi a'm cymmydog *Neophitus* ryw ymddiddan yn ddiweddar a'n cyfaill a'n cydnabod *Antinomiſta*, ynghylch Pyngciau crefydd, ym mha rai yr anghyttunodd ef â nyni ein dau; efe, or diwedd, a gyttunodd i fefyll wrth eich barn chwi ein Gweinidog: Am hynny y buom mor hŷf a dyfod ein tri attoch, gan ddeifyf arnoch ein gwrando, a barnu'r amrafael fy rhyngom.

Efan. Y mae i chwi eich tri fawr roefaw attaf fi; ac os gwelwch chwi fod yn dda wneuthur eich ymryſonau yn hyſpys i mi, cewch glywed fy nhyb innau.

Nom. Yn wir, Syr, y mae ymryſon rhyngddo ef a minnau ynghylch llawer o Byngciau, ond yn enwedig, ynghylch y Ddeddf: canys yr wyt fi yn

dywedyd, y dylai'r ddeddf fod yn rheol o fywyd i'r Credadyn, ond efe a ddywed, na ddylai.

Neoph. Ac yn wir, Syr, yr Ymryſon pennaf rhyngddo ef a minnau yw hyn: efe a'm hannogai i gredu yng NGHRIST, ac a'm cynghorai i lawenychu yn yr ARGLWYDD, ac i fyw yn llawen ac yn 'ſmala, er cymmaint o lygredigaeth a deimlwyf yn fy nghalon; ïe, er annuwioled y b'o fy muchedd: eithr ni's gallaf fi hyn, ac yr wyf yn meddwl, na's dylwn, ond yn hytrach ofni, a galaru, ac ymofidio am fy mhechodau.

Anti. Gwir yw, yr ymryſon pennaf rhyngof fi a'm cyfaill *Nomiſta*, ſydd ynghylch y ddeddf; ac am hynny yn bennaf y daethom attoch.

Efan. Mae'n gof gennyf ewyllyſio o *Paul* yr Apoſtol a'r i *Titus ochelyd cweſtiynau ffôl, a chynhennau, ac ymryſonau ynghylch y ddeddf*, am eu bod yn *anfuddiol* ac yn *ofer*: Tit iii. 9. Ac y mae arnaf ofn, mai y fath yma yw eich ymryſon chwithau.

Nom. O'm rhan i, Syr, yr wyf fi yn tybied, y dylai pob gwir Griſtion fod yn dra eddigus dros ſanctaidd Gyfraith DUW; yn enwedig yn awr, am fod cynnifer o *Antinomiaid* yn ymoſod yn ei herbyn, ac yn taer geiſio ei llwyr ddiddymmu a'i diwreiddio allan o'r Eglwys. Yn wir, Syr, yr wyf fi yn tybied, nad yw'r fath ddynion yn gymmwys i fyw mewn gwlad Griſt'nogol.

Efan. Na fyddwch, attolwg, fy nghymmydog *Nomiſta*, mor boeth, ac na fydded yn ein plith y fath eiriau anghriſt'nogaidd; ond ymreſymmwn y naill â'r llall mewn cariad ac yſpryd addfwynder, fel y gweddai i Griſt'nogion. Yr wyf yn addef gyd â'r Apoſtol, mai *Da* yw *dwyn mawr ſerch mewn peth da yn waſtadol.* Gal. iv. 18. Ond etto y mae arnaf ofn, fod achos i mi ddywedyd am rai Criſt'nogion, megis y dywedodd yr un Apoſtol am yr Iuddewon, *Act* xxi. 20. eu bod hwy *yn duyn zêl i'r ddeddf*; ïe, y mynnai rhai o honynt fod yn *Athrawon o'r ddeddf*, ac etto *heb ddyall na pha bethau y maent yn ei ddywedyd, nac am ba bethau y maent yn taeru.* 1 Tim. i. 7.

Nom.

Nom. Syr, mae'n ddiammau gennyf, fy mod i yn gwybod beth yr wyf yn ei ddywedyd, ac yn ei haeru, pan dywedwyf ac y taerwyf, y dylai deddf ſanctaidd yr ARGLWYDD fod yn rheol o fywyd i gredadyn; ac yr wyf yn meddwl y gallaf wyſtlo fy enaid ar hyn o wirionedd.

Efan. Ond pa ddeddf yr ydych yn ei feddwl?

Nom. Pa ddeddf, Syr, y debygwch chwi fy mod i yn ei feddwl? A oes mwy o ddeddfau nac un?

Efan. Yr ydys yn ſôn yn yr 'ſgrythyrau am dair rhyw o ddeddfau; ſef, *deddf gweithredoedd, deddf ffydd, a deddf* CRIST; *Rhuf.* iii. 27. *Gal.* vi. 2. Am hynny, attolwg, dywedwch am ba un o'r tair rhyw y meddyliwch, pan ddywedech, y dylai'r ddeddf fod yn rheol o fywyd i Gredadyn.

Nom. Ni wn i un gwahaniaeth rhyngddynt ond hyn, y dylai deddf y dêg Gorchymun, yr hon yn gyffredinol a elwir y gyfraith foeſawl, fod yn rheol o fywyd i Gredadyn.

Efan. Ond am ddeddf y dêg gorchymun, neu'r gyfraith foeſawl, fe ellid ei chymmeryd naill ai fel deunydd o'r gyfraith weithredol, neu o gyfraith CRIST; am hynny, attolwg, dywedwch ym mha yſtyriaeth y meddyliwch chwi y dylai hi fod yn rheol o fywyd i Gredadyn.

Nom. Syr, y mae'n rhaid i mi addef, na's gwn i beth yw'ch meddwl chwi wrth hyn o wahaniaeth; ond hyn a wn i, fod DUW yn gofyn i bob Criſtion ffurfio a threfnu ei fuchedd yn ol rheol y dêg gorchymun: Ac os gwna felly, fe ddichon ddiſgwyl am fendith DUW ar ei enaid a'i gorph; ac oni's gwna, ni all ddiſgwyl am ddim ond ei ddigofaint a'i felldith ef ar bob un o'r ddau.

Efan. Gwir yw, *Nomiſta*, ni ddylai deddf y dêg gorchymun, fel y mae'n ddeunydd o ddeddf gweithredoedd, fod yn rheol o fywyd i Gredadyn: Eithr wrth yr hyn a ddywedaſoch, yr y'ch wedi haeru y dylai hi fod; am hynny, y cyſeiliornaſoch oddi wrth y gwirionedd. Ac weithian, fel y gwyp-

wyf, fy nghyfaill *Antinomiſta*, eich barn chwithau pan ddywedoch na ddylai'r ddeddf fod yn rheol o fywyd i Gredadyn, dywedwch, attolwg, pa ddeddf yr ydych chwithau yn ei feddwl?

Anti. Yr wyf yn meddwl deddf y dêg gorchymun.

Efan. Ond ymha yſtyr yr ydych yn cymmeryd y ddeddf honno, ai fel y mae'n ddeunydd o'r ddeddf weithredoedd, ynte o gyfraith CRIST?

Anti. Yn wir, Syr, yr wyf yn credu, nad yw'r dêg gorchymun i'w derbyn fel rheol o fywyd i Gredadyn mewn un yſtyriaeth, o herwydd i GRIST ei ryddhau ef oddi wrtho.

Efan. Ond dyma'r gwirionedd, y dylai deddf y dêg gorchymun, fel y mae yn ddeunydd o ddeddf CRIST, fod yn rheol o fywyd i Gredadyn; am hynny y cyfeiliornaſoch chwithau oddi wrth y gwirionedd, am i chwi haeru yn erbyn hyn.

Nom. Yn wir, Syr, mae'n rhaid i minnau addef, na ddeliais i ddim ſylw erioed ar y tair rhyw hyn o ddeddfau ac ſy'n cael eu goffau, fel yr ymddengys, yn y Teſtament newydd.

Anti. Ac mae'n rhaid i minnau addef, os cymmerais ſylw o honynt, na ddarfu i mi erioed eu dyall.

Efan. Am hynny, rhowch gennad i mi ddywedyd wrthych, o gymmaint ac delo dyn yn fyr o iawn wybodaeth o'r tair rhyw hyn o ddeddfau, mor fyr mae'n dyfod o gael gwir adnabyddiaeth o DDUW, ac hono ei hunan; am hynny y dymunwn i chwi eich dau eu hyſtyried.

Nom. Os felly y mae, Syr, chwi a wnaech yn dda ein dyſgu a'n cyfarwyddo, fel y cyrraeddom at iawn ddyall o'r tair rhyw hyn o ddeddfau: Am hynny dangoſwch i ni yn gyntaf, attolwg, beth a feddylir wrth ddeddf gweithredoedd.

Efan. Y mae deddf gweithredoedd, fel y mae hi yn wrthwyneb i ddeddf ffydd, *Rhuf.* iii. 27. o'r un yſtyr ac yw y cyfammod o weithredoedd: Canys eglur yw, ebe *Muſculus*, "fod y gair ſy'n arwyddoccâu Cyfammod, neu cyttundeb, yn cael ei oſod am

am ddeddf; felly gwelwch, fod deddf gweithredoedd, fel pe dywedid, cyfammod o weithredoedd; yr hwn gyfammod a wnaeth Duw, yn *Adda*, â holl ddynol-ryw, cyn iddo gwympo; ſwm pa un ydoedd, *Gwna hyn, a byw y fyddi*; *Lef.* xviii. 5. *ac oni's gwnei, ti a fyddi farw. Gen.* ii. 17. yr hwn gyfammod oedd yn cynnwys, yn gyntaf, gorchymun, *Gwnâ hyn*; yn ail, addewid yn gyſſylltedig iddo, *Os gwnei, byw y fyddi*; yn drydydd, bygythiad, *oni's gwnei, y byddi farw*; Dych'mmygwch (ebe *Muſculus*) lafaru o Dduw wrth *Adda* fel hyn: "Wele, fel y byddech fyw, mi a roddais i ti ddigonolrwydd i'th borthi; bydded holl ffrwythau Paradwys yn dy law di, ond un Pren; eithr gwylia, na archwaetha mo hono, o herwydd i mi ei gadw yn fy meddiant fy hun: *Pren* yw hwnnw *o wybodaeth da a drwg*; os archwaethi o hwnnw, nid bywyd, ond marwolaeth y fydd ei fwyd ef i ti."

Nom. Ond chwi a ddywedaſoch, Syr, y gellid cymmeryd deddf y deg gorchymun, neu'r ddeddf foeſawl, fel deunydd o ddeddf gweithredoedd; a chwi a ddywedaſoch hefyd, mai'r un yw'r ddeddf weithredoedd a'r cyfammod gweithredoedd; ac wrth hynny 'rwy'n dyall, eich bod yn dal, mai deddf y dêg gorchymun oedd y deunydd o'r cyfammod hwnnw o weithredoedd a wnaeth Duw â holl ddynol-ryw yn *Adda* cyn iddo gwympo.

Efan. Gwirionedd yw; Canys y mae'r ddeddf weithredol (fel y dywaid awdwr dyſgedig) yn arwyddoccâu y ddeddf foeſawl; a'r ddeddf foeſawl, o'i chymmeryd mewn yſtyr cyfyng a phriodol, yn arwyddoccâu y cyfammod gweithredoedd.

Nom. Ond paham, Syr, y gelwch chwi y ddeddf foeſawl yn ddeunydd o'r cyfammod gweithredoedd?

Efan. Y rheſwm paham y dewiſais i alw deddf y dêg gorchymun, neu'r ddeddf foeſawl, yn ddeunydd o'r cyfammod gweithredoedd, yn hyttrach na'r cyfammod ei hun, yw hyn; ſef, am fy mod i'n tybied, nad priodol yw galw y deunydd o'r cyfam-

mod wrth yr enw o gyfammod; oddi eithr gofod arno yn gyntaf ffurf cyfammod, h. y. oddi eithr i'r ARGLWYDD ei orchymun, ac i ddyn ymrwymo ei hun i roi ufudd-dod perffaith iddo ar ammod, naill ai bywyd, ai marwolaeth drag'wyddol. Am hynny, hyd oni ofodid y ffurf arno, nid allai fod yn gyfammod o weithredoedd rhwng Duw a holl ddynol-ryw yn *Adda*. Yn lle efampl, chwi wyddoch hyn, er fod gwafanaeth ddyn yn abl i wneuthur gwaith tros Feiftr, ac er fod Cyflog ganddo i'w roddi iddo am dano; etto nid oes un cyfammod rhyngddynt, hyd oni chyttunont arno. Felly er bod gan ddyn ar y cyntaf Allu i roi perffaith a gwaftadol ufudd-dod i bob un or deg gorchymynion, a chan yr ARGLWYDD fywyd trag'wyddol i'w roddi iddo; etto nid oedd un cyfammod rhyngddynt, nes iddynt gyttuno ar hynny.

Nom. Ond chwi wyddoch, Syr, na fonir dim trwy holl Lyfr *Geneſis* am y cyfammod hwn o weithredoedd, yr hwn, meddwch chwi, a wnaethpwyd â dyn ar y cyntaf.

Efan. Er na ddarllenir yn enwog y gair hwnnw *cyfammod* rhwng Duw a dyn, etto fe geir yno ei cyftadlo. Canys fe ddarfu i'r ARGLWYDD ddarparu ac addo i *Adda* ddedwyddwch trag'wyddol, a gofyn ufudd-dod perffaith oddi wrtho, fel yr ymddengys wrth ei fygythiad. *Gen.* ii. 17. Canys os ydoedd raid i ddyn farw am ei anufudd dod, mae hynny yn cynnwys ynddi os fod cyfammod rhyngddo ef a Duw am fywyd, os efe a ufuddhai iddo.

Nom. Ond chwi wyddoch, Syr, fod y gair cyfammod yn arwyddoccau addewid, cyttundeb a rhwymau rhwng dau. Yn awr, er y cynnwyfir addo o'r ARGLWYDD i ddyn i roi iddo fywyd, os efe a ufuddhai; etto ni ddarllenir i ddyn addo i fod yn ufudd.

Efan. D. S. attolwg, nid yw Duw yn waftad yn rhwymo dyn mewn geiriau, eithr y mae'n gwneuthur ei gyfammod trwy ryw argraphiadau

fylweddol

ſylweddol yn y galon; a dyma oedd y dull o'i gyfammodi â dyn ar y cyntaf: canys fe addurnaſai Duw ei enaid a meddwl dyallus, fel y gallai wahaniaethu y da oddi wrth y drwg, a'r cam oddi wrth y cymmwys; ac heb law hyn, fe roddwyd i'w ewyllys ef uniondeb o'r mwyaf, ac yr oedd ei holl ſwydd-gynneddfau wedi eu ffurfio yn drefnus i roi ufudd-dod. Y gwirionedd yw, fe argraphodd Duw yn enaid dyn ddoethineb a gwybodaeth helaeth o'i ewyllys a'i weithredoedd, a chywirdeb yn yr holl enaid, a'r ſath addaſrwydd yn ei holl alluoedd, fel na ddych'mmygodd y meddwl, ac na chwennychodd y galon, ac ni weithredoedd y corph ond yr hyn oedd gymmeradwy yngolwg Duw, hyd onid oedd dyn, wedi ei addurno â'r cynneddfau hyn, yn abl i waſanaethu Duw yn berffaith.

Nom. Ond, Syr, pa fodd y gallai deddf y dêg gorchymun fod yn ddeunydd o'r cyfammod gweithredoedd, a hwy heb eu 'ſgrifennu erioed, fel y gwyddoch, hyd amſer *Moſes?*

Efan. Er na 'ſgrifennwyd hwynt hyd ddyddiau *Moſes* ar Lechau o Gerrig, etto hwy a 'ſgrifennwyd yn nyddiau *Adda* ar Lechau calon dyn: Canys yr ydym yn darllain ddarfod i Dduw *greu dyn ar ei ddelw ei hun*, Gen. i. 27. Ac mae'r dêg gorchymun yn athrawiaeth gyttunol â'r doethineb a'r cyfiawnder trag'wyddol ac ſydd yn Nuw, ymha rai y darluniodd efe ei naturiaeth ei hun, fel y mae yn amlygu gwir ddelw Duw. Ac onid yw'r Apoſtol yn dywedyd bod delw Duw yn gynnwyſedig mewn *Gwybodaeth, Cyfiawnder, a gwir ſanctteiddrwydd? Eph.* iv. 24. Ac onid yw *cyfiawnder, gwybodaeth, a gwir ſanctteiddrwydd*, yn berffeithiad a chwblhad o ddwy Lech y ddeddf? "Ac yn ſicr, ni allai gyd-ſetyll (ebe wr dyſgedig) â chyfiawnder Duw i wneuthur cyfammod â dyn ar ammod o weithredoedd ſanctaidd a da, a pherffaith ufudd-dod i'w ddeddf ef, oni buaſai iddo yn gyntaf greu dyn yn dduwiol ac yn bur-lân, a gredu ei

ddeddf

ddeddf yn ei galon, o ba le y tarddai y gweithredoedd da hynny".

Nom. Ond etto, nid allaf amgen na rhyfeddu, pa ham na choffâodd Duw, wrth wneuthur cyfammod â dyn, un gorchymun ond hwnnw yn unig ynghylch y ffrwyth gwaharddedig?

Efan. Na ryfeddwch; canys wrth yr un rhan hynny o bechod yr amlygwyd ei holl naturiaeth ef, fel y mae yr un ddeddf yn cael ei hegluro yn helaethach yn *Deut.* xxvii. 26. *Gal.* iii. 10. Ac yn ſicr, yn yr un gorchymun hwnnw y cynnwyſwyd holl addoliad Duw, megis *ufudd-dod, anrhydedd, hyder, cariad, ac ofn duwiol*, ynghyd âg ymgadw yn hollol oddi wrth bechod oddi allan, a derbyniad parchedig i lais Duw. Ie, ac yn hyn hefyd y cynnwyſwyd ei gariad, ac felly ei holl ddyled i'w gymmydog. Ac wrth hyn, fel y dywaid awdwr dyſgedig, "fe glybu *Adda* gymmaint yn yr Ardd ac y glywodd *Iſrael* yn *Sinai*, ond yn unig ar fyrrach geiriau, ac heb lais taranau".

Nom. Ond, Syr, oni ddylaſai dyn roi ufudd-dod perffaith i Dduw, pe buaſai hyn o gyfammod heb ei wneuthur erioed rhyngddynt?

Efan. Dylaſai yn wir, yr oedd perffaith a gwaſtadol ufudd-dod yn ddyledus oddi wrth ddyn i Dduw, pe buaſai Duw heb addo dim erioed iddo; canys pan y creodd Duw ddyn ar y cyntaf, efe gyfrannodd iddo o'i odidawgrwydd ei hun; am hynny yr oedd rhwymedigaeth yn gorwedd arno i roddi hynny yn ôl i Dduw. Felly am fod dyn yn greadur Duw, wrth ddeddf creadigaeth, yr oedd ef yn rhwymedig i roi i Dduw ei Greawdwr pob ufudd-dod ac ymoſtyngiad.

Nom. Paham yr oedd yn angenrhaid i'r Arglwydd wneuthur cyfammod â dyn, trwy addo iddo fywyd, a'i fygwth â marwolaeth?

Efan. I atteb i hyn, dyallwch, yn (1.) Fod dyn yn greadur rheſymmol, ac am hynny, trwy ei ddyall, ei farn, a'i ewyllys ei hun yn alluog i ddewis

ddewis ei lwybr; am hynny yr oedd yn gymmwys i wneuthur y fath gyfammod âg ef, fel y byddai iddo wasanaethu DUW mewn rhesymmoldeb yn ôl ei ordinhad ef. Yn (2.) Er gwŷched creadur oedd dyn, etto, er hynny, bod ARGLWYDD i'w lywodraethu ef; am hynny y gosododd DUW gosp ar drosedd iad o'i orchymun, fel y gwybyddai ddyn ei radd isel, ac nad oedd pethau yn sefyll rhyngddo ef a DUW, megis peth rhwng rhai cyd-raddol. Yn (3.) I ddangos nad oedd dim ganddo trwy ei hawl bersonnol ei hun; eithr y cwbl o rodd yr ARGLWYDD. Wrth hyn y gwelwch, mai cyfammod cymmwys oedd hwnnw a wnaeth DUW o'i freiniol uchelfraint â holl ddynol-ryw yn *Adda* cyn iddo gwympo.

Nom. Da iawn, Syr; wrth hyn yr wyf yn dyall greu o DDUW *Adda*, ac ynddo ef holl ddynol-ryw yn dra sanctaidd.

Esan. Ie, ac yn dra dedwydd hefyd; canys DUW a'i gosododd ef ymharadwys ynghanol pob hyfrydwch a bodlondeb, ymha un a mwynhaodd efe gymmundeb melus ac agos â'i Greawdwr, *ger bron* pa un y mae *digonolrwydd* o *lawenydd*, *ac ar* ei *ddeheulaw* y mae *digrifwch yn dragywydd*. Psal. xv. 11. Felly pe bwyttasai *Adda* o bren y bywyd tra yr oedd yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd, mae'n debygol y cadarnhaisid ef mewn cyflwr sicr a dedwydd tros byth, ac ni allesid ei hudo gan Satan, yn ôl tŷb rhai gwyr dysgedig, ac fe ellid meddwl fod geiriau DUW ei hun yn *Gen.* iii. 22. yn ei gynnwys.

Nom. Ond mae'n eglur, na pharhaodd *Adda* yn y cyflwr dedwydd a duwiol hwnnw.

Esan. Na ddo yn wir; canys efe a anufuddhaodd i orchymun pendant DUW, trwy fwytta o'r ffrwyth gwaharddedig, ac felly a aeth yn euog o dorriad y cyfammod.

Nom. Ond pa wedd, Syr, y gallodd Adda, ac yntef mor anllygredig ei ddyall, a chyn rhydded ei ewllys

yllys i ddewis y da, ſod mor anufudd i orchymun eglur DUW?

Efan. Er ei ſod ef a'i ewyllys yn dda, etto yr oedd eu daioni hwy o nattur, gyfnewidiol fel y gallai ef ſefyll neu ſythio ar ei ddewiſiad ei hun.

Nom. Ond paham na's creuaſai yr ARGLWYDD ef yn anghyfnewidiol? Neu paham na buaſai yr ARGLWYDD felly yn ei reoli ef yn y weithred honno, fel na fwyttaſei o'r ffrwyth gwaharddedig?

Efan. Yr achos paham na's creodd yr ARGLWYDD ef yn anghyfnewidiol oedd hyn, am ei fod ef yn diſgwyl i ddyn ufuddhau iddo o'i fodd a'i ddewiſiad rhydd ei hun, ac nid trwy ordinhad angenrheidiol, fel pe buaſai DUW yn bwriadu iddo gwympo; — Ac hefyd, nid oedd yn rheſymmol i rwymo DUW mor gaeth i greu dyn y cyfryw, fel na's mynnai, ac na's gallai bechu oll, o herwydd ei fod yn ei ddewiſiad ef ei greu ef fel y mynnai. Ond paham na's cynhaliodd efe ef â nerth i barhau yn ddiſigl, ſydd yn gorwedd ynghûdd yn nirgel gyngor DUW. Er hynny nyni allwn yn ſicr derfynu ar hyn, fod cyfiwr *Adda* y cyfryw, ac y barei ei fod yn ddieſgus; canys efe a dderbyniaſai gymmaint oddi wrth yr ARGLWYDD, hyd onid yw yn amlwg iddo weithredu ei ddiſtryw ei hun o'i wir-fodd, o herwydd bod y weithred honno o'i eiddo ef yn droſeddiad ewyllyſgar o'r ddeddf, dan orchymynion pa un yn dra chyfiawn y crewyd ef, ac i felldith pa un yr oedd ef yn ddaroſtyngedig wrth gyfiawnder angenrheidiol, os efe a'i troſeddai. Canys fel ag yr oedd ef yn greadur DUW, yr oedd ef yn rhwym i ymddaroſtwng i'w ewyllys ef: Felly yr oedd ef mor gymmwys yn ddaroſtyngedig i ddigofaint DUW, am ei fod ef yn garcharwr iddo; a hynny yn fwy o gymmaint ag yr oedd y gorchymun yn dra union, a'i ufudd-dod yn dra hawdd, a'i droſeddiad yn fwy afreſymmol, a'i goſpedigaeth yn ſierach.

Nom. A gyfrifwyd pechod *Adda* a'i goſpedigaeth i'w holl hiliogaeth ef?

Efan.

Efan. Cyfrifwyd yn wir, canys fe ddywed yr Apoſtol, *Rhuf.* v. 12. —*Marwolaeth a aeth ar bob dyn, yn gymmaint a phechu o bawb*, neu yn yr hwn y pechodd pawb, ſef yn *Adda*. Y gwirionedd yw, *Adda*, trwy ei gwymp, a fwriodd i lawr ein holl naturiaeth bendramwnwgl i'r unryw ddiſtryw âg ef ei hun, ac a ſoddodd ei holl heppil yn yr un llyngc-lyn o drueni ac y cwympaſai ef ei hun iddo: A'r rheſwm yw hyn, am nad oedd *Adda*, wrth ordinhad Duw, nac i ſeſyll, nac i gwympo, fel un neillduol, ond fel dyn cyffredinol cyhoedd yn cynnyrcholi holl ddynol-ryw a ddeuai o hono. Felly nid iddo ef ei hun yn unig yr roddwyd yr holl ddedwyddwch hwnnw, na'r holl roddion a'r bendithion hynny a gafodd ef gan Dduw, ond i holl ddynol-ryw hefyd: Ac fel y gwnaethpwyd y cyfammod hwnnw âg ef, felly â holl ddynol-ryw hefyd: Felly efe, trwy dorri'r cyfammod hwnnw, a gollodd y cwbl, yn gyſtal troſom ni a throſto ei hunan, megis y derbyniaſai y cwbl troſom ni a'i hunan, ar y cyntaf.

Nom. Wrth hyn, Syr, mae'n eglur i holl ddynol-ryw gael eu dwyn i drueni trwy weithred *Adda* yn torri'r Cyfammod.

Efan. Holl ddynol-ryw a dderbyniaſant niweid dau-ddyblyg trwy gwymp *Adda*; yn gyntaf, difuddiad llwyr o'u holl ddaioni dechreuol: Yn ail, parodrwydd greddfol a naturiol i bob yw o annuwioldeb; canys delw Duw, yn ol pa un y crewyd hwynt, a ddilewyd yn ebrwydd; ac yn lle doethineb, cyfiawnder, a gwir ſanctеiddrwydd, y daeth dallineb, aflendid, twyll, ac anghyfiawnder. Y gwir yw, ein holl naturiaeth ni a lygrwyd, a halogwyd, anffurfiwyd, a nurddwyd, ac a wnaethpwyd yn lleſg ac yn farwol, yn ddrygionus, yn wenwynllyd, ac yn wrthwyneb i Dduw; ïe, yn elyniaethol ac yn wrthryfelgar yn ei erbyn: Am hynny y dywaid *Luwther*, "dderbyn o honom hyn yn unig oddi wrth *Adda*, ac nid dim amgen i ymorfoleddu yntho; ſef, fod pob plentyn a enir i'r byd hwn,

hwn, yn hollol dan awdurdod pechod, marwolaeth, ſatan, uffern, a damnedigaeth dragywyddol." "Yn ddiau, ebe *Muſculus*, di-waelod ac anchwiliadwy yw pwll-tro pechod dyn ym mharadwys."

Nom. Eithr mi a debygwn, Syr, mai peth rhyfeddol yw, i'r ſath gamwedd bychan, ag oedd bwytta o'r ffrwyth gwaharddedig, ſoddi holl ddynol-ryw i'r ſath lyngc-lyn o annedwyddwch.

Efan. Er bod hyn o gamwedd yn ymddangos yn fychan ar yr olwg gyntaf; etto os deliwch chwi ſylw manol arno, ſe ymddengus yn droſedd o'r mwyaf; o herwydd gwneuthur wrth hynny o weithred gamwedd annioddefol i DDUW; yn gyntaf, Ei awdurdod a'i lywodraeth yn ei orchymun ſanctaidd a wrth'nebwyd; (2.) Ei gyfiawnder a'i wirioneddd, a'i allu yn ei fygythion unionaf a ddirmygwyd; (3.) Ei bur-lân a'i berffaith ddelw, yn ol pa un y crewyd dyn mewn cyfiawnder a gwir ſanctteiddrwydd, a lwyr-ddilewyd; (4.) Ei ogoniant, yr hwn trwy waſanaeth gweithredol y creadur a ddyſaſit ei rhoddi iddo, a ddygwyd oddi arno. Ie, pa fodd y gallefid gwneuthur pechod mwy nâ hwnnw, ymha un y torrodd *Adda* a'r unwaith pob un o'r deg gorchymun!

Nom. A dorrodd ef, meddwch chwi, bob un o'r dêg gorchymun? Dangoſwch i mi, pa fodd y gallai hyn ſod?

Efan. Do yn wir, ni adawodd ef un heb ei dorri. (1.) Efe a ddewiſodd iddo ei hun dduw arall, trwy ddilyn y cythraul. (2.) Efe a addolodd, ac a wnaeth dduw o'i fol ei hun, yn ol ymadrodd yr Apoſtol, *Phil.* iii. 19. ei *dduw* ef oedd *ei fol.*— (3.) Efe a gymmerodd enw DUW yn ofer, trwy ballu credu iddo. (4.) Ni chadwodd ef mo'r orphwyſfa, na'r cyflwr ym mha un y goſododd DUW ef. (5.) Efe a ddianrhydeddodd ei Dad, yr hwn oedd yn y nefoedd, am hynny ni yſtynwyd ei ddyddiau ar y ddaear, yr hon a roddodd yr ARGLWYDD ei DDUW iddo. (6.) Efe a laddodd ei hun a'i holl hiliogaeth.

(7.)

(7.) Yr oedd ef yn ddiwair o ran *Efa*, ond yn ei galon, ac â'i lygaid efe a wnaeth odineb yſprydol. (8.) Efe a ladratt'odd, fel *Acan*, y peth a neilduaſai Duw iddo ei hun, fel na's cyffyrddid âg ef; a'i-ledrad ef o hyn ſydd byth yn peri blinder i *Iſrael*, ſef i'w holl hiliogaeth. (9.) Efe a ddygodd gam dyſtiolaeth yn erbyn Duw, trwy gredu tyſtiolaeth y cythraul o'i flaen ef. (10) Efe drachwantodd, fel *Amnon*, yr hwn a barodd iddo y colled o'i holl hiliogaeth. Yn awr, pwy bynnag a yſtyriai pa fath dorf o bechodau a wnaethpwyd yma ar unwaith, mae'n rhaid iddo, gyd â *Muſculus*, ymhob ffordd gyfiawnhau iawn farn Duw, a chondemnio pechod ein rhieni cyntaf, gan ddywedyd am bob dyn, yn ôl geiriau'r Prophwyd *Hoſea* wrth *Iſrael*, *Hoſ.* xiii. 9. *O Iſrael, tydi a'th ddinyſtriaiſt dy hun.*

Nom. Onid oedd yn boſſibl i *Adda* waredu ei hun a'i hiliogaeth allan o hyn o drueni blîn, trwy adnewyddu yr un cyfammod â Duw, a'i gadw rhagllaw?

Efan. Nag oedd mewn un modd; cyfammod amhoſſibl byth i'w adnewyddu oedd y cyfammod, o weithredoedd *; yn ôl ei dorri unwaith, ſe ddarfu am y dyn tros byth, o herwydd mai cyfammod rhwng dau gyfaill ydoedd, eithr y dyn a aeth ar ei gwymp yn elyn. Ac hefyd peth amhoſſibl oedd i *Adda* gyflawni'r ammodau ag oedd cyfiawnder Duw yn angenrheidiol yn ei ofyn yn awr ar ei Law ef, am ei fod ef weithian yn rhwymedig i dalu dyled dau-ddyblig, ſef yn (1.) y dyled o iawn tros y pechod a wnelſai ef eiſoes; ac yn (2.) y dyled o ufudd-dod perffaith a gwaſtadol rhagllaw; ac

* H. y. Amhoſſibl ydoedd i *Adda* wedi ei gwymp adnewyddu i hun a'i hiliogaeth o'r trueni ag yr oedd wedi ſyrthio iddo; yr hyn beth yn unig a feddylir yma: Er fod rhai dynion leddfol, o ddaliadau gwyrgam, a haerant y gallaſai *Adda* adnewyddu ei hun ar ol ei gwymp, a chadw ei hun mewn yſtâd o ddiniweidrwydd fel cyn hynny, &c. Eithr nid oes un ſail ſgrythurol i'r fath opiniwn a hwn, canys ni roddir yno un gobaith i *Adda* a'i hiliogaeth, ond trwy Hâd y Wraig, ef, Iesu Grist.

yr oedd ef yn hollol analluog i dalu un o honynt.

Nom. Paham nad oedd ef yn abl i dalu dyled o iawn tros ei bechod a wnelsai ef eisoes?

Esan. O herwydd fod y pechod hwnnw o fwytta y ffrwyth gwaharddedig (canys am hwnnw yr wyf yn meddwl) yn erbyn daioni anfeidrol a thragywyddol; am hynny a haeddai gael iawn anfeidrol, h. y. naill ai rhyw gospedigaeth amserol ac a gystadlei â damnedigaeth dragywyddol, ai damnedigaeth dragywyddol ei hun. Yn awr, Creadur terfynol oedd *Adda*; am hynny ni allei fod dim cystadlrwydd rhwng peth terfynol a pheth anherfynol, fel nad oedd bosibl y gallai *Adda* wneuthur iawn, trwy oddef un gospedigaeth amserol; a phe cymmerasai ef arno dalu iawn, trwy oddef cospedigaeth dragywyddol, fe fuasai fyth yn gwneuthur iawn, ac etto heb allu byth o'i orphen mwy na'r damnedigion sydd yn uffern.

Nom. Pa ham nad oedd *Adda* yn abl dalu'r dyled o ufudd-dod perffaith gwastadol rhagllaw?

Esan. O herwydd iddo golli, ar ei gwymp, ei allu dechreuol i roi ufudd-dod: Canys ei ddyall ef a wanhawyd, ac a foddwyd mewn tywyllwch, a'i ewyllys aeth yn gyndyn, ac a gollodd pob gallu i ewyllysio'r hyn sydd dda; a'i serchiadau a lwyrwyrdrowyd, a phob peth perthynasol i ddedwyddwch yr enaid a ddiffoddwyd ynddo ef, ac ynom ninnau hefyd, hyd onid aeth ef yn wan, ïe, ac yn farw; am hynny yn analluog i sefyll wrth yr ammodau lleiaf, i gyflawni un o honynt. Y gwir yw hyn, ein tad *Adda*, trwy gwympo oddi wrth yr ARGLWYDD, a'n drylliodd ni i gyd fel ei hunan yn chwilfriw, fel na adawyd un man cyfan, yntho ef ei hun na ninnau, yn addas i sylfaenu'r fath gyfammod arno. A hyn a dystiolaetha'r Apostol, gan ddywedyd, yr ydym *ni yn weiniaid*, a'r *ddeddf sydd wan trwy'r cnawd.* Rhuf. viii. 3. a'r v. 6.

Nom. Ond, Syr, oni allasai'r ARGLWYDD faddeu pechod *Adda* heb iawn?

Esan.

Efan. Oh! Na allafai, am fod cyfiawnder yn hanfodol yn Nuw; ac mai peth cyfiawn gyd â Duw yw, fod pob rhyw drofedd yn derbyn cyfiawn daledigaeth; ac od yw taledigaeth yn gyfiawn, anghyfiawnder y fyddai roi maddeuant yn ddi-iawn. A phe maddeufai yr ARGLWYDD ei drofedd cyntaf iddo, ac felly ei ofod yn ei gyflwr cyntaf o garedigrwydd a chymdeithas âg ef ei hun; etto am nad oedd yn ei allu ef i gadw'r ddeddf yn berffaith, nid arhofafai ef ronyn ynddo.

Nom. Ai peth amhoffibl ydyw i un o'i holl hiliogaeth ef gadw'r ddeddf yn berffaith?

Efan. Ie yn wir, Peth amhoffibl ydyw i un dyn ei chadw yn berffaith yn y bywyd hwn; ïe, pe bae ef wedi ei ail eni: o herwydd fod y ddeddf yn gofyn ar law dyn, ar iddo garu'r ARGLWYDD â'i holl galon, â'i holl enaid, ac â'i holl nerth: Eithr mae'r dyn duwiolaf ar y ddaear yn gnawd, cyftal ag yfpryd, yn holl rannau a galluoedd ei enaid; am hynny ni all ef garu'r ARGLWYDD yn berffaith. Ac mae'r ddeddf yn gwahardd pob trachwant greddfol, gan orchymun nid yn unig na chyttunom â thrachwant, eithr hefyd na thrachwantom. Ac nid yw yn unig yn gorchymun attal trachwant, eithr yn gwahardd y bod o hono. *Rhuf.* vii. 7. A phwy a ddywaid, yn y fath yftyr a hwn, *Mi a lanhais fy nghalon?*

Anti. D. S. Am hynny, attolwg, anwyl *Nomifta*, fel yr oedd yn amhoffibl i *Adda* ddychwelyd yn ôl i'w gyflwr fanctaidd a dedwydd, ym mha un y crewyd ef, ar hyd yr un ffordd ac yr aeth allan o hono; felly y mae i'w hiliogaeth ef; ar hyn y daw i'm côf y gair doeth hwnnw a ddywedodd gwr dyfgedig, "Mae'r ddeddf oedd 'fgrifen cyttundeb *Adda*, pan y gwnaeth Duw ef yn ddeilad o *Eden*; ond pan beidiodd ef gadw ammodau'r 'fgrifen, fe a fforffettiodd ei hunan a'i holl hiliogaeth hefyd". Fe ddarllenodd Duw iddo wers o'r ddeddf o flaen ei gwymp, fel y byddai fel gwrŷch i'w gadw o fewn

Paradwys; ond pan na fynnai *Adda* fod dan reolaeth, fe aeth y ddeddf megis cleddyf tanllyd wrth borth *Eden* i'w gadw ef a'i holl hiliogaeth allan.

Nom. Ond chwi wyddoch, Syr, pan y mae'r cyfammod wedi ei dorri, fod y ddwy blaid ac oedd dan ei rwymmau, yn cael eu rhyddhau, am hynny y dyleſid, debygwn i, rhyddhau *Adda* a'i hiliogaeth oddi wrth y cyfammod o weithredoedd, yn ôl ei dorri; yn enwedig, o herwydd nad oedd yn eu gallu hwyi gadw ei ammodau.

Efan. Hyn ſydd wir ym mhob cyfammod, os ffaela un o'r pleidiau, a f'o rhwymedig, yn ei ddyledſwydd, ac os tyr un o'r ddau yr ammodau, y mae'r llall ar hynny yn rhydd oddi wrth ei ran yntau; ond nid yw'r troſeddwr yn rhydd, hyd oni faddeuo'r llall iddo: ac am hynny, er bod yr ARGLWYDD wedi ei ryddhau oddi wrth gadw ei addewid, a'r ammodau o'i ochor ef, ſef, i roi i ddyn ſywyd tragywyddol; etto nid yw'r dyn yn rhydd o'i ran ef, er ei fod wedi colli ei nerth i ufuddhau; etto mae'r rhwymedigaeth i ufudd-dod yn gorwedd byth arno, o herwydd iddo golli ei nerth trwy ei wall ei hun: Felly nid yw *Adda* na'i hiliogaeth yn rhydd oddi wrth eu dyledſwydd, am eu bod yn ddi-nerth i'w gyflawni, mwy nac yw'r dyledwr yn rhydd oddi wrth ei ddyled, am ei fod yn ddiarian i dalu. Ac felly fy nghymmydog *Nomiſta*, mi a wneuthum fy ngorau, yn ôl eich dymuniad, i'ch cynnorthwyo chwi i wir wybodaeth o ddeddf gweithredoedd.

Anti. Mi a ddymunaf arnoch, Syr, i'n cyfarwyddo ſel y gwypom beth yw deddf ffydd.

Efan. Deddf ffydd yw'r un a phe dywedech y cyfammod o ras, neu'r efengyl, h. y. o'i gyfieuthu, newyddion da, hyfryd, llawen, a gorfoleddus; ſef, darfod i DDUW (i drag'wyddol wybodaeth pa un y mae pob peth yn breſennol) gan rhag-weled cwymp dyn, arfaethu cyn amſer, ac addo mewn amſer, a chwplhâu mewn cyflawnder amſer, ddan-

foniad

ſoniad o'i Fab IESU GRIST i'r byd i adferu ac i waredu dynol-ryw ſyrthiedig.

Anti. Rhowch glywed, Syr, ychwaneg am hyn: ac yn gyntaf, dangoſwch pa fodd y dyallwn ni am drag'wyddol arfaeth DUW yn anfoniad o'i Fab IESU GRIST?

Efan. Mae rhai gwyr dyſgedig wedi darlunio fel pe buaſai ryw ymryſon rhwng priodoliaethau ſanctaidd DUW, a thrwy'r rhydd-did a ganiattâodd Yſpryd DUW iddynt yn iaith yr 'ſgrythyrau, hwy a ddywedant am DDUW, yn ôl dull dynol, fel pe buaſai ef wedi ei yrru i ryw gyfyngder neu ddryſwch gan wrthwyneb ofynion ei amryw briodoliaethau; canys gwirionedd a chyfiawnder a godaſant i fynu, ac a ddywedaſant, ddarfod i ddyn bechu; am hynny y dylaſai ef farw, a hwy alwaſant am farn ar y creadur euog, haeddianol o felldith, o herwydd ei fod ef yn bechadurus; onid ë, hwy a fyddent wedi eu dirymmu, canys tydi a ddywedaiſt (meddent hwy wrth DDUW) *Yn y dydd y bwyttêi o'r pren gwybodaeth da a drwg, gan farw y byddi farw.* Gen. ii. 17. Eithr Trugaredd o'r tu arall a ymbiliodd am ffafr, ac a appeliodd at uchel lŷs y nef, ac yno yr ymddadleuodd fel hyn, doethineb, gallu, a daioni a ymddangoſaſant eu hunain yn amlwg yn y greadigaeth, ac y mae digllonedd a chyfiawnder wedi mawrygu ar drueni dyn, ym mha un y llyngcwyd ef ar ei gwymb anhappus; ond ni fu etto ddim ſôn am danaf fi: Am hynny O! Gwneler cariad, attolwg, a dangoſer toſturi i'r dyn truan a hudwyd, ac a faeddwyd gan y cythraul. O! meddent hwy wrth DDUW, mae'n weithred frenhinol i gynnorthwyo rhai mewn cyfyngder; a pha uchelaf y b'o un, mwyaf hynaws a thirion o hynny y dylai ef fod. Eithr cyfiawnder a attebodd, gan ddywedyd, os troſeddir i'm herbyn, rhaid i mi gael iawn; am hynny yr wyf fi yn gofyn gan ddyn, yr hwn a gollodd ei hun trwy ei anufudd-dod, oſod i lawr iawn ufudd-dod yn lle'r anufudd-dod, ac wrth

hynny bodloni barn Duw. Ar hynny y cyfododd doethineb Duw i fynu, megis Dyddiwr, ac a ddychymmygodd ffordd i'w heddychu, gan derfynu y byddai raid cyflawni dau beth, cyn y bae cymmodiad rhyngddynt; ſef yn gyntaf, bodlondeb i gyfiawnder Duw; yn ail, adnewyddiad naturiaeth dyn; a'r ddau beth hyn (ebe efe) ſydd raid eu gwneuthur gan ryw gyfryngwr a pherſon cyffredin, a fai ynddo fawr ſerch tu ag at yr ARGLWYDD, fel y caffai ef ei foddloni; a thoſturi at ddyn, fel yr adgyweirid ef; y cyfryw un, gan gymmeryd arno euogrwydd dyn a'i goſpedigaeth, a allai foddloni cyfiawnder Duw; a chan fod ganddo lawnder o Yſpryd Duw a'i Sancteiddrwydd, a allai ſancteiddio ac adgyweirio naturiaeth dyn. A hwn ni allai fod ond CRIST IESU yn unig; un o'r tri Pherſon o'r Drindod bendigedig. Ar hyn Efe, trwy ordinhâd ei Dad, a'i ewyllyſgar ymrhoddiad ei hun, a ſancteiddiad yr Yſpryd Glan, a gymmwyſwyd i'r gorchwyl. Ac yna y gwnaethpwyd cyfammod, neu'r cyttundeb rhwng DUW a CHRIST, megis y mae yn 'ſgrifenedig ym mhrophwydoliaeth *Eſa.* liii. 10. ſef, os CRIST a *oſodai ei hun yn aberth tros bechod, efe a welai ei hâd, ac a eſtynai ei ddyddiau, ac ewyllys yr* ARGLWYDD *a lwyddai yn ei law ef.* Yn yr un modd yn *Pſal.* lxxxix. 19. y goſodir i lawr drugareddau y cyfammod rhwng DUW a CHRIST, dan y cyfammod cyſgodol rhwng Duw â Dafydd, *Ymddiddenaiſt mewn gweledigaeth â'th ſant, ac a ddywedaiſt, goſodais gymmorth ar un cadarn*, neu fel y mae'r *Caldeag* yn ei ddeongli, *ar un cadarn yn y gyfraith*; fel pe dywedaſai'r ARGLWYDD am ei etholedigion, "Myfi a wn, y tyrr y rhai hyn eu hammodau, ac ni allant byth fy mhodloni, ond gwr cadarn ſylweddol ydwyt ti, galluog i dalu i mi; am hynny oddi ar dy law di y diſgwyliaf am gael taledigaeth o'm dyled." Yma, medd gwr dyſgedig, y mae Duw, fel pe bae, yn dywedyd wrth CRIST, Pa beth bynnag ſydd ddyledus arnynt hwy, diſgwyliaf ei

gael

gael ar dy ddwylaw di. Yna'r attebai CRIST, *Wele, yr ydwyf yn dyfod i wneuthur dy ewyllys; yn rhol y llyfr yr 'ſgrifenwyd am danaf, da gennyf wneuthur dy ewyllys, O fy* NUW; *a'th gyfraith ſydd o fewn fy nghalon.* Pſal. xl. 7, 8. Fel hyn y cydſyniodd CRIST, ac er tragywyddoldeb a darawodd law â'r Tad, ac a gyttunodd i gymmeryd arno naturiaeth dyn, i ſefyll yn ei le ef i ufuddhâu i'w Dad, ac i gyfiawni'r cwbl a ofynnid i gyfiawnder Duw; ac i ddioddef, yn yr un cnawd ac a bechodd, y goſpedigaeth a haeddaſai dyn ei oddef. Ac fel hyn y bodlonwyd cyfiawnder, a thrugaredd a fawrygwyd trwy'r ARGLWYDD IESU GRIST: a DUW a gymmerodd 'ſgrifen law CRIST ei hun; o herwydd pa ham y gelwid ef, nid yn unig yn Fachniydd o'r cyfammod droſom, eithr y cyfammod ei hunan. Ac fe a oſododd DUW'r cwbl arno ef, fel y bae yn ſicr iawn, gan addo ar gyhoedd, nad ymyrrai â ni, ac na ddiſgwyliai ef am un daledigaeth oddi wrthym ni; O gymmaint oedd ei Ras ef! Ac yn y modd hwn yr aeth ein HARGLWYDD IESU GRIST dan yr un cyfammod o weithredoedd ag *Adda*, er mwyn gwaredu'r holl rai crediniol oddi wrtho; ymſodlonodd i fod dan orchymynol a dialeddol awdurdod ag oedd gan y cyfammod hwnnw arnynt, er mwyn eu rhyddhâu hwy oddi wrth y goſpedigaeth. Ac yn yr yſtyr hyn y dywedir fod *Adda* yn gyſgod o GRIST, fel y dywedodd yr Apoſtol, *Yr hwn oedd ffurf yr un oedd ar ddyfod. Rhuf.* v. 14. I ba ddiben y mae'r enwau a roddodd yr Apoſtol i'r ddau, ſef i GRIST ac *Adda*, yn addas i'w yſtyried; canys fe eilw *Adda*, *y dyn cyntaf*, a *Chriſt* ein HARGLWYDD, *yr ail ddyn*, gan lafaru am danynt fel pe na buaſai un dyn arall hebddynt hwy ill dau yn y byd erioed; ac wrth hyn yn eu gwneuthur hwy fel pen a gwreiddyn o holl ddynol-ryw, fel pe cynnhwyſid holl feibion dynion ynthynt hwy. Y cyntaf a elwir yn *ddyn daearol*, yr ail, ſef CRIST, *yn* ARGLWYDD *o'r nef.* 1 Cor. xv. 47. Yn y dyn daearol

arol y cynnhwyſwyd holl feibion dynion a aned erioed i'r byd, am hynny a elwir *y dyn cyntaf*. *Yr ail Ddyn*, ſef CRIST, a elwir *yr* ARGLWYDD *o'r nef*, ym mha un y cynnhwyſwyd yr holl etholedigion, y rhai a ddywedir eu bod yn *gyntaf-anedig*, enwau pa rai a'ſgrifenwyd yn y nefoedd. *Heb.* xii. 29. Am hynny y gelwir hwy yn ddynion nefol; a'r ddau hyn, yng-hyfrif DUW, a ſafaſant yn lle holl ddynion y byd. Ac felly y gwelwch ewyllyſio o'r ARGLWYDD ddangos trugaredd i bechadur ſyrthiedig, a chyd â hynny ſaentumio Awdurdod ei gyfraith; ac am hynny a gymmerodd y fath ffordd ag a eglurai orau ei diriondeb a'i gyfiawnder. CRIST a aeth dan gyfammod, ac a ddaeth yn Feichiau dros ddyn, a thrwy hynny yn rhwym am ei holl ddyledion ef, am fod y meichiau yn rhwym i dalu'r holl ſwm o Arian a fyddo ar y dyledwr ei hun i'w talu. Ac felly yr amcenais i egluro i chwi, pa fodd y mae ni ddyall am drag'wyddol arfaeth DUW yn ei ddanfoniad o'i Fab IESU GRIST i waredu ac i adferu dynol-ryw ſyrthiedig.

Anti. Ewch rhagoch, attolwg, Syr, i ddangos yr ail beth; ac yn (1.) Mynegwch pa bryd y dechreuodd yr ARGLWYDD wneuthur yr Addewid i adferu ac i waredu dyn ſyrthiedig.

Efan. Ar yr un diwrnod ac y pechodd ef, yr yr hwn oedd yn fy meddwl i, yr un diwrnod ac y crewyd ef. — Canys *Adda*, wedi ei fyned trwy bechod yn blentyn digofaint, ac yn ei gorph a'i enaid yn ddaroſtyngedig i'r felldith, ac heb ganfod dim yn ddyledus iddo, ond digofaint a dialedd DUW, a ofnodd, ac a geiſiodd ymguddio o olwg yr ARGLWYDD: Ac yna yr addawodd DUW GRIST iddo ef, gan ddywedyd wrth y Sarph, *Gelyniaeth a oſodaf rhyngot ti a'r wraig, a rhwng dy hâd di a'i hâd hithau, efe*, ſef *hâd y wraig* (canys felly y mae yn yr *Hebraeg*) *a yſiga dy ben di, a thithau yſſigi ei ſawdl ef*. *Gen.* iii. 15. Yr addewid hyn o GRIST, Had y wraig, oedd yr efengyl, a'r unig ddiddanwch a

gafodd

gafodd *Adda*, ac ar ei ôl ef *Abel*, *Enoc*, *Noah*, a'r lleill o'r duwiol dadau hyd amſer *Abraham*.

Nom. Pa reſwm ſydd gennych, Syr, i feddwl gwympo o *Adda* ar yr un dydd ac y crewyd ef.

Efan. Sail fy nhyb i yw geiriau'r Prophwyd *Dafydd*, Pſal. xlix. 12. Pa rai y mae gwr dyſgedig yn agoryd fel hyn, *Dyn mewn anrhydedd ni letteuoedd* noſwaith, *tebyg yw i anifeiliaid a* ddiſtawyd. Hyn a ellir ei feddwl, ebe ef, am y dyn cyntaf *Adda* (yr hwn ni arhoſodd mewn anrhydedd noſwaith) ac am ei holl hiliogaeth ef.

Anti. Ond, Syr, a ydych chwi yn tybied ddyall o *Adda*, a'r lleill o'r tadau, mai CRIST oedd yr hâd a addawyd?

Efan. Pwy a all ammau na's rhoddodd yr ARGLWYDD i *Adda* adnabyddiaeth o GRIST, rhwng yr amſer o'i gwymp a'r amſer o'i aberthiad, er bod y ddau yn yr un diwrnod?

Anti. A offrymmodd *Adda* aberth?

Evan. A ellwch chwi wadu neu ammau, nad offrymmaſid cyrph yr anifeiliaid hynny (â chrwyn pa rai y gwnaeth yr ARGLWYDD beiſiau iddo ef a'i wraig) yn aberthau ychydig o flaen hynny dros ei enaid? Yn ddiau, ni allai'r crwyn hynny fod yn amgen nac o anifeiliaid a laddaſid, ac a offrymmaſid fel aberth; canys nid oedd yr anifeiliaid cyn i *Adda* gwympo, yn ddaroſtyngedig i farwolaeth. Ac amwiſgiad DUW am *Adda* a'i wraig â'r crwyn, oedd yn arwyddoccâu gorchuddiad eu pechod a'u cywilydd â Chyfiawnder CRIST. Ac yn ddiammau, yr ARGLWYDD a'i dyſgaſai ef i wybod, fod ei aberth yn arwyddoccâu ei gydnabyddiaeth o'i bechod, a'i ddiſgwylfa am ddyfodiad addawedig o Hâd y wraig i'w ladd ym mhrydnawn y byd, i ddofi wrth hynny ddigoſaint DUW am ei droſedd; a hyn yn ddiammau a hyſbyſodd yntef i'w feibion, *Cain* ac *Abel*, gan eu dyſgu hwythau hefyd i offrymmu eu haberthau.

Anti. Ond pa fodd y mae yn hyſpys, mai ar yr un diwrnod,

diwrnod, ac y pechaſai ef ynddo, yr aberthodd efe?

Efan. Yn y vii. o *Ioan* 30. y dywedir am GRIST fel hyn, *Hwy a geiſiaſant ei ddal ef; ond ni oſododd neb law arno, am na ddaethai ei awr ef etto*; Eithr wedi hynny, pan neſaodd yr amſer o'i ddioddefaint, efe a ddywedodd, *daeth yr awr*; a'r chweched dydd, a'r nawfed awr o'r dydd oedd hi, fel y mae St *Marc* xv. 34. yn tyſtiolaethu, pan yr offrymmodd CRIST ei hun trwy'r Yſpryd tragywyddol yn ddifai i DDUW. Yn awr os cydmarwch chwi hyn â'r ddeuddegfed o *Ecſodus*, adn. 6. chwi welwch yno offrymmu'r Oen-paſc, gwir gyſgod o GRIST, ar yr un diwrnod, a'r un awr, ſef, ar y chweched dydd a'r nawfed awr o'r dydd, hynny oedd ar dri o'r gloch yn y prydnhawn. Ac y mae'r 'ſgrythur yn tyſtiolaethu, mai ar y chweched diwrnod hwnnw y crewyd *Adda*, ac yn rhoi i ni achos i feddwl bechu o hono y dwthwn hwnnw hefyd. Ac onid yw'r rhag ddywededig 'ſgrythyrau yn rhoi i ni ſail i gredu mai ar yr un diwrnod, *Gen.* i. 26. ac ar yr un awr o'r diwrnod, y dechreuodd CRIST yn ddirgelaidd, ac yn arwyddoccâol ar weithred ein prynedigaeth, trwy ei offrymmiad yn aberth tros bechod *Adda?* Ac yn ſicr, ni allwn feddwl hyn, na arhoſai cyfiawnder yſpaid awr (yn ôl torri'r cyfammod rhwng DUW ac *Adda*) heb ei ddiſtrywio ef a'r holl greadigaeth, oni buaſai i GRIST yn y cyfamſer ymddangos fel yr Hwrdd, neu yn hytrach fel yr Oen, yn y llwyn, a chynnig ei hunan i gyflawni gwaith y cyfammod. Ac o herwydd hyn, yr wyf yn meddwl, y galwodd St *Ioan* ef yr *Oen a laddwyd er dechreuad y byd.* Dat. xiii. 8. Canys megis y diogelwyd y cyflwr cyntaf o'r greadigaeth ar y cyfammod a wnaeth DUW â dyn, ac yr oedd yr holl greaduriaid i'w gynnal ar ei gadwraeth ef o'r ddeddf a'r ammod o'r cyfammod hwnnw; felly, yn ôl i ddyn dorri'r cyfammod, y byd oll a ddelſai i ddiſtryw, oni buaſit fel yn ei greu o'r newydd, a'i gynnal trwy'r cyfammod gras yng NGHRIST.

Anti.

Anti. Wrth hyn, Syr, yr ydych chwi yn meddwl fod *Adda* yn gadwedig.

Efan. Yr oedd y dyſgawdwyr *Hebreaidd* yn dal fod *Adda* yn bechadur edifeiriol; a hwy a ddywedent ei gyfodi ef allan o'i gwymp trwy ddoethineb, h. y. trwy ffydd yng NGHRIST, ïe, ac y mae Eglwys DDUW erioed o'r grêd hyn, a hynny o herwydd achoſion angenrheidiol, ei fod ef yn gadwedig trwy farwolaeth CRIST. Ie, ebe wr dyſgedig, "diammeuol yw, darfod i *Adda* gredu'r addewid am GRIST, er coffadwriaeth am ba un yr offrymmai ef aberth gwaſtadol i'r ARGLWYDD; ac o'i ſicrwydd o hyn, efe a enwai ei wraig *Hefa*, h. y. Bywyd, a'i fab yn *Seth*, h. y. *ſefydledig yng Nghriſt.*

Anti. Yr wyf yn awr yn coelio ddyall o *Adda* mai Criſt oedd i'w yſtyried wrth Hâd y Wraig.

Efan. Bydded hyſpys gennych, mai felly yr oedd, nid *Adda* yn unig, eithr yr holl dadau ſanctaidd hefyd yn ei ddyall, fel y mae'n eglur, gan ei fod ef yn y *Targum*, neu'r Bibl Caldeag, o hên gyfieithad *Caerſalem*, fel hyn, *Rhwng dy fab di a'i mab hithau*; gan ychwanegu fel eglurhâd, *Cybyd, O Sarph, ac y b'o plant y wraig yn cadw'r ddeddf, hwy a'th laddant; a phan y pallont hwy ar hyn, tydi a'i brathi hwy yn eu ſodlau, ac fe fydd yn dy allu di i'w drygu yn fawr: Eithr y mae iddynt ſicrr ymwared rhag pob niweid; ond nid oes un i tydi; canys hwy a'th falant di yn chwilfriw, trwy Griſt eu Brenin.* A hyn oedd yn cynnal ac yn dal i fynu eu ffydd hyd amſer *Abraham.*

Anti. Pa fodd y bu yn ôl hynny?

Efan. Yna y trowyd yr addewid i gyfammod âg *Abraham* a'i Hâd, *Gen.* xii. 3. ac a adroddwyd yn fynych, megis Pen. xvii. 19. a'r xxii. 18. ac mai yn ei Hâd ef y byddai holl genhedloedd y ddaear yn fendigedig. Ac nid oedd yr addewid, a'r cyfammod hwnnw amgen na gwir laferydd yr efengyl ei hun, a chywir dyſtiolaeth am IESU GRIST; fel y mae *Paul* yn dwyn tyſtiolaeth, gan ddywedyd

ddywedyd, *Gal.* iii. 8. *A'r yſgrythur yn rhag-weled mai trwy ffydd y mae* DUW *yn cyfiawnhâu'r Cenhedloedd, a rag-efangylodd i Abraham*, gan ddywedyd, *Ynot ti y bendithir yr holl Genhedloedd.* Ac er cadarnhâu ffydd *Abraham* yn ſicrach yn yr addewid o GRIST, ſe ddywedir, i *Melciſedec* ddyſod allan i'w gyfarfod, a'i ſendithio. Yn awr, medd yr Apoſtol, *Heb.* vii. 1, 2, 3. a'r vi. 20. Yr oedd y Melciſedec *hwn yn Offeiriad y* DUW *goruchaf, ac yn Frenin cyfiawnder, ac yn Frenin heddwch, heb dad, heb fam, yn gyffelyb i Fab Duw, yr hwn ſydd Offeiriad yn dragywydd yn ôl urdd* Melciſedec. Wrth ba eiriau y mae i ni ddyall, mai arfaeth Duw ydoedd, y byddai *Melciſedec* yn y pethau neilluol hyn yn debyg i Berſon a ſwydd CRIST IESU Mab DUW; ac felly trwy ei ragluniaeth ef i fod yn gyſgod o hono i *Abraham* er diogelu a chadarnhâu'r addewid a wnelſid iddo ef a'i Hâd o ran y cyfammod trag'wyddol, ſef, mai bendigedig y fyddai ef a'i hâd crediniol yng Nghriſt, fel y bendithiaſai *Melciſedec* ef. Heblaw hyn, yn *Gen.* 15 y darllenir, i'r Arglwydd ſicrhâu ei gyfammod drachefn âg *Abraham*; canys ar ôl i *Abraham* hollti, neu rhannu'r anifeiliaid, ſe dramwyodd Duw fel ffwrn yn mygu, neu lamp danllyd, rhwng y darnau hynny; a hyn, yn ôl tyb rhai, a gyſgodai, yn bennaf, ddrylliad a phoen,—au Criſt, a'r ffwrn a'r lamp danllyd a gyſgodent ddigofaint Duw yn rhedeg trwy ei naturiaeth ddrylliedig friwedig ef, ac etto heb ei ddifa. A'r gwaed yn yr enwaediad yn cyſgodi gollyngdod gwaed Criſt. &c. Ac yr oedd arfaethawl Aberthiad *Iſaac* ar fynydd *Moria*, trwy orchymun Duw, yn rhag-ddangos ac yn arwyddoccâu y byddai holl genhedloedd y ddaear yn wynfydedig trwy offrymmiad CRIST, yr Hâd a addawſid, yn yr un lle. Yn awr y cyfammod, a wnaethpwyd ac a gadarnhawyd âg *Abraham*, a adnewyddwyd âg *Iſaac*, ac a hyſpyſwyd i *Jacob* gan GRIST IESU ei hun: Canys nid oedd y gwr hwnnw, a ymdrech-

odd

odd â *Jacob*, *Gen.* xxxii. 28,—30. ddim llai nâ CHRIST IESU ei hun: Canys efe a ddywedodd, y gelwid *Jacob* yn *Iſrael*, ſef ymdrechwr â DUW, a gorchfygwr; a *Jacob* a alwodd enw'r fan *Peniel*, o blegid (ebe efe) *Mi a welais Dduw wyneb yn wyneb.* A *Jacob* a'i gadawodd yn ei ewyllys i'w blant yn y geiriau hyn, Pen. xlix. 10. *Nid ymedy y deyrn-wialen o Juda, na Deddfwr oddi rhwng ei draed ef, hyd oni ddêl Silo:* h. y. o lwyth *Juda* y daw llawer o frenhinoedd ôl yn ôl, hyd oni ddelo'r ARGLWYDD IESU ar y diwedd, yr hwn ſydd Frenin ar frenhinoedd, ac ARGLWYDD ar arglwyddi; neu fel y mae *Targum Caerſalem*, a'r *Oncelos* yn ei gyfieithu, *hyd oni ddêl Criſt yr Enneiniog.*

Nom. Ond Syr, a ydych chwi yn ſicr, mai CRIST oedd i'w ddyall wrth yr Hâd addawedig hyn?

Eſan. Mae *Paul* yn goſod hyn i lawr yn ddiymheuol, gan ddywedyd, *Gal.* iii. 16. *I Abraham y wnaethpwyd yr addewidion, ac i'w Hâd ef. Nid yw'n dywedyd, ac i'w hadau, megis am lawer; ond megis am un, ac i'th Hâd di, yr hwn yw Criſt.* Ac yn yr yſtyr yma yr oedd yr hen Batriarchiaid duwiol yn ddiammau yn cymmeryd hyn.

Anti. Ond gwlad *Canaan* oedd yr Addewid fawr wnaethpwyd iddynt, ac am honno, y debygaf fi, diſgwyliaſant fwyaf.

Eſan. Nid peth i ammau yw, nad oedd y Patriarchiaid yn canfod eu hetifeddaeth nefol (trwy CRIST) yn yr Addewid o dîr *Canaan*, fel y tyſtia *Paul*, Heb. xi. 9. am *Abraham*, gan ddywedyd, *Trwy ffydd yr ymdeithiodd efe mewn tîr dieithr, gan diſgwyl am ddinas, ag iddi ſylfaeni, Saer ac adeiladydd hon yw Duw.* Am hynny mae'n eglur, ebe *Calfin*, "Mae'r peth eithaf o ffydd *Abraham* oedd i ddiſgwyl am fywyd tragywyddol yn y nefoedd". A'r ffelyb dyſtiolaeth a rydd *Paul* am *Sara*, *Iſaac* a *Jacob*, &c. gan ddywedyd, *mewn ffydd y bu farw rhai hyn oll.* 13. gan arwyddoccâu, nad oeddent

yn diſgwyl am dderbyn ffrwyth yr addewid hyn yn
ôl eu marwolaeth. O herwydd paham y goſodaſ-
ant ddedwyddwch y byd i ddyfod ger bron eu
llygaid yn eu holl ymdeithiau blinedig. A hyn a
barodd i hen *Jacob* ddywedyd ar ei farwolaeth,
Am dy Iachawdwriaeth di y diſgwyliais, Arglwydd.
Gen. xlix. 18. Ar ba eiriau y mae'r deongliadau
Caldeag yn traethu fel hyn, ni ddywedodd ein tad
Jacob, yr wyf yn diſgwyl am iachawdwriaeth, neu
ymwared *Gideon*, fab *Joas*, yr hon oedd amſerol
nac am ymwared *Samſon* fab *Manoa*, yr hon oedd
ond darfodedig, eithr Iachawdwriaeth ac ymwared
CRIST Fab *Dafydd*, yr hwn a ddaw, ac a dynn attaw
ei hun feibion *Iſrael*, am Iachawdwriaeth pa un y
mae fy enaid yn hiraethu. Ac felly y gwelwch
fod y cyfammod hwn, a wnaethpwyd âg *Abraham*
yng NGHRIST, yn cyſuro ac yn cynnal calonnau
rhai'n, a'r lleill o'r hên dadau ſanctaidd hyd y
ôl eu mynediad hwy allan o'r *Aipht.*

Anti. A pha fodd y bu wedi hynny?

Efan. Yn ôl hynny fe eglurwyd CRIST IESU y
amlyccach iddynt yn yr *Oen-Paſg*: Canys fel
gorchymynwyd fod yr Oen yn berffaith gwbl, a
yn ddinam, *Ecſo.* xii. 5. Felly yr oedd CRIST, 1 *Pe.*
i. 19. Ac megis y lladdwyd yr Oen hwnnw ar
pedwerydd dydd ar ddêg yn y prydnhawn, felly
yr un diwrnod, a'r un awr, y rhoddodd CRIST
fynu yr Yſpryd. Ac fel y gorch'mynid taenellu
gwaed yr Oen hwnnw ar y ddau Yſtlys-boſt i
pobl *Iſrael*, adn. 7. felly yr ydys yn taenellu gwa
CRIST trwy ffydd ar galonnau'r ffyddloniaid.
arwydd o'u gwaredigaeth a'u prynedigaeth tr
GRIST oedd eu gwaredigaeth hwy allan o'r *Aip*
Ac arwydd o fedydd, pan y delai CRIST yn y cnaw
oedd eu mynediad hwy trwy'r Môr côch. A ch
ffelyb oedd eu Manna hwy yn yr anialwch,
dwfr o'r graig, i'r ſacrament o'r ſwpper diwedd
Ac am hyn y dywaid yr Apoſtol, *Fwytta o bo*
o honynt yr un bwyd yſpryd'l; *canys hwy a yfaſant*
gr

graig yſpryal a oedd yn canlyn, a'r graig oedd Criſt. 1 Cor. x. 2, 3, 4. A phan ddaethant at fynydd *Sinai*, yr Arglwydd a roddodd y dêg gorchymun iddynt.

Anti. Ai'r cyfammod o weithredoedd ydoedd y dêg gorchymun, fel y rhoddwyd hwy ar fynydd *Sinai*?

Efan. Fe'u rhoddowyd iddynt hwy felly.

Nom. Ond trwy'ch cennad chwi, Syr, chwi wyddoch mai hîl *Abraham* oedd y bobl hyn, am hynny yr oeddynt tan y cyfammod hwnnw o râs a wnaeth Duw â'u tâd, am hynny ni's rhoddwyd hwy iddynt, debygaf fi, fel cyfammod o weithredoedd, canys chwi wyddoch hyn, na's rhoddodd yr Arglwydd y cyfammod o weithredoedd i neb erioed a fyddai dan y cyfammod o râs.

Efan. Yn ſicr, mae'n wir ddigon ddangos o'r Arglwydd gymmaint o gariad tu ag at gorph y genedl hon, hyd onid oedd holl hâd, neu dylwyth *Abraham*, newn dangoſiad oddi allan, a'u proffes cyhoedd, dan y cyfammod o râs a wnaethpwyd â'u tâd *Abraham*, er bod achos ofni fod llawer o honynt byth yn aros tan y cyfammod o weithredoedd a wnaethwyd â'u tâd *Adda*.

Nom. Ond chwi wyddoch, Syr, i'r Arglwydd yn rhag-ymadrodd i'r dêg gorchymun alw ei hunan yrth yr enw o'u Duw hwy yn gyffredinol, am hynny fe debygid eu bod hwy bawb oll yn bobl i Dduw.

Efan. Nid yw hynny ddim; canys llawer o ddynion drwg annuwiol a alwyd yn etholedigion Duw, ac yn bobl i Dduw, er nad oeddynt felly, am eu bod o'r tu fewn i'r eglwys weledig, a than y cyfammod oddi allan. Felly yr oedd llawer o'r *Iſraeliaid* hyn yn cael eu galw yn bobl i Dduw, er nad oeddynt felly†.

† Fe ddylid edrych â golwg neillduol ar y rhag-ymadrodd i'r dêg gorchymun. *Ecſo.* xx. 2. *Myfi yw yr Arglwydd dy Duw*

Nom. Ond, Syr, a ail-adroddwyd yr un cyfammod o weithredoedd iddynt hwy, ac y wnaethpwyd âg *Adda?*

Efan. O ran fylwedd cyffredinol o'r ddyledfwydd yr un oedd y ddeddf a roddwyd ar fynydd *Sinai*, ac a argrapheſid gynt yng nghalon dyn, fel na roddodd yr Arglwydd beth newydd iddynt ar fynydd *Sinai*, yn unig hi a roddwyd yn fwy tyner i *Adda* o flaen ei gwymp, eithr wedi'n gyd â thrananau.

Nom. Ond, Syr, nid oedd y dêg gorchymun, megis y dywedaſoch eich hunan, fel y 'ſgrifenwyd hwy yng nghalon *Adda*, ond y *deunydd* neu *fatter* o'r cyfammod gweithredoedd, ac nid y cyfammod ei hunan, hyd oni oſodwyd y ffurf arnynt, h. y. hyd onid aeth cyttundeb arnynt rhwng Duw a dyn: Yn awr nid oedd un gwybodaeth i'w gael, ddarfod i Ddduw a'r bobl yma gyttuno ar y fath ammodau ar fynydd *Sinai*.

Efan. Nid wyf yn dywedyd i Ddduw wneuthur y cyfammod gweithredoedd â hwynt er mwyn cyrraedd bywyd a lachawdwriaeth trwyddo. Nag ë, yr oedd y ddeddf wedi dyfod yn wan trwy'r cnawd i'r cyfryw ddiben, ond efe a ail adroddodd, neu a roddodd ddatguddiad arall o'r ddeddf, a hynny megis cyfammod gweithredoedd, er eu daroſtwng a'u hargyoeddi hwy. Felly mae ei weinidogion ef yn pregethu'r ddeddf etto i bechaduriaid annychweledig, fel y byddai i'r fawl, fy'n chwennych bod tan

Dduw. yr hwn a'th ddug di allan o wlad yr Aipht, o dŷ caethiwed. Oddi yma mae'n amlwg i'r cyfammod Gras gael ei roddi i'r *Iſraeliaid* ar fynydd *Sinai*; canys Mab Duw, Angel y cyfammod Gras, a lafarodd y geiriau hyn wrth bob neillduol, hâd naturiol *Abraham*, y rhai oedd yn arwyddoccâu ei hoſl hâd yſprydol ef. Mae ef yn galw ei hun *eu* Duw *hefyd* ſef, o herwydd y cyfammod a wnaethpwyd âg *Abraham*, Gen. xvii. 7. *Cadarnhâf fy Nghyfammod—— i fod yn* Ddduw *i th ac i'th hâd ar dy ôl di.* Ac ni's gellir gwadu, na's cafodd cyfammod o weithredoedd ei roddi a'i ail-adrodd, i'r *Iſraeliaid* ar fynydd *Sinai* am ddiben neillduol, o herwydd i'r Apoſt dyſtiolaeth

tan y ddeddf, glywed beth y mae'r ddeddf yn ddywedyd. Ac am y peth y dywedwch chwi ynghylch eu anghyttundeb â'r cyfammod hwn, attolwg, D. S. ni's gwnaethpwyd y cyfammod gweithredoedd âg *Adda* troſto ei hun yn unig, ond megis ac yr oedd ef yn Berſon cyffredinol yn cynnyrcholi ei holl hiliogaeth; ac felly fe wnaethpwyd y cyfammod hynny â'r holl natur-ddynol âg ef, fel yr ymddengys trwy fod pechod a melldith *Adda* yn dyfod ar bawb, *Rhuf.* v. 10. *Gal.* iii. 10. Yn ganlynol, mae pawb wedi eu geni tan y cyfammod hynnw, pa un bynnag a gyttunant âg ef neu beidio. Er yn wir, y mae wrth nattur y fath dueddiad ymhawb i chwennych bod tan y cyfammod, ac i weithio am fywyd, fel pe gofynnid am gydſyniad dynion naturiol, hwy, yn barod iawn, ac yn anwybodus, a gymmerant arnynt i gyflawni'r cwbl y mae Duw yn ei ofyn. Canys onid y'ch chwi yn cofio gyd-ſynio o'r bobl, pan y dywedaſant, *Nyni a wnawn yr hyn oll a lafarodd yr Arglwydd?* Ac onid y'ch chwi yn cofio gyd-ſynio o'r Arglwydd hefyd, *Lef.* xviii. 5 gan ddywedyd, *Cedwch fy*

dyſtiolaethu *Gal.* iv. 24. *Y rhai hyn yw y ddau gyfammod, un o ſynydd* Sinai, *yn cenhedlu i gaethiwed.* Canys y mae plant y cyfammod hwn ar *Sinai*, am ba rhai y mae *Paul* yn llafaru, yn cael eu cau allan o'r etifeddiaeth dragywyddol, fel ag y cafodd *Iſmael*, o *Ganaan*, cyſgod o hono. 30. Am hynny, diau i'r ddau gyfammod gael eu rhoddi ar fynydd *Sinai*; yn gyntaf, y cyfammod o ras a wnaethpwyd âg *Abraham*, yn gynnwyſedig yn y rhag-ymadrodd; at ba un y chwanegwyd y dêg gorchymun a roddwyd gan y Cyfryngwr CRIST, Pen y cyfammod, fel rheol o fywyd i'w bobl gyfammodol ef. Yn ail, y cyfammod o weithredoedd a wnaethpwyd âg *Adda*, yn gynnwyſedig yn y dêg gorchymun, yn cael eu gyhoeddi gyd â tharanau a mellt: Felly ni chymmyſgwyd y ddau gyfammod, o Rras a Gweithredoedd, ond fe 'chwanegwyd yr olaf at y cyfammod o Ras, megis yn waſanaethgar iddo, ſef i droi eu llygaid at yr addewid, neu'r cyfammod gras a roddodd Duw i *Abraham*; fel y mae'n amlwg i'w weled yn *Gal.* iii. 19. *Beth gan hynny yw'r ddeddf? O blegid troſeddau y rhoddwyd hi yn ychwaneg, hyd oni ddelai'r Hâd.*

neddfau, a'm barnedigaethau; a'r dyn a'u cadwo a fydd byw ynddynt? Ac yn *Deut.* xxvii. y dywedodd yr Arglwydd, *Melldigedig yw'r hwn ni pharhâo yngeiriau'r Gyfraith hon, gan eu gwneuthur hwynt.* Ac onid yw *Paul* yn tyſtiolaethu, mai ffurf y cyſammod o weithredoedd oedd y geiriau hyn, gan ddywedyd, *Rhuf.* x. 5. *Y mae Moſes yn 'ſgrifenu am y cyfiawnder ſydd o'r ddeddf, Mai'r dyn a wnel y pethau hynny a fydd byw trwyddynt?* Ac yn *Gal.* iii. 10. *Canys yſgrifenwyd, Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a 'ſgrifenwyd yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt.* Ac yn *Deut.* iv. 13. Y mae *Moſes*, ar eiriau cyhoedd, yn ei alw yn gyſammod, gan ddywedyd, *Ac efe a fynegodd i chwi ei gyfammod, a orch'mynodd efe i chwi i'w wneuthur, ſef y deng-air; ac a'u 'ſgrifenodd hwynt ar ddwy lech-faen.* Nid y cyſammod o ras oedd hwn, canys y mae *Moſes* wedi hynny yn dywedyd fel hyn am y cyſammod hwnnw, *Deut.* v. 3. *Nid â'n tadau y gwnaeth yr Arglwydd y cyfammod hwn, ond â nyni.* "Ac wrth y tadau, (ebe wr dyſgedig) y meddylir yr holl Batriarchiaid hyd *Adda*," y rhai a gawſant yr addewid o'r cyfammod o GRIST. Am hynny pe buaſai yn gyfammod o ras, efe ddywedaſai fel hyn, Duw a wnaeth y cyſammod hwn â'ch tadau; eithr yn hytrach nac fel y dywedpwyd, ni's gwnaeth ef o hono.

Nom. Ond Syr, a oedd plant yr *Iſrael* yn aplach yn awr i gadw ammodau'r cyfammod gweithredoedd, nac oedd *Adda*, neu un o'r Patriarchiaid, fel yr adnewyddai Duw ef â hwy yn awr, yn hytrach nâ chynt?

Eſan. Nac oeddent yn wir, ac ni adnewyddodd Duw ef yn awr â hwy yn hytrach nâ chynt, am eu bod hwy yn aplach i'w gadw, ond am ei fod yn fwy angenrheidiol iddynt i wybod pa beth oedd y cyfammod gweithredoedd, nâ rhei'ny gynt. Canys er ei fod yn wir, fod y dêg gorchymun a 'ſgrifenwyd ynghalon *Adda* wedi ei ddileu yn fawr trwy'r cwymp, etto fe arofodd rhyw weddillion o hono ar

ôl,

ôl, *Rhuf.* ii. 15. ac yr oedd *Adda* ei hun yn wybodus o annedwyddwch ei gwymp, a'r lleill o'r tadau trwy draddodiad. Eithr erbyn yr amser hyn se ddifwynasid ac a ddileuasid holl argraphiadau'r gyfraith a 'sgrifenasid yn eu calonnau hwy; a thrwy aros cyd yn yr *Aipht*, hwy a halogwyd cymmaint, hyd oni ddileuwyd, agos, o'u meddyliau holl athrawiaethau eu tadau, a'u cwymp yn *Adda*, oedd bron, wedi ei anghofio, sel y tystia *Paul*, gan ddywedyd, *Hyd amser y ddeddf yr oedd pechod yn byd; eithr ni chyfrifwyd pechod pryd nad oedd deddf.* Rhuf. v. 13. Yn yr hir amser hwnnw rhwng *Adda* a *Moses*, se ollyngasai dynion tros gôf beth oedd pechod, nes myned o'r bobl yn ddiofal ac yn ddibris o'u cyflwr, er i DDUW wneuthur addewid o'i fendithion i *Abraham*, ag i'w had ef oll ac ymbilient am eu hawl ynddynt. Ac er bod pechod ynddynt, a theyrnasu o farwolaeth arnynt, etto am nad oedd y ddeddf ganddynt i hyspysu'r pechod hwn a marwolaeth i'w cydwybodau hwy, felly ni chyfrifent ac ni chyfaddefent farwolaeth yn ddyledus iddynt eu hunain; ac yn y modd hwn ni welsant ddim rhaid i ymofyn am yr addewid a wnelsid i *Abraham*. O herwydd paham y daeth y ddeddf i mewn, sel yr amlhâi camwedd *Adda*, a'u camweddau gweithredol eu hunain. Felly se welodd yr Arglwydd mai rhaid oedd bod rhyw gyhoeddiad newydd o'r cyfammod gweithredoedd, er mwyn cymmell yr etholedigion, ac oedd etto heb gredu, i ddyfod yn brysurach at GRIST yr Hâd addewedig; sel y dangosai gras DUW yng NGHRIST yn fwy rhagorol ogoneddus i'r ffyddloniaid etholedig. Amlwg yw am hynny, mai hyn oedd bwriad yr Arglwydd, sef dwyn ar gôf i'r bobl, wrth edrych ar y cyfammod hwn, eu dyled gynt, a hwythau yn lwynau *Adda*; ie, a'u gwastadol ddyledswydd, os safent wrth y cyfammod hwnnw, ac os elent ymlaen ar hyd yr hen lwybr naturiol o weithio am fywyd. Ac wrth hyn hefyd y gallent hwy ganfod beth oedd eu gwendid presennol

nol yn eu diffyg o'u dyledſwydd, fel y daroſtyngi
hwy, wrth weled yr amhoſiblrwydd o gael bywy
trwy'r llwybr hwnnw o weithredoedd a ordein-
iwyd ym Mharadwys, ac fel y cofient yn fw
gofalus yr addewid a wnelſid â'u tâd *Abraham*, a
y pryſurent i ddal gafael ar y *Meſſiah*, neu'r Hâ
addewedig.

Nom. Wrth hyn, Syr, mae'n debyg na adne-
wyddodd yr Arglwydd y cyfammod gweithredoedd
hwy, fel y caent fywyd tragywyddol am eu hufudd-
dod iddo.

Efan. Na ddo yn wir, ac ni wnaeth Duw
cyfammod gweithredoedd âg un dyn wedi'r cwym
er mwyn iddo ei gyflawni, nac ychwaith er mwy
rhoi iddo fywyd tragywyddol; canys ni ordeiniod
yr Arglwydd ddim erioed i un diben, i ba un
byddai yn llwyr anweddus, ac amhriodol. On
Duw a wnaeth y cyfammod hwnnw â phobl *Iſra*
nid i un diben amgen, nac i yrru dyn, wedi ei ar-
gyoeddi o'i anallu ei hunan, at Grist. Felly ſe
hadnewyddwyd i ddwyn yn y blaen, ac i hebrwn
cyfammod arall a gwell i mewn; ac i fod fel y
llaw-arweinydd at Grist, ſef, i ddinoethi pechod,
ddihuno'r gydwybod, ac i'w hargyoeddi o'u hanall
eu hunain, ac felly i'w gyrru hwy allan o'u hunai
at Grist. bydded hyſpys gennych, attolwg, n
roddwyd hyd yr amſer hyn amgen ffordd o fywyd, y
y cyfan, nac o ran, na'r cyfammod o râs; canys y
Arglwydd yr holl amſer hyn a ganlynodd ei fwri
o'i râd râs ei hun, am hynny nid oedd dim anwaſta
rwydd nac yng ng'wyllys, nac yng ngweithredoed
Duw; yn unig, gan gymmaint oedd ei drugared
efe a ddaroſtyngodd y cyfammod o weithredoedd,
a'i gwnaeth yn waſanaethgar i'r cyfammod o râ
ac felly yn cyfeirio at amcanion efangylaidd.

Nom. Ond peth rhyfeddol, debygwn i, Syr, y
hyn, i'r Arglwydd eu rhwymo hwy i gadw'r dedd
gan addo iddynt fywyd am ei chadw, ac etto h
fwriadu'r fath beth erioed.

Efa

Eſan. Er iddo wneuthur felly, etto ni ofynodd ef ganddynt ddim ac oedd anghyfiawn, ac nid oedd ef yn cellwair â hwy yn yr addewid: O herwydd mai cyfiawn yw i'r Arglwydd ofyn ufudd-dod perfaith ar law pob dyn, o herwydd y cyfammod hwnnw a wnelſid â hwy yn *Adda*; ac os gallaſai neb wyr-gadw ac ufuddhau i'r ddeddf yn ei weithrededd a'i ddioddefiadau, fe gae fywyd tragywyddol; canys gwirionedd di-ammeuol yw, ebe *Calfin*, fod y gwobr o fywyd tragywyddol yn perthyn yn ddyledus at uniawn ufudd-dod i'r ddeddf; ond fe wyddai Duw yn hyſpys, nad oedd yn boſſibl i bobl *Iſrael* roi'r fath ufudd-dod, etto fe ryngodd ei fodd ef gynnig bywyd tragywyddol iddynt ar y fath ammodau, fel y gallai efe lafaru wrthynt yn ôl eu calonnau eu hunain (megis yn wir yr oedd yn weddus) am eu bod yn ymchwyddo, trwy ymddiried yn orwyllt ynddynt eu hunain, pan dywedent, *Nyni a wnawn yr hyn oll a lafaroddyr Arglwydd*, ac a fyddwn ufudd. *Ecſ.* xix. 8. Ar hyn bodlon ebe'r Arglwydd; oș oes arnoch eiſiau peth i'w wneuthur, wele, dyma'r ddeddf i chwi i'w chadw; ac os gellwch gyflawni ei chyflawnder hi, cadwedig fyddwch: Fel hyn y danfonodd efe hwy o bwrpas at y ddeddf i'w dihuno, ac i'w hargyoeddi, a'u barnu, a'u plygu, ac i beri iddynt weled eu hynfydrwydd eu hunain yn eu bod yn ymofyn bywyd trwy'r fath ffordd a honno: Ac ar un gair, hyn y wnaeth ef i beri iddynt wybod yn eglur yr ammodau caethion, â pha rhai y rhwymwyd hwy, fel y gyrrid hwy allan o'u hunain, heb ddiſgwyl am ddim oddi wrth y ddeddf, o ran bywyd, eithr y cwbl oll oddi wrth GRIST. Canys pa wedd y dyallai ddyn pa raid oedd iddo wrth fywyd trwy GRIST, oddi eithr iddo weled yn gyntaf ei fod wedi cwympo oddi wrth y llwybr o fywyd? O herwydd pa ham yr oedd yn rhaid i'r Arglwydd wneuthur felly â hwy, er eu gyrru allan o'u hunain, a'u troi oddi wrth bob ymddiried yng ngweithredoedd y ddeddf, fel y

mwynhaent

mwynhaent gyfiawnder a bywyd trwy ffydd yng NGHRIST. Yn yr un gyffelyb ffordd y gwnaeth ein Iachawdwr â'r eſponiwr ieuangc o'r ddeddf, yr hwn, ag yntef yn glaf o'r un clefyd, a ofynai, *Athro da, pa beth da a wnaf, fel y caffwyf fywyd tragywyddol? Matth.* xix. 16. Nid yw ef, ebe *Calfin*, yn gofyn yn ſyml, pa wedd, neu pa ffordd y caffai ef fywyd tragywyddol, eithr pa ddaioni y wnelai ef er mwyn ei gael; lle mae'n amlwg mai gwr coegfalch oedd ef, yn ei gyfiawnhau ei hun, ac yn chwyddedig gan ei dyb gnawdol wag fod ganddo allu i gadw'r ddeddf er Iachawdwriaeth i'w enaid; o herwydd pa ham y danfonwyd ef, ac nid heb achos, at y ddeddf i'w gadw, nes y blinai ef o honi, ac fel y gwelai o'r diwedd, pa cyn rheitied oedd iddo ddyfod at GRIST am orphwyſdra. Felly y gwelwch, chwanegu o'r Arglwydd at ei addewidion cyntaf a wnaethai â'r tadau, gyfraith danllyd, yr hon a roddodd efe oddiar fynydd *Sinai*, gyd â tharanau, a mellt, a llaferydd ofnadwy i'r *Iſrael* gwrthnyſig a gwargaled, fel y dofid ac y daroſtyngid hwy, ac fel y perai iddynt ocheneidio a hiraethu am y Pryniawdwr addawedig.

Anti. Ac a weithiodd y ddeddf yr effaith hynny arnynt?

Eſan. Do yn wir, fel y gwelwch yn amlwg, os yſtyriwch, er eu bod hwy yn feilchion aruthr, ac yn hyderu ar eu gallu eu hunain i wneuthur y cwbl oll ar o orch'mynafai'r Arglwydd, cyn cyhoeddi'r cyfammod; etto cyn gynted ag yr ymddangoſodd ef fel Arglwydd iddynt (a hwythau fel caeth-ddynion dan y cyfammod gweithredoedd) gan egluro ei hun yn Farnwr ofnadwy, yn eiſtedd ar ei Orſedd-faingc o farn, fel mynydd yn llofgi gan dân, ac yn ei gwyſio hwy â ſain udgorn i ddyfod ger ei fron (ond etto peidio cyffwrdd â'r mynydd heb ddadleuwr) nid allent oddef llef geiriau, nac aros yr hyn a orch'mynaſid, hyd onid ofnodd, ac y crynodd, ïe *Moſes* ei hun, ac fe ddaeth ſyndod, a

braw,

braw, ac arſwyd arnynt oll, fel nad oeddent weithian yn lledu eu heſgyll goreurog fel o'r blaen. Yr olwg echrydus hwn, ymha un y rhoddodd Duw ei ddeddf ar fynydd *Sinai*, a arwyddoccâodd, medd *Luwther*, ymarfer y ddeddf. Yr oedd ym mhobl *Iſrael*, a ddaethai allan o'r *Aipht*, ſancteiddrwydd neillduol, fel y tybient hwy; a hwy a orfoleddent ynddo, gan ddywedyd, *Pobl* Duw *ydym ni; Nyni a wnawn yr hyn oll a orchymyno'r Arglwydd.* Heblaw hyn, *Moſes* a'u ſancteiddiaſai hwy, ac a barafai iddynt olchi eu dillad, ac ymgadw rhag eu gwragedd, ac ymbarottoi eu hunain erbyn y trydydd dydd; nid oedd un o honynt nad oedd yn llawn o ſancteiddrwydd. Ac ar y trydydd dydd y dug *Moſes* y bobl oll allan o'r gwerſyll i gyfarfod â Duw, ac i glywed ei laferydd ef. Beth a ganlynodd? Ond cyn gynted ag y gwelſant yr olwg ofnadwy, ſef y mynydd yn lloſgi, a'r cymmylau yn duo, a'r mellt yn ffaglu o bob tu, ynghanol y tywyllwch mwyaf; a phan glywſant y taranau a llais yr udgorn yn parhâu yn hir, ac yn cryfhâu fwy-fwy, hwy a giliaſant gan ofn, ac a ſafaſant o hirbell, ac a ddywedaſant wrth *Moſes*, nid fel cynt, *Nyni a wnawn yr hyn oll a lafaro'r Arglwydd*; eithr *llafara di wrthym, a nyni a wrandawn, ond na lafared* Duw *wrthym, rhag i ni farw.* Ecſ. xx. 19. Erbyn hyn y teimlaſant mai pechaduriaid oeddent, a'u bod wedi digio Duw, am hynny yn ſefyll mewn eiſiau o ryw gyfryngwr i eiriol am heddweh, ac i ymbil am gymmod rhwng Duw a hwynt: A'r Arglwydd a fu fodlon i'w geiriau hwynt, *Deut.* v. 28. Lle y mae *Moſes*, yn ôl iddo adrodd eu geiriau hwy, yn 'chwanegu, *Yr Arglwydd a glybu lais eich geiriau chwi, pan lafaraſoch wrthyf, a dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Clywais lais geiriau'r bobl hyn, y rhai a lafaraſant wrthyt, Da y dywedaſant yr hyn oll a ddywedaſant*; ſef, am iddynt ddymuno cael Cyfryngwr. Am hynny D. S. yma, attolwg, na's canmolwyd hwy am iddynt ddywedyd, *Nyni a wnawn yr hyn oll a orch-*

a orchymyno'r Arglwydd, ond am eu dymuniad o gael Cyfryngwr; ár hyn yr addawodd yr Arglwydd CRIST iddynt, fel y tyſtiolaetha *Moſes*, gan ddywedyd, *Yr Arglwydd dy* DDUW *a gyfyd i ti, o'th blith dy hun, o'th frodyr dy hun, Brophwyd megis finnau; arno ef y gwrandewch. Yn ôl yr hyn oll a geiſiaiſt gan yr Arglwydd dy* DDUW *yn Horeb, yn nydd y gymmanfa*, pan ddywedaiſt, *Na chlyw-wyf mwyach lais yr Arglwydd fy* NUW, *ac na welwyf y tân mawr hwn mwyach, rhag fy marw. A dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Da y dywedaſant.— Codaf Brophwyd iddynt o fyſg eu brodyr, fel tithau, a rhoddaf fy ngeiriau yn ei enau ef; ac efe a lafara wrthynt yr hyn oll a orchymynwyf iddo.* Deut. xviii. 15,— 19. Ac er ſicrhâu i ni mai CRIST oedd y Prophwyd hwnnw a goffawyd yma, ſe amlygodd CRIST ei hun, gan ddywedyd wrth yr Iuddewon, *Pe credaſech i Moſes, chwi a gredaſech i minnau hefyd: oblegid am danaf fi yr yſgrifenodd efe.* Ioan v. 46. Ac y mae'r Apoſtol *Pedr* Act. iii. a'r merthyr *Stephan* yn tyſtiolaethu mae hyn oedd y peth yſgrifenaſai *Moſes* am GRIST. *Act.* vii. Wrth hyn y gwelwch, ddarfod i'r Arglwydd adnewyddu yr addewid â hwy; ïe, a'r cyfammod o ras a wnelſid âg *Abraham*, yn ôl eu daroſtwng hwy trwy weinidogaeth y cyfammod o weithredoedd a wnelſid âg *Adda*.

Anti. Pa fodd, Syr, attolwg, y dangoſir ddarfod i'r Arglwydd adnewyddu'r cyfammod hwnnw â hwy?

Efan. Y mae hynny yn eglur, am roddi o'r Arglwydd iddynt trwy *Moſes* y deddfau ſeremoniaidd, ac ordeinio'r babell, a'r aich, a'r drugareddfa, gwir gyſgodau oll o GRIST. Heb law hyn, *yr Arglwydd a alwodd ar Moſes, ac a lafarodd wrtho o babell y cyfarfod*, Lef. i. 1. ac a orchymynodd iddo 'ſgrifenu i lawr yr holl ddeddfau offeiriadaidd, ac ordinhadau'r babell, gan chwanegu hefyd, mai *yn ôl y geiriau hyn y gwnelſai ef y cyfammod â Moſes, ac âg Iſrael.* Ecſ. xxxiv. 27. Ac felly y gwnaeth *Moſes*; canys efe a 'ſgrifenodd yr holl ddeddfau a'r

cyfreithiau

yfreithiau hyn, nid ar lech-faen, ond mewn llyfr elwid llyfr y cyfammod, yr hwn a ddarllenodd *Moſes* yngŵydd y bobl, a'r bobl a gyttunaſant iddo. *Exſ.* xxiv. 7. Yna *Moſes* wedi danfon llangciau meibion *Iſrael*, y rhai oeddent gyntaf-anedig, ac herwydd uchelfraint eu genedigaeth yn offeiriaid yd yn amſer y *Leſiaid* i offrymmu aberthau lloſg aberthau hêdd i'r Arglwydd; *a chymmerodd* Moſes *Gwaed, ac a'i taenellodd ar y bobl*; *ac a ddywedodd, Wele, waed y cyfammod, yr hwn a wnaeth yr Arglwydd chwi yn ôl yr holl eiriau hyn*, adn. 8. trwy ba n y dyſgwyd hwy, fod y cyfammod hwnnw hyngthynt a DUW wedi ei ddiogelu trwy arwydd waed, ac y gwnae CRIST iawn trwy ollyngiad ei waed tros eu pechodau hwy; canys yn wir, yr edd y cyfammod o râs wedi ei ſelio â gwaed CRIST, trwy arwyddion a chyſgodau, cyn ei ddyfod n y cnawd.

Anti. Ond, Syr, ai'r un cyfammod ymhob ffordd edd hwn a'r un a wnaethpwyd âg *Abraham?*

Efan. Yn wir, yr wyf yn credu mai gwir a ddywedodd *Bulinger*, ſef, "Na's rhoddodd DUW i'r obl hyn ddim amgen crefydd, o ran ei naturaeth, a'i ſylwedd, a'i deunydd, nac y roddaſai ef n ei ddeddfau i'w tadau; er iddo, am ryw reſymmau, chwanegu attynt lawer o ſeremoniau, ac mryw ordinhadau, er mwyn cadw eu meddyliau ewn gwaſtadol ddiſgwylfa am GRIST, yr hwn a ddawaſai efe iddynt; ac er eu cadarnhâu yn eu diſwyliad am dano, rhag iddynt ddiffygio". Ac megis gwnaeth yr Arglwydd fel hyn â'r ſeremoniau i'w arwain (fel pe bae) erbyn eu dwylaw at GRIST; lly y gwnaeth ef addewid iddynt o dîr *Canaan*, ac lwyddiant bydol ynddo, fel cyſgod o'r nef, ac o edwyddwch tragywyddol, hyd onid yw yn eglur neuthur o'r Arglwydd â hwy, fel â phlant yn mebyd a'u hieuengctid, gan eu harwain trwy ynnorthwy pethau daearol, at bethau yſprydol a tefol; am nad oeddynt ond ieuainge a thyner, heb

dderbyn y fath feſur neu amlder o'i Yſpryd, a
a roddodd efe i'w bobl wedi'n tan yr efengyl.

Anti. Ac a ydych chwi yn tybied i'r *Iſraeliaid*
weled CRIST, a Iachawdwriaeth trwyddo ef yn y
amſeroedd hynny trwy'r Arwyddion a'r cyſgoda
yma?

Efan. Ydwyf yn ſicr; ac y mae yn ddiamma
weled o *Moſes*, a'r lleill o'r ffyddloniaid ymhlith
yr Iuddewon, GRIST yn y cyſgodau hynny; can
ys er bod yn yr aberthau a'r defodau oll, fel y dy
waid gwr duwiol, ryw oleuni o GRIST ſel goleu
ſêr, etto yr oedd i rai o honynt eglurach goleuni
fel y wawr; a hwy a ddangoſaſant GRIST, ynghy
âg amgylchiadau a rhinwedd-ei farwolaeth, cyn eg
lured a phe dangoſid ei ddioddefaint ef yn weithredol
yn awr ar g'oedd y byd; hyd onid wyf, eb efe, y
ſicr, ddarfod i'r Arglwydd gyhoeddi i *Moſes* ddirge
ledigaethau CRIST, a gwîr ddull ei farwolaeth e
ymlaen llaw; am hynny nid ellir ammau, na's off
rymmaſant hwy eu haberthau trwy ffydd yn
Meſſiah (fel y tyſtiolaetha *Paul* am *Abel* Heb. xi. 4.) i
meddaf, ni ddylid ei ammau, nad oedd pob Iudde
yſprydol crediniol, pan y dygai ef ei aberth i'w off
rymmu, a phan y goſodai ef, yn ôl gorchymyn y
Arglwydd, ei law arno, tra bae yn fyw, yn cydna
bod mai efe ei hun a haeddaſai farw, eithr ei arbe
a'i gadw trwy drugaredd DUW yng NGHRIST,
bwrw ei haeddiant ar yr anifail. Ac megis yr oed
yr anifail hwnnw i farw, ac i'w offrymmu yn aberth
droſto ef, felly y credai ef y deuai'r *Meſſiah*, ac
byddai ef farw troſto, ar ba un y goſodai ef
ddwylo, h. y. ei holl anwireddau trwy law ffydd
Felly, fel y dywaid *Beza*, "Dirgeledigaethau ſanc
taidd oedd yr aberthau iddynt, ymha rai, fel mew
rhai drychau, y gwelent eu hunain i'w condemni
ger bron DUW, a thrugaredd DUW hefyd yn y
addawedig *Meſſiah* a oedd i ddyfod mewn amſer;
am hynny, medd *Calfin*, "y gelwid yr aberthau,
offrymmau cyfiawnhaol, *Aſhemeth*, yr hwn air y
brioda

briodol ſy'n arwyddoccau pechod ei hun, er dangos
fod IESU GRIST i ddyfod a gwneuthur digonol
awn a chymmod, trwy roddi ei enaid ei hun i fod
yn *Aſham*, h. y. yn ddigonol aberth." Am hynny
gellwch fod yn ſicr, fel y goſodwyd CRIST yn
waſtadol ger bron y tadau yn yr hen Deſtament, at
ba un y cyfeirient eu ffydd, ac fel na roddodd DUW
un gobaith ynddynt o ras neu drugaredd, ac ni's
dangoſodd ei hun yn ddaionus iddynt un amſer heb
GRIST; felly y rhai ffyddlon yn yr hên Deſtament
adnabuaſant GRIST, trwy ba un y cawſant yr
addewidion hyn gan DDUW, ac a'u cyſylltwyd âg
ef. Ac yn wir, nid arhoſai'r addewid o Iachaw-
dwriaeth yn ſicr un amſer nes y delai at GRIST.
Ac yno yr oedd eu cyſur hwy yn eu holl flinderau
a'u cyfyngderau, fel y dywedpwyd am *Moſes*, Heb.
xi. 26, 27. *Efe* oddefodd *fel* un *yn gweled yr anwe-
dig, gan farnu yn fwy golud ddirmyg Criſt, nâ* holl
tryſorau'r Aipht; *canys edrych yr oedd efe ar daledigaeth
gwobrwy*. Ac felly, fel y dywaid *Ignaſius*, Gwei-
lion CRIST oedd y prophwydi, y rai, gan ei rag-
weled ef yn yr yſpryd, a ddiſgwyliaſant am dano,
el eu hathro, ac a edrychaſant am dano fel eu
Harglwydd a'u Iachawdwr, gan ddywedyd, fe
ddaw, ac a'n ceidw ni. Ac ſelly y dywaid *Calfin*,
yn fynyched ac a ſoniai'r prophwydi am fen-
ithion y ffyddloniaid, fe fyddai'r drŷch a ddarluni-
aſant hwy o hono cyn berffeithied a chyn decced
el y dyrchafai meddyliau dynion uwch y ddaear,
c o wir raid a'u cyfoder i fynu i yſtyriaeth o dded-
yddwch y byd a oedd i ddyfod; hyd onid allwn
erfynu yn ſicr gyd-â *Luwther*, bod y tadau, a'r
rophwydi, a'r brenhinoedd ſanctaidd oll yn gyf-
awn ac yn gadwedig trwy ffydd yng NGHRIST,
r hwn oedd ar ddyfod, ac felly, fel y dywaid
alfin, yn gyd-gyfrannogion â nyni o'r unrhyw
achawdwriaeth.

Anti. Ond, Syr, mae'r 'ſgrythur mewn dangoſiad
n dal, fel pe buaſent hwy gadwedig un ffordd, a

ninnau ffordd arall ; canys mae'r prophwyd *Jeremia*, fel y gwyddoch, yn ſon am gyfammod dau-ryw ; am hynny mae'n rhyſedd gennyf fi, eu bod hwy yn gyd-gyfrannogion â nyni o'r un Iachawdwriaeth.

Efan. Mae'n ddigon gwir, roi o'r Arglwydd i'r tadau gyfiawnder, bywyd, a Iachawdwriaeth dragywyddol yn a thrwy GRIST y Cyfryngwr, ac ynte heb ddyfod etto yn y cnawd, eithr wedi ei addo. Ond mae'n rhoi i ni, dan y Teſtament newydd, hyn i gyd, yn a thrwy GRIST ag ſydd wedi dyfod eiſoes, ac wedi pwrcaſu'r cwbl yn weithredol troſom ni. Ac yr oedd y cyfammod o ras wedi ſeliedig gwaed CRIST, mewn cyſgodau ac arwyddion, cyn iddo ddyfod yn y cnawd, ac ar ei farwolaeth a ſeliwyd, ac a gadarnhawyd trwy wir a gweithredol ollyngiad o'i waed ef dros ein pechodau ni. Ac yr oedd yr hên gyfammod, o ran ei ffurf oddi allan a threfn ei ſeliad, yn amſerol, ac yn newidiol, am hynny y cyſgodau a ddarfuant, a'u ſylwedd yn unig a erys yn ddiogel ; ond y mae y ſeliau newydd yn anghyfnewidiol, am eu bod hwy yn goffadwriaethol yn dangos marwolaeth yr ARGLWYDD, hyd oni ddelo drachefn. Ac yr oedd eu cyfammod hwy yn bennaf ac yn gyntaf, yn addo bendithion daearol, a thanynt ac ynthynt hwy yr arwyddoccawyd ac yr addawyd yr holl fendithion yſprydol ac Iachawdwriaeth : Eithr mae ein cyfammod ni yn addo CRIST a'i fendithion oll yn gyntaf, ac o flaen dim ac yn ôl hynny bendithion daearol. Dyma'r gwahaniaeth, a'r cyfryw amrywiaeth amgylchiaddau ran yr oruchwyliaeth, oedd rhwng eu llwybr hwy o Iachawdwriaeth, neu eu cyfammod hwy o ra a'n cyfammod ni ; yr hyn y barodd i *Paul* alw eu cyfammod hwy yn *hên*, a'n cyfammod ninnau yn *newydd :* Eithr, o ran ſylwedd, yr oeddent yr un ac o'r unrhyw. Canys rheol ſicr yw hyn ymhob cyfammod, os yr un yw'r deunydd, a'r ffrwyth, a'r ammodau, yna yr un yw'r cyfammod. Eithr

CRIST

Crist Iesu yw'r deunydd neu'r ſylwedd o'r ddau, ac Iachawdwriaeth yw ffrwyth y ddau, a ffydd yw'r mmod ymhob un o'r ddau; am hynny, meddaf, er u galw hwy yn ddau, etto nid ydynt ond un yn unig; hyn y ſicrheir trwy dyſtiolaeth dau dyſt ffyddlon; naill yw'r Apoſtol *Pedr*, yr hwn a ddywaid fel hyn, *Trwy ras yr Arglwydd Ieſu Griſt, yr ydym ni yn redu ein bod yn gadwedig yr un modd a hwythau:* Act. xv. 11. A phwy oedd y rhei'ny; ond y tadau yn yr hên Deſtament, fel y mae'n amlwg yn y wers neſaf o'r blaen. Y llall yw'r Apoſtol *Paul*, yr hwn a ddywaid fel hyn, *Gal.* iii. 6, 7. *Abraham a gredodd Dduw, ac fe'i cyfrifwyd iddo yn gyfiawnder: gwybyddwch am hynny mai y rai ſy o ffydd, y rhai hynny yw plant Abraham.* "Wrth ba dyſtiolaeth, ebe *Luther*, y gwelwn yn amlwg, mai'r un, o ran ſylwedd, oedd ffydd ein tadau yn yr hên Deſtament, a'n ffydd ninnau dan y newydd."

Anti. Ond a allaſent hwy, a fuaſent fyw cyhyd o amſer o flaen Crist, ymaflyd ar ei gyfiawnder ef trwy ffydd er eu cyfiawnhâd a'u Iachawdwriaeth?

Efan. Gallaſent yn wir, canys yr oedd cyn hawſed i ffydd ddal gafael ar gyfiawnder i ddyfod, ag yw iddi i ddal gafael ar gyfiawnder ſy wedi myned heibio eiſoes: o herwydd paham, fel yr oedd genedigaeth Crist, a'i ufudd-dod, a'i farwolaeth mor rymmus yn yr hen Deſtament i gadw rechaduriaid, ac y maent yn awr; felly bu yr holl tadau ffyddlon, er y dechreuad, yn gyfrannogion o'r un gras a ninnau, trwy gredu yn yr un Crist Iesu, a hwy a gyfiawnhawyd trwy ei Gyfiawnder ef, ac a waredwyd yn dragywydd trwy ffydd ynddo ef. Trwy rinwedd marwolaeth Crist y troſglwyddwyd *Enoc*, fel ni welei ef angau; a thrwy nerth rhinwedd ail gyfodiad, ac eſgyniad Crist Iesu y ymmerwyd *Elias* i fynu i'r nef. Felly trwy Grist Iesu yn unig y caed er dechreu'r byd, ac y ceir achawdwriaeth i bechaduriaid hyd ei ddiwedd; fel y'ſgrifenwyd, Iesu Grist *Yr un ddoe, heddyw, ac dragywydd.* Heb. xiii. 8.

Anti.

Anti. Wrth hyn, Syr, mae'n debyg na chadwyd y rhai cadwedig o'r Iuddewon trwy weithredoedd y ddeddf.

Efan. Naddo yn wir, ni's cyfiawnhawyd, ac ni's achubwyd hwynt, na thrwy'r ddeddf foeſawl, na'r ddefodol; canys fel y clywſoch o'r blaen, yr oeddent yn gweled amhoſſiblrwydd i gadw'r ddeddf foeſawl a roddwyd iddynt gyd â braw mawr, a than boenau ofnadwy, ac o herwydd hynny a yrrwyd i geiſio cynnorthwy gan Gyfryngwr, ſef IESU GRIST, o ba un yr oedd *Moſes* yn Gyfryngwr cyſgodol iddynt; ac felly fe yrrodd y ddeddf foeſawl hwy at y ddeddf ddefodol, yr hon oedd eu hefengyl hwy, a'u CRIST mewn cyffelybiaeth, neu gyſgod; canys gwirioned a gydnabyddwyd gan bawb yw, fod y defodau a'r ſeremoniau yn rhag-ddangos CRIST, ac yn eu cyfarwyddo hwy atto ef, ac yn gofyn ffydd ynddo ef.

Nom. Ond, Syr, yr wyf yn credu, er na chyfiawnhawyd, ac na achubwyd o'r ffyddloniaid Iuddewig trwy weithredoedd y ddeddf, etto yr oedd hi yn rheol o ufudd-dod iddynt.

Efan. Gwir iawn, Rheol o ufudd-dod oedd y dêg gorchymun iddynt; etto nid fel yr oeddent yn ddeddf o weithredoedd, eithr fel deddf CRIST; fel y gellir ei weled yn amlwg, os yſtyriwch pa fodd y rhoddodd yr Arglwydd y dêg gorchymun i *Moſes*; wedi i'r Arglwydd eu 'ſgrifenu hwy yr ail waith â'i fŷs ei hun ar lechau o faen, gan orchymun iddo ddarparu Arch i'w goſod hwy ynddi, a hynny, nid yn unig er mwyn eu cadw hwy yn ddiniwaid, eithr er gorchuddio hefyd ffurf y cyfammod o weithredoedd a oedd arnynt gynt, fel na welai'r ffyddloniaid 'mo hono ‡: Canys cyſgod

‡ H. y. fel na's gwelent mo hono fel ag y mae yn gyfammod gweithredoedd allan o GRIST; ond nid fel y dywaid y *Antinomian*, nad oes i gredadyn fod dan y ddeddf mewn yſtyriaeth, Nag ë; canys y mae pob gwir gredadyn dan ddeddf i GRIST. 1 *Cor.* ix. 21.

o GRIST

o GRIST oedd yr Arch, am hynny yr oedd eu goſodiad hwy yno, yn ddangoſiad o'u bod wedi eu cyfiawni yn berffaith ynddo ef, gan ei fod ef *yn ddiwedd i'r ddeddf, er cyfiawnder i bawb a gredant.* Rhuf. x. 4. A hyn a eglurwyd ymhellach, o fod llyfr y ddeddf wedi ei ſefydlu rhwng y *Cerubiaid*, ac ar y drugareddfa, er ſicrhâu i'r ffyddloniaid fod y ddeddf weithan yn dyfod attynt o'r drugareddfa; canys yno yr addawodd DUW gyfarfod â *Moſes*, ac i ymddiddan âg ef ynghylch yr holl bethau a orchymynai ef iddynt. *Ecſ.* xxv. 22.

Anti. Ond, Syr, a ddileuwyd y ffurf yn llwyr, fel nad oedd y dêg gorchymun mwyach yn gyfammod gweithredoedd?

Efan. Naddo; ac ni ddylech mo'i yſtyried felly; canys oddi wrth DDUW ei hunan yn ddigyfrwng y daeth y ffurf o'r gyfammod gweithredoedd, yn gyſtal a'r deunydd neu'r matter o hono, o ran DUW, ac yn ganlynol, y mae yn dragywyddol fel DUW ei hun. Am hyn y mae ein Iachawdwr yn dywedyd, *Math.* v. 18. — *Hyd onid el y nef a'r ddaear heibio, nid â un jod nac un tippyn o'r gyfraith heibio, hyd oni chwblhaer oll.* Hyd onid oedd yn rhaid naill ai i ddyn ei hunan, neu i ryw un arall troſto, ei chwblhâu, fel y mae ef yn gyfammod o weithredoedd; ac onid ë, y maê yn aros mewn cyflwr damnedig. Ond yn awr, CRIST a'i cyflawnodd dros y ffyddloniaid oll, am hynny y dywedais, ei orchuddio neu dynnu ymaith ffurf y cyfammod gweithredoedd. o ran yr Iuddewon crediniol, ond etto ni's tynnwyd o hono ymaith o'i ran ei hunan, nac ychwaith o ran yr Iuddewon anghrediniol.

Nom. A oedd y ddeddf etto o ddefnydd iddynt, fel yr oedd hi yn gyfammod gweithredoedd?

Efan. Oedd yn wir.

Anti. Dangoſwch, attolwg, Syr, o ba ddefnydd yr oedd hi iddynt.

Efan. Yr wyf yn cofio fod *Luwther* yn ſon am ddau ryw o ddynion anghyfiawn, neu anffyddloniaid,

iaid, o ba rai yr oedd un rhyw i'w cyfiawnhâu, a'r llall yn aros yn anghyfiawn; felly yr oedd ymhlith yr Iuddewon. Yn awr, mewn perthynas i'r ſawl oedd i'w cyfiawnhau, yr oedd hi (fel y clywſoch) o ddefnydd byth, er mwyn eu harwain hwy at GRIST, fel y mae'r Apoſtol yn dywedyd, *Y ddeddf oedd ein hathro ni at* GRIST, *fel y'n cyfiawnhaid trwy ffydd*; Gal. iii. 24. h. y. y ddeddf foeſawl a'u dyſgodd hwy, ac a'u cyfarwyddodd pa beth oedd iddynt i'w wneuthur, a pheth a adawent heb ei wneuthur, a hyn a barai iddynt fyned at y ddeddf ddefodol, gan ba un y dyſgwyd hwy ddarfod i GRIST ei chwblhâu troſtynt, a hwythau yn credu hyn, a wnaethpwyd yn gyfiawn trwy ffydd ynddo ef. Ac i'r ail ryw yr oedd hi o'r defnydd hyn, ſef, i'w dyſgu pa beth oedd dda, a pha beth oedd ddrwg, ac i fod fel ffrwyn i'w hattal hwy rhag drygioni, ac fel annogiad i'w cymmell yn y blaen i ddaioni, gan ofn coſpedigaeth, neu o obaith am wobr yn y byd hwn; yr hwn, er nad oedd ond ufuddddod anewyllyſgar, etto yr oedd yn angenrheidiol er lleſâd y wladwriaeth gyffredin, er mwyn cynnal llonyddwch a heddwch yn well. Ac er na allent, na diangc rhag marwolaeth, na mwynhâu bywyd tragywyddol, am nad oedd eu hufudd-dod yn berffaith; etto pa fwyaf o ufudd-dod y roddent iddi, mwy-fwy y rhyddheid hwy oddi wrth aflwydd amſerol a blinderau corphorol, a mwyaf i gyd a feddiannent o fendithion daearol, yn ol addewid a bygythiad yr Arglwydd, *Deut.* xxviii.

Anti. Ond, Syr, mae'r Arglwydd yn y lle hwnnw yn llafaru, fel y tebygid, wrth ei bobl hun, ac etto yn ol dull y cyfammod gweithredoedd; yr hyn a wnaeth i mi dybied fod y ffyddloniaid yn yr hen Deſtament, o ran, dan y cyfammod o weithredoedd.

Efan. Ond y'ch chwi yn cofio i mi ddywedyd wrthych eiſoes, ddangos o'r Arglwydd gymmaint o gariad i'r genedl honno, hyd oni oſodwyd holl

hiliogaeth

hiliogaeth *Abraham* dan gyfammod gwladaidd, neu eglwys genhedlaidd, ac y cynnwyſwyd yr anffyddloniaid hefyd yn y cyfammod er mwyn y ffyddloniaid; am hynny y rhyngodd bodd i'r Arglwydd eu galw hwy oll yn bobl iddo ei hun, yn gyſtal yr anffyddloniaid a'r ffyddloniaid, a'i alw ei hun yn Dduw iddynt hwy. Ac er llafaru o'r Arglwydd yno wrthynt yn ol dull y cyfammod gweithredoedd, etto ni ŵn i un rheſwm pa ham na chyfeiriau ef ei ymadrodd i'r crediniol hefyd, a hwythau yn aros byth dan y cyfammod o ras yn unig.

Anti. Ond chwi ddywedaſoeh, Syr, lafaru o'r Arglwydd wrthynt allan o'r babell, ac oddiar y drugareddfa, ac yn ddiammau yn ôl dull y cyfammod o ras y bu hynny, ac nid yn ôl dull y cyfammod o weithredoedd.

Efan. D. S. attolwg, yn ôl i'r Arglwydd gyhoeddi yr holl fendithion, a'r melldithion yn *Deut.* xxviii. yn nechreu xxix. y dywedir, *Dyma eiriau y cyfammod a orchymynodd yr Arglwydd wrth* Moſes *ei wneuthur â meibion Iſrael, yn nhir Moab, heb law y cyfammod â amododdefe â hwynt yn Horeb.* Oddiyma mae'n amlwg i'm tŷb i, nad hwn oedd y cyfammod o weithredoedd a roddwyd iddynt ar fynydd *Sinai*, canys bendithion a melldithion tragywyddol oedd y ffurf o'r cyfammod hwnnw; eithr melldithion a bendithion amſerol yw ffurf y cyfammod hwn. Felly y mae hwn yn debycach i fod yn ddyſgeidiaeth y ddeddf, nag yn gyfammod o weithredoedd: canys yn yr amſer hynny fe arweiniwyd y bobl, fel y debygid, ar hyd lwybrau ufudd-dod trwy arwyddion o fendithion amſerol a daearol, a hwy a frawychwyd oddi wrth anufudd-dod trwy fygythion amſerol, a Duw yn gwneuthur â hwy fel â rhai yn eu mebyd, a than oedran, gan eu harwain a'u llithio trwy dêg, a'u brawychu trwy hagar, am nad oedd ganddynt ond meſur bychan o'r Yſpryd.

Nom. Ond, Syr, Onid yr un oedd deunydd y cyfammod hwnnw a hwn hefyd?

Efan.

Efan. Ie yn wir, y dêg gorchymun oedd deunydd y ddau gyfammod, ond eu bod yn anhebyg i'w gilydd, o ran eu ffurf yn unig.

Anti. Am hynny, mae'n debyg, Syr, nad oedd yr addewidion a'r bygythion a gynnwyſir yn yr hên Deſtament ond amſerol a daearol, yn perthyn yn unig at bethau daionus neu ddrygionus yn y byd yma.

Efan. Hyn ſydd i'w yſtyried, mai fel y rhoddodd Duw i'w bobl yn yr hên Deſtament trwy weinidogaeth ei brophwydi amryw anogaethau i fod yn ufudd i'w orchymynion ef, ac amryw rybyddion na baent yn anufudd iddynt, felly y cadarnhaodd efe hwynt âg amryw addewidion a bygythion ynghylch pethau amſerol, fel y mae'r mannau hyn o'r 'ſgrythur, a'u cyffelyb, yn tyſtiolaethu, *Eſa.* i. 10. *Gwrandewch air yr Arglwydd, tywyſogion Sodoma, clywch gyfraith ein Duw, pobl Gomora.* adn. 19, 20. *Os byddwch ewyllyſgar ag ufudd, daioni y tîr a fwyttewch; ond os gwrthodwch, ac os anufuddhewch, i chleddyſ i'ch yſir, canys genau'r Arglwydd a'i llafarodd.* Ac yn *Jer.* vii. 3, 9. *Gwellhewch eich ffyrdd a'ch gweithredoedd, ac mi a wnaf i chwi drigo yn y man yma: Ai yn lladratta, yn lladd, ac yn godinebu, a thyngu anudon? Am hynny medd yr Arglwydd, wele fy llid a'm digofaint a dywelltir ar y man yma.* Ac yn wir, dau reſwm ſy pa ham y gwnaeth yr Arglwydd felly a hwy; un yw, o herwydd fod pob dyn, fel y mae ef wedi ei eni tan y cyfammod o weithredoedd, yn barod wrth nattur i feddwl, fod cariad Duw, a mwynhâd o bob peth daionus yn canlyn ei ufudd-dod i'r ddeddf, a bod digofaint Duw, a phob peth drygionus yn canlyn ei anufudd-dod; a bod pen dedwyddwch dyn i'w gael a'i feddiannu mewn Paradwys ddaearol, ſef yn y pethau da o'r byd yma. Am hynny yr oedd y bobl dan yr hên Deſtament, am eu bod yn agoſach at gyfammod *Adda* a'i baradwys, yn barottach i roeſawi y fath feddyliau. Yr (2.) rheſwm yw, am nad oedd

ond

ond ychydig ſon yn yr hên Deſtament ynghylch y cyfammod o ras a'r Baradwys nefol; nid oedd ond gwybodaeth lled dywyll ganddynt am danynt, am hynny ni allent ufuddhau yn rhwydd fel meibion. O herwydd pa ham y rhyngodd bodd i DDUW eu hannog hwy i ufuddhau i'w orchymynion ar eu hannogaethau eu hunain, megis gweiſion, neu blant dan oedran.

Anti. A oedd y ffyddloniaid a'r anffyddloniaid, h. y. y rhai oedd tan y cyfammod o ras, a'r rhai oedd tan y cyfammod o weithredoedd, yn yr un modd yn ddaroſtyngedig yn gyſtal i oddef blinderau y bywyd hwn ar eu hanufudd-dod, ac i dderbyn bendithion y bywyd hwn ar eu hufudd-dod?

Efan. Yn ddiau, mae geiriau'r Pregethwr yn berthynaſol yma, *Pen.* ix. 2. ſef, *Yr un peth* a ddamwain *i bawb fel eu gilydd, yr un peth a ddamwain i'r cyfiawn, ac i'r annuwiol*; Oni rwyſtrwyd *Moſes* ac *Aaron* rhag myned i mewn i wlad *Canaan* cyſtal ac eraill? Ac oni laddwyd *Joſia* am ei anufudd-dod i orchymun yr Arglwydd yn nyffryn *Megido?* Am hynny bydded hyſbys gennych, os y ffyddloniaid, dan yr hên Deſtament, a droſeddant orchymynion yr Arglwydd, ni ddiangent rhag digofaint amſerol DUW, na'i goſpedigaethau corphorol mwy nag eraill. Yr oedd hyn o wahaniaeth yn unig rhyngthynt, nid oedd coſpedigaethau tragywyddol yn gynnwyſedig yngofidiau amſerol y ffyddloniaid, nac yn eu canlyn: Yr oedd eu bendithion daearol amſerol hwy yn cynnwys ynddynt bendithion tragywyddol, ac yn eu dilyn. Ac nid oedd bendithion tragywyddol nefol yn gynnwyſedig dan fendithion amſerol yr anffyddloniaid, nac yn eu dilyn hwy; ac etto yr oedd coſpedigaethau tragywyddol yn gynnwyſedig tan eu gofidiau amſerol, ac yn eu dilyn hwynt.

Anti. Wrth hyn, Syr, y tebygid, mai rhag ofn coſpedigaeth amſerol, ac er mwyn gobaith o wobrwyon daearol, yr oedd yr Iuddewon yn roddi ufudd-dod i orchymynion DUW.

Efan.

Efan. Yn ddiau, mae'r 'ſgrythur, fel y tebygid, yn coffâu tri math neillduol o ddynion, a geiſiant gadw cyfraith Duw, eithr yr oedd gwahaniaeth rhyngthynt oll o ran diben eu hamcanion. Y rhyw cyntaf oedd y gwir ffyddloniaid, y rhai, yn ol meſur eu ffydd, a gredent adgyfodiad eu cyrph yn ol marwolaeth, a bywyd tragywyddol gogoneddus yn y nefoedd, ac mai trwy ffydd yn y *Meſſiah*, neu'r Hâd addewedig, y caent hwy hynny. Ac yn ol meſur eu ffydd yr oeddent yn rhoi ufudd-dod cyfattebol yn rhwydd i'r ddeddf, nid rhag ofn coſpedigaeth, nac er mwyn gobaith o wobr; ond Och! yr oedd yſpryd ffydd yn lleſg iawn yn rhan fwyaf o honynt, ac yr oedd yſpryd caethiwed mewn meſur mawr ynddynt; am hynny yr oedd yn angenrhaid eu hannog a'u cymmell i fod yn ufudd rhag ofn coſpedigaeth, a thrwy obaith o wobr. Yr ail ryw o honynt oedd y *Saduſeaid*, y rhai na chredai fod nac adgyfodiad, nac un bywyd amgen nac yn y byd yma, ac etto hwy a geiſient gadw'r ddeddf, er mwyn i'r Arglwydd eu bendithio hwy yma, ac fel y b'ae pob peth yn llwyddo iddynt yn y byd preſennol hwn. Y trydydd ryw oedd yr *Ysgrifennyddion* a'r *Phariſeaid* a'u ſect hwythau; ac yn wir, y nhwy oedd y rhan fwyaf o ddynion yn yr amſeroedd diweddaf yn ol dyddiau *Moſes*; a hwy a ddalient, ac a ddyſgent fod adgyfodiad i'w ddiſgwyl am dano, a bywyd tragywyddol yn ol marwolaeth, am hynny y ceiſient hwy gadw'r ddeddf, nid yn unig er mwyn etifeddu dedwyddwch amſerol, eithr tragywyddol hefyd: Canys er rhyngu bodd i'r Arglwydd hyſpyſu i'w bobl trwy weinidogaeth *Moſes*, na's roddwyd y ddeddf iddynt tu ag at beri iddynt ymddiried yn eu gweithredoedd eu hunan, ond i'w gyrru allan o honynt eu hunain at Grist, yr Hâd addawedig. Etto, yn o hynny, yr Offeiriaid, a'r Leſiaid, eſponwyr y ddeddf a'u dilynwyr hwy y 'ſgrifenyddion a'r phariſeaid a gam gymmeraſant amcan Duw yn ei roddiad o'r ddeddf

ddeddf, ac a ddyſgaſant, fel pe buaſai yn eu gallu hwy fwynhâu cyfiawnder a bywyd tragywyddol trwy eu ufudd-dod; ac yr oeddent yn dal y tyb hwn mor hyderus, ac yn ei gofleidio mor gyhoedd, hyd oni ddywedent yn ddigywilydd, ac a daerent yn gadarnhaol yn eu llyfr *Mechilta*, nad oedd un cyfammod arall ond y ddeddf: Ac yn ſicr hwy a dybiaſant nad oedd un ffordd arall i fywyd tragywyddol ond y cyfammod o weithredoedd.

Anti. Yn ſicr, Syr, mae'n debyg nad oeddent yn dyall, neu yn yſtyried fod y ddeddf, fel y mae hi yn gyfammod o weithredoedd, yn rhwymo, nid yn unig y dyn oddi allan, ond y dyn oddi mewn hefyd, ſef, yr enaid a'r yſpryd, ac yn gorchymun meddyliau ſanctaidd, a thueddiadau duwiol yn yr enaid a'r galon.

Efan. Naddo; nid oeddent nac yn dyſgu nac yn yſtyried hyn mor yſprydol ag y dylaſent; ac ni allaſid eu perſwadio hwy fod y ddeddf yn gofyn hyn ar eu dwylaw hwy. Canys hyn a oſodaſant i fod yn wirionedd diammheuol, roddi o'r Arglwydd y ddeddf i ddyn i'w gyfiawnhau wrthi, a'i gadw trwy ufudd-dod iddi; ac am hynny fod yn ddiammau yn y dyn hyder a gallu i wneuthur y cwbl ac y mae hi yn ofyn, canys pe amgen, meddent, ni's gorchymnaſai'r Arglwydd ef. Am hynny, lle y dylaſent yſtyried, yn bennaf, ac o flaen pob dim, pa fath reol union oedd cyfraith Duw, ac yn ol hynny dwyn eu calonnau atti, a'u goſod wrthi; hwy yn y gwrthwyneb a aethant at y rheol anghymmwys o'u calonnau eu hunain, ac yn ol hynny a geiſient furfio'r ddeddf at eu anwaſtadrwydd eu hunain. Ac felly hwy a eſponient y ddeddf yn llythrennol, gan ddyſgu a dal, nad oedd y cyfiawnder a ofynai'r ddeddf ond cyfiawnder allanol, yn gynnwyſedig yn unig mewn ufudd-dod oddi allan i'r ddeddf; megis y mae i'w weled wrth ymadrodd Crist, *Math.* v. hyd onid oedd yn boſſibl i ddyn, yn ol eu eſponiad hwy o'r ddeddf, ei chyflawni yn berffaith, ac wrth

hynny bod yn cyfiawn ac yn gadwedig yn dragywydd.

Anti. A ydych chwi, Syr, yn meddwl roddi o'ch 'ſgrifennyddion a'r phariſeaid, a'u ſect hwy, ufuddod perffaith i'r ddeddf yn ol eu deongliadau eu hunain?

Efan. Nag wyf yn wir, ond ychydig iawn, o gwnaeth neb o honynt.

Anti. Pa obaith gan hynny a allai fod iddynt i'w cyfiawnhau, a'u cadw yn dragywydd, pan droſeddent un o'r gochymynion?

Efan. Os digwyddai iddynt droſeddu un o'r deg gorchymun, yr oedd ganddynt eu haberthau i'w cyfiawnhau hwy (fel y tybygent) canys yr oeddent yn edrych ar eu haberthau heb eu harwyddoccâd gan feddwl fod y weithred noeth yn aberth gymeradwy i'r Arglwydd. Mewn gair, hwy a dybiaſant y gellid dileu eu pechodau trwy waed teirw a geifr; a chymmaint a fyddai yn niffyg arnynt o gyflawni'r ddeddf foeſawl, hwy a'i cwblhaent, yn eu tyb hwy, â'r ddeddf ddefodol. Ac yn y modd hyn y gwahanent hwy GRIST oddi wrth eu haberthau, gan gredu, eu bod hwy wedi cwblhâu eu dyledſwydd yn hollol â'u offrymmau a'u haberthau heb yſtyried y dylaſai amherffeithrwydd y ddeddf gyſgodol (yr hon ni pherffeithiai ddim, fel y dywaid *Paul*) eu harwain hwy i geiſio perffeithrwydd yng NGHRIST. Eithr hwy a orphwyſent, gan mwyaf, yn y weithred noeth o'r ddeddf ddefodol megis y gwnelſent â'r ddeddf foeſawl, er eu bod hwy yn analluog i gyflawni'r un, ac er bod y llall yn annigonnol i'w cynnorthwyo hwy. Ac felly *Iſrael, yr hwn oedd yn dilyn deddf cyfiawnder, ni chyr haeddodd ddeddf cyfiawnder, am nad oeddent yn ei chy ſio trwy ffydd, ond megis trwy weithredoedd y ddedd Canys hwynt hwy, heb wybod cyfiawnder* DUW, *a ceiſio eu cyfiawnder eu hunain, nid ymoſtyngaſant gyfiawnder* DUW. Rhuf. ix. 31, 32. x. 3.

Anti

Anti. Wrth hyn, Syr, y tebygid nad oedd gan nemmawr o honynt olwg eglur ar GRIST, a gwybodaeth o hono.

Efan. Ie yn wir; canys yr oedd y gorchudd o anwybodaeth dros eu calonnau hwy, neu'r fath ddallineb dros eu meddyliau, wedi gwanhau a thywyllu eu golygon cymmaint, fel nad oeddent yn abl edrych ar GRIST, Haul y Cyfiawnder i fod yn ddiwedd i'r ddeddf, mwy nac y dichon llygaid gweiniaid dyn edrych ar yr haul ddiſglair, pan ddiſgleiriei yn ei nerth. Am hynny y darllenwn, pan ddiſgleiriodd wyneb *Moſes* (pan y daeth ef i wared oddi ar y mynydd â'r ddwy lech, ar ba rai yr yſgrifenwyd geiriau'r cyfammod, ſef, y deng air) fel na allai plant yr *Iſrael* edrych yn graff arno, gan ogoniant ei wyneb-pryd; O herwydd pa ham y gorfu i *Moſes* oſod gorchudd o ddefodau cyſgodaidd ar ei wyneb, fel y gallent edrych arno yn graffach.

Anti. Ond etto, Syr, ſe debygid na wnaeth llen y defodau, ddim lleſâd i'w llen hwy o anwybodaeth.

Efan. Na ddo yn wir, canys yr oeddent, gan mwyaf, wedi ymglymmu mor awyddus at lythyren y ddeddf, fel nad ymarferent hwy ddim o honi fel yſgol i'w cyfarwyddo hwy at GRIST, megis y dylſant; eithr hwy a geiſient gyfiawnhad trwyddi, ac a wrthwynebaſant GRIST; yr oeddynt yn ymoddloni i edrych ar y cyſgod, heb ganfod o'r ſylwedd trwyddo, ſef CRIST diwedd y ddeddf. Yr oedd rhai yn wir yn gweled CRIST yn y cyſgodau: Ond O! nid nemmawr, yn enwedig, am ben talm o ddyddiau yn ôl amſer *Moſes*; am fod eu harweinwyr deillion wedi leſeinio'r bobl, a'u llygru â'u cyſgeidiaeth anghywir, fel na choffheir ond am ddau yn unig, ſef, *Simeon* ac *Anna*, a ddymunent ac a ddiſgwylient am GRIST, pan ddaeth ef yn y cnawd. Canys er bod y *Meſſiah* yngenau pawb o honynt, a'u ymddiddan am gyflwr gwynfydedig brenhiniaeth *Dafydd*; etto yr oeddynt yn breuddwydio,

mai rhyw frenin gwŷch y fyddai'r *Meſſiah*, ac y deuai mewn mawrhydi cyhoedd, a gallu anfeidrol, i'w gwaredu a'u hachub oddi wrth eu caethiwed dan y *Rhufeiniaid*; o ba un yr oeddent yn dimladwy ac yn flinedig iawn: Ond am eu caethiwed yſprydol tan y ddeddf a phechod, ni wyddent oddi wrtho; am hynny ni wybuant pa cyn rheitied oedd iddynt gael eu gwaredu rhagddo. A'r achos oedd, am i'w dyſgawdwyr droi'r ddeddf oll yn gyfammod o weithredoedd i'w chyflawni er eu cyfiawnhad a'u Iachawdwriaeth; ïe, ac i'r fath gyfammod ac a allent ei gadw a'i gyflawni eu hunain, os nid trwy'r ddeddf foeſawl, etto trwy eu haberthau yn y ddeddf ddefodol. Ac i'r diben hyn y cymmerodd ein Iachawdwr, yn ei Bregeth ar y mynydd, achlyſur i roddi iddynt yſtyr y ddeddf foeſawl yn wirioneddol ac yn yſprydol, gan ddyſgu, bod y ddeddf yn gofyn ac yn gorchymun, nid yn unig gyfiawnder oddi allan, ond oddi-fewn hefyd, ar ddwylo pawb a fynnent eu cyfiawnhau trwy eu gweithredoedd; ac yn hynny yn tynnu ymaith ofer ddeongliadau'r 'ſgrifennyddion a'r phariſeaid. A rhwygiad llen y Deml yn ddau oddi fynu hyd i wared ar farwolaeth Crist, oedd arwydd o ddiflaniad holl gyſgodau cyfraith *Moſes* ar ddiſglair lewyrchiad yr efengyl. Ac ïe, er 'ſgrifenu o'r Apoſtol (i'r diben o droi heibio'r gorchudd) y llythyr yſprydol duwiol hwnnw at yr *Hebreaid*, ym mha un y mynega ef yn amlwg nad oedd yr holl aberthau, defodau, ac ordinhadau'r babell yn yr hên Deſtament, ond cyſgodau o Grist, wedi ei roddi iddynt fel y gwelent hwy Grist trwyddynt, a bod yn rhaid i'r arwyddion a'r cyſgodau oll ddiflannu weithan a rhoi lle i'r ſylwedd, ar ymddangoſiad Crist yn y cnawd; etto, er hyn i gyd, fe ellir dywedyd byth am danynt, fel ac y dywedodd *Paul* gynt, fod *hyd y dydd heddyw, pan ddarllenir* Moſes, *y gorchudd ar eu calon huynt.* Yr Arglwydd, yn ei amſer ei hun, a drugarhao wrthynt, ac a'i tynno ymaith.

Anti.

Anti. Da iawn, Syr, Mi a feddyliais fod yr Iuddewon o ran, dan y cyfammod o weithredoedd; ond yn awr yr ydwyf yn dyall nad oedd nemmawr o wahaniaeth rhwng ein cyfammod ni o ras a'u cyfammod hwythau.

Efan. Yn ddiau, o'u hachos hwy eu hunain, gan mwyaf y bu'r anghyttundeb rhwng cyfammod yr Iuddewon, a'n cyfammod ninnau. Eu gyrru at GRIST a ddylasai'r ddeddf; ond hwy a ddisgwyliasant am fywyd trwy eu hufudd-dod iddi, ac felly hyn y cyfeiliornasant yn aruthr.

Anti. Ac yn wir, Syr, nid rhyfedd iddynt gamsynied, a chyfeiliorni cymmaint yn hyn o bwngc, ba rai ni's eglurwyd y cyfammod o ras yn oleu; pan b'o llawer yn ein plith ni, i ba rhai y cyhoeddwyd ef mor eglur, yn gwneuthur yr un peth.

Efan. Ac yn wir, nid rhyfedd fod pob dyn wrth nattur yn gwneuthur felly; am fod dyn wrth naturaeth yn cymmeryd DUW fel uchel Arglwydd y nef, a'i hunan fel gwas iddo; ac o herwydd hynny i fod ef yn rhwym i gwblhâu ei orchymynion, cyn cael ei gyflog; gan dybied, pa fwyaf o waith y gwnelo ef, mai gwell, a mwy y fydd ei gyflog. Am hynny, pan daeth achos i'r philosophydd mawr *Aristotl* sôn am ddedwyddwch, ac i osod i lawr y moddion cymmwysaf i gyrraedd y diben hynny, efe a ddywedodd "Mai *Gweithio* ydoedd y peth". A'r yn beth y cyttunodd *Pithagoras*, pan y dywedai, "Mai yn hyn y safai dedwyddwch dyn, sef iddo fod yn debyg i DDUW, trwy fod yn gyfiawn ac yn sanctaidd ynddo ei hunan". Ond na ryfeddwn gyfeiliorni o'r gwyr hyn mor bell, y rhai ni chlywsant sôn unwaith am GRIST, na'r cyfammod o ras; pan y gwnelai y rhai a ddysgwyd gan apostolion CRIST yr un peth, sef, y rhai hynny yr ysgrifennodd *Paul* ei epistolau attynt, yn enwedig y *Galatiaid:* Canys er iddo ef trwy ei bregethiad, tra fu ef yn bresennol gyd â hwy, hyspysu iddynt athrawiaeth y cyfammod o ras; etto, yn ôl ei ym-

adawiad oddi wrthynt, hwy a ŵyr-drowyd yn y man, trwy hudoliaeth gau athrawon, at y cyfammod o weithredoedd; ac a geiſiaſant eu cyfiawnhau trwyddo, o ran, neu yn gyfan; megis y gallwch chwi ddyall yn hawdd, pe yſtyriech y llythyr hwnnw yn fanol. Ie, medd *Luwther*, "Tyb gyffredin pawb, gan mwyaf, trwy'r byd yw hyn; mai trwy weithredoedd y ddeddf y ceir cyfiawnder: a'r rheſwm yw, o herwydd fod y cyfammod o weithredoedd wedi ei reddfu mor ddwfn yng nghalon dyn er ei greadigaeth, fel na's dichon wrth nattur farnu am y ddeddf yn amgen, nac fel cyfammod o weithredoedd, yr hwn a roddwyd, yn eu tyb hwy, i'w cyfiawnhau hwy, ac i adferu iddynt fywyd a Iachawdwriaeth". Ac medd *Luwther* drachefn, fod y meddwl enbydus hwn, o fod y ddeddf yn cyfiawnhau dyn ger bron Duw, wedi ei wreiddio cyn ddyfned yng nghalon dyn, a'i reſwm anianol, a bod pawb wedi eu hymdroi ynddo, fel na allant ddyfod o hono; ïe, ebe efe, er fy mod i yn bregethwr o'r efengyl er's ugain mlynedd, ac wedi ymarferu hynny yn ddibaid, gan ddarllain a 'ſgrifenu, nes fy mod mewn tebygoliaeth yn rhyddi oddi wrth y tŷb annuwiol hyn; etto er hyn i gyd yr wyf fi yn teimlo, yn rhŷ fynych, yr hên fryntiau hyn yn glynu wrth fy nghalon, hyd onid wyf yn chwennychu gwneuthur â Duw, fel pe bawn i ddwyn rhyw ychydig gyd â mi i haeddu ei ffafr ef, ac i beri iddo roi ei ras i mi" †. Ond, y mae achos ofni fod llaweroedd yn ein plith ni, yn diſgwyl cael naill ai yn gyfan, neu o ran, gyfiawnhad a derbyniad trwy weithredoedd y ddeddf.

Anti. Yn wir, yr wyf fi o'r meddwl hyn, fod

† Er na's cafodd *Luwther* ond ychydig o foddion mewn eydmariaeth i'r oes hon, etto efe a dorrodd ei ffordd trwy ganol tywyllwch pabyddiaeth, ac ni's gellir dywedyd i neb er dyddiau'r Apoſtolion ddyfod allan yn fwy iachus yn pwnge hwn o gyfiawnhad trwy ffydd, a derbyniad pechaduriaid o flaen Duw, nac ef.

llaw

llawer yn yr oes hon wedi eu harwain gan eu zêl dywyll ar ôl gweithredoedd da, gan geiſio yn ddirgel ſod yn ſanctaidd ac yn gyfiawn, trwy eu dyfal gadwraeth, a'u rhodiad manol yng ngorchymynion Duw; ac etto, ni ellir eu perſwadio eu bod yn meddwl felly. Ac yn wir, Syr, mae'n ddiogel gennyf, ſod ein cymmydog a'n cyfaill *Nomiſta* yn un o honynt.

Efan. O! Y mae miloedd yn y byd yn gwneuthur Crist o'u gweithredoedd, ac o hyn daw eu diſtryw hwy‖. Hwy a ddiſgwyliant am gyfiawnder a derbyniad gyd â Duw yn fwy oddi wrth y gorchymun na'r addewid, a mwy yn y ddeddf nac yn yr efengyl, a mwy trwy weithredoedd nâ thrwy ffydd, a'r cwbl yn ddifudd. Llawer enaid anwybodus yn ein plith, pan y cynghorir hwy i ufuddhâu, ac i wneuthur eu dyledſwydd, ſy'n meddwl am ddim, ond am gael bywyd trwy eu gwaith; os bydd dim gofid arnynt, hwy a redant at yr eli o waſanaeth, a'r ffrwd o gyflawniadau, ac eſgeuluſant Grist. Ie, y mae i'w ofni, ſod llaweroedd, ſy'n medru gwahaniaethu â'r tafod rwng y ddeddf a'r efengyl, ac yn eu barn yn dal ac yn dyſgu, mai trwy ffydd y cyfiawnheir dyn heb weithredoedd y ddeddf, ac etto yn eu calonnau yn gwneuthur amgen. Ac y mae rhyw feſur o hyn ynom ni i gyd, canys pe amgen ni fyddem mor anwaſtad yn ein cyſuron, ac mor anſefydlog yn y ffydd, ac ni'n bwrid i'r llawr gan bob awel neu wendid fel yr ydys. Eithr beth a ddywedwch chwi, fy ngymmydog *Nomiſta?* A ydych chwi yn euog o'r beiau hyn, debygwch chwi?

‖ A llawer eraill ym mhlith proffeſwyr nad ydynt yn gwneuthur y cyfrif a ddylent o weithredoedd; ac wrth hynny ydynt yn dangos yn eglur nad oes ganddynt un Crist, mwy na'r rhei'ny ſydd yn gwneuthur Crist o'u gweithredoedd: — Canys yr rhai ſydd a Christ ganddynt, y mae ganddynt wir ffydd hefyd; *ac y mae y ffydd honno yn gweithio trwy gariad.* Gal. v. 6.

Nom. Yn wir, Syr, mae'n rhaid i mi addef fy mod yn dechreu ofni fy mod yn cam-ſynied; am hynny yr wyf yn dymuno cael eich barn chwi ar fy nghyflwr, a mi a attolygaf arnoch roddi cennad i mi i'w adrodd i chwi.

Efan. Gwnaf, yn ewyllyſgar iawn.

Nom. Syr, wedi fy ngeni a'm maethu mewn gwlad, lle nad oedd fawr bregethiad o'r gair (Duw a'i gwyr) mi fum fyw yn hir mewn anwybodaeth a dallineb: Etto am fy mod yn mynych adrodd Gweddi'r Arglwydd, Credo'r Apoſtolion, a'r dêg gorchymun, ac am fy mod yn dyfod ambell bryd i'r gwaſanaeth, ac yn derbyn y Sacrament ar wyl y Paſc, &c. Mi a dybiais fod fy nghyflwr yn dda iawn. Ond o'r diwedd, trwy wrando ar weinidog duwiol, mewn un man, fe'm hargyoeddodd i nad oedd fy nghyflwr preſennol yn dda, ac ar hyn yr aethum at y gweinidog hwnnw, ac a ddywedais wrtho beth oedd yn fy meddwl am danaf fy hun. Yna fe'm cynghorodd i wrando pregethau yn fynych, i gadw'r ſabbath yn ofalus, a pheidio a thyngu wrth ddim, mwy na'u gilydd, ac i ymogelyd rhag dywedyd celwydd, neu un math o eiriau ofer, neu ymadroddion anfuddiol; ïe, ac, eb efe, mae'n rhaid i chwi geiſio llyfrau da i'w darllain; megis eſponiad un Mr. *Dod* o'r dêg gorchymun; a llyfr un Mr. *Bolton*, a elwir cyfarwyddiad i rodio yn gyſurus gyd â Duw; a llyfr arall a elwir y gwir wiliedydd, o waith Mr. *Brinſley*, a'r cyffelyb lyfrau duwiol: A llawer o gynghorion a chyfarwyddiadau gwŷch o'r fath hyn a gefais i ganddo; pa rai yr ymhoffais i ynthynt yn fawr, am hynny yr ymegnais i'w dilyn yn fanol. Yna y cwympais i wrando'r pregethwyr duwiolaf a mwyaf eu zêl a'u nerth trwy'r wlad; a mi a 'ſgrifennais eu pregethau hwy air yng air: A chyn gynted ac y rhoddodd yr Arglwydd i mi deulu, mi a weddiais gyd â hwy nôs a borau, ac a'u dyſgais hwy, ac a adroddais y pregethau a glywſwn iddynt, ac a dreuliais ddydd yr Arglwydd trwy-

ddo

ddo yngwaſanaeth Duw yn yr eglwys a chartref; ac mi a beidiais â'm llwon, a'r celwydd, a phob ymadrodd ofer; ac ar fyr eiriau, mi a ddilynais eu gynghorion hwy yn llwyr. A mi a adnewyddais fy hunan, ac a wellheis fy muchedd cyſtled, nes fy mod i weithian yn ofalus i gwblhau pob dyledſwydd orchymynedig yn y llech cyntaf o'r ddeddf, o ran gwaſanaeth Duw, a hynny, er mwyn ynnill ffafr a chymmeriad gyd â gwyr crefyddol oneſt, ac er diangc rhag coſpedigaeth cyfraith Duw, ſef, poenau tragywyddol yn uffern; lle nid oeddwn i gynt yn gofalu am ddim, ond yn unig am roi ufudd-dod i'r ail lech, o ran fy ymarweddiad yngwydd dynion, fel y cawn ffafr a chymmeriad, a pharch gyd â gwyr moeſawl diniwaid union, ac fel y diangwn rhag coſpedigaeth cyfraith dyn, a phob poenau corphorol amſerol. Yn awr, cyn gynted ac y canfu proffeſwyr crefyddol y fath ymchwelad a hyn ynof, hwy a ddaethant attaf gartref, ac a roiſant i mi ddeheulaw cymdeithas, ac a'm cyfrifaſant yn un o'u rhifedi hwy. Yna mi a wahoddais weinidogion a phregethwyr duwiol i'm tŷ, ac a'i groeſawais hwy; ac yna, gyd â *Mica* hwnnw a goffhai'r yn llyfr y *Barnwyr* xvii. 13. yr oeddwn yn meddwl yn ſicr y gwnelai'r Arglwydd ddaioni i mi, *gan fod Leſiad gennyf yn offeiriad.* Ar un gair, mi a roddais yn awr y fath ufudd-dod oddi allan, ac a ddangoſais y fath gyd-ffurfiad a'r ddwy lech o'r ddeddf, hyd onid oedd pob pregethwr duwiol, a phob gwr crefyddol oneſt, a'm adnabu i, yn meddwl yn dda iawn am danaf, ac yn fy nghyfrif yn wr union, ac yn Griſtion o'r gorau: Ac yn wir, mi a feddyliais ſelly am danaf fy hunan, yn enwedig am fod y fath bregethwyr duwiol braf, yn fy nghanmol. Ac yn y modd hwn yr aethum i dro hîr yn hoyw-wŷch yn fy mlaen, nes i mi ddarllain yng ngwaith Mr. *Bolton*, fod cyſiawnder ymddangoſedig y 'ſgrifenyddion a'r phariſeaid yn ganmoladwy yn eu dyddiau hwy; canys heb law eu ymgadwad rhag y pechodau mwyaf,

af, a'u cyhoedd wrthwynebiad o honynt, ſef, lloſruddiaeth, lladrad, godineb, eulun-addoliaeth, a'r cyffelyb, yr oeddynt hefyd yn aml, ac yn barhaus yn eu gweddiau, a'u ymprydiau, a'u elusennau, hyd onid oedd llaweroedd o honynt yn ddiammau yn tybied yr ynnillent y nef, a dedwyddwch tragywyddol wrth eu gweithredoedd da. Ar hyn mi a feddyliais ddywedyd o'n Iachawdwr fel hyn, *Math.* v. 20. *Oni bydd eich cyfiawnder yn helaethach na chyfiawnder y 'Sgrifennyddion a'r phariſeaid, nid ewch i mewn i deyrnas nefoedd.* A geiriau'r Apoſtol hefyd, *Nid yr hwn ſydd yn yr amlwg ſydd Iuddew, Eithr yr hwn ſydd yn y dirgel*; — *yr hwn mae ei glod nid o ddynion, ond o Ddduw.* Rhuf. ii. 28, 29. Yna mi feddyliais ynof fy hun, nad oeddwn i etto yn wir Griſtion; canys mi a ddywedais yn fy nghalon fel hyn, fe ddarfu i mi ymfodloni fy hunan â chlôd dynion, ac a gollais wrth hynny fy mhoen a'm holl lafur, yn yn fy nghwblhad o bob gwaſanaeth; am na's buont amgen na dangoſiad o weithredoedd oddi allan, am hynny y gorfydd iddynt ſyrthio oll i'r llawr yn ddioed; ni's gwaſanaethais mo fy Nuw â'm holl galon; o herwydd pa ham y gwelaf mai rhaid yw i mi fyned ymhellach yn y blaen etto, ac onid e byth ni fyddaf wynfydedig; ar hyn yr ymegniais o ddifrif i gadw'r ddeddf, a mi a ymboenais i gwblhau pob dyledſwydd a gwaſanaeth, nid yn unig oddi allan, ond oddi fewn yn fy nghalon hefyd; yna mi a ddarllenais yn iawn, ac a wrandawais, ac a weddiais, ac a ymboenais i ddaroſtwng fy nghalon, ac i blygu fy enaid tan bob gwaſanaeth; ïe, mi a elwais ar yr Arglwydd yn ddifrifol, gan ymrwymo fy hunan i wneuthur y cwbl oll a'r a orchymynai ef, os efe a gadwai fy enaid. Ac yna y cymmerais i olwg hefyd ar ddirgel lygredigaeth fy nghalon, y peth ni's gwnelſwn erioed o'r blaen, ac mi a aethum yn ofalus i lywodraethu ar fy meddyliau, i dymmheru fy nwydau, ac i ddofi, a chadw dan law bob cynnwrf a chyffroad o'm chwantau cnawdol, i

yrru

yrru ymaith falchder dirgel, ac anlladrwydd llygad, a phob ofer a phechadurus ddymuniadau fy nghalon: Ac yna y tybiais fy mod nid yn unig yn Griſtion oddi allan, ond un oddi fewn hefyd, ac am hynny yn wir Griſtion hollol.

Ac yn y modd hyn yr aethum yn y blaen yn gyſurus tros hir amſer, nes i mi yſtyried hefyd ſod cyfraith Duw yn gofyn i mi ufuddhau yn ddioddefol, fel ac yn weithredol, ac am hynny y byddai raid i mi ddioddef yn gyſtal a gwneuthur, os amgen, ni fyddwn i byth yn Griſtion. Ar hyn y dechreuodd fy nghalon gythryblu ar yſtyriaeth o'm annioddefgarwch tan law goſpedigaethol yr Arglwydd, ac o'r grwgnachrwydd ar anfodlonrwydd a deimlwn yn fy yſpryd, pan y digwyddai un trallod oddi allan i mi; ac yna y ceiſiais i ddofi fy nwydau, ac ymoſtwng yn ewyllyſgar i ewyllys Duw ymhob cyflwr o hawddfyd ac adfyd. Ac yna y dechreuais i hefyd oſod, fel pe bae, boenau arnaf fy hun trwy ddirweſt ac ympryd, a chyſtuddio fy hunan, a galarn yn druan yn fy ngweddiau, ynghyd â pha rai y wylais i yn fynych lawer deigryn hallt; a mi a dybiais yn ſicr yr edrychai'r Arglwydd arnaf am hyn, ac y gwobrwyai ef fi am fy holl waſanaeth. Ac erbyn hyn y tybiaſwn i yn ſicr fy mod yn cadw'r ddeddf yn berffaith, trwy roddi ufudd-dod gweithredol a dioddefol iddi; ac yna yr oedd yn ddiogel gennyf fy mod yn wir Griſtion; nes i mi yſtyried ddarfod i'r Iuddewon, yn erbyn pa rai yr achwynodd yr Arglwydd, *Eſa.* lviii. wneuthur cymmaint ac a wnaethum innau; a hyn a barodd i mi ofni, nad oeddwn i etto yn y iawn ffordd. Ar hyn yr aethum at weinidog arall, ac a ddywedais wrtho fy mod yn credu, nad oeddwn i well fy nghyflwr na'r Iuddewon hynny, er i mi wneuthur a goddef fel hyn ac fel hyn. Ond, ebe efe, yr ydych chwi mewn gwell cyflwr nac yr oeddynt hwy, am eu bod hwy yn rhagrithwyr, ac nad oeddent yn gwaſanaethu Duw â'u holl galon, megis yr

ydych

ydych chwi. Yna yr aethum i adref yn llawen, ac
a aethum yn fy mlaen yn fy nghynefinol arfer o
weithredu, ac o ddioddef, gan feddwl fy mod yn
dda iawn fy nghyflwr; nes i mi yſtyried fy mod
yn droſeddwr o groth fy mam, ïe, ac yn ei chroth
hi, am fy mod yn euog o droſedd *Adda:* Ar hyn yr
yſtyriais na fyddwn i nês i gael fy ngwaredu oddi
wrth euogrwydd fy mhechodau gynt, er rhodio o
honof rhagllaw yn union gyd â Duw. Felly ar hyn
y'm cythryblwyd, ac aflonyddwyd fy nghalon; ac
yna yr aethum at y trydydd gweinidog gair Duw,
ac a ddangoſais iddo ymha gyflwr yr oeddwn i yn
ſefyll, a'm tŷb o'm plegid fy hunan; ac efe a'm
cyſurodd ac a barodd i mi fod yn gyſurus; canys er
na fodlonai fy ufudd-dod diweddaraf, yn ôl fy ym-
chweliad at Dduw, dros fy mhechodau cyntaf;
etto, yn gymmaint âc i mi eu haddef hwy ar fy ym-
chweliad, ac ymofidio, a galaru am danynt, a'u llwyr
adael, fod yr Arglwydd, yn ôl cyfoethogrwydd ei
drugaredd a'i addewidion graſol, wedi rhoddi i mi
faddeuant a gollyngdod. Yna y dychwelais adref,
ac a gwympais i lawr ger bron Duw, gan weddio
ac erfyn arno roi i mi ſicrwydd o ollyngdod a mad-
deuant o'm euogrwydd o bechod *Adda*, ac o'm
holl bechodau gweithredol a wnaethum, cyn i mi
ddychwelyd atto, gan addo, y parhawn i roi iddo
waſanaeth perffaith rhagllaw, megis y gwnelſwn
eiſoes. Ac felly, wedi ſicrhau yn fy nhyb i, fod
yr Arglwydd wedi canniattâu i mi hyn o arch, mi a
ddechreuais drefnu fy muchedd yn ôl fy addewid;
mi a ddarllenais, ac a wrandewais, ac a weddiais,
ac a ymprydiais, ac a wylais, ac a ocheneidiais, ac
a riddfannais, ac a wyliais ar fy nghalon, a'm taſod
a'm llwybrau, a'm ymddygiad, ger bron Duw a
dyn.

Ond am ben ennyd, wedi cael rhagor o gydnab-
yddiaeth âg yſprydoliaeth y ddeddf, ac â dirgel
lygredigaeth fy nghalon, mi a wybum fy mod wedi
twyllo fy hunan, gan feddwl i mi gadw'r ddeddf
yn

yn berffaith: Canys er y wnelwn, fe fyddai llawer o amherffeithrwydd yn fy ufudd-dod, a'm gwaſaneth, a'm gweithredoedd. Canys yr oeddwn gynt, ac yn waſtadol, yn gyſglyd ac yn bendrwm, pan y dawn yn gweddio, ac yn gwrando, ac ym mhob yw waſanaeth arall; ac ni wyddwn pa fodd y gwnawn i hwynt yn iawn, canys yr oeddwn yn am-ſynied yn y diben, er mwyn pa un y dylid wneuthur pob gwaſanaeth, am fy mod yn ceiſio y hunan, a'm clod ynddo; a'm cydwybod a'm yhuddai i mi ffaelu yn fy ngwaſanaeth a'm dyledwydd tu ag at yr Arglwydd yn hyn a hyn. Ar yn i'm cythryblwyd drachefn yn ddirfawr, am fy nod yn gweled fod y ddeddf yn gofyn ufudd-dod erffaith a chywir, ac na's gellid ei chyflawni heb ynny. Ar hyn yr aethum drachefn at yr un Gweinidog, ac a adroddes wrtho pa fodd yr arfaeaſwn, ac yr addawſwn, ac y ceiſiaſwn, ac yr mboenaſwn gymmaint ag oedd boſſibl i mi i gadw yfraith Duw yn berffaith, ac etto yr oeddwn yn wybod, wrth brofiad alaethus, ddarfod i mi eiſoes, n bod etto yn, ei throſeddu trwy lawer ffordd; c am hynny bod arnaf ofn uffern a damnedigaeth.

Ond clywch, ebe efe, nac ofnwch, canys y mae ffygion yn y Criſt'nogion gorau, ac nid oes dyn geidw ddeddf Duw yn berffaith; am hynny ewch n y blaen fyth, a cheiſiwch â'ch holl egni, fel gynt, i dw'r ddeddf yn berffeithiaf ac y galloch, gan edu, y derbyn Duw eich ewyllys yn lle'r weithred, n na alloch ei gwblhau, ac y cynnorthwya Crist wi yn y blaen pan y b'o diffyg arnoch".

Felly ar hyn i'm boddlonwyd yn ddirfawr, ac a ychwelais adref yn llawen; ac yna y cwympais i ddio, gan addef ger bron Duw, fy mod yn awr gwybod, nad allwn roddi ufudd-dod perffaith gyfraith ef, ac etto na wan-obeithiwn i ddim, fy mod yn credu y cwblhai Crist troſof y thau a adawn i heb eu gwneuthur. Ac ar hyn y fynais i yn ſicr fy mod yn awr yn Griſtion hollol,

ac nad oeddwn yn gwbl felly erioed o'r blaen; ac er hynny o amſer yr wyf yn perſwadio fy hun fy mod felly. Ac yn y modd hwn, fel y clywſoch, y dangoſais i chwi, Syr, yn gyſtal pa fodd y bum i gynt, a pha fath yw fy nghyflwr yn awr: O herwydd pa ham yr attolygaf arnoch ddywedyd yn eglur eich tŷb ar fy nghyflwr.

Efan. Yn wir, mae'n rhaid i mi ddywedyd hyn wrthych, eich myned, fel y tebygid wrth eich ymadrodd, yn fy nŷb i, cyn belled yn y llwybr o'r cyfammod gweithredoedd, ac yr aeth yr Apoſtol *Paul* cyn ei droedigaeth; ond er a ŵn i, nid aethoch etto ar hyd yr union lwybr at wirionedd yr efengyl, ac am hynny yr wyf yn ammeu, pa un a ddaethoch at GRIST neu beidio.

Neoph. Rhowch gennad i minnau, Syr, attolwg, i ddywedyd gair neu ddau wrthych: Canys wrth glywed eich ymadrodd chwi ynghylch y cyfammod o weithredoedd a'r cyfammod o ras, fe ddaeth arnaf ofn nad oeddwn i ar y iawn ffordd; ond yn awr, yn ol clywed y fath ymadrodd godidog o ben fy nghymmydog *Nomiſta*, ac etto i chwi ammeu, pa un a wnaeth ef a dyfod mewn gwirionedd at GRIST ai peidio, yr wyf yn ſicr fy mod i ym mhell ddigon oddi wrth GRIST. Yn ddiau, os yw ef wedi camſynied, yr hwn y mae yr Arglwydd wedi ei addurno â'r fath roddion a graſuſau godidog, ac ſydd yn byw mor dduwiol, ac mor ddedwydd, megis y gwn i yn hyſpys ei fod ef, gwae fi'n ſicr!

Efan. Yn wir, er a allaf fi wybod, chwi ellwch fod yng NGHRIST o'i flaen ef.

Nom. Ond yſtyriwch, Syr, attolwg, gan fy mod i wedi'm hargyoeddi yn llwyr fy myned gynt ar hyd llwybr y cyfammod o weithredoedd, ac am fy nyfod o'r diwedd i weled fy eiſiau o GRIST, am bod yn credu yn ddilŷs yr helpia ef fi ymha beth bynnag ffaela arnaf o lwyr gyflawni'r ddeddf, yr wyf i debygwn, wedi dyfod yn ddiammau at GRIST.

Efan. Yn wir, nid yw hyn (yn fy nhŷb i) yn

rhoi i chwi ſwy o ſicrwydd o'ch gwir ddyfodiad at Grist, nac ſy gan rai o'r *Papiſtiaid* manylaf. Canys hyn yw athrawiaeth eglwys *Rhufain*, ſef, "Os gwna dyn ddefnydd o'i holl nerth, ac os cais ef â'i holl egni, yn orau y gallo ef gyflawni'r ddeddf, yna y maddeu Duw, er mwyn Crist, ei holl ddiffygion, ac a geidw ei enaid;" Am hynny y gwelir llawer o'r *Papiſtiaid* yn wiliadwrus, ac yn fawr eu zêl a'u hawydd i cwblhau pob dyledſwydd, ac yn gofus i ddywedyd cynniſer *Afe Maria*, a *Phader Noſter*, bob borau a phob prydnhawn; ïe, ac y mae llawer o honynt yn gwneuthur llawer gweithred eluſengar, ac yn dilyn lletteugarwch, a hyn i gyd, ar yr un ſail, ac i'r un diben â'r rhai y glywſoch. "Ni fyn y *Papiſtiaid* er dim, ebe *Calfin*, glywed ſôn am y gair hwn, *Trwy ffydd yn unig*; am eu bod hwy yn meddwl fod eu gweithredoedd da hwy, o ran, yn peri eu Iachawdwriaeth, ac fel hyn y gwnânt hwy gymmyſg-fwyd, na b'o na chîg, na phyſgod, fel y dywedir".

Nom. Ond byddwch araf, attolwg, Syr; yr y'ch chwi yn fy ngam-ſynied i; canys er fy mod yn credu, fod Duw yn derbyn fy mwriad eithaf i gyflawni'r ddeddf yn gymmeradwy, etto nid wyf i fel y *Papiſtiaid*, yn dal fod fy ngweithredoedd yn haeddiannol; am nad wyf yn credu fod Duw yn derbyn yr hyn a wnelwyf, nac er mwyn y weithred, na'r gweithredydd; eithr yn unig er mwyn Crist.

Efan. Ac etto er hyn i gyd, yr ydych chwi yn yd-gerdded â'r *Papiſtiaid* law yn llaw; canys er eu od hwy yn dal, fod eu gweithredoedd yn haeddiannol; etto hwy a ddywedant, mai trwy haeddiant Crist y maent felly; neu fel y dywaid y rhai cymhedrolaf o honynt, fe fydd ein gweithredoedd yn haeddiannol, ond eu taenellu â gwaed Crist Iesu. Ond gwybyddwch, megis y mae cyfiawnder Duw n gofyn ufudd-dod perffaith, felly y mae yn gofyn efyd fod hyn o ufudd-dod yn berſonnol; h. y. haid ei fod yn ufudd-dod o un perſon, neu wei-

thredydd yn unig: Nid rhydd cymmyſgu ufudd-dod dau ynghŷd i glyttio ufudd-dod perffaith: Canys os ydych chwi yn dymuno eich cyfiawnhau ger bron DUW, rhaid i chwi naill ai dwyn gyd â chwi atto ef gyfiawnder perffaith o'ch eiddo eich hunan, gan lwyr-ymwadu â CHRIST, neu ddwyn gyd â chwi berffaith Gyfiawnder CRIST, gan lwyr ymwadu â'ch cyfiawnder eich hunan.

Anti. Ond credwch fi, Syr, mi a'i cynghorwn ef i ddwyn Cyfiawnder CRIST gyd âg ef, ac i lwyr ymwrthod â'i gyfiawnder ei hunan, fel y gwnaethum i, i DDUW y diolchaf.

Efan. Da iawn y dywedwch; ac am fod y cyfammod o ras yn gorphwys yn unig ar GRIST a'i gyfiawnder ef, am hynny ni fyn yr Arglwydd fod gan neb law ynghyfiawnhad a Iachawdwriaeth pechadur o flaen DUW, ond CRIST yn unig. Ac i ddyweud yr holl wir i chwi, fy nghymmydog *Nomiſta*, gwybyddwch hyn, y bydd CRIST IESU naill ai yn Iachawdwr cyfan-gwbl, ai ni bydd yn Iachawdwr oll; naill ai efe ei hun a'ch ceidw, ai nid ymyrra ef ronyn â'ch Iachawdwriaeth. *Canys nid oes enw arall tan y nef wedi ei roddi ymhlith dynion, trwy yr hwn y mae yn rhaid i ni fod yn gadwedig*, Act. iv. 12. Ac y mae CRIST ei hun yn dywedyd, *Myfi yw'r ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd, ac nid yw neb yn dyfod at y Tad, ond trwof fi*, Ioan xiv. 6. Fel mae gwir a ddywedodd *Luwther*, "heb law y ffordd honſef CRIST, nid oes un ffordd, ond crwydrad; nid oes gwirionedd, ond rhagrith; na bywyd, ond marwolaeth dragywyddol". "Ac yn wir, ebe w dyſgedig arall, nid allwn ni, na dyfod at DDUW Tad, na'n heddychu âg ef, trwy na ffordd, na modd amgen na CHRIST IESU yn unig; canys ni ellir cael na ffafr DUW, na gwir ddiniweidrwydd, na chyfiawnder, na iawn dros bechod, na chynnorthwy, na diddanwch bywyd, na Iachawdwriaeth yn amgen nag yng NGHRIST IESU yn unig." Efe yw'r ſwm cyfan, neu'r canol-bwynt o bob gwirionedd neſ

efangylaidd

efangylaidd ; fel nad oes na gwybodaeth, na doethineb mor rhagorol, mor angenrheidiol, ac mor nefol ag yw gwybodaeth o GRIST, yn ol geiriau *Paul*, 1 Cor. ii. 2. *Ni fernais i wybod dim yn eich plith, ond* IESU GRIST, *a hwnnw wedi ei groes-hoelio.* Felly, nid oes dim i'w bregethu i ddynion, fel gwrthddrych eu ffydd, neu fel achos o'u Iachawdwriaeth, ond y fyddo mewn rhyw fodd neu gilydd, naill ai yn cyd-gyfarfod yng NGHRIST, ai yn cyfeirio atto.

Anti. O Syr! yr y'ch chwi yn fy moddloni yn aruthr, o'ch bod yn gosod y cwbl i GRIST. Ac yn wir, er na's buoch chwi yn ddiweddar mor efangylaidd yn eich athrawiaeth, ac y mae eraill yn y wlad hon (a hyn a barodd i mi droi oddi wrthych i wrando ar eraill) etto mi a welais gynt, ac a welaf etto, fod gennych chwi rwy o wybodaeth o athrawiaeth rhad ras DUW, nâ llawer o weinidogion yn ein mysg ni. Ac i addef y gwir, trwy eich cyfarwyddyd chwi, Syr, i'm harweiniwyd ar y cyntaf i ymwadu â'm cyfiawnder fy hunan, ac i lynu yn unig wrth gyfiawnder CRIST. Ac fel hyn y bu: Yn ol i mi fod dro hir yn broffeswr cyhoeddus o'r ddeddf, yn gyffelyb i'm cymmydog *Nomista*, ac i mi wrando yn unig ar y pregethwyr deddfol, y rhai a'm adeiladai â gweithredoedd da, megis y gwnelsid âg ef, yn ol eu harfer hwy. O'r diwedd, y daeth cyfaill attaf, yr hwn a ddysgasai lawer o athrawiaeth rhad ras, ac a'ch canmolodd chwi fel pregethwr godidog, ac a'm perswadiodd i fyned gyd âg ef i wrando arnoch; ac mae'n gôf gennyf, mai yn *Tit.* iii. 5. adn. yr oedd eich testyn chwi y pryd hwnnw, sef, *Nid o weithredoedd cyfiawnder, y rhai a wnaethom ni, eithr yn ol ei drugaredd yr achubodd efe nyni.* Ar ba eiriau y dangosasoch, ac a'i profasoch yn eglur, nad oedd gan gyfiawnder dyn un llaw yn ei gyfiawnhad, neu ei Iachawdwriaeth; ac yna y gwaharddasoch ni i osod ein hymddiried yn ein gweithredoedd a'n gwasanaeth ein hunain, ac a'n cyngorasoch i ddal gafael trwy ffydd ar gyfiawnder CRIST

yn unig. Ar ba eiriau y rhyngodd bodd i Dduw felly i weithio arnaf, nes i mi weled yn eglur nad oedd raid i mi wrth na gweithred na gwaſanaeth, na dim amgen, ond yn unig wrth ffydd yng Nghrist. Ac yn wir, fe foddlonodd fy nghalon â hyn yn ddioed, a mi aethum adref yn llawn tangnefedd, a llawenydd, a ffydd, gan roddi diolch i'r Arglwydd, am iddo waredu fy enaid o'r fath gaethiwed creulon y buaſwn i ynddo; ac yna yr adroddais i wrth fy nghydnabod a'm ceraint, pa fath fywyd y buaſwn i yn byw ynddo tan y ddeddf: Canys, os gwnawn i ond un pechod, fe'm cythryblid, ac a'm haflonyddid yn fy nghydwybod yn y man, fel na's gallwn i dim gael llonyddwch, nes y darfyddai i mi wneuthur cyffes ufudd o hono ger bron Duw, a deiſyf maddeuant a gollyngdod, ac addo gwellhad. Ond yn awr, ebe fi wrthynt, er cynnifer o bechodau y gwnawn, ni's gwaeth gennyf o ronyn, ac nid yw yn menu ar fy nghalon hyd y dydd heddyw am i mi bechu; oblegid fy mod yn credu yn ddilŷs, ddarfod i Dduw, er mwyn Crist, faddau i mi yn rhad ac yn llwyr fy holl bechodau gynt, a phreſennol, a rhag-llaw; hyd onid wyf yn credu na ddannodir i mi byth na phechod, na phechodau a'r a wnelwyf, gan fod yn ddiogel gennyf fy ngwiſgo mor gwbl â mantell cyfiawnder Crist, fel na wêl Duw un pechod ynof. Am hynny yn awr, yn ol cyngor yr Apoſtol, mi allaf lawenhau yn yr Arglwydd Iesu yn waſtadol, a byw yn llawen, er gwrthŷned creadur, ac er llawned o bechod, y byddwyf. Ac yn wir, yr wyf fi yn toſturio wrth y ſawl ſy'n byw yn yr un fath gyflwr caeth ag y bum i fy hun ynddo gynt; ac mi a ddymunwn arnynt gredu megis yr wyf finnau, fel y cyd-lawenychont â mi yng Nghrist §. Ac yn y modd hwn, Syr, fel y clywſoch,

§ Gwir a ddywedodd un gwr duwiol gynt, fod hâf-ddydd yr efengyl yn magu pryfaid drwg ym mhlith ei phroffeſwyr, ſef *Antinomiaid*; megis y dywed yr *Antinomian* yma, mai trwy

ſoch, yw fy nghyflwr i; am hynny yr attolygaf arnoch fynegi i mi eich tŷb am danaf.

Efan. Y mae llawer o ſôn y dydd heddyw yn y wlad hon ynghylch yr *Antinomiaid*, neu ddeddfwrthwynebwyr; ac er fy mod yn gobeithio nad oes nemmawr a haeddai'n enw hwnnw yn gyfiawn; etto gyd â'ch cennad, y dywedaf wrthych, fy mod yn ofni fod achos i mi ddywedyd wrthych chwi, megis y dywedodd un gynt wrth *Pedr*, ar achos arall, *Yn wir, yr wyt ti yn un o honynt; canys y mae dy laferydd yn dy gyhuddo*, Math. xxvi. 73. Ac am hynny i ddangos i chwi y gwirionedd, yn ol fy nhŷb i, yr wyf fi yn ammeu, pa un a wnaethoch chwi etto, ai gwir-gredu yng NGHRIST, ai peidio, er cymmaint yw eich ymffroſt, a'ch ſicrwydd. Ac yn wir, yr wyf yn ammeu hyn yn fwy, trwy alw i gôf glywed o honof nad yw eich ymddygiad chwi yn addas i efengyl CRIST. *Phil.* i. 27.

Anti. Gwrandewch, Syr, a'i poſſibl yw debygwch chwi, fod gan neb rhyw un y fath dangnefedd a

trwy athrawiaeth yr efangylwr y bu iddo ef ddyfod i'r fath rydd-did ac yr oedd ef yn awr ynddo, &c. ac felly y mae yn myned ym mlaen, gan dybied nad oes achos iddo ofalu pa fath fywyd a arweinio, ar ôl iddo gredu yng NGHRIST, heb yſtyried mai ffrwythau gwir ffydd yw gweithredoedd da; neu fel ynfyd yr hwn a ddywedai, am fod ei lygad yn dda, nad oes achos iddo wrth na throed na llaw, &c. Dyma fel yr oedd rhai yn cam-ddyall yr Apoſtol *Paul*, trwy ddywedyd ei fod yn peri iddynt wneuthur drwg, fel y deuai daioni; ac wrth hynny yn troi athrawiaeth rhâd ras i Antinomiaeth, neu *drythyllwch*, fel y dywed *Jud.* 4. Ac am fod yr Apoſtol yn gweled y perygl o fyned yr ochr hwnnw, efe a rybuddiai'r *Galatiaid* fel hyn; *I rydd-did i'ch galwyd chwi frodyr; yn unig nac arferwch y rhydd-did yn achlyſur i'r cnawd:* Ac yn wir fe ddylai bod llygad eddigeddus gan broffeſwyr yr efengyl ar yr ochr yma, yn enwedig y dyddiau hyn; — Gan wybod fod efengyl CRIST *yn arogl o farwolaeth i farwolaeth i rai*; felly, ai nid argoel o farwolaeth yw ffydd ben-rydd heb weithredoedd da? megis y dywed *Iago*, *Ffydd heb weithredoedd marw yw.* Da y dywedodd *Luwther*, "Yr hwn nad yw ei fywyd a'i ymarweddiad wedi ei gyd-ffurfio â chyfraith ogoneddus DUW, nid ffydd fywiol, ond ffydd farw yw ei ffydd ef."

llawenydd

llawenydd yng NGHRIST ac ſy gennyf fi hyd yn hyn, ac yn awr hefyd, i DDUW y diolchaf, ac etto heb iddo wir gredu yng NGHRIST ?

Efan. Ydyw yn wîr yn boſſibl, yn fy nhŷb i; canys onid yw ein Iachawdwr yn dywedyd, dderbyn o'r gwrandawyr hynny, a cyffelybaſai ef i't *Tîr cerrigog, yr hâd yn ebrwydd gyd â llawenydd, ac etto heb fod ganddynt wreiddyn ynddynt eu hunain.* Marc iv. 16. am hynny nad oeddent yn wîr ffyddloniaid. Ac onid yw'r Apoſtol yn hyſpyſu i ni, fod *Rhîth duwioldeb heb ei grym hi ?* Tim. iii. 5. Felly y mae rhith ffydd heb rym ffydd. Am hynny y gweddia ef ar i DDUW ganiattâu *i'r Theſaloniaid waith ffydd gyd â nerth.* 2 Theſ. i. 11. Ac megis y mae'r un Apoſtol yn hyſpyſu i ni fod ffydd, yr hon nad yw yn dwyllodrus, neu mewn rhith yn unig, felly yn ddiammau y mae ffydd dwyllodrus ragrithiol. Ac yn ſicr, pan ddywedai ein Iachawdwr *Marc* iv. 26, 27, 28. fod teyrnas DDUW, *fel pe bwriai ddyn hâd i'r ddaear, a chyſgu a chodi nôs a dydd, ac i'r hâd egino a thyfu y modd ni's gwyr ef, yn gyntaf yr eginyn, yn ôl hynny y dywyſen, yna yr ŷd yn llawn yn y dywyſen* ; Efe a hyſpyſai i ni, fod gwir ffydd yn dyfod bob yn ronyn trwy ddirgel allu DUW, fel na wŷr y gwir gredadyn ei hun weithiau na'r amſer, na'r pryd, na'r modd wrth ba un y gweithredwyd hi. Felly ni welwn, nad ydyw gwir ffydd, yn arferol, yn dechreu, ac yn cynnyddu at berffeithrwydd mewn munud, megis y bu eich ffydd chwi, fel y tebygid ; eithr hi a dŷf yn raddol yn ôl geiriau yr Apoſtol *Rhuf.* i. 17. *Cyfiawnder* DUW *a ddatguddir o ffydd i ffydd* ; h. y. o un gradd o ffydd i'r llall, o ffydd wan i ffydd gadarn, o ffydd ſy'n dechreu at ffydd ſy'n tyfu at berffeithrwydd, neu o ffydd o ymgyſylltiad i ffydd o ſicrwydd. Eithr nid o'r fath hyn y bu eich ffydd chwi, fel y tebygid ; am hynny er bod gennych chwi gynt, ac yn awr, lawer o dangnefedd a llawenydd, etto nid ydyw hyn yn arwydd ddidwyll o fod eich ffydd chwi

chwi yn gywir. Canys fe ddichon fod mewn dyn ryw gynhyrfiadau rhyfedd, ïe, fe all fod ganddo lawenydd mawr, fel pe cipid ef i fynu i'r trydydd nêf, a thŷb gadarn fod ei gyflwr ef yn dda ddigon; ac etto na byddo ef yſgatfydd ond rhagrithiwr er hyn i gyd: ac am hynny yr attolygaf arnoch yng ngeiriau'r Apoſtol, ar i chwi *broſi eich hunan, a ydych yn y ffydd*; ïe, *holwch eich hunan, ai nid ydych yn adnabod eich hunan, ſef, bod Ieſu Griſt ynoch, oddi eithr eich bod yn anghymmeradwy.* Ac *os yw Criſt ynoch, y mae'r corph yn farw o herwydd pechod, eithr yr yſpryd yn fywyd o herwydd cyfiawnder.* 2 Cor. xiii. 5. Rhuf viii.

Anti. Ond, Syr, od aeth fy nghyfaill *Nomiſta* ar ddidro trwy geiſio ei gyfiawnhau trwy weithredoedd y ddeddf, mi a debygwn, fy myned i ar hŷd y ffordd union wrth geiſio fy nghyfiawnhau trwy ffydd; ac etto yr ydych chwi yn barnu fel pe baem ni ein dau wedi myned allan o'r iawn ffordd.

Efan. Fe ddaw i'm côf yr hyn a ddywedodd *Luwther* ynghylch meddyliau dynion yn ei amſer ef: "Os, ebe efe, y pregethwyr a ddyſgent, nad oedd ein Iachawdwriaeth ni yn ſefyll, neu wedi ei ſeilio ar ein gweithredoedd, neu ar ymarweddiad ein bywyd, eithr ar ddawn Duw; rhai a gymmerent achos oddi-yno i ddiogi, a bod yn ddi-awydd i weithredoedd da, eithr yn hŷf i fyw yn ben-rydd ac yn annuwiol. Ac o'r tu arall, pan y dyſgent angenrheidrwydd bywyd ſanctaidd, duwiol, ac union, yna eraill yn orwyllt a freuddwydient am ddarparu Yſgolion i ddringo ar hyd-ddynt hwy i'r nefoedd". Ac heb law hyn, y mae ef yn coffâu fod rhyw rai, a chanddynt wâg yſprydion, ynfyd, a chyfeiliornus, yn cyffroi'r bobl (yn y flwyddyn 1525.) i derfyſg, gan ddywedyd wrthynt fod rhydd-did yr efengyl yn rhyddhau pob Criſtion oddi wrth bob mâth o gaethiwed deddfol: Ac eraill a oſodent holl nerth eu cyfiawnhad yn y ddeddf. Yn awr, ebe efe, y mae y rhai'n i gyd yn troſeddu yn erbyn y ddeddf, rhai ar y llaw ddehau a fynnent eu cyfiawn-

hau

hau trwy'r ddeddf, a'r lleill ar y llaw aſwy a ddymunent gael eu rhyddhau yn lân oddi wrth y ddeddf. Yn awr, mi a debygwn, y gellid eich cyd-maru chwi eich dau i'r rhai hyn a goffâodd *Luwther*. Canys amlwg yw i mi ddarfod i chwi, *Antinomiſta*, droſeddu ar y llaw aſwy, am na rodiaſoch yn ôl rheol y ddeddf: Ac yn yr un gyffelyb fodd, y mae yn eglur, yn fy nhŷb i, ddarfod i chwithau, *Nomiſta*, droſeddu ar y llaw ddehau, am i chwi geiſio eich cyfiawnhau trwy eich ufudd-dod i'r ddeddf.

Nom. Ond, Syr, Od yw ceiſio cyfiawnhad trwy weithredoedd y ddeddf yn gam-ſynied; etto fe welir wrth gyffes *Luwther*, nad yw ond cam-ſynied ar y llaw ddehau.

Efan. Ond etto, meddaf i chwi, y mae hyn o gam-ſynied wrth gyffes yr Apoſtol, cyn belled ac y b'o neb yn euog o hono, yn peri llawer o bechodau. Pwy bynnag a gam-ſynio fel hyn, y mae ef yn gwneuthur i'w hunan gynnifer Iachawdwr ac a wnelo ef o weithredoedd; mae ef yn gwrthod gras Duw, yn dirymmu marwolaeth CRIST, yn gŵyrdroi bwriad yr Arglwydd yn ei roddiad o'r ddeddf, a'r efengyl; ac yn ei gadw ei hun tan felldith y ddeddf, yn ei wneuthur ei hunan yn fab i'r gaethwraig, ac yn was, ïe, ac yn gaeth-was, ac yn rhwyſtro ei hun rhag rhedeg yn dda: *Gal.* v. 4, 7. ac ar fyrr, fe gymmer arno orchwyl ammhoſibl i'w gwblhau, a'i holl lafur fydd ofer yn y diwedd.

Nom. Fe debygid wrth hyn, Syr, fod fy holl amcan i ryngu-bodd Duw trwy fy ngweithredoedd da, a'm holl rodiad union gofalus yn ôl y ddeddf, a'm holl ymarweddiad oneſt cyfiawn, wedi gwneuthur mwy o niwaid nac o lês i mi.

Efan. Mae'r Apoſtol yn dywedyd, mai peth ammhoſibl yw rhyngu-bodd Duw heb ffydd; *Heb.* xi. 6. h. y. ebe *Calfin*, "Pa beth bynnag y feddylio, y fwriado, neu a wnelo dyn, cyn y b'o ef wedi heddychu â Duw trwy ffydd yng NGHRIST, y mae yn felltigedig; ac nid yn unig yn anfuddiol i'w gyſ-

iawnhau,

iawnhau, eithr yn wir, yn haeddu damnedigaeth; hyd onid yw'n wîr, fod y neb a geiſio ryngu-bodd Duw â'i weithredoedd a wnelo cyn iddo gredu, yn ceiſio ei foddloni ef â phechod; ac yn hyn ni wna ef amgen na phentyru pechod ar bechod, a gwatwor Duw, a'i annog ef i ddigofaint." Ie, medd *Luwther*, "Od wyt ti heb Grist, ynfydrwydd dau ddyblig yw dy ddoethineb mwyaf, a phechod ac annuwioldeb": Am hynny, er darfod i chwi rodio yn fanol yn ôl y ddeddf, a byw yn union; etto os gorphwyſaſoch, ac y goſodaſoch eich ymddiried ar hyn, heb ddyfod at Grist, yna, chwi a wnaethoch niwaid yn hytrach na daioni i chwi eich hunan. Canys y mae buchedd rinweddol, (ebe 'ſgrifennydd duwiol) a arweinir yn unig wrth oleuni nattur, yn gyrru dyn ymhellach oddi wrth Dduw, oddi eithr iddo ef 'chwanegu at hynny nerthol weithrediad ei Yſpryd. "A chyſtal, ebe *Luwther*, a fyddai iddynt hwy ac ſy'n hyderu yn unig ar fywyd oneſt, ac ymddygiad union oddi allan, tu ag at eu hargyoeddi a'u cyfiawnhau, fod yn odinebwyr, ac yn odinebwragedd, ac y f'o'n ymdroi yn y pwll o aflendid." Ac o herwydd hyn, yn ddiammau, y dywedodd ein Iachawdwr wrth y 'ſgrifenyddion a'r phariſeaid a geiſient gyfiawnhad trwy eu gweithredoedd ac a wrthodent Grist, yr elai'r publicanod a'r putteiniaid i mewn i deyrnas Dduw o'u blaen hwy. *Math.* xxi. 31. Ac ar hyn y dywedais innau, y gallai fy nghymmydog *Neophitus*, er a wn i, fod yng Nghrist o'ch blaen chwi.

Nom. Ond pa fodd y dichon hyn fod; ac yntef, fel y gwyddoch chwi, wedi cyffeſu ei fod ef yn anwybodus, ac yn llawn llygredigaeth, ac yn angyffelyb i mi o ran doniau a graſuſau?

Efan. Hyn ſy am fy mod i yn meddwl, fel yr oedd yn anhawſach i'r phariſeaid ddyfod at Grist, nac i'r publicanod; felly y mae yn anhawſach i chwi nag iddo yntau.

Nom. Paham hynny, attolwg, Syr? Pa beth ychwaneg

ychwaneg ſy i mi i'w wneuthur? Canys yn wir, mi fyddaf foddlon i'm cyfarwyddo gennych.

Efan. Y peth cyntaf ſydd i'w wneuthur, cyn y deloch at GRIST, yw dad-wneuthur y cwbl oll a'r y wnaethoch eiſoes; ſef, lle yr ydych wedi rhoi eich holl egni i fyned tu a'r nef ar hyd lwybr y cyfammod gweithredoedd, trwy ba un yr aethoch ar gyfeiliorn; ſe fydd yn rhaid i chwi ddychwelyd yn ôl ar hyd y ffordd y gerddaſoch, cyn y troedioch chwi droedfedd o'r llwybr union. A lle y ceiſiaſoch adeiladu i fynu adfeiliau yr hên *Adda*, a hynny arnoch eich hunan, yn gyffelyb i adeiladydd ynfyd a adeiladai dŷ gogwyddedig ar y tywod; rhaid i chwi ſwrw i lawr a llwyr ddinyſtrio yr holl adeiladaeth honno, heb adael maen ar faen, cyn y dechreuoch chwi adeiladu o'r newydd. A lle y tybiaſoch fod digonoldeb ynoch eich hunan i'ch cyfiawnhau ac i'ch achub, mae'n rhaid i chwi ſwrw yn eich calon ac addef nad oes ynoch, tu ag at eich Iachawdwriaeth, ond yr annigonoldeb; ïe, a bod y digonedd hwnnw a debygwyd fod ynoch yn golled i chwi. Mewn geiriau eglur, yn ôl cyngor ein Iachawdwr, *Math.* vi. 24. Mae'n *rhaid i chwi ymwadu â'ch hunan.* H. y. rhaid yw i'ch holl wybodaeth, a'ch doniau, a'ch holl wrandawiad, a'ch darlleniad, a'ch gweddiau, a'ch ymprydiau, a'ch wylofain a'ch galar, a'ch holl grwydro ar hyd lwybrau eich gweithredoedd, a'ch rhodiad manol, ſyrthio i'r llawr, ar frŷs; ar fyrr, mae'n rhaid i chwi weithian, gyd â'r Apoſtol, *ei gyfrif yn golled er mwyn Criſt, a'i farnu yn dom*, pa beth bynnag a gyfrifaſoch chwi gynt yn *elw i chwi* er eich cyfiawnhad, *ſel yr ynnilloch Griſt, ac i'ch ceffir yndde ef, heb eich cyfiawnder eich hunan, yr hwn ſydd o'r ddeddf, ond yr hwn ſydd trwy ffydd yng Nghriſt, ſef y cyfiawnder ſydd o Dduw trwy ffydd.* Phil. iii. 7, 8, 9.

Neoph. Ond pa beth, Syr, y gynghorwch chwi i mi ei wneuthur?

Efan. Pa beth, ddyn, ſydd yn eich blino?

Neoph.

Neoph. Syr, megis y gwelfoch fod yn dda i wran-
o arnynt hwy ill dau yn dangos eu cyflwr o'ch
laen, felly yr attolygaf arnoch roi cennad i minnau
efyd, yna y dyallwch pa fodd y mae gyd â mi.
'e ryngodd bodd i'r Arglwydd, yn ddiweddar, i
mweled â mi â mawr glefyd, hyd onid oeddwn yn
ir, yn fy nhŷb fy hunan, ac yn ôl barn pawb
'm gwelent, yn glâf hyd angau; ac yna y dech-
euais fyfyrio i ba le yr oedd fy enaid i ar fyned
n ôl ei ymadawiad o'r corph; a mi a feddyliais
nof fy hunan, nad oedd ond dau le, fef, Nef, ac
ffern; ac am hynny y byddai raid i mi fyned i un
'r ddau le hynny. Yna y deuai i'm côf fy much-
dd annuwiol bechadurus gynt; ar goffadwriaeth pa
n y bernais mai uffern oedd y lle a ddarparwyd
m derbyn i; a hyn a barodd i mi fod yn fraw-
chus, ac yn llawn ofn, ac yn alarus, am i mi
w mor bechadurus; ac yna mi a ddeifyfais ar yr
rglwydd i eftyn fy einioes ychydig bach ych-
aneg, gan ymrwymo fy hunan na phallwn i ddim
ddiwygio fy muchedd, a gwellhau fy ymarwedd-
d; ac fe welodd yr Arglwydd fod yn dda gan-
iattâu i mi fy arch. Er hynny o amfer, mae hyn
n wir, na's bum i mor annuwiol yn fy mywyd ag y
uafwn gynt; ond Och! yr wyf fi yn ffaelu cyrraedd
y bywyd duwiol crefyddol a welaf eraill yn byw,
c yn enwedig fy nghyfaill *Nomifta*; ac etto yr
dych chwi, fel y tebygid, yn meddwl, nad yw ef
ewn cyflwr dâ. Ond Och! Syr, beth, attolwg,
debygwch chwi ddaw o honof fi, os ydyw ef mor
ll yn ôl?

Efan. Yr wyf yn dyall ei bod yn awr yn bryd i
i ddangos, ddarfod i DDUW, yn ôl ei arfaeth cyn
od amfer, ac yn ôl ei addewid mewn amfer, ddan-
n, ynghyflawnder amfer, *ei Fab i'r byd wedi ei*
neuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf, fel
prynai y rhai oedd dan y ddeddf. Gal. iv. 4. Dyall-
ch yn awr, pa fodd y mae pob dyn wrth nattur
o y ddeddf, fel y mae yn gyfammod o weithred-

oedd; felly yr oedd CRIST fel Meichiau dyn, yn foddlon i fod; felly yn awr, yn ôl y tragywyddol a'r dirgel gyttundeb a fuafai rhyngtho ef a'i Dad, efe oſododd ei hunan yn lle'r holl ffyddloniaid, ac yn ôl geiriau *Eſaia*, *Yr Arglwydd a roddes arno ef ein hanwiredd ni i gyd.* Yna y daeth y ddeddf fel y mae hi yn gyfammod o weithredoedd, ac a ddywedodd; Mi a gefais hwn dan gyfrifiad pechod fel Meichiau, am hynny hoelier ef ar y groes i farw yno. Yna'r attebai CRIST, *Aberth ac Offrwm ni's mynaiſt, eithr corph a gymhwyſaiſt i mi*; *Offrymmau poeth, ac aberth dros bechod ni buoſt foddlon iddynt*; *yna y dywedais, Wele fi yn dyfod i wneuthur dy ewyllys di O Ddaw.* Heb. x. 5, 6, 7. Ar hyn yr aeth y ddeddf yn chwŷrn yn ei erbyn ef, ac a fwriodd arno yn ddiffafr, nes ei ladd ef. Ac wrth hyn y llwyr foddlonwyd cyfiawnder DUW'r Tad, ac y dofwyd ei ddigofaint ef, ac y rhyddhawyd y ffyddloniaid oddi wrth eu holl bechodau gynt, a phreſennol, ac i ddyfod; fel nad oes gan y ddeddf, megis y mae hi yn gyfammod o weithredoedd, ddim i'w ddannod i un gwir Gredadyn, am eu bod hwy yn ſicr wedi marw i'r ddeddf, a hithau yn farw iddynt hwythau.

Nom. Ond, Syr, pa fodd y gallai dioddefiadau CRIST, a hwy yn derfynedig o ran amſer, lwyr-foddloni cyfiawnder DUW, yr hwn ſydd anherfynedig?

Efan. Er bod dioddefiadau CRIST yn derfynedig o ran amſer; etto, o ran y dioddefwr, y maent o werth anfeidrol. Canys yr oedd CRIST yn DDUW ac yn Ddyn mewn un perſon! am hynny yr oedd ei ddioddefiadau ef yn bridwerth cyflawn ddigonol trosenaid dyn, am eu bod yn werthfawroccach na diſtryw a marwolaeth yr holl greaduriaid!

Nom. Ond chwi a wyddoch, Syr, fod y cyfammod o weithredoedd yn gofyn ufudd-dod neu gofpedigaeth berſonol ar law pob dyn, gan ddywedyd, *y ſawl a wnelo'r pethau hyn a fydd byw ynddynt, ond melldigedig yw'r neb ni pharhao ym mhob peth a'ſgri-*

fennir

ſennir yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt. Gal. iii. 10. Pa ſodd am hynny y rhyddheid y ffyddloniaid oddi wrth eu pechodau trwy farwolaeth CRIST?

Efan. I atteb i hynny, yſtyriwch, attolwg, er bod y cyfammod o weithredoedd yn gofyn ufudd-dod neu goſpedigaeth berſonol ar law pob dyn; etto nid ydyw yn un man yn gwrthod, neu yn naccâu dim a'r y wnelo neu a oddefo arall troſto; ac nid yw hyn ychwaith yn gwrthſefyll cyfiawnder Duw; canys os gwna ryw un iawn, trwy oddef coſpedigaeth cyflawn tros anufudd-dod un arall, fe a foddlonwyd y ddeddf, ac fe ganniattâ cyfiawnder Duw dderbyn y troſeddwr i ffafr, ac fe'i gyfrifir ger bron DUW fel gwr cyfiawn, ac nid troſeddwr o'r ddeddf, yn ôl gwneuthur iawn. Ac er gwneuthur o'r iawn trwy feichiau, etto yn ôl ei wneuthur, mae'r pen dyledwr yn rhydd wrth y ddeddf. Ond er rhagor o ſicrhad a phrofiad o hyn o bwngc, mae hyn yw yſtyried gennym; megis ac yr ymrwymodd CRIST IESU, yr ail *Adda*, yn yr un cyfammod ac y rhwymwyd yr *Adda* cyntaf, felly y cyflawnodd CRIST pa beth bynnag a'r adawodd yr *Adda* cyntaf heb ei wneuthur, neu wedi ei ddrwg-weithredu; felly yn y modd hwn y mae'r matter yn ſefyll, megis y cyfrifwyd, pa beth bynnag y wnaeth *Adda* ac y haeddodd, i bob dyn, ſel pe gwnelſent hwy eu hunain, neu fel pe haeddaſent yr un pethau; felly pa beth bynnag y wnaeth neu a haeddodd CRIST, a gyfrifir, fel pe gwnelſid, neu fel pe haeddaſai, yr holl ffyddloniaid ef. Felly megis y daeth pechod *Adda* oddi wrtho ei hunan at bob dyn, fel yr hwn ymha un y pechaſai pawb, felly y daw cyfiawnder oddi wrth GRIST IESU ei hunan, fel ymha un y cyflawnaſai pawb gyfiawnder DUW. Canys megis troſeddodd pawb orchymun DUW yn a thrwy *Adda*, trwy fod ynddo ac o hono ef, felly o ran rydd trwy ba un yr himpier y ffyddloniaid oll yng GHRIST, ac y gwneir hwy yn un âg ef yn yſprydol, hwy a foddlonaſant gyfiawnder DUW, yn a thrwy

GRIST yn ei farwolaeth a'i ddioddefiadau. A phwy bynnag a gyfrifo fel hyn, fy'n cyd-fynnio â'r 'fgrythur, lle mae'r Apoftol yn dywedyd, *bechu o bawb* ymhechod *Adda*, neu yn *Adda* fel Pen cyffredin. Canys yn ei weithred ef y cynnwyfwyd holl weithredoedd holl ddynion y byd, am eu bod hwy wedi eu cynnwys ynddo ef. Felly hefyd y dywedir, *fyned marwolaeth ar bob dyn*, fef, am gyfrif pechod *Adda*, fel eu pechod priodol hwy. Yn yr un modd mae'r Apoftol *Rhuf.* vi. 10. yn dywedyd am GRIST, *fel y bu efe farw, fe a fu farw un waith i bechod*; a *fel y mae ef yn byw, byw y mae i Dduw.* a'r adn. nefaf y chwanega ef, *Cyfrifwch eich hunain yn farw i bechod, eithr yn fyw i Dduw yng Nghrift Iefu ein Harglwydd.* Yn yr un modd mae'r Apoftol yn ymrefymmu ynghylch adgyfodiad CRIST, fef, y cyfodai'r ffyddloniaid oll, o herwydd *cyfodi Crift, a'i wneuthur yn flaen ffrwyth o'r rhai a hunafant* 1 Cor. xv. 20. felly CRIST, fel y blaen-ffrwyth, a gyfododd, nid yn ei enw ei hunan, ond yn enw ac yn lle'r holl ffyddloniaid; a hwy a gyfodafant ynddo a chyd âg ef. Canys ni chyfododd CRIST fel gwr neillduol unig, eithr fel Pen cyhoedd cyffredin o'r eglwys; hyd oni chyfododd yr holl ffyddloniaid, *o ran ei hawl*, yn ei gyfodiad ef. Ac megis y cyfiawnhawyd ac y rhyddhawyd CRIST ei hun, ar ei gyfodiad, oddi wrth bechodau'r holl ffyddloniaid yngwŷdd Duw'r Tâd, am ei fod ef weithian wedi talu cyflawn iawn drofty nt, felly hefyd yr oeddent hwythau ‡. Canys y mae ufudd-dod CRIST yn cael ei gyfrif i'r ffyddloniaid gan DDUW ar eu cyfiawnhad, ac yn eu gofod yn yr un cyflwr, o ran cyfiawnder i fywyd, ger bron Duw, ac y buafent, pe rhoddafent ufudd-dod per-

‡ H. y. *O ran eu hawl, ac nid yn weithredol.* Mae'n eglur mai hyn yw meddwl yr awdwr, pan y mae yn llafaru â *Neophitus*, ac yn dywedyd yn bendant am dano, ei fod ef wedi e gyfiawnhau *yn haeddiannol* yn Angau ac Adgyfodiad CRIST, ond ni's cyfiawnhawyd ef *yn weithredol*, nes iddo ef yn *weithredol* gredu yng NGHRIST.

ffaith

ffaith i'r cyfammod o weithredoedd, ſef, *gwna hyn, a byw fyddi.*

Nom. Ond, Syr, a ydyw'r ffyddloniaid yn feirw i'r ddeddf, a'r ddeddf iddynt hwythau?

Eſan. Megis ag y mae'r ddeddf yn gyfammod o weithredoedd, mae'r holl ffyddloniaid yn feirw iddi hi, a hithau yn farw iddynt hwythau; canys a hwy wedi eu cyd-gorpholi â CHRIST, ſe wnaeth y ddeddf, neu'r cyfammod o weithredoedd yr un peth iddynt hwy ag a wnelſai iddo ef; hyd onid oedd yr holl ffyddloniaid, mewn rhyw fodd, yn cael eu croes-hoelio gyd â CHRIST ar y groes, pan ydoedd CRIST ei hunan wedi ei hoelio yno. Ac am hynny, yn ol i'r Apoſtol ddywedyd, *Yr wyf fi trwy'r ddeddf yn farw i'r ddeddf*, Gal. ii. 19. Efe a ddywed yr adn. neſaf, *Mi a groes-hoeliwyd gyd â* CHRIST. Y geiriau hyn mae'r Apoſtol yn ei arferyd fel rheſwm i ſicrhau ei fod ef yn farw i'r ddeddf, am fod y ddeddf wedi ei groes-hoelio ef gyd â CHRIST. Ar ba eiriau y dywaid *Luwther*, "Yr wyf finnau hefyd wedi'm croes-hoelio ac yn farw i'r ddeddf, yn gymmaint a'm bod i wedi fy nghroes-hoelio ac yn farw gyd â CHRIST. A thrachefn, (ebe efe) fe'm croes-hoeliwyd i gyd â CHRIST, am fy mod i yn credu yng NGHRIST". Yn yr un modd y dywaid yr Apoſtol wrth y *Rhufeiniaid* crediniol, felly *Chwithau, fy mrodyr, ydych wedi meirw i'r ddeddf trwy Gorph* CRIST. Yn awr wrth Gorph CRIST, y meddylir dioddefaint CRIST ar y groes, neu'r un peth a dioddefaint CRIST yn ei anian ddynol. Am hynny nyni a allwn ddibennu gyd â Gwr duwiol, eu bod hwy oll yn feirw i'r ddeddf, ſef yr rhai a groes-hoeliwyd trwy ffydd gyd â CHRIST.

Nom. Ond attolwg, Syr, pa fodd y dangoſwch fod y ddeddf yn farw i'r Credadyn?

Eſan. Mae'r Apoſtol, fel yr wyf fi yn barnu, yn ſicrhau hyn yn y vii. Ben. at y *Rhufeiniaid.*

Nom. Yn wir, Syr, yr ydych chwi yn cam-

ſynied; canys yr wyf fi yn cofio mai hyn yw ei eiriau ef yn yr adn. gyntaf, *Oni wyddoch chwi, fod y ddeddf yn arglwyddiaethu ar ddyn, tra fyddo ef byw.* Ac yn y 6. adn. y dywaid efe, *Eithr yn awr yr rhyddhawyd ni oddi wrth y ddeddf, wedi ein meirw i'r peth i'n hattelid; &c,*

Efan. Mi a wn yn hyſpys, mai felly y darllenir y geiriau yn y cyfieithiad diweddaf, ond y mae'r dyſgedig Mr. *Tindal* yn eu darllain fel hyn, *Oni wyddoch chwi, Frodyr, fod y ddeddf yn arglwyddiaethu ar ddyn tra fyddo hi yn parhau.* Ac y mae Eſgob *Hâl* yn eu heſponio fel hyn, *Oni wyddoch chwi, frodyr, fod deddf Moſes yn arglwyddiaethu ar ddyn a fo yn ddaroſtyngedig iddi, cyhyd ag y b'o'r ddeddf honno mewn grym.* Felly y cyttuna *Origen*, ac *Ambros*, ac *Eraſmus*, mai wrth y geiriau hyn, ſef, *cyhyd ag y byddo efe, neu hi yn parhau ac yn byw*, y dylem ni ddyall, cyhyd ag y parhao'r ddeddf. Ac mae *Peter Martyr* yn meddwl y gellid goſod y geiriau hyn, *Tra fyddo efe, neu hi yn parhau, neu yn byw*, at yr un a ſynnom o'r ddau, ai'r ddeddf, ai'r dyn; canys fe ddywedir, ebe efe, fod y dyn wedi marw yn y 4. adn. a'r ddeddf a ddywedir ei marw yn y 6. adn. Felly o herwydd fod y gair *Efe*, a *hi*, a goffair yn yr adn. gyntaf, yn arwyddo'r ddau ryw yn y Groeg; mae *Criſoſtom* yn meddwl y gellir yſtyried marwolaeth y ddau, ſef, y dyn a'r ddeddf. Ac y mae *Theophilact*, *Eraſmus*, *Buſer*, a *Chalfin*, yn gyttun yn dyall marwolaeth y ddeddf yn y 6. adn. Ac fel y cwblhawyd marwolaeth Credadyn i'r ddeddf, trwy farwolaeth CRIST, felly bu'r ddeddf farw iddo yntef: Fel ag y mae Mr. *Ffox*, yn ei bregeth am CRIST a groes-hoeliwyd, yn tyſtio, gan ddywedyd, "Dymma ddau groes-hoeliad ar yr un groes, dau o'r Pennaduriaid gwŷchaf a fu mewn byd erioed, ſef, Mab Duw, a Chyfraith Duw; a'r ddau yn ymdrechu â'u gilydd ynghylch lachawdwriaeth dyn, a'r ddau yn cael eu taflu i'r llawr, a'r ddau wedi eu lladd ar yr un groes; eithr nid yn yr un gyffelyb fodd. Yn gyntaf, Mab Duw a ſwriwyd i'r

llawr,

llawr, ac a gymmerth y cwymp, eithr nid o achos un gwendid ynddo ef ei hun, canys yr oedd yn foddlon i'w gwympo, er mwyn ynnill buddugoliaeth i ni; ac ar y cwymp hwn y daliwyd y ddeddf yn ei rhwyd ei hunan; ar fwriad CRIST i'r llawr, hi a hoeliwyd yn ddiogel, law a throed, ar y groes; yn ol geiriau'r Apoſtol at y *Coloſiaid.*" Ac felly *Luwther*, i'r un yſtyr, a ddywaid, "Ymdrech rhyfeddol oedd hwn, ebe efe, ymha un y mae'r ddeddf, a hi yn greadur, yn ymgyfodi yn erbyn ei Chreawdwr, ac yn tywallt ei holl lid a'i chreulondeb ar Fab Duw." Ac yn awr, o herwydd ei chyflawn foddloni, y mae hi wedi ei chroes-hoelio i'r Credadyn. Nid yw hi wedi ei gorchfygu, a'i barnu, a'i lladd, yn unig i CRIST, ond i bob un ſy'n credu ynddo ef, i ba rai y rhoddes ef hyn o fuddugoliaeth yn rhad. Yn awr, am hynny, er bod y cyfammod o weithredoedd a'r dyn yn rhwymedig wrth nattur y naill i'r llall, tra byddont ill dau yn aros, yn ol geiriau'r Apoſtol yn nechreu y vii. at y *Rhufeiniaid*; etto os bydd y gwr yn rhydd yn ol marw'r wraig, mwy o lawer pan fyddo yntef farw hefyd.

Nom. Ond pa beth, Syr, attolwg, ſydd i'w ddyall wrth y ddau fâth farwolaeth yma, neu ym mha beth y mae'r rhydd-did hyn oddi wrth y ddeddf yn gynnwyſedig?

Efan. Nid yw marwolaeth ond dattodiad o beth cymmyſgedig, neu wahaniaeth rhwng y ſylwedd a'r ffurf; am hynny, pan y gwahenir rhwng enaid dyn a'i gorph, nyni a ddywedwn ei farw ef; felly nid ydym ni yn meddwl wrth y ddau fâth farwolaeth yma ddim amgen na hyn, ſef bod y cyfammod, a wnaed rhwng Duw a dyn ar y cyntaf, wedi ei ddattod, a'i ddatglymmu, neu fod y ſylwedd a'r ffurf o'r cyfammod o weithredoedd wedi colli ei rym i'r Credadyn, fel nad yw cyfraith y dêg gorchymun nac yn addo bywyd tragywyddol, nac yn bygwth marwolaeth dragywyddol iddo, ar nac ammod o'i ufudd-dod, nac o'i anufudd-dod iddi; ac nid yw'r

Credadyn

Credadyn ychwaith, fel y mae ef yn Gredadyn, nac yn gobeithio cael bywyd tragywyddol, nac yn ofni marwolaeth dragywyddol ar y fath ammodau. Canys y mae yn ſicr gennym, am ba beth bynnag y mae'r ddeddf yn ei ddywedyd, mai wrth y rhai ſy tan y ddeddf y mae hi yn dywedyd; eithr nid yw'r ffyddloniaid tan y ddeddf, *eithr tan ras*; ac felly y dianghaſant rhag marwolaeth dragywyddol, ac a gawſant fywyd tragywyddol, trwy ffydd yn Iesu Grist. *Canys trwyddo ef y cyfiawnheir pob un ſydd yn credu, oddi wrth yr holl bethau, trwy ba rai ni allent gael eu cyfiawnhau trwy ddeddf Moſes.* Act. xiii. 33. *Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a greda ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol.* Ioan iii. 16. A thymma'r cyfammod hwnnw o ras a wnaeth Duw, fel y dywedais o'r blaen, â'r tadau trwy'r addewid, ond ni's gwnaethpwyd mo hono yn olau; ond yn awr mewn cyflawnder amſer, a agorwyd ac a gyhoeddwyd yn eglurach o lawer iawn.

Anti. Da iawn, Syr; Chwi a'i gwnaethoch yn ſicr, ac yn amlwg, i Grist waredu y ffyddloniaid oddi wrth y ddeddf, fel y mae hi yn gyfammod o weithredoedd, am hynny does dim ganddynt i wneuthur â hi.

Efan. Nid oes dim gan y rhai ſy eiddo Crist i wneuthur â'r cyfammod o weithredoedd, ond â Christ yn unig. Canys er bod Duw o un ochr, a dyn o'r ochr arall, wrth wneuthur y cyfammod o weithredoedd ar y cyntaf; etto yr oedd Duw ei hun o'r ddau ochr yn yr ail waith. Duw, o'i yſtyried yn ddi-gymmyſgiad yn ei ſylwedd, oedd yn un cyferbynol i ddyn; a Duw, yr ail Berſon, wedi cymmeryd arno ymgnawdoli, ac i weithredu prynedigaeth dyn, oedd o ochr dyn, ac yn ymddangos droſto, fel y cymmodai ef Dduw a dyn, trwy ddwyn pechodau'r dyn, a boddloni cyfiawnder Duw troſtynt; ac yn ôl hynny y talodd Crist i Dduw, nes iddo ddywedyd, iddo gael ei ddigon, a'i ſod wedi cael ei lwyr foddloni a'i dalu. Ac ar hyn y

rhoddwyd

rhoddwyd holl bobl CRIST iddo ef ar eu hetholedigaeth hwy; *Eph.* i. 4. *Eiddot ti oeddynt, a thi a'i rhoddaiſt hwynt*, ebe efe, *i mi. Y mae ef*, ſef y Tad, *yn caru'r Mab, ac efe a roddodd bob peth i'w ddwylo ef:* Ioan iii. 35. h. y. efe ymddiriedodd iddo oruchwyliaeth, a gweithredol weinidogaeth yr awdurdod honno yn yr eglwys, a berthynaſai yn briodol, ac yn ddechreuol iddo ef ei hun; a hyn a barodd i GRIST ddywedyd, *Y Tad nid yw yn barnu neb, eithr efe a roddes bob barn i'r Mab.* Pen. v. 22. Felly yr unig gyfammod, y mae'r Crediniol i edrych atto am fywyd a Iachawdwriaeth, yw'r cyfammod rhad a graſlawn ſydd rhwng DUW â CHRIST. Ac yn y cyfammod hwn nid oes na chyfraith, nac ammod i'w gadw o ran dyn wrtho ei hunan §. Am hynny, fy nghymmydog *Neophitus*, yr wyf yn dymuno arnoch i gredu yn ddiſigl, nad oes yma ddim i chwi wneuthur, neu i'w roddi i DDUW, tu ag at gael bywyd a Iachawdwriaeth, neu er mwyn i chwi gael eich cyſiawnhau, ond yn unig derbyn y tryſor gwerthfawr yma, ſef CRIST, a chymmeryd gafael arno ef yn eich calon trwy ffydd, ïe, er cymmaint, a chynnifer y b'o eich pechodau; ac yna y cewch chwi faddeuant o'ch pechodau, a chyfiawnder, a dedwyddwch tragywyddol, nid fel gweithredydd, ond fel derbyniwr, nid gan wneuthur, ond gan dderbyn gan arall; nid oes yma ddim yn gyfrwng ond ffydd yn unig, trwy ba un yr ymaflir yng NGHRIST yn yr addewid. Hyn am hynny yw cyfiawnder perffaith, na b'och chwi yn gwrando ar ddim, yn gwybod dim, yn gwneuthur dim o'r ddeddf weithredoedd, ond yn unig gwybod a chredu fyned o IESU GRIST at y Tad, a'i fod ef yn eiſtedd ar ei ddeheulaw ef, nid fel barnwr, ond a *wnaeth-*

§ H. y. Tu ag at gael bywyd a Iachawdwriaeth dragywyddol; canys y mae IESU GRIST wedi cymmeryd hynny yn hollol arno ei hun; pe amgen; fe fuaſai Iachawdwriaeth byth allan o'n cyrraedd ni; y rhai oeddem feirw mewn pechōd, a than ddigofaint DUW.

pwyd

pwyd i chwi gan Dduw yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn ſanctteiddrwydd, ac yn brynedigaeth. Am hynny, megis ag y dywedodd *Paul* a *Silas* wrth geidwad y Carchar gynt, y dywedaf finnau wrthych chwithau, *Cred yn yr Arglwydd Ieſu Griſt, a chadwedig fyddi.*

Neoph. Ond, Syr, a oes i neb o'm bâth i un ſail i gredu yng NGHRIST?

Efan. Yſtyriwch, attolwg, fod DUW'r Tad, ſel y mae ef yn ei Fab IESU GRIST, heb ei annog gan ddim, ond o'i gariad rhad at ddyn colledig, wedi addo yn rhad, na chollid yr un o'r ſawl a gredent ynddo ef, eithr y caent hwy fywyd tragywyddol. Ac ar hyn y dywedodd ein Iachawdwr ei hun wrth ei ddiſgyblion, *Marc* xvi. 15. *Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur*; h. y. Ewch, a mynegwch i bawb fel eu gilydd, fod yma newyddion da iddynt, ſef, farw o GRIST droſtynt; ac os hwy a'i cymmerant ef, ac a dderbyniant ei gyfiawnder ef, hwy a'i cânt ef ſicr. Am hynny yn gymmaint a bod y 'ſgrythur (fel y dywaid 'ſgrifenydd duwiol) yn dywedyd wrth bawb fel y gilydd yn gyffredin, ni ddylai neb anobeithio am dano ei hunan, eithr credu'r gair, ¶ fod hyn yn perthyn iddo ef yn neillduol. Ac er mwyn yſtyried y pwngc hwn yn well, ym mha un y cynnwyſir holl ddirgelwch ein ffydd ni, gadewch i mi feddwl, neu

¶ Ond d. ſ. Nid cyd-ſyniad â'r gwirionedd, trwy roddi cred i wirioneddau'r efengyl, ddarfod i GRIST lwyr orphen Iachawdwriaeth i bechaduriaid, &c. yw ffydd gadwedigol; nag ë, yn ſicr; canys fe ddichon cythreuliaid gredu hynny; Am hynny y mae'n rhaid i bob un a fynno fod yn gadwedig, eu credu â'r galon, a hynny hefyd gyd â chymhwyſiad neillduol o hony t at ei gyflwr ei hun; megis y dywed yr Apoſtol, *Rhuſ.* x. 9. 10. *Os cyffeſi â'th enau yr Arglwydd Ieſu, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig fyddi*; Dyma gred a'n cyſyllta â CHRIST, ac na ddichon cythreuliaid, a dynion gwrthodedig byth ei chyrraedd: Ond diammau yw, fod llawer yn pretendio, neu yn cymmeryd arnynt, ddarfod i GRIST wneuthur a dioddef y cwbl droſtynt, a'r na fyddant byth gadwedig, o ddiffyg bod ganddynt y wir ffydd gymhwyſiadol, gadwedigol honno, ag ſydd yn uno pechadur â CHRIST,

ofyn

ofyn fel hyn, beth, pe gorchymynai rhyw frenin da gyhoeddi trwy ei deyrnas gyd â ſain udgorn, mai rhydd oedd i bob gwrthryfelwr, a phob gwr a allt-udwyd, ddychwelyd i'w dŷ ei hun yn ddiofn; o herwydd rhyngu-bodd y brenin, ar ymbiliad a rhyg-lyddiant ryw gâr anwyl iddynt, eu pardynu? Yn wir, ni ddylai un o'r gwrthryfelwyr hynny ammau, na's caffai ef lwyr faddeuant o'i droſedd, a rhydd-did i ddychwelyd adref, ac i fyw yn ddiofn dan gyſgod y brenin graſol hwnnw. Yn yr un cyffe-lyb, ſe ddarfu i'n Brenin tirion, Arglwydd nef a daear, er mwyn ufudd-dod a rhyglyddiant ein hanwyl a'n daionus Frawd IESU-GRIST, faddeu i ni ein holl bechodau †, ac efe a barodd gyhoeddi trwy'r holl fyd, mai rhydd oedd i bob un o honom ddychwelyd adref yn ddiofn at ein DUW yng NGHRIST IESU; am hynny na amheuwch o hyn, attolwg, eithr *neshewch â chalon gywir mewn llawn ſyder ffydd.* Heb. x. 22.

Neoph. Ond, Syr, yn y gyffelybiaeth hyn mae'r peth yn wahanol; canys pan ddanfono brenin daear-ol y fath gyhoeddiad, mae'n debygol ei fod ef yn ddi dwyll yn bwriadu maddeu iddynt oll, ond ni ellir dywedyd felly am Frenin y nêf; canys onid yw'r ſgrythur yn dywedyd, *rhag-ordeinio rhai er ys talm i ddamnedigaeth?* Jud 4. Ac onid yw CRIST yn dywedyd, fod *Llawer wedi eu galw, ac ychydig wedi eu dewis?* Math. xxii. 14. Am hynny yr wyf fi yſgat-ſydd yn un o rhei'ny a rag-ordeiniwyd i ddamnedig-

† Nodwn yma, fod dau fath o faddeuant (1.) Maddeuant o gyhoeddiad, megis o frenin i wrthryfelwyr; a maddeuant gweithredol, ſef, pan y mae ef yn cael ei dderbyn gan y gwr-thryfelwyr. Felly yma, y dywedir am y maddeuant cyntaf, yr hwn a gynnwyſir ynghoeddiad cyffredinol yr efengyl, fel y dy-wedir yn *Act.* xiii. 38. *Bydded hyſbys i chwi, ha wyr frodyr, mai trwy hwn yr ydys yn prgethu i chwi faddeuant pechodau.* (2.) Pan y derbynir y maddeuant hwn trwy wir ffydd, ar ol geiriau CRIST ei hun, *Y neb a gredo a ſydd cadwedig. Cyn-ifer ag a'i derbyniſant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw.*

aeth;

aeth; ac er fy ngalw i, etto byth ni'm dewiſir, ac felly ni byddaf fi gadwedig.

Efan. Arhoſwch, attolwg, ac yſtyriwch, pa fath ddynion, a ddywaid *Judas* ſy'n cael eu rhag-ordeinio i ddamnedigaeth, ſef, *Annuwiolion yn troi gras Duw i drythyllwch, ac yn gwadu'r unig Arglwydd Ddduw, a'n Harglwydd Ieſu Griſt.* Ond am fod yr Arglwydd yn cynnyg maddeuant yn gyffredinol i bawb ſel eu gilydd, heb goffau nac etholedigaeth, na gwrthodedigaeth, yn ddiau ynfydrwydd o'r mwyaf y fyddai i un dyn ddywedyd fel hyn; nid wyf fi yſgatfydd wedi fy ethol, ac am hynny ni chaf fi un lleſâd oddi wrtho; ac o herwydd hynny ni dderbynniaf fi ddim o hono, ac ni ddeuaf i mewn; eithr yn hytrach, y dylai hyn annog pob dyn i fod yn ddiwyd i *wneuthur ei alwedigaeth a'i etholedigaeth yn ſiur*, trwy gredu mai gwir yw hyn; rhag i ni ffaelu o'i gyrraedd, yn ôl geiriau'r Apoſtol, *Ofnwn gan hynny, gan fod addewid wedi ei adael i ni fyned i mewn i'w orphwyſfa ef, rhag bod neb o honoch yn debyg o fod yn ôl.* Heb. iv. 1. O herwydd pa ham, na ddywedwch, attolwg, yr wyf fi yſgatfydd heb fy ethol, am hynny ni chredaf ddim yng NGHRIST; ond dywedwch yn hytrach, yr wyf fi yn credu yng NGHRIST, am hynny mae'n ſicr gennyf fy mod i yn etholedig; a beiwch ar eich calon eich hun, am i chwi ymyrred â dirgelion Duw, ac yſpio i'w gyngor cuddiedig ef, ac nac ewch mwy tu hwnt i'ch terfynau, ſel yr aethoch yn y pwngc hwn. Canys dirgelwch yw arſaeth Duw; ac y mae'r 'ſgrythur yn dywedyd, mai *eiddo'r Arglwydd yw dirgeledigaethau, a bod pethau amlwg wedi eu rhoddi i ni.* Deut. xxix. 29. Yn awr ewyllys datguddiedig DUW yw hyn, canys ei orchymun pendant ef yw, ar i ni *gredu yn enw* ei Fab ef IESU GRIST; a'i addewid ef ei hun yw, *os credwch, ni'ch collir ddim, ond chwi a gewch fywyd tragywyddol.* Gan hynny, am fod cyſtal ſail gennych a gorchymun Duw, a chyſtal annogaeth a'i addewid raſol ef, gwnewch chwithau eich dyled-ſwydd;

canys

canys wrth hynny y ſicrhewch yn ddiogel, ac yn gadarn eich bod chwi yn un o etholedigion DUW. Dywedwch fel hyn, attolwg, a hynny trwy ffydd, y mae Cyfiawnder CRIST yn eiddo pawb a gredant; ïe, dywedwch megis y dywedodd yr Apoſtol, *Yr ydwyf fi yn byw trwy ffydd Mab* DUW, *yr hwn a'm carodd i, ac a'i rhoddes ei hun drofof fi.* Gal. ii. 20. "Ni welodd DUW (ebe *Luther* ar y teſtyn hwn) ddim ond annuwioldeb ynof fi, a chyfeiliornad, ac ymadawiad oddi wrtho; etto fe drugarhaodd yr Arglwydd graſlawn wrthyf, ac o'i wir drugaredd a'm carodd i; ïe, efe a'm carodd i cymmaint, fel yr rhoddodd ef ei hunan trofof. A phwy yw'r *myfi* hwnnw? Nid amgen na *myfi* bechadur truan colledig, yr hwn a garodd Mab DUW mor anwyl, ag iddo roi ei hunan trofof." O ceiſiwch gan hynny argraphu y gair hwn *(myfi)* yn eich calon a gofodwch ef yn agos attoch eich hunan, heb ammau dim, ond credu eich bod chwithau yn un o honynt hwy, i ba rai y perthyn y gair hwn *myfi.*

Neoph. Ond gwrandewch, Syr, ai poſſibl yw, y dichon y fath ddyn truan pechadurus ag wyf fi gael ei ſicrhau o fod yr Arglwydd DDUW yn gorchymun i myfi gredu, ac iddo wneuthur addewid i myfi?

Efan. Pa ham yr ydych yn ammau hyn yn ddiachos? *Ewch,* ebe CRIST, *a phregethwch yr efengyl i bob creadur:* h. y. ewch a mynegwch i bob dyn, yn ddiwahaniaeth, o ba fath bynnag y b'o ei bechodau ef, o ba fath bynnag y b'o ei wrthryfel ef; etto ewch, a mynegwch iddo hyn o newyddion da, os efe a ddaw i mewn, Myfi a'i derbyniaf, ei bechodau a faddeuir iddo, ac efe a fydd cadwedig; os efe a ddaw i mewn a'm derbyn i, Myfi a fyddaf yn wr cariadus iddo ef, ac efe a fydd yn wraig anwyl i mi. Rhowch gennad i mi ddywedyd wrthych yngeiriau'r Apoſtol, *Yr ydwyf fi, fel cennad tros* GRIST, *megis pe byddai* DUW *yn deiſyf arnoch trwof fi, yr ydwyf yn erfyn tros* GRIST, *Cymmoder chwi â* DUW:

Canys yr hwn yr nid adnabu bechod, a wnaeth efe yn bechod troſoch chwi, fel y'ch gwnelid chwi yn gyfiawnder DUW *ynddo ef.* 2 Cor. v. 20, 21.

Neoph. Ond a ydych chwi yn dywedyd y byddai i mi gael fy nyweddïo â CHRIST, os credaf ynddo?

Efan. Felly y dywedais, a gwir yw; canys y mae ffydd yn cyſſylltu'r enaid â CHRIST, fel y cyſſylltir gwraig â'i gwr, hyd oni wneir CRIST a'r enaid yn un: Canys megis ag y gwneir gwr a gwraig ar briodas gorphorol yn un cnawd, felly yn y briodas yſprydol ddirgel hon, y gwneir CRIST a'r enaid yn un yſpryd; a'r briodas hon yw'r un mwyaf perffaith, am nad yw priodas rhwng gwr a gwraig ond fel arwydd yſgafn o'r cyſſylltiad yſprydol hwn. Gan hynny, yr wyf yn erfyn arnoch gredu hyn mewn gwirionedd, ac yna y byddwch ſicr o'i fwynhau.

Neoph. Yn wir, Syr, os dywedodd *Dafydd ai yſgafn yw yn eich golwg chwi ymgyfathrachu â brenin* daearol, *a minnau yn wr tlawd a gwael?* 1 Sam. xviii. 23. Y mae i mi fwy o achos i ofyn, ai yſgafn yw yn eich golwg chwi ymgyfathrachu â Brenin nefol, a minnau yn ddyn tlawd, gwael, pechadurus? Yn wir, Syr, ni ellir fy mherſwadio i gredu hyn.

Efan. O ddyn! Yr ydych chwi yn cam-ſynied ym mhell, am eich bod yn edrych ar DDUW, ac arnoch eich hunan â llygad rheſwm naturiol, fel pe baech yn ſefyll mewn perthynas i'ch gilydd yn ol dull y cyfammod o weithredoedd; lle y dylech chwi, ar achos cyfiawnhad, a chymmodiad, edrych ar DDUW ac arnoch eich hunan â llygad ffydd, fel yn ſefyll mewn perthynas i'w gilydd yn ol dull y cyfammod o ras: Canys *yr oedd Duw yng Nghriſt*, ebe'r Apoſtol, *yn Cymmodi'r byd ag ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau*; fel pe dywedaſai efe wrthynt, megis ac y mae DUW yn ſefyll gyferbyn â dyn, yn ol dull y cyfammod o weithredoedd, ac fel hynny allan o GRIST, nid allai ef, heb rwyſtr i'w iawn farn, ei

Gymmodi

Gymmodi â dyn, nac ymyrred âg ef yn amgen nac yn ei gyfiawnder a'i ddigofaint; ac am hynny, fel yr ymgyfarfyddai trugaredd a barn, ac yr ymgufanai cyfiawnder a heddwch, ac fel y fafai DUW gyferbyn â dyn, yn ol dull y cyfammod o ras, efe a ofododd ei hun yn ei Fab IESU GRIST, fel y llafarai efe oddi yno heddwch i'w bobl. Yn hyfryd y dywed *Luwther*, "O herwydd bod naturiaeth DUW, ebe efe, cyfuwch fel na allem ni ei gyrraedd, fe ddaroftyngodd DUW ei hunan hyd attom ni, ac a gymmerth ein naturiaeth ni arno ei hun, trwy ofod ei hunan yng NGHRIST, ac oddi yma yr edrych ef arnom, ac y derbyn ef nyni; a phwy bynnag a'i ceifio ef yma trwy ffydd a'i caiff." *Hwn*, fef CRIST, ebe DDUW'r Tad, *yw fy anwyl Fab, yn yr hwn i'm boddlonwyd.* Math. iii. 17. Ar ba eiriau y dywaid *Luwther*, na thebygwn, ac na haerwn ddyfod o'r llef yma o'r nêf o achos CRIST ei hunan, eithr o'n hachos ni; yn ol ei eiriau ef ei hun, *nid o'm hachos i*, medd ef, *y bu y llef hon, ond o'ch achos chwi.* Ioan xii. 30. Gwir yw, nad oedd rhaid dywedyd wrth GRIST mai anwyl Fab DUW ydoedd, canys efe a wyddai hynny er tragywyddoldeb, ac mai felly y byddai ef byth, pe buafai'r Tad heb lafaru'r geiriau hyn. Gan hynny ynddynt hwy y mae DUW'r Tad, yng NGHRIST ei Fab, yn llawenychu calonnau pechaduriaid truain, ac yn eu mawr gyfuro hwy â diddanwch rhagorol, a meluſdra nefol; gan ficrhau iddynt, fod hwnnw, pwy bynnag y fyddo ac y briodir â CHRIST, ac wrth hynny fydd ynddo ef trwy ffydd, mor gymmeradwy ger bron Duw'r Tad, ac y mae CRIST ei hun; yn ol gair yr Apoftol, *Fe a'n gwnaeth ni yn gymmeradwy yn yr Anwylyd.* Eph. i. 6. fef yng NGHRIST. Gan hynny, os dymunwch fod yn gymmeradwy gan DDUW, a'ch gwneuthur yn blentyn anwyl iddo, glynwch wrth ei anwyl Fab ef IESU GRIST trwy ffydd, ac yna y cyfrennir, ac y greddfir ferch a chariad DUW ynoch, fel ac y mae yng NGHRIST ei hun; ac y

meddianna DUW'r Tad, ynghŷd â'i anwyl Fab, chwi yn hollol, a chwychwi a'i meddiannwch hwythau; ac yna un y fyddwch chwi â DUW, ac â CHRIST, yn ol geiriau CRIST yn ei weddi; ſef, *ſel y byddont hwythau un ynom ni, megis yr wyt ti y Tad ynof fi, a minnau ynot ti.* Ioan xvii. 21, 22. Ac wrth hyn y cewch chwi ſail ddiogel a diyſgog i ddywedyd (o ran eich Cymmodiad â DUW un amſer, pa bryd bynnag yr ymreſymmoch â'ch hunan, ac yr ymofynoch pa fodd y cair gafael ar DDUW, yr hwn ſy'n cyfiawnhau ac yn achub pechaduriaid) fel hyn, nid wyf fi yn adnabod un DUW arall, ac ni chydnabyddaf fi un DUW amgen na'r DUW hwn ac a ddaeth i lawr o'r Nef, ac a ymwiſgodd ei hunan â'm cnawd i, i ba un y rhoddwyd pob awdurdod a gallu, yn y nef ac ar y ddaear, yr hwn yw fy marnwr; canys *y Tad nid yw yn barnu neb, eithr eſe a roddes bob barn i'r Mab.* Felly y dichon CRIST wneuthur â mi fel y gwelo ef yn dda, ac yn ol ei ewyllys ei hun; ac y mae yn hyſbys gennyf, ddywedyd o hono *ei ddyfod ef, nid i farnu'r byd, eithr i gadw'r byd*; Ioan xii. 47. ac am hynny yr wyf fi yn credu y ceidw ef fyfi.

Neoph. Yn wir, Syr, pe bawn i mor dduwiol, ac mor ſanctaidd ac y gwelaf fi fod eraill, a phe rhoddid i mi y fath awdurdod ar fy mhechodau a'm llygredigaethau, megis y mae gan rhai, yna y credwn innau yn hawdd. Ond Och! Yr wyf fi mor llawn o bechod, ac mor anheilwng, fel na feiddiaf gredu y derbyn CRIST fyfi, cyn belled ac i'm cyfiawnhau i, ac i'm cadw.

Efan. O ddyn! Yr ydych chwi yn y peth hyn yn gwrth-ddywedyd ac yn ammau geiriau'r Apoſtol, a geiriau CRIST ei hun, ïe, a hynny yn erbyn eich enaid eich hun: Canys lle y mae'r Apoſtol yn dywedyd, *ddyfod o Grift Iefu i'r byd i gadw pechaduriaid, ac i gyfiawnhau yr annuwiol.* 1 Tim. i. 13. yr ydych chwi, fel gwelir, yn dal ac yn dywedyd, ddyfod o hono ef i'r byd i gadw y rhai cyfiawn, ac

i gyfiawnhau

i gyfiawnhau y rhai duwiol. Ac lle y mae CRIST yn dywedyd, *nid rhaid i'r rhai iach wrth feddyg, ond i'r rhai cleifion*, yr ydych chwithau fel y gwelir, y dal ac yn dywedyd, nad rhaid i'r rhai cleifion wrth feddyg, ond y rhai iach. A lle y dywedodd CRIST, na ddaeth ef i alw'r cyfiawn, ond *Pechaduriaid i edifeirwch*, Math. ix. 12. yr ydych chwi yn dywedyd, ei ddyfod ef, nid i alw pechaduriaid, ond y rhai cyfiawn i edifeirwch. Ac yn ſicr yn ol eich ymadrodd, yr y'ch chwi fel y gwelir, yn credu mai rhaid yw puro, a glanhau, a golchi dyweddi neu briod CRIST oddi wrth ei holl fudreddi, a'i haddurno â mantell werthfawr o'i chyfiawnder ei hunan, cyn y derbynio efe hi; yn gymmaint ac y mae ef yn dywedyd wrthi fel hyn, *Ac* am *dy enedigaeth, ar y dydd y'th anwyd, ni thorrwyd dy fogail, ac mewn dwfr ni'th olchwyd i'th feddalhau; ni'th gyweiriwyd chwaith i halen, ac ni'th rwymwyd â rhwymyn: Ni thoſturiodd dygad wrthyt, i wneuthur it' un o hyn, i doſturio wrthyt; ond ar wyneb y maes y'th daflwyd i ffieiddio dy einioes, ar y dydd y'th aned. A phan dramwyais heibio it', a'th weled yn ymdrybaeddu yn dy waed, dywedais wrthyt yn dy waed, Bydd fyw; ïe' dywedais wrthyt yn dy waed, Bydd fyw. — Pan aethum heibio it', ac edrych arnat, wele dy amſer yn amſer ſerchawgrwydd: yna lledais fy aden droſot, a chuddiais dy noethni: yngais hefyd it'; ac aethum mewn Cyfammod â thi, medd yr Arglwydd* DDUW, *a thi a aethoſt yn eiddo fi.* Ezec. xvi. 4, 5, 6, 8. *Ac mi a'th ddyweddïaf â mi fy hun yn dragywydd; ïe, dyweddïaf di â mi fy hun, mewn cyfiawnder, ac mewn barn, ac mewn tiriondeb, ac mewn trugareddau.* Hoſ. ii. 19. Am hynny gelwch yn ôl eich gau-dyb, attolwg, ac na wrth-ddywedwch eiriau'r gwirionedd ymhellach; eithr bydded hyn yn ddiogel gennych, na ddaeth CRIST ddim i alw, ac i gyfiawnhau, ac i gadw'r dyn cyfiawn duwiol, nid yr annuwiol a'r anghyfiawn; pe baech chwi yn duwiol ac yn gyfiawn ynoch eich hun, ni fyddech mewn un tebygoliaeth o gael galwedigaeth, na

chyfiawnhad, na Iachawdwriaeth trwy GRIST; ond gan eich bod yn ddyn pechadurus annuwiol, mi ddywedaf wrthych fel y dywedodd y bobl wrth *Bartimeus* ddall, Marc x. 49. *Cymmer galon; cyfod; y mae ef yn dy alw di*: ac efe a'th gyfiawnha, ac a'th gadw di. Ewch chwithau atto ef yn ddiofn, attolwg, ac os daw ef i gyfarfod â thi ar y ffordd (fel y mae ei gynnefinol arfer ef) yna na ddywedwch yn ddiyſtyr fel *Pedr, dôs ymaith oddi wrthyf, canys dyn pechadurus wyf fi*; Luc v. 8. ond dywedwch yn iawn, tyred attaf, O Arglwydd, canys dyn pechadurus wyf fi. Ie, ewch ymhellach, a dywedwch, fel y mae *Luwther* yn eich cyfarwyddo; "O IESU graſuſol, O'm Harglwydd graſlawn, O GRIST maddeugar, yr wyf fi yn bechadur tlawd truan, ac am hynny yn barnu fy hunan yn anheilwng o'th ras a'th gariad; ond etto mi a ddyſgais yn dy air ſanctaidd, fod dy Iachawdwriaeth di yn eiddo i rai o'm bâth i; am hynny yr wyf fi yn dyfod attat i geiſio'r iawn hwnnw ſydd eiddo i mi trwy dy raſol addewid di." A bydded hyſbys gennych, nad yw CRIST IESU yn gofyn un gwaddol gyd â'i ddyweddi neu Briod; nag ydyw yn wir, nid yw ef yn ceiſio dim gyd â hi ond tlodi yn unig; *Fe ddenſyn ymaith y rhai goludog yn weigion*, ond efe a gyfoethoga'r tlodion â'i Ras Ac yn wir, medd *Luwther*, "pa fwyaf o drueni, pa lawnaf o bechod y meddylio dyn ei fod, a pha gyfynged y barno dyn fod ei gyflwr ei hun, mwy ewyllyſgar o hynny y bydd CRIST i'w dderbyn ef, ac i'w ryddhau; hyd onid ydych chwi, ebe efe, yn deilyngach o hynny, o'ch bod ynoch eich hunan yn anheilwng, ac ar hyn y cawſoch chwi well odfa i ddyfod atto ef. Gan hynny, yngeiriau'r Apoſtol, yr wyf yn eich cynghori, ac yr erfyn arnoch *i ddyfod yn hyderus at orſedd-faingc y gras, fel y derbyniod drugaredd, ac y caffoch ras yn gymmorth cyfamſerol.*

Neoph. Ond yn wir, Syr, y mae fy nghalon i, fel pe bae, yn crynu gan ofn wrth feddwl am y fath ddyfodiad amharod a hwnnw at GRIST. Ac

yn

yn wir, pe deuwn i cyn hyfed at GRIST, a phe dywedwn i mor hyderus a hynny wrtho, yr wyf yn ofni y byddwn yn euog o falchder a rhyfig.

Efan. Yn wir, pe'ch annogid chwi i ddyfod at GRIST, gan ei gyfarch ef â'r hyfdra eich duwioldeb a'ch teilyngdod eich hun, rhyfig a balchder a fyddai hynny yn ſicr; eithr nid balchder rhyfygus yw i chwi ddyfod at GRIST, gan gredu ei ſod ef yn barod i'ch derbyn, i'ch cyfiawnhau, ac i'ch cadw yn rhad o'i ras, yn ôl ei addewid raſol ei hun. Am hynny, gan ddarfod i GRIST gynnig hyn i chwi mor rhad, credwch; nid balchder, neu ryfig, eithr gwir oſtyngeiddrwydd calon yw derbyn trwy ffydd, yr hyn a gynnygio CRIST i chwi.

Nom. Ond gyd â'ch cennad, Syr, attolwg, gadewch i mi ddywedyd gair wrthych; yr wyf yſgatfydd yn adnabod fy nghymmydog *Neophitus* yn well nag yr ydych chwi; etto nid wyf ar feder dannod un pechod iddo yn amgen nag mewn ffordd o lettybiaeth; beth os yw ef yn euog o ryw bechodau ffiaidd, creulon, a dderbyn CRIST ef? A gyfiawnha, ac a geidw CRIST ef er hynny i gyd?

Efan. Gwna yn wir, am nad oes un terfyn i ras DUW yng NGHRIST IESU, oddi eithr y pechod yn erbyn yr Yſpryd Glan. *Y mae* CRIST *yn ſefyll wrth y drws ac yn curo*, ac os bydd un *Manaſſe* lloſruddiog, anrhugarog, neu un *Saul* gablaidd herlidiaidd, neu un *Fagdalen* butteinllyd, *a egyr y drws iddo ef, efe a ddaw i mewn* yn ewyllyſgar, ac a ddug gyſur a diddanwch gyd âg ef, *ac a ſwppera gyd âg ef.* Chwiliwch (ebe wr da) y nefoedd trwyddi o un cwrr i'r llall, trowch Lyfr DUW yn ôl ac ymlaen, a gwelwch onid yw geiriau GRIST yn wir, ſef, *Yr hwn a ddel attaf fi, ni's bwriaf ef allan ddim?*

Nom. Wrth hyn, Syr, yr y'ch chwi o'r tŷb, na ddylai y pechadur gwaethaf yn y byd wan-galonni rhag credu yng NGHRIST, o blegid un rhwyſtr a wnelo ei bechodau.

Efan. Yn ddiau, os gwir yw hyn, megis y mae

yn

yn ddiammau, ddyfod o GRIST IESU i'r byd i geiſio, i alw, ac i gadw pechaduriaid, ac i gyfiawnhau yr annuwiol, fel y glywſoch eiſoes; ac os gwir yw, fod CRIST yn barottâch, ac yn fwy ewyllyſgar i dderbyn ac i gynnorthwyo y pechadur hwnnw ag a farno ei hun yn fwyaf ei bechodau, yn llawnaf o annuwioldeb, yn waethaf ei gyflwr, ac yn anhebyccaf i gael ffafr; ni welaf fi un rheſwm pa ham y gwan galonnid y pechadur gwaelaf rhag credu yn enw CRIST, er cymmaint y b'o ei bechodau. Ie, dywedaf ymhellach, pa fwyaf y b'o pechodau un pechadur, o ran eu nifer a'u naturiaeth, ſe ddylai bryſuro yn gynt o hynny at GRIST, gan ddywedyd gyd â *Dafydd, er mwyn dy enw, Arglwydd, maddeu fy anwiredd; canys mawr yw.* Sal. XXV. 11.

Anti. Yn wir, Syr, pe bae fy nghyfaill *Neophitus* yn yſtyried y pethau hyn yn iawn, a phe credai ef eu gwirionedd hwy yn ddiamheuol, ni fyddai ef mor anewyllyſgar ag y mae i ddyfod at GRIST, gan gredu yn ei enw ef; canys od yw'r yſtyriaeth o fawredd ei bechodau ef yn achos iddo fryſio i ddyfod at GRIST, fel y dywedaſoch chwi, ni ŵn i beth a'i rhwyſtra ef?

Efan. Gwir y ddywedwch yn hyn; am hynny, fy nghymmydog *Neophitus*, yr wyf fi yn deiſyf arnoch i yſtyried yn ddifrifol, ac na chymmerwch eich rhwyſtro yn hwy rhag dyfod at GRIST, gan na ſatan cyhuddwr y brodyr, na'ch cydwybod achwynol eich hunan yn cyttuno âg ef. Canys beth, pe cyhuddent hwy chwi o falchder, anghredîniaeth, cybydd-dod, trachwant, digter, cenſigen, neu ragrith; ïe, beth, pe cyhuddent hwy chwi o butteindra, lledrad, meddwdod, neu'r cyffelyb? Etto gwnelont hwy eu gwaethaf, nid allant eich gwneuthur yn waeth nâ phechadur, neu'r pennaf o bechaduriaid, neu ddyn annuwiol; ac os felly, ni fyddwch chwi ond y cyffelyb i'r rhai y daeth CRIST IESU i'r byd i'w cyfiawnhau a'u cadw; hyd onid ydynt mewn gwirionedd, pe iawn yſtyriech, yn peri i

chwi

hwi fwy o ddaioni a lleſâd, nâ drygioni a rhwyſtr, rwy eu cyhuddiadau. Ac hynny yr wyf yn dei- f arnoch ymhob ryw gythryſwl meddwl, neu nder cydwybod, gymmeryd cyngor *Luwther*, ſef, Pan y b'o cydwybod (ebe efe) yn frawychus gan offadwriaeth o'th bechodau gynt; a phan y bw- o'r cythraul arnat yn daer ac yn draws, i geiſio'th ddi dan lifoedd, a moroedd o bechodau, er dy awychu a'th dynnu ymaith oddi wrth GRIST; yna foga dy hunan â'r fath eiriau a'r rhai'n i'w atteb, f, fod CRIST, mab y DUW byw, wedi ei roddi, nid os y duwiol, cyfiawn yn eu golwg eu hunain, ond os bechaduriaid anheilwng, a thros ei elynion. c os dywaid y cythraul, pechadur wyt ti, am ynny mae'n rhaid i ti gael dy ddamnio; yna at- b di, gan ddywedyd, nid gwir yw hynny, canys wyf fi wedi ymaflyd yng NGHRIST, yr hwn a ddodd ei hunan tros fy mhechodau; ac am hynny tan, yn gymmaint ag i ti ddywedyd fy mod i yn echadur, ti a roddaiſt i mi araf ac arfogaeth yn dy byn dy hunan, fel y torrwyf dy wddf â'th gleddyf y hun, ac i'th fathrwyf dan fy nhraed". Ac rth hyn y gwelwch beth yw tŷb *Luwther*, y dyl- eich pechodau eich gyrru yn hytrach at Grift, â'ch cadw oddi wrtho.

Nom. Ond, Syr, bwriwch ei fod ef heb edifar- au am ei fawr a'i aml bechodau, a oes iddo yn y yflwr hwn ryw fail i ddyfod at Criſt,

Efan. Yr wyf yn dywedyd, beth bynnag yw dyn, eu pa beth bynnag y wnaeth, neu ni's gwnaeth e, mae ganddo fail ddigonol i ddyfod at Grift, rwy gredu, os gall ef; canys y mae Criſt yn wneuthur cyhoeddiad cyffredinol, gan ddywedyd, Dh, *deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae ſyched arno*; , *yr hwn nid oes arian gandde, deuwch, prynwch, a wyttêwch*; *ie, deuwch, prynwch win a llaeth, heb rian, ac heb werth.* Dyma'r ammod, fel y gwel- ch, *prynwch win a llaeth*, ſef gras a Iachawdwriath, *eb arian*, h. y. heb ddim digonoldeb o'ch eiddo

eich

eich hun ; yn unig *Gogwyddwch eich cluſt, a deuwch attaf ; a gwrandewch, a bydd byw eich enaid* ‖.

Nom. Ond, Syr, y mae'r 'ſgrythur, debygwn i, yn dyſgu fod yr Arglwydd yn gorchymun fynet edifeirwch o flaen ffydd ; canys onid yw yn 'ſgrifenedig fel hyn, *edifarhewch, a chredwch yr Efengyl?*

Efan. Yn ddiau, fe roddir yr enw o edifeirwch i'r dechreuadau, a'r rhag-lwybrau parattôl, ſef, yr argyoeddiadau hynny o ofn a dychryn ac ſydd yn myned o flaen ffydd, o ran amſer a naturiaeth, ac y mae'r fath edifeirwch yn rhag-flaenu ffydd yng NGHRIST ; ond ni ddichon edifeirwch efangylaidd, ac yntef yn ffrwyth o ffydd, fod o'i blaen hi.

Nom. Wrth hyn, Syr, mae'n debyg eich bod chwi yn meddwl ei fod ef, a wir gredo yng NGHRIST, wedi gwir edifarhau hefyd.

Efan. Ydwyf yn wir ; ac er nad wyf yn dal fod edifeirwch efangylaidd yn myned o flaen ffydd yng NGHRIST ; etto yr wyf fi yn credu, ac yn dal, ei fod yn dilyn ffydd.

Nom. Ond etto, Syr, yr ydych chwi, fel y gwelir, yn dal fod y dechreuadau rhag-ddarparol hynny o edifeirwch, a alwaſoch yn argyoeddiadau o ofn a dychryn, yn myned o flaen ffydd.

Efan. Ydwyf yn meddwl, mai felly yr ânt mewn rhyw feſur.

Nom. Ac onid ydynt, debygwch chwi, ymmhawb yn yr un meſur ?

Efan. Nag ydynt ; canys y mae gwahaniaeth mawr yn y meſur, am nad ydyw rhai ond proſi o'r phiol, pan y gorfyddo i eraill yfed y gwaelodion.

‖ H. y. Os deuwch atto trwy ffydd, a than deimlad o'ch trueni ; canys beth a dal dywedyd wrth ddyn iach di-deimlad o'i glwyf, fod y meddyg yn barod i'w iachâu ? Felly cyn y delo pechadur at GRIST trwy ffydd, rhaid iddo gredu yn gyntaf ei fod yn bechadur : Ond na fydded i neb oddi yma wrthddadleu, a dywedyd, wrth hynny ynte, ffydd ſydd yn cymmwyſo dyn i ddyfod at GRIST ; Nag ë ; eithr y dyfodiad at GRIST, *yw gwir ffydd* ; yr hyn beth y mae'r pechadur teimladwy yn ei wybod, wrth yr effeithiau ſydd yn canlyn.

Ac

Ac yſtyriwch hyn, er ei fod yn angenrheidiol fod r argyoeddiadau hyn o ofn a dychryn mewn rhyw eſur cyn y delont at GRIST; etto nid megis pe na's hoddai CRIST roeſaw iddynt, ac na's derbyniai efe wynt, pe baent hebddynt, ond o herwydd na fyn- ent hwy ddyfod at GRIST nes eu gyrru ſel hyn atto.

Nom. Ond, Syr, a ydyw'r peth a alwaſoch chwi n edifeirwch efangylaidd, ac a ddywedaſoch ei fod n dilyn ffydd, ymhob dyn crediniol?

Efan. Ydyw yn wir; y mae ym mhob enaid rediniol, mwy neu lai, yn ôl meſúr ei ffydd, a'i derbyniad o Yſpryd Criſt, cyn ſicred ac y mae wir ffrwythau eraill o Yſpryd Criſt.

Nom. Da iawn, ſe'm attebwyd i yn awr.

Neoph. Ac yn wir, Syr, yr ydych chwi wedi angos a chyhoeddi ymddygiad Criſt tu ag at bècha- uriaid truain, ac wedi atteb i'm holl ofynion, ac edi rhyddhau pob rhwyſtr, hyd onid wyf yn awr edi fy ſicrhau fod Criſt yn ewyllyſgar i'm derbyn ac yn wir, yr wyf finnau yn foddlon i ddyfod to ef, ac i'w dderbyn ef. Ond Och! Y mae arnaf diffyg hyder i'w gwblhau; ſef, y mae diffyg ffydd naf.

Efan. Ond dywedwch i mi, a ydych chwi yn wyr fwriadu, â'ch holl egni, i gredu, ac i dderbyn riſt IESU trwy ffydd?

Neoph. Yn wir, Syr, y mae fy mwriad i, debyg- n, yn gyffelyb i feddylfryd y pedwar gwr gwahan- wyfus hynny a eiſteddaſant wrth ddrws porth maria; canys megis y dywedaſant wrth eu gilydd, dywedwn ni, *Awn i mewn i'r ddinas, newyn* ſydd y ddinas, *a ni a fyddwn feirw yno*; *ac os trigwn a, ni a fyddwn feirw hefyd. Am hynny deuwch yn r, ac awn i werſyll y Syriaid: os cadwant ni yn fyw, fyddwn*; *ac os lladdant ni, byddwn feirw.* 2 Bren. . 4. Yn yr un modd y dywedaf finnau yn fy ngha- n, os âf fi yn ôl at y cyfammod gweithredoedd i iſio cyfiawnhad, marw fyddaf yno; ac os trigaf yma yn llonydd heb ei geiſio yn un man, marw

fyddaf

fyddaf yma hefyd; am hynny er bod arnaf ofn o mwyaf, etto yr wyf yn awr yn bwriadu yn holl ar fyned at Grist; ac os derfydd am danaf, darfydde

Efan. Gan hynny yn awr'y dywedaf i wrthych fod priodas wedi ei wneuthur; mae Crist yn eiddo chwi, a chwithau yn eiddo yntef; heddyw y dae Iachawdwriaeth i'ch tŷ chwi, fef, i'ch enaid chw Canys beth, er nad oes gennych hyder i ddyfod Grist mor fuan, ac i gymmeryd y fath afael fe arno ac y dymunech; etto gan ddyfod â'r fath fw iad i dderbyn Crist, nid rhaid i chwi ofalu, can fe hertha Crist chwi i'w wneuthur: Canys o ddywedir, Ioan i. 12. *Cynnifer ac a'i derbyniasant efe a roddes iddynt allu i fod yn felbion i Dduw, fe i'r fawl a gredant yn ei enw ef.* Gan hynny yr w yn deifyf arnoch, na byddoch yn ymddadleu m â'ch hunan; eithr byddwch ddiyfgog yn eich ffyd ac yn bwrw eich hunan ar DDUW yng Nghri am drugaredd; a deled a ddelo i chwi. Ond eich diddanwch y dywedaf, nid â y fath fwriad d yfgog byth i uffern; fe, mi a chwanegaf, os de bynnir un enaid gyd â groefaw i'r nef, dyma efe am na ddichon yr Arglwydd yn ôl ei air ddamnio fath enaid. Wrthych chwi gan hynny y dywed gyd â'r un hyder, ac y dywedodd un *Ioan Cor* wrth *Ioan Bradfford* gynt, "Clywch, y Nefoed a gwrando di y ddaear, byddwch dyftion i mi dydd diweddaf, fy mod i yma yn mynegi cennadw Duw yn ffyddlon, ac yn gywir, wrth ei wafa aethwr anwyl *Ioan Bradfford*, gan ddywedyd, *Io Bradfford*, gwr mawr ei gariad gyd â Duw, wyf fi yn mynegi, ac yn tyftiolaethu i dydi, y ngair ac yn enw'r Arglwydd JEHOFAH, fod holl bechodau di, er cymmaint, ac er cynnifer bônt, wedi eu cwbl-ddileu, a'u llwyr faddeu i trwy drugaredd Duw yng Nghrift Iesu, dy un Arglwydd, a'th anwyl Iachawdwr; ymha un wyt ti yn credu yn ddiyfgog. Fel mai byw'r A glwydd, ni fyn ef it' farw, ond efe a wir arfaethod

ac a lwyr fwriadodd, ac a ordeiniodd i ti fyw gyd âg ef dros dragywyddoldeb."

Neoph. O, Syr, pe bae gennyf gyſtal ſail i gymmhyſo'r geiriau hyn attaf fy hun, ag oedd gan Mr. *Bradford*, mi a fyddwn yn ddyn dedwydd.

Efan. Yr wyf fi yn dywedyd wrthych oddi wrth Griſt, a than law ei Yſpryd ef, fod eich perſon chwi yn gymmeradwy gyd â Duw, a'ch pechodau wedi eu dileu, ac mai cadwedig fyddwch. A phe dywedai un angel o'r nef yn amgen wrthych, bydded yn felldigedig; am hynny chwi ellwch fwrw yn ddiammau eich bod yn ddyn happus; canys ar eich dyweddïad â Chriſt, yr aethoch yn un âg ef; ïe, yn un ynddo ef, yr y'ch yn trigo ynddo ef, ac yntef ynoch chwithau: Eich anwylyd chwi ydyw ef, a chwithau yn eiddo yntef; hyd onid yw undeb y briodas rhyngoch â Chriſt, yn fwy nâ chyd-ſyniad noeth y meddwl. Canys undeb yſprydol, ſylweddol, gweithredol yw hwn; undeb rhwng naturiaeth Crist, Duw a Dyn, â chwithau yw; ymrwymiad ydyw, a chydiad, nid yn unig o'ch ymafliad â Iachawdwr, ond o gyſſylltiad eich enaid âg ef. Ac wrth hyn y mae'n eglur, nad ellwch chwi fod yn ddamnedig, oddi eithr damnio Crist gyd â chwi; ac na ddichon Crist ei hun fod yn gadwedig, oddi eithr eich cadw chwithau hefyd. Ac megis yr â pob peth yn gyffredin rhwng gwr a gwraig, o herwydd eu priodas gorphorol, felly y bydd y cwbl oll yn gyffredin rhyngoch chwi a Crist, o herwydd y briodas yſprydol hon. Canys yn ôl i Grist briodi ei ddyweddi â'i hunan, efe a rydd ei holl olud i fynu iddi hi, hyd onid ellwch ddywedyd yn iawn, fod i chwi hawl yng Nghrist ei hun, â'i holl feddiannau a'i rinweddau. *Efe a wnaethpwyd i ni gan* Duw *yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn ſancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth.* 1 Cor. i. 30. Ac yn wir, o achos yr undeb hwn, y bu i Grist alw ei eglwys, *yn Arglwydd ein cyfiawnder*, Jer. xxxiii. 16. megis y gelwid efe ei hun, *yn Arglwydd ein Cyfiawnder.*

iawnder. Jer. xxiii. 6. Trwy nerth yr undeb hwn y gellwch chwi gymmeryd gafael yn ddiogel, megis yn eich eiddo eich hunan, ar GRIST, a'i ymdrech, a'i ddirweſt, a'i lafur a'i weddiau, a'i erlidigaethau, a'i enllibau, a'i ddagrau, a'i chwyſ, a'i waed, a'r cwbl oll a'r a wnaeth, neu a ddioddefodd efe erioed mewn yſpaid tair blynedd ar ddêg ar ugain; ſef, ei holl ufudd-dod dioddefol a gweithredol, ynghyd â'i farwolaeth, a'i eſgynniad, o herwydd eu bod hwy oll yn eiddo i chwi. Ac fel y rhydd CRIST ei holl feddiannau i fynu i'w ddyweddi, felly y gofyn yntef a'r iddi hithau roi'r cwbl o'i heiddo hithau iddo ef. Gan hynny, gan eich priodi chwi yn awr â CHRIST, rhaid i chwi roi'r cwbl oll ac a feddoch iddo ef. Eithr yn wir, nid oes dim yn eich helw chwi ond pechod yn unig, ac am hynny rhowch hwnnw iddo, gan ddywedyd yn ddiofn wrtho, Yr wyf fi, fy Mhriod anwyl, yn rhoi i ti fy anghrediniaeth, a'm cam-ymddiried, a'm balchder, a'm rhyfyg, a'm uchel feddwl, a'm llid, a'm digter, a'm cenfigen, a'm cybydd-dod, a'm drwg feddyliau, a'm gwyniau afreolus, a'm hoſer ddymuniadau, yr wyf fi yn rhwymo y rhai hyn, a'm holl gamweddau eraill, ac yn eu rhoddi i ti. Canys yn y modd hwn *y gwnaethpwyd Criſt yn bechod, yr hwn nid adnabu bechod, fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef*. 2 Cor. v. 21. Yn awr, ebe *Luwther*, "Cyſylltwn y pethau hyn ynghyd, ac ni a gawn dryſor anfeidrol. Canys y mae CRIST yn llawn o ras, a bywyd, a Iachawdwriaeth; ond y mae'r enaid yn llwythog gan bechod, ïe, gan bob math o bechod a marwolaeth, a damnedigaeth; eithr cyn gynted ac y delo ffydd i uno'r enaid â CHRIST, yna mae ef yn gweled CRIST wedi ei lwytho â phechod, a marwolaeth, ac uffern yn ei le ef; ac i'r enaid y goſodir gras, bywyd, a Iachawdwriaeth. Pwy gan hynny a ddichon briſio y mawrhydi hyn o briodas megis yr haeddai? Pwy a gynnwys ogoneddus olud y gras hwn? Lle y mae'r

Gwr

Gwr cyfiawn cyfoethog hwn, ſef CRIST, yn cymmeryd y fath buttain dlawd annuwiol yn wraig iddo, ac yn ei gwaredu hi rhag pob drwg, ac yn ei haddurno hi â'i holl feini gwerthfawr ei hunan! hyd onid ydych chwi, yn ôl geiriau'r un *Luwther*, trwy hyder eich ffydd yng NGHRIST, wedi eich gwaredu oddi wrth eich holl bechodau, ac wedi eich gwneuthur yn ddiangol rhag angau, ac yn ddiofn uffern; ac wedi eich gwaddoli â chyfiawnder, a bywyd, a lachawdwriaeth dragywyddol eich Priod, ſef CRIST; am hynny yr ydych chwi yn awr tan y cyfammod o ras ynddo ef."

Neoph. Ni wn i, Syr, etto pa fodd y dyallaf yr ymwared hwn oddi wrth y ddeddf, fel y mae yn gyfammod o weithredoedd; am hynny eglurwch, attolwg, hynny yn oleua' y galloch.

Efan. Er mwyn dyall y pwngc hwn yn well, bydded hyſpys i chwi, wedi i GRIST, yr ail *Adda*, gyflawni'r ddeddf yn gwbl dros y ffyddloniaid, fel y mae hi yn gyfammod o weithredoedd, fe ddaeth cyfiawnder DUW, ac a roddodd y 'ſgrifen honno i law CRIST, ac efe a'i dileodd hi yn llwyr, fel nad oedd dim a wnelai'r un o'r ffyddloniaid â honno mwy; na chan y cyfammod hwn ddim i ofyn ganddynt hwythau. Ac yn awr, gan eich bod chwi wedi cyhoeddi mor amlwg trwy eich ffydd yng NGHRIST eich bod chwi yn un o'r etholedigion, gwybyddwch fod ei gyfiawnder, a'i ddilead ef o'r cyfammod i'w gyfrif i chwi, a'ch bod chwi wedi eich rhyddhau oddi wrth yr holl droſeddau a welodd DUW ynoch yn erbyn y cyfammod hwnnw, a'ch bod *wedi eich cyfiawnhau yn rhad*, yn ôl geiriau'r Apoſtol, *trwy ei ras ef*, *trwy'r prynedigaeth ſydd yng Nghriſt Ieſu*. Rhuf. iii. 24.

Anti. Rhowch gennad i mi, attolwg, Syr, i ofyn i chwi un gair; a fu ef heb ei gyfiawnhau hyd yn awr?

Efan. Od oedd ef heb gredu hyd yn awr, megis yr wyf fi yn meddwl ei fod ef, ni's cyfiawnhwyd ef chwaith hyd yn awr.

Anti. Ond chwi a wyddoch, Syr, mai Duw ſydd yn cyfiawnhau, fel y dywed yr Apoſtol, ac y mae Duw yn dragywyddol; ac megis y dangoſaſoch chwi, y gellid dywedyd i Grist gyflawni'r cyfammod gweithredoedd er tragywyddoldeb; ac od yw ef yn eiddo Crist yn awr, yr oedd ef wedi ei gyfiawnhau er tragywyddoldeb hefyd.

Efan. Gwir yw, y mae Duw er tragywyddoldeb wedi cael ei foddloni o ran derbyniad o air Crist, i gyflawni'r cyfammod gweithredoedd; ac o ran etholedigaeth Duw, yr oedd ef yn eiddo Crist hefyd er tragywyddoldeb; ac am hynny y mae hyn yn wir o ran ordinhad Duw; ſef, efe a gyfiawnhawyd er tragywyddoldeb, ac efe a gyfiawnhawyd hefyd ym mharwolaeth a chyfodiad Crist yn haeddiannol; ond ni's cyfiawnhawyd ef yn *weithredol*, hyd oni chredodd efe yn *weithredol* yng Nghrist: Canys *trwyddo ef* (ebe'r Apoſtol) *y cyfiawnheir pob un ſy'n credu.* Act. xiii. 19. Felly gan hynny yn y weithred o gyfawnhad, rhaid yw bod ffydd y Credadyn a Christ yn cyttuno ac yn atteb i'w gilydd, ſef ffydd, fel yr offerun, yn ymaflyd yng Nghrist, fel y gwrthrych i ymaflyd ynddo; o herwydd nid yw Crist yn cyfiawnhau heb ffydd, na ffydd ychwaith oni bydd yng Nghrist.

Anti. Yn wir, Syr, yr y'ch yn fy moddloni i yn dda iawn yn a pwngc hwn; ac y mae yn hôff gennyf eich clywed chwi yn ei gloi ef, gan ddywedyd, nad oes un ffydd yn cyfiawnhau ond a ymaflo yng Nghrist.

Efan. Dyma'r gwir; er bod dyn yn credu fod Duw yn drugarog, ac yn gywir yn ei addewidion, a bod rhifedi ei etholedigion gyd â Duw er tragywyddoldeb, a'i fod ef ei hun yn un o'r rhifedi hynny; etto oni bydd y gred hon yn edrych ar Grist, ac oni bydd hi yn Nuw, fel y mae ef yng Nghrist, ni's gwna ddim llês iddo; am nad yw yn boſſibl i ddyn gael diddannwch oddi wrth Dduw allan o Grist ein Cyfryngwr. "Canys oni chy-

farfyddwn

farfyddwn ni â Duw yng Nghrist (ebe *Calfin*) byth ni cheir Iachawdwriaeth." Am hynny mi ddywedaf wrthych, fy nghymmydog *Neophitus*, fel y dywedodd y gwr da hwnnw Mr. *Bradfford* wrth wraig fonheddig yn eich cyflwr chwi; ſef, "Os dymunech chwi fod yn ſicr ac yn ddiyſgog yn eich cydwybod, yna torred eich ffydd chwi allan trwy bob beth, a hynny, nid yn unig trwy'r pethau ſy o'r tu fewn i chwi, ond y rhai ſy oddi allan, pa le bynnag y bônt, ai yn y nef, ai ar y ddaear, ai yn uffern; ac na orphwyſed, hyd oni ddelo hi at Grist yr hwn a groes-hoeliwyd, ac at dragywyddol drugaredd, a mawr ddaioni Duw yng Nghrist."

Neoph. Ond, Syr, yr wyf fi etto heb gael llwyr hyſpyſrwydd o'r pwngc o'r blaen; am hynny ewch, attolwg, i ddangos pa cyn belled i'm gwaredwyd i oddi wrth y ddeddf, fel y mae hi yn gyfammod o weithredoedd.

Efan. Yn wir, yr ydych chwi wedi eich llwyr waredu, ac wedi eich rhyddhau oddi wrthi, fel y mae hi yn gyfammod o weithredoedd; ac yr ydych chwi yn farw iddi hi, a hithau yn farw i chwithau; ac os yw hi yn farw i chwi, yna ni's gwna hi na drwg na da i chwi; ac os y'ch chwi yn farw iddi hi, nid ellwch chwi ddiſgwyl na drwg na da oddi wrthi. Canys yſtyriwch, attolwg, eich bod chwi yn awr, megis y dywedais o'r blaen, tan gyfammod arall, ſef, y cyfammod o ras; ac ni ellwch fod tan ddau gyfammod ar unwaith, nac yn y cyfan, nac o ran; am hynny megis y credaſoch gynt eich bod chwi tan y cyfammod o weithredoedd yn unig, fel y gadawodd *Adda* chwi a'i holl hiliogaeth ar ei gwymp; felly yn awr, yn ôl i chwi gredu, yr ydych chwi tan y cyfammod o ras. Bydded ſicr gennych, nad oes un ſail gan un gweinidog na phregethwr o air Duw i ddywedyd wrthych rhagllaw, gwnewch hyn neu hyn o waſanaeth a orchymynir yn y ddeddf, neu ymogelwch rhag y pechod hwn ar pechod arall a waharddir yn y ddeddf, a Duw a'ch

cyfiawnha chwi, ac a geidw eich enaid; neu oni's gwnewch, efe a'ch barna ac a'ch candemnia. Nag ë, yr ydych chwi yn awr yn rhydd oddi wrth allu gorch'mynol a damniol y cyfammod o weithredoedd; ac mi a ddywedaf wrthych, fel y dywedodd yr Apoſtol wrth yr *Hebreaid* crediniol, *Ni ddaethoch chwi at y mynydd teimladwy ſydd yn lloſgi gan dân, a chwmmwl, a thywyllwch, a themmeſtl; eithr chwi a ddaethoch, i fynydd Sion, dinas y Duw byw; ac at Ieſu Cyfryngwr y Teſtament newydd.* Heb. xii. 18, 22. fel nad allo'r Arglwydd (gan ei ddywedyd gyd â pharch i'w fawredd) ar y cyfammod gweithredoedd na gofyn un gwaſanaeth nac ufudd-dod ar eich llaw chwi, na'ch coſpi am eich anufudd-dod; ïe, nid all ef gymmaint a'ch bygwth chwi â'r cyfammod hwnnw, na rhoi i chwi air dig, nac edrych arnoch yn ddigllon. Canys yn wir, ni ddichon ef weled un pechod ynoch o droſedd i'r cyfammod hwnnw; canys yn ôl geiriau'r Apoſtol, *Lle nid oes deddf, nid* oes *Gamwedd.* Rhuf. iv. 15. Am hynny er i chwi rhagllaw droſeddu un o'r dêg gorchymmun, neu bob un o honynt, etto nid ydych chwi wrth hynny yn troſeddu'r cyfammod o weithredoedd, am nad oes yn awr y fath gyfammod a hwnnw rhyngoch chwi a Duw. Am hynny os clywch chwi rhagllaw y fath laferydd a hyn; Os mynni di fod yn gadwedig, cadw'r gorchymynion; neu *Melldigedig yw pob un nid arhoſo ym mhob peth a'ſgrifennwyd yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur.* Ie pe clywech chwi ſŵn taranau, a llaferydd ofnadwy; ïe, pe gwelech gwmmwl a thywyllwch, a phe diſgynnai arnoch demmheſtl o'r creulonaf, h. y. pe clywech chwi nyni y pregethwyr, yn ôl gorchymun Duw, yn *dyrchafu ein lleiſiau fel udgorn,* gan fygwth uffern a damnedigaeth i bechaduriaid a throſeddwyr y ddeddf, er bod y geiriau hyn yn eiriau Duw, etto nid oes i chwi teddwl eu llafaru hwy wrthych chwi ſy'n credu yng NGHRIST. Nag ë, mae'r Apoſtol yn eich ſicrhau chwi gan ddywedyd, *Nid oes dim*

damnedigaeth

damnedigaeth i'r rhai ſyddyng Nghriſt Ieſu. Credwch, ddyn, nid yw DUW yn bygwth neb â marwolaeth dragywyddol, yn ôl iddo roi iddo fywyd tragywyddol unwaith. Nag ë, hyn ſydd wir, nid yw DUW yn llafaru wrth un Credadyn allan o GRIST, nac yng NGHRIST ni lafara ef air yn ôl defod y cyfammod o weithredoedd. A phe cynnygai'r ddeddf o honi ei hunan ddyfod i'ch cydwybod chwi, gan ddannod i chwi, a dywedyd, fel hyn ac fel hyn y troſeddaiſt fi, ac a'm torraiſt i, ac am hynny y mae arnat gymmaint a hyn a hyn o ddyled i gyfiawnder DUW, yr hwn ſy rhaid ei gyflawni; ac onid ë, mi a darawaf law arnat. Yna attebwch chwi, gan ddywedyd, Ha'r ddeddf, bydded hyſpys it', fy mhriodi i yn awr â CHRIST, ac am hynny yr wyf fi dan orchudd; o herwydd pa ham os dannodi di un dyled i myfi, goſod dy gwyn yn erbyn fy ngwr, ſef CRIST, am nad ellir ymgyfreithio â'r wraig, ond â'r gwr. Ond dyma'r gwir, yr wyf fi trwyddo ef yn farw i ti'r ddeddf, ac yr wyt tithau yn farw i mi; am hynny nid oes gan gyfiawnder DUW ddim i wneuthur â mi, am ei fod yn barnu yn ôl y ddeddf. Ac os gwrthwyneba'r ddeddf, gan ddywedyd, ïe, ond rhaid yw cadw'r gorchymynion, os mynni fod yn gadwedig. Yna attebwch chwi, gan ddywedyd, yr wyf fi eiſoes yn gadwedig, cyn dy ddyfod ti; ac am fod pob peth yn eiddo i mi ar unwaith yng NGHRIST, nid rhaid i mi wrth ddim amgen i'm Iachawdwriaeth, canys efe yw fy nghyfiawnder, a'm prynedigaeth. Yr wyf fi, o ddeddf, yn addef, nad wyf fi yn berffaith; ond etto yr wyf fi yn ſicr o hyn, ei fod ef yn gyfiawnder troſof. Ac i ddywedyd y gwir wrthyt ti, y ddeddf, yr wyf fi gyd âg ef yn awr yn yr yſtafell briodas. Am hynny, gyfraith paid ac ymryſon â mi, am fy mod i trwy ffydd wedi ymaflyd yng NGHRIST, ac yntef wedi cael gafael arnaf finnau, ac wedi fy ngoſod yn ei fynwes; ac am hynny, mi a fyddaf cyn hyfed a pheri it' dewi ſôn, a roi ei le i GRIST. Ac yn awr yr wyf yn dy

orchymun

orchymun di, O gyfraith fel cyfammod o weithredoedd, i ymadael â mi; ac onid âi di, mi a'th yrraf di ymaith o'th anfodd. Ac os pechod a gynnyg daro llaw arnat, megis y mae *Dafydd* yn cwyno yn un o'i *Salmau*, yna dywed di wrtho, Dy rym di, O bechod, yw'r gyfraith; ond y mae'r gyfraith yn farw i mi, ac am hynny tydi a gollaiſt dy rym a'th nerth; oblegid hynny gwybydd, na's byddi di fyth yn abl i'm gorchfygu i, nac i wneuthur niwaid i mi. Ac os y cythraul a ymafla yn dy wddf, a chan dy luſgo ger bron gorſeddfa DUW, yna galw ar dy wr anwyl, ſef, IESU GRIST, a dywed, Arglwydd fe a'm treiſier, atteb droſof, a chymmorth fi; a thrwy ei gymmorth ef ti gai nerth i ymddadleu troſot dy hun fel hyn; O DDUW'r Tad, yr wyf fi yn eiddo CRIST dy Fab di dy hun; Tydi a'm rhoddaiſt i iddo ef, a thydi a roddaiſt iddo ef bob awdurdod yn y nef, ac ar y ddaear, ac a oſodaiſt bob llywodraeth a barn iddo ef; am hynny yr wyf fi yn ſefyll wrth ei farn ef, yr hwn a ddywedodd, *na's daeth ef i farnu, ond i gadw'r byd*; am hynny efe a'm ceidw i, myfi a'i gwn, yn ôl ei addewid. A phe delai'r *Juri*, neu'r Cweſtwyr ‡, gan roddi eu barn i mewn i'r Llŷs § dy fod ti yn euog; yna dywed wrth y Barnwr ‖, Os gorfydd barnu neb am fy nghamweddau i, nid myfi, ond CRIST ſy i'w farnu; canys er i mi eu gwneuthur hwy, etto efe ymrwymodd ei hunan, ac a gymmerodd arno atteb droſof, ïe, yn ewyllyſgar ac o'i wir fodd; ac yn ſicr efe a dalodd yn gyflawn droſtynt. Ac oni fydd hyn yn ddigon i'th ryddhau di, yna dywed ymhellach, Nid ellir goſod gwraig feichiog i farwolaeth o herwydd y plentyn ſydd yn ei chroth hi; o achos hyn yr wyf fi yn rhydd, o herwydd fy mod i yn ymddwyn CRIST yn fy nghalon, pe buaſwn yn euog o'r holl bechodau ſydd yn y byd. Ac os angau, mewn bwriad i'th ddifetha, a ymluſga attat, yna dywed, Dy golyn di, O angau, yw pechod, ond y mae fy ngwr i CRIST

‡ *Sef, y dêg Gorchymun.* § *Y Gydwybod.* ‖ *Neu'r Gyfraith.*

IESU

ESU wedi llwyr orchfygu pechod, ac ar hynny wedi tynnu allan dy golyn di, am hynny nid ofnaf n niwaid a alloſt ti wneuthur i mi. Ac yna gorfoldda gyd â'r Apoſtol, gan ddywedyd, *I Dduw y byddo'r iolch, yr hwn ſydd yn rhoddi i* mi *y fuddugoliaeth trwy y Arglwydd Ieſu Griſt.** 1 Cor. xv. 57.

Ac fel y darfu i mi ddangos i chwi, pa fodd y wblhaodd CRIST, yng nghyflawnder amſer, bob eth a arfaethaſai DUW cyn bod amſer, ac a addwſai mewn amſer, ynghylch cymmorth a gwarediaeth dynol-ryw ſyrthiedig. Ac felly y darfu i ni yma hefyd â chyfraith ffydd.

Nom. Ewch yn eich blaen, attolwg, Syr, i ddyedyd yng nghylch cyfraith CRIST; ac yn gyntaf, noeſwch glywed, beth yw cyfraith CRIST?

Efan. Yr un, o ran ſylwedd neu ddeunydd, yw yfraith CRIST a'r cyfammod o weithredoedd; a'r eunydd hwnnw a ddoſparthir trwy'r Bibl, ac a rynhoir ynghyd yn y dêg gorchymun, ſef, y gyfaith foeſawl, ac a gynnwys y fath bethau ac a yttunant â meddwl DUW, a'i ewyllys ſanctaidd ef; ef, *Duwioldeb tu ag at Dduw, Cariad tu ag at ein ymmydog, a Sobrwydd tu ag attom ein hunain.* Ac am ynny a roddwyd gan DDUW i fod yn wir Reol o yfiawnder i bob dyn; o bob cenhedl, bob amſer, el nad yw'r gras efangylaidd yn gofyn ar law yn un ufudd-dod amgen nâ hwnnw, o ba un y nae deddf y dêg gorchymun i fod yn rheol hono.

Nom. Ond etto, Syr, yr wyf fi yn meddwl, er od cyfraith CRIST (megis y dywedaſoch) yn un â'r deddf o weithredoedd, o ran ſylwedd a deunydd, etto mae gwahaniaeth ryngddynt o ran eu ffurf.

* Nid yw athrawiaeth *Efan.* yn yr Araith hon yn rhoddi chlyſur i neb fyw yn benrydd, trwy arwain bywyd anaddas i ſengyl CRIST; canys gwir di-ddadl yw fod y rhai ſydd yn wir gredu yng NGHRIST wedi ei rhyddhau fel hyn oddi wrth gyfraith, fel ag y mae hi allan o GRIST; ond etto fel ag y nae y gyfraith hon yng NGHRIST, y mae y cradinwyr dan wymau i'w chyflawni, gan ei bod yn rheol o fywyd iddynt; megis y cewch weled wrth athrawiaeth *Efan.* yn y blaen.

Efan

Efan. Gwir iawn, fel y clywſoch, y mae'r ddeddf o weithredoedd yn dywedyd fel hyn, *Gwna hyn a byw fyddi*; *ac oni's gwnei, gan farw y byddi farw.* Ond y mae cyfraith CRIST yn llafaru fel hyn, *A phan dramwyais heibio it', a'th weled yn ymdrabaeddu yn dy waed, dywedais wrthyt, Yn dy waed, bydd fyw. A phwy bynnag ſydd yn byw, ac yn credu ynddo ef, ni bydd marw yn dragywydd. Byddwch gan hynny yn ddilynwyr Duw, fel plant anwyl*; *a rhodiwch mewn cariad, megis y carodd Criſt ninnau. Os cerwch ſi, cedwch fy ngorchymynion. Os fy neddfau a halogant, a'm gorchymynion ni chadwant, yna mi a ymwelaf â'u camweddau â gwialen, ac â'u anwiredd â ffrewyllau*; *ond ni thoraf fy nghrugaredd oddi wrtho, ac ni phallaf o'm gwirionedd.* Yn y modd hwn yr ydych chwi yn gweled fod y ddwy ddeddf yn cyttuno yn hyn, o'u bod yn dywedyd ill dwy ac yn gorchymun, *Gwna hyn*; ond yn hyn y mae'r gwahaniaeth, ſef, y mae'r naill yn dywedyd, *Gwna hyn, a byw y fyddi*; a'r llall a ddywaid, *Bydd fyw, a gwna hyn.* Y mae'r naill yn dywedyd, *gwna hyn er mwyn bywyd*; a'r llall a ddywaid, *gwna hyn oddi wrth fywyd.* Y naill a ddywaid, *oni's gwnai, marw y fyddi*; a'r llall a ddywaid, *oni's gwnei, mi a ymwelaf â thi â'r wialen.* Y naill fydd yn cael ei rhoddi gan yr Arglwydd, ſef y mae yn Greawdwr allan o GRIST; a'r llall ſy'n cael ei rhoddi gan DDUW, fel y mae yn Bryniawdwr yng NGHRIST; i'r rhai hynny yn unig ſy yng NGHRIST. O herwydd paham, gan eich bod chwi fy nghymmydog *Neophitus*, yn awr yng NGHRIST, gwyliwch na byddoch y derbyn y dêg gorchymun oddi ar ddwylaw'r Arglwydd allan o GRIST, eithr yn unig o ddwylaw CRIST; ac yna, y byddwch ſicr o'u derbyn fel cyfraith CRIST.

Nom. Ond, Syr, oni ddichon DUW, allan o GRIST, roi'r dêg gorchymun fel cyfraith CRIST?

Efan. Na ddichon ddim; am fod DUW, allan o GRIST, yn ſefyll mewn cyfatteboldeb â dyn yn ôl trefn a gofyniad y ddeddf, megis y mae hi yn

gyfammod

gyfammod o weithredoedd, am hynny heb allu llafaru wrth ddyn yn amgen nac ar eiriau'r cyfammod hwnnw.

Nom. Ond, Syr, pa ham na ddichon y ffyddloniaid ymhlith y cenhedloedd dderbyn y dêg gorchymun, megis rheol o fywyd, oddiar ddwylaw *Moſes*, yn gyſtal ac y derbyniwyd hwy gan y ffyddloniaid ymhlith yr Iuddewon?

Efan. Er rhoi atteb i chwi, yſtyriwch attolwg, mai ſwm, neu ſylwedd oedd y dêg gorchymun o gyfraith nattur a argraphwyd ynghalon dyn yn ei ddiniweidrwydd, a gwir ddarluniad neu arwyddoccâd eglur oeddynt hwy o ddelw Duw ei hun, ïe, a phelydr o'i ſancteiddrwydd ei hun: Ac felly yr oeddent i fod yn rheol o fywyd i *Adda* ac i'w holl hiliogaeth, pe buaſent heb fod yn gyfammod o weithredoedd. Ond gan iddynt ddyfod i fod yn gyfammod o weithredoedd, yr oeddent felly iddo ef. Ond gan eu dileu allan o galon dyn ar y cwymp, hwy a wnaethpwyd yn gydnabyddus i *Adda* a'r lleill o'r tadau crediniol, trwy weledigaethau a datguddiadau; ac felly yr oeddynt yn rheol o fywyd iddynt hyd amſer *Moſes*; ac etto nid fel cyfammod o weithredoedd fel yr oeddent o flaen y cwymp. Ac megis y rhoddwyd hwy gan *Moſes* i'r Iuddewon crediniol allan o'r Arch, ac fel pe delſent oddi wrth GRIST, yr oeddent yn rheol o fywyd iddynt hyd ddyfodiad CRIST yn y cnawd; ac yn ôl dyfodiad CRIST yr oeddent, ac y maent fyth yn rheol o fywyd i'r Iuddewon, ac i'r Cenhedloedd crediniol hyd ddiwedd y byd, ond nid fel y rhoddwyd hwy gan *Moſes*, ond gan GRIST. Canys yn ôl dyfod CRIST y Mab, a dechrau llafaru ei hun, yna gorfudd i *Moſes* y gwas ddiſtewi; yn ôl rhag-ddywediad Moſes ei hun, ſef, *Yr Arglwydd eich Duw a gyfyd i chwi Brophwyd o'ch brodyr megis myfi, arno ef y gwrandewch ym mhob peth a ddywedo wrthych:* Ac am hynny cyn gynted ac y dymunodd y diſgyblion glywed *Moſes* ac *Elias* yn llafaru ar fynydd *Tabor*, hwy a gippiwyd allan o'u golwg

golwg hwy, ac wele lef o'r cwmmwl yn dywedyd, *Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn i'm boddlonwyd, gwrandewch arno ef*; fel pe dywedasai'r Arglwydd, nid oes i chwi weithian wrando ar *Moses* neu *Elias*, ond ar fy anwyl Fab; am hynny meddaf wrthych, *Gwrandewch arno ef.* Ac oni 'sgrifennir, Heb. i. 1. *Lafaru o Dduw yn y dyddiau diweddaf wrthym ni yn ei Fab?* Ac onid yw'r Apostol yn cyngori fel hyn, *Preswylied gair Crist ynoch yn helaeth, ym mhob doethineb; A pha beth bynnag a wnloch, ar air neu weithred*, gwnewch *bob peth yn enw'r Arglwydd Iesu, Ac ymostynged y wraig i'w gwr, megis i'r Arglwydd. Ufuddhaed y plant i'w rhieni, megis yn yr Arglwydd. A ufuddhaed y gweision i'w meistred, a gwnelent eu gwasanaeth, megis i'r Arglwydd, ac nid i ddynion*; *Canys yr ydych chwi*, ebe'r Apostol, *yn gwasanaethu'r Arglwydd Crist.* Col. iii. 16, hyd 25. Ie, ebe efe wrth y *Galatiaid* vi. 2. *Dygwch feichiau eu gilydd, ac felly cyflawnwch gyfraith Crist.*

Anti. Y mae'n hôff iawn gennyf, Syr, eich clywed yn dywedyd mai CRIST y ddylai fod yn ddysgawdwr i'r Crist'nogion, ac nid *Moses*; ond etto yr wyf yn ammeu mai prin y gellid galw'r dêg gorchymun yn gyfraith CRIST; canys pa le y ceir hwy yn y Testament newydd wedi eu hadrodd nac o enau CRIST, neu ei Apostolion.

Efan. Er na cheir hwy wedi eu hadrodd yn yr un drefn, ag y gosodwyd hwy yn *Exo.* a *Deut.* Etto gan ein bod ni yn darllain, fod CRIST a'i Apostolion yn gofyn ac yn gorchymun yr un pethau, ac a ofynnir ac orchymynnir ynddynt hwy, ac yn beio'r un pethau ag a waherddir ynddynt hwy, a hynny trwy eu bywyd a'u hathrawiaeth; y mae hyn yn ddigon i'w sicrhau eu bod hwy yn gyfraith CRIST.

Anti. Yn wir yr wyf yn meddwl, mai felly y gwnaethant ynghylch rhai o'r gorchymynion, ac nid ynghylch pob un o honynt.

Efan. Gan eich bod chwi o'r meddwl hwnnw, ystyriwch attolwg, yn gyntaf, onid swm neu sylwedd

wedd y gorchymun cyntaf yw gwir wybodaeth o Dduw, ſel yn *Ioan* iii. 19, a'r condemniad o'i ddiffyg, 2 *Theſ.* i. 8. A gorchymun o wir gariad, yn *Math.* xxii. 37. a'r condemniad ar ei ddiffyg, yn *Ioan* v. 42. a gorchymun o wir ofn Duw, 1 *Pedr* ii. 17. *Heb.* xii. 28. a'r condemniad o'r diffyg, yn *Rhuf.* iii. 18. gorchymun o wir ymddiried yn yr Arglwydd, a gwaharddiad o bob ymddiried yn y creaduriaid, yn 2 *Cor.* i. 2. 1 *Tim.* vi. 17?

Ac yn ail, yſtyriwch, onid ſwm yr ail orchymun yw gorchymun o wrandawiad, ac o ddarlleniad o Air Duw, yn *Ioan* v. 39. *Dat.* i. 3. a gorchymun o weddi, yn *Rhuf.* xii. 12. *Theſ.* v. 17. ac o ganu Salmau, *Col.* iii. 16. *Iago* v. 13. a gwaharddiad o ddelw-addoliaeth, yn 1 *Cor.* x. 14. 1 *Ioan* v. 21?

Ac yn drydydd, yſtyriwch, onid ſwm y trydydd gorchymun yw condemniad o ofer addoliad Duw, yn *Math.* xv. 9. a gwaharddiad o ſiaradaeth ofer mewn gweddi, yn *Math.* vi 7. ac o wrandawiad noeth o'r gair heb ei wneuthuriad, *Iago* i. 22. a gorchymun i addoli Duw mewn yſpryd a gwirionedd, *Ioan* iv. 24. ac i weddio â'r yſpryd, ac â'r dyall hefyd, ac i ganu â'r yſpryd ac â'r dyall hefyd, 1 *Cor*, xiv. 15. a gorchymun beth a wrandawom, *Marc* iv. 24?

Yn bedwarydd, yſtyriwch, onid yw'r lleoedd hyn, a'r geiriau a gynnwyſir ynddynt, yn profi yn eglur, mai'r dydd cyntaf o'r wythnos a ddylid ei gynnal fel ſabbath i'r Criſt'nogion, ſef, cyfodiad Crist oddi wrth y meirw ar y dydd cyntaf o'r wythnos, *Marc* xvi. 2, 9. cyfarfod y diſgyblion, ac ymddangoſiad Crist iddynt ar y dydd cyntaf o'r wythnos, *Ioan* xx. 19. dyfodiad y diſgyblion, yng hyd i dorri bara ac i bregethu y diwrnod hwnnw, *Act.* xx. 7. 1 *Cor.* xvi. 2. A bod *Ioan* yn yr Yſpryd ar ddydd yr Arglwydd?

Yn bummed, yſtyriwch, onid yw geiriau'r Apoſtol, ymha rhai y gorchymun ef i'r plant ufuddhau i'w rhieni yn yr Arglwydd, ac i anrhydeddu eu tadau a'u mammau, *Eph.* vi. 1, 2. a'r holl gynghorion

eraill a roddodd ef a'r Apoſtol *Pedr* i'r blaenoriaid, ac i waſanaeth ddynion, ac i bawb mewn awdurdod, a than awdurdod, i gwblhau eu dyldſwydd y naill i'r llall, *Eph.* v. 22. vi. 4, 5, 9. *Col.* iii. 18. *Tit.* iii. 1. 1 *Pedr* ii. 18. iii. 1. Yſtyriwch meddaf, ai nid yw'r lleoedd hyn yn dangos yn eglur, fod dyledſwyddau'r pummed gorchymun yn orchymynedig hefyd yn y Teſtament newydd? Dyma, fel y gwelwch chwi, bump o'r dêg gorchymun: Ac am y pump eraill mae'r Apoſtol yn eu cyfrif i gyd yn gyttun, gan ddywedyd, *Na ladd*, *Na wna odineb*, *Na ladratta*, *Na ddwg gam dyſtiolaeth*, ac *Na thrachwantta*, Rhuf. xiii. 9. Ac yn awr barnwch chwi, ai nid yw y dêg gorchymun wedi eu hadrodd yn y Teſtament newydd, ac onid cyfraith CRIST ydynt? Ac onid yw'r Credadyn, yn ôl ymadrodd yr Apoſtol, *dan y ddeddf i Griſt*? 1 *Cor.* ix. 21.

Anti. Ond etto, Syr, mor belled ac yr wyf fi yn cofio, y mae *Luwther* a *Chalfin* yn dywedyd, fel pe bae'r Credadyn wedi ei ryddhau yn llwyr oddi wrth y ddeddf trwy GRIST, fel nad rhaid iddo ofalu, pa un y wnelo ai ufuddhau iddi a'i peidio.

Efan. Mi a wn, ddywedyd o *Luwther*, nad oes i'r gydwybod ddim i'w wneuthur â'r gyfraith neu weithredoedd; ac i *Calfin* ddywedyd, mai rhaid yw i gydwybodau y ffyddloniaid ddyrchafu a chyfodi eu hunain uwchlaw'r gyfraith (pan geiſient ſicrwydd o'u cyfiawnhad ger bron DUW) ac anghofio holl gyfiawnder y gyfraith, a throi heibio pob meddylfryd at weithredoedd. Yn awr y mae dau beth i'w yſtyried, fel y gallom iawn ddyall meddwl y ddau hyn o weiſion CRIST. Yn (1.) lle y ſoniant hwy fel hyn am y gyfraith, y mae yn eglur, mai felly y cymmerent ac â'i dyallent hi o ran cyfiawnhad yn unig. (2.) Pan y b'o i'r gydwybod ddim i wneuthur â'r gyfraith o ran cyfiawnhad, nid oes iddi ddim i'w wneuthur â hi ond yn unig fel y mae hi yn gyfammod o weithredoedd: Canys fel y mae'r gyfraith yn, gyfraith i GRIST, nid yw hi nac yn cyfiawnhau nac yn barnu;

barnu; * am hynny os yſtyriwch chwi hyn ynghylch y gyfraith, ſel y mae hi yn gyfammod o weithredoedd, yn ôl eu iawn ddyall hwy ill dau, yna gwir a ddywedaſant; canys paham y goddefai ddyn i'r gyfraith ddyfod i'w gydwybod; ſef, paham y gwnelai ddyn gydwybod o gadw'r ddeddf i'w gyfiawnhau trwyddi, gan ei fod yn beth amhoſibl? Ie, pa raid i ddyn wneuthur cydwybod o gadw'r ddeddf? A oes achos i'r wraig fod yn waſanaethgar i'w gwr yn ôl ei farw ef, ïe, yn ôl ei marw hithau heſyd? neu pa raid cythryblu cydwybod dyledwr gan ofalon, pa fodd y tâl efe ei ddyled, yr hwn a dalwyd eiſoes yn gyflawn gan ei Feichiau? neu a fydd ar neb ofn niwaid oddi wrth y 'ſgrifen honno a ddilewyd, ac a dorrwyd y ſêl oddiwrtho, y geiriau ynddi a ddilewyd, ïe, ac a ddrylliwyd yn ddarnau? Yr wy'n cofio yr hyn a ddywaid yr Apoſtol *Heb.* x. 1, 2. *Pe gallai'r aberthau a offrymmid* yn yr hên Deſtament *berffeithio y rhai a ddelſai attynt, a glanhau yr addolwyr, yna ni buaſai cydwybod pechod mwy*; h. y. ni buaſai eu cydwybodau yn eu cyhuddo hwy mwy o euogrwydd pechod. Ond yn awr *y mae gwaed Criſt wedi puro cydwybod* pob Credadyn Heb. ix. 14. oddi wrth ei holl bechodau, fel y maent yn gamweddau yn erbyn y cyfammod o weithredoedd: Am hynny pa rhaid yw blino ei gydwybod ef ynghylch y cyfammod hwnnw

* H. y. cyfraith y dêg gorchymun, fel ac y mae yn gyfraith CRIST, nid yw yn cyfiawnhau nac yn barnu perſonau Credinwyr o flaen DUW! Ond fel ac y mae y gyfraith yn gyfammod o weithredoedd, y mae hi yn condemnio pawb a'r nad ydynt yng NGHRIST, yn enwedig anghredinwyr; *Yr hwn nid yw yn crédu ym Mab Duw a ddamniwyd eiſoes.* Ioan iii. 18. Y mae y cyfryw dan ddamnedigaeth dau ddyblig, ſef, yn ddamnedig yma, ac yn ddamnedig i bob tragywyddoldeb ar ol hyn; Ac megis nad oes un ddamnedigaeth i'r rhai ſydd yng NGHRIST, felly o'r tu arall, y mae pob damnedigaeth i'r rhai ſydd allan o GRIST; canys fe rhuthra'r gyfraith yn ei grym arnynt i'w barnu, ac i'w coſpi i bob tragywyddoldeb, heb obaith byth o gael eu rhyddhau oddi dan y lleiaf o'i chreulonaf-ddialeddol felldithion. "Dedwydd yw'r dyn, ebe *Luwther*, a waredwyd oddi dan lywodraeth greulon y Frenhines hon."

mwy? Ond yn awr, attolwg, D. S. er bod *Luwther* a *Chalfin* fel hyn yn rhyddhau Credadyn oddi wrth y ddeddf yn yr achos o gyfiawnhad, ac fel y mae hi yn gyfraith neu yn gyfammod o weithredoedd; etto nid ydynt yn ei ryddhau ef oddi wrthi, fel y mae hi yn gyfraith CRIST. Canys dyma eiriau *Luwther*, yn wahanol i'r weithred o gyfiawnhad, "Ni a ddylem, gyd â'r Apoſtol *Paul* feddwl dywedyd yn barchedig ynghylch y gyfraith, a'i mawr glodfori, gan ei galw hi *yn ſanctaidd, yn gyfiawn, ac yn dda*, ïe, yn wahanol i'r achos o gyfiawnhad, ni a ddylem wneuthur a hi fel DUW." "Ac y mae cyfiawnder arall, medd *Luwther* drachefn, ſef, cyfiawnder y gyfraith, neu'r dêg gorchymun, yr hwn y mae *Moſes* yn ei ddyſgu; a hyn yr ydym ninnau yn ei ddyſgu yn ôl athrawiaeth ffydd." Ac mewn man arall, wedi iddo ddangos pa fodd y mae'r ffyddloniaid, trwy GRIST, yn uwch na'r gyfraith, efe a chwanegodd hyn hefyd, ſef, "Er hynny ni wadaf fi ddim nad yw *Moſes* yn dangos eu dyledſwydd iddynt, ac yn yr yſtyriaeth hyn y dylid eu cynghori a'u rhybuddio; am hynny athrawiaethau a chynghorion or fath hyn, a ddylid eu rhoddi megis y rhoddwyd hwy yn ddiammau gan yr Apoſtolion, fel y rhybuddid pob un ynghylch ei gyflwr a'i le.

Ac mewn perthynas i *Calfin*, yn ôl iddo ddywedyd, megis y clywſoch eiſoes, mai rhaid y fyddai i Griſt'nogion, o ran y weithred o gyfiawnhad, ddyrchafu a chodi eu hunain uwchlaw'r gyfraith, efe a 'chwanega, na all un dyn feddwl, fod y ddeddf yn ddirhaid i'r ffyddloniaid, am ei bod hi byth ac yn ddibaid yn eu cynghori, ac yn eu hannog i bob daioni, er nad oes iddi ddim lle yn eu cydwybodau hwy ger bron gorſeddfa DUW.

Anti. Ond, Syr, onid wyf fi yn cam-ſynied, ſe ddywaid *Muſculus* fod y gyfraith wedi ei llwyr ddileu.

Efan. Gwir yw, y mae *Muſculus* yn 'ſgrifennu ynghylch y dêg gorchymun fel hyn; "Os ydynt yn weiniaid, os y llytheren ydynt, os gweithredant

thredant ddigofaint, melldith, a marwolaeth; felly os CRIST a'i gwaredodd hwy, a gredaſant ynddo ef, trwy ddeddf Yſpryd y bywyd, oddi wrth gyfraith y llytheren, yr hon oedd yn rhŷ wan i gyfiawnhau, ond yn gadarn ddigon i gondemnio; ac os CRIST a'n gwaredodd ni oddi wrth y felldith, trwy fod ei hun yn *felldith troſom*, yn ddiau hwy a ddilewyd." Yn awr, hyn ſydd yn dra ſicr, nad yw'r dêg gorchymun mewn un modd yn gweithredu digofaint, melldith, a marwolaeth, ond yn unig megis y maent yn gyfammod o weithredoedd; ac ni waredodd CRIST y ffyddloniaid oddi wrthynt yn amgen nac fel y maent yn gyfammod o weithredoedd: Am hynny y gallwn ni fwrw yn lle gwir, na's dileuwyd yn amgen nac fel y maent yn gyfammod o weithredoedd, ac nid oedd amcan *Muſculus* yn amgen. "Canys nid oes i ni (ebe efe yn y geiriau neſâf) feddwl y llwyr ddiddymwyd ſylwedd cyfammod *Moſes*; na atto DUW! Canys nid yw yn rhydd i Griſtion wneuthur y peth a f'o annuwiol ac anghyfiawn." Ac oni bydd gweithrediad o'r pethau hynny a waharddo'r ddeddf yn anfoddloni CRIST; neu oni byddant yn wrthwyneb i'r cyfiawnder a dderbyniaſom oddi wrtho ef, bydded yn rhydd i'r Criſtion i'w gwneuthur hwy, ond nid amgen. Canys y mae'r Criſtion, os gwna ef yn erbyn y dêg gorchymun, yn pechu yn fwy erchyll o lawer na'r dyn a fae dan y ddeddf eiſoes; ¶ ac os felly nid yw ef yn rhydd mewn un modd rhag gwneuthur y peth a orchymynno'r ddeddf.

¶ Gwir yw fod pechodau Credinwyr, ynddynt eu hunain, yn haeddu melldith drymach nâ phechodau eraill a'r nad ydynt yn credu; ac o herwydd hynny y mae DUW yn mynych ymweled â hwynt â'r wialen, ac yn eu coſpi yn y cnawd, fel na b'o iddynt gael eu difetha gyd â'r byd; ond ni thyr ef byth ei drugaredd oddi wrthynt; o blegid bod y felldith drom a haeddodd eu pechodau wedi ei rhoddi eiſoes ar GRIST, er pan y maent mewn undeb âg ef; Ac o herwydd eu hundeb â CHRIST, ni chânt byth eu damnio yn uffern am danynt, pa beth bynnag a orfydd iddynt ei oddef o'u plegid tu yma i hynny.

Gan hynny os chwychwi, fy nghyfaill *Antinomiſta*, neu un arall, a gais un amſer, dan liw o'ch bod chwi yng NGHRIST, eich rhyddhau, fel na byddoch yn hwy tan gyfraith y dêg gorchymun, fel y maent yn gyfraith i GRIST, yr wyf fi yn dywedyd wrthych, mai argoel eglur yw nad ydych chwi etto yng NGHRIST; canys pe baech chwi ynddo ef, efe a fyddai ynoch chwithau; a phe bae CRIST ynoch, yna y llywodraethai ef arnoch, a chwi a fyddech ddaroſtyngedig iddo. Mae'n ſicr gennyf i'r Prophwyd *Eſaia* ddywedyd fel hyn, mai efe, ſef, CRIST, *yw'r Arglwydd ein barnwr, yr Arglwydd ein deddfwr, yr Arglwydd ein brenin, yr hwn a'n ceidw.* Eſay xxxiii. 22. Ac yn wir, ni fyn efe er dim fod yn IESU, neu yn Iachawdwr i neb, ond i'r ſawl y b'o ef yn Arglwydd CRIST; canys dyma'r holl wir, pa le bynnag y mae ef yn IESU y Iachawdwr, yno y mae ef hefyd yn GRIST yr Arglwydd; am hynny yr wyf fi yn erfyn arnoch, a'r i chwi holi eich hunan, a ydyw CRIST ſelly i chwi ai peidio.

Anti. Wrth hyn, Syr, mae'n debyg eich bod chwi yn ſefyll ar nodau ac arwyddion.

Efan. Ydwyf yn wir; yr wyf yn ſefyll cymmaint ar nodau ac arwyddion, hyd onid ydwyf yn dywedyd wrthych yng ngeiriau'r Apoſtol, *Yn hyn y mae yn amlwg plant Duw, a phlant diafol, pob un ag ſydd heb wneuthur cyfiawnder nid yw o Dduw.* "Canys, ebe *Luwther*, y neb a iawn ſedyddiwyd a aeth yn ddyn newydd, ac a gafodd naturiaeth a chynneddfau newydd, fel ac y mae ef yn ſerchu, yn byw, yn llafaru, ac yn gweithredu, yn angenach o lawer, nac yr arferai ef, neu y gallai ef gynt." "Canys, ebe *Tindal*, y mae DUW yn gweithredu gyd â'i air, ac yn ei air, ac yn rhoi ffydd ynghalonnau ei etholedigion ef yr hon ſydd yn puro'r galon oddi wrth bechod, gan rwymo dyn wrth DDUW, ac yn rhoi iddo allu i wneuthur y pethau a oedd yn ammhoſibl iddo i'w gwneuthur o'r blaen, ac yn ei droi ef i naturiaeth newydd." "Am hynny, ebe *Luwther* mewn man arall,

arall, yn hyn y mae ein gweithredoedd i'w canmol a'u clodfori, ſef, o'u bod hwy yn ffrwythau ac yn arwyddion o ffydd." Am hynny y neb ni edrycho pa fodd y byddo byw, fel y cauo ef ſafnau pob cyhuddwr ac enllibwr, ac y di-feio ei hunan yngwydd pawb, ac y tyſtiolaetho ei fod ef wedi byw, a chwedleua, a gweithredu y peth oedd uniawn, nid yw ef etto yn Griſtion. "Pa fodd, medd *Tindal*, y meiddia un dyn feddwl fod cariad Duw tu ag atto, a'i Yſpryd ef ynddo, pan na's teimlo ef na gweithrediad Yſpryd Duw oddi mewn iddo, na'ihunan yn barod i un weithred dda?"

Anti. Ond, Syr, trwy'ch cennad, yr wyf yn meddwl fod llawer dyn yn twyllo ei enaid ar hyn o nodau ac arwyddion.

Efan. Yn wir, yr wyf yn cyfaddef mai peth poſibl yw i ddyn gwrthodedig, yn awr yn yr amſeroedd hyn o Griſt'nogaeth, wneuthur proffes fawr wŷch o'r efengyl, a chwblhau pob gwaſanaeth o grefydd, mewn dangoſiad oddi allan, â chymmaint o zel ac awydd yſpryd, a phe bae ef yn wir Gredadyn; ïe, ſe allai fod yn gyfrannog o lawenydd tu fewnol mewn rhyw feſur; ac fe ddichon fod ganddo rîth o ailenedigaeth, gan nad oes un gras wedi ei weithredu yn effeithiol yn y Credadyn, na b'o ei rîth i'w weled mewn rhai heb eu hail eni. Am hynny os edrych neb ar yr arwydd, heb yſtyried y peth a arwyddoccair trwyddo, h. y. os edrych ef ar ei raſuſau (neu ei ddoniau yn hytrach) a'i ddyledſwyddau, ac os terfyna ef fod iddo ddiogelwch oddi wrthynt, fel y maent hwy ynddo ef, neu fel y deuant oddi wrtho, heb ymofyn â CHRIST fel eu gwreiddyn, a'u ffynnon, a'u dechreuad, yna y maent yn arwyddion ac yn nodau twyllodrus. Ond os edrych ef arnynt, gan olygu CRIST fel gwreiddyn iddynt, yna nid ydynt yn dwyllodrus, ond yn wir ddangoſiad ac yn hyſpyſrwydd o ffydd yng NGHRIST. A hyn a wna dyn, pan yr edrycho ef ar ei waithredoedd oddi allan, fel y maent yn deilliaw oddi wrth ddirgel

ddirgel weithrediad ei feddwl; ac ar ddirgel weithrediadau ei feddwl, megis yn deilliaw oddi wrth ei gyfiawnhad; ac ar ei gyfiawnhad, megis yn deilliaw oddi wrth ei ffydd; ac ar ei ffydd, fel wedi ei rhoddi iddo gan GRIST IESU, trwy ba un yr ymafael ef yn ddiogel yng NGHRIST. Felly meddaf, os na bydd ef yn gorphwys, hyd oni ddelo at GRIST, ni fydd ei nodau a'i arwyddion ef ddim yn dwyllodrus, ond yn gywir.

Anti. Ond, Syr, os bydd gan yr anghredadyn gyffelybrwydd o bob gras a weithredir yn y Credadyn, yna mae'n anhawdd cyffwrdd â'r gwahaniaeth rhyngddynt; am hynny yr wyf fi yn meddwl mai gwell y fyddai i ddyn beidio a blino ei hun ynghylch nodau ac arwyddion.

Efan. Rhowch gennad i mi ddywedyd un gair yn hŷf wrthych; er na allwn ddywedyd fod gryn duwioldeb gan bob un ſydd a rhîth duwioldeb ganddo; etto ni a allwn ddywedyd yn wirioneddol, nad oes gan hwnnw mo rym duwioldeb, a'r na b'o ganddo gymmaint a rhith a dangoſiad o hono; canys er nad yw pob peth a ddiſgleirio yn aur, etto y mae pob aur yn diſgleirio: Am hynny y dywedaf wrthych mewn gwirionedd, onid ydych chwi yn gofalu am gyfraith CRIST i'w gwneuthur yn rheol o'ch bywyd, trwy geiſio gwneuthur y pethau a ofynnir yn y dêg gorchymun, ac i ymwrthod â'r pethau a waherddir yno, y mae hyn yn arwydd eglur o ddrygioni eich calon: Am hynny, attolwg, edrychwch attoch eich hunan.

Anti. Ond, Syr, chwi a wyddoch, addo o'r Arglwydd 'ſgrifennu ei gyfraith ynghalon y Credadyn, a rhoi ei Yſpryd iddo i'w arwain ymhob gwirionedd: ac am hynny nid rhaid iddo wrth y gyfraith a yſgrifenwyd âg ingc a phapur i fod yn rheol o fywyd iddo; ac nid rhaid ychwaith iddo geiſio ufuddhau iddi.

Efan. "Gwir yw, ebe *Luwther*, fel hyn y byddai, megis y dywedaſoch, pe baem ni yn berffaith, ac yn gyfan-gwbl yn wir yſprydol oddi mewn: Ond ni

ddichon

ddichon hyn fod er dim, hyd oni ddelo'r dydd diweddaf ac adgyfodiad y meirw. Canys cyhyd ac ein hamwiſgir ni â'r cnawd marwol hwn, nid ydym ond dechrau, neu, o'r mwyaf, yn myned rhagom yn ein gyrfa tu ag at berffeithrwydd, yr hwn a gwblhair yn byd ſydd ar ddyfod." Ac o achos hyn y geilw'r Apoſtol hynny yn *Flaen ffrwyth yr Yſpryd*, a feddiannom yn y bywyd hwn; eithr y gwirionedd, a'r cyflawnder o ba un a dderbyniwn ni yn y byd a ddaw yn y Nef. Am hynny, " Angenrhaid yw, ebe efe mewn mann arall, i ni felly i bregethu iddynt hwy a dderbyniaſant yr athrawiaeth o ffydd, fel y cyffroid hwy i fyned yn eu blaen mewn buchedd dduwiol yr hon a gofleidiaſant eiſoes, ac na oddefont gymmeryd eu gorchfygu gan gynhyrfiadau y cnawd ffrom-wyllt; canys nid oes i ni fod mor rhyfygus ar athrawiaeth ffydd, fel pe bae rydd i ni, wedi cael gafael arni, fyw fel y mynnom, a gwneuthur yr hyn a welom ni fod yn dda. Nag ë, ond y mae'n rhaid i ni geiſio, â'n holl egni, fod yn ddiargyoedd; a phan na allom ni gyrraedd at ſanctеiddrwydd, awn at ein gweddiau, a dywedwn ger bron Duw a dynion, *Maddeu i ni ein dyledion.*" " A thyma (ebe *Calfin)* un ymarfer a diben priodol o'r ddeddf i'r Ffyddloniaid, ynghalonnau pa rai y mae Yſpryd Duw yn byw ac yn teyrnaſu; ſef, er bod y gyfraith wedi ei'ſgrifennu a'i hargraphu yn eu calonnau hwy â bŷs Duw, etto, mae'r gyfraith yn gwaſ[ſ]'naethu fel cyfarwyddyd ſicr i'w dyſgu hwy well well, a ſicrach ſicrach beunydd, pa peth yw ewyllys yr Arglwydd; ac na ryddhaed neb o honom ei hun oddi wrthi; canys ni chafodd neb etto gymmaint o ddoethineb, fel nad rhaid iddo gael ei gynghori beunydd gan y gyfraith." Ac yn hyn y mae'r gwahaniaeth rhyngom ni a CHRIST, ſef, bod y Tad wedi tywallt arno ef anfeidrol gyflawnder o'r Yſpryd; ond wrth feſur yr ydym ni yn derbyn y cwbl a gaffom. Yn awr yſtyriwch, attolwg, gan nad yw'r Ffyddloniaid wedi derbyn yr Yſpryd,

ond

ond mewn meſur, a chan na wyddant hwy ddim, ond o ran; yna nid oes ganddynt y gyfraith wedi ei 'ſgrifennu yn eu calonnau, ond mewn meſur, ac o ran. A chan nad yw'r gyfraith wedi ei 'ſgrifennu, ond o ran, ac mewn meſur, yn eu calonnau, yna nid oes iddynt un rheol berffaith o'r tu fewn; ac oni bydd iddynt reol berffaith o'r tu fewn, yna bydd rhaid iddynt wrth reol o'r tu allan. Am hynny fe fydd yn angenrhaid i'r Credadyn gorau, a mwyaf ei ffydd, gymmeryd cyngor *Tindal*, ſef, "Cais Air Duw ymhob rhyw beth, ac na wna ddim heb Air Duw." Ac medd 'ſgrifenydd efangylaidd arall, "Gwnawn ein gorau, fy mrodyr, i ufuddhau i ewyllys Duw, fel y gweddau i blant da, ac ymogelwn â'n holl egni, na phechom er dim yn erbyn un o'i gyfreithiau ef."

Anti. Ond, Syr, ni ŵn i beth y ddywedaf; ond mi a debygwn, mai peth afraid yw i ddyn, yn ôl ei gyfiawnhau yn hollol trwy ffydd, geiſio cadw't ddeddf, a gwneuthur gweithredoedd da.

Efan. 'Rwy'n cofio'r peth a ddywaid *Luwther*, ſef, bod rhai yn ei amſer ef yn ymreſymmu yn yr un modd. Os ffydd (meddent hwy) ſydd yn cyflawni pob peth, ac os ffydd noeth yn unig ſydd ddigonol i gyfiawnhau, pa ham y gorchymynir i ni i wneuthur gweithredoedd da? Pa raid i ni ond chwarau, a chwerthin, a ſegura? Ond efe a'u hattebodd hwy, gan ddywedyd, "*Nid felly, chwychwi annuwiolion, nid felly.*" Ac eraill a ddywedent, Oni bydd y ddeddf yn cyfiawnhau, y mae hi yn ofer ac yn ddiles. Ond *Nid gwir hynny etto*, ebe efe, wrthynt; canys y mae ymadrodd y dyn hwnnw yn ofer a ddywedo, Nid yw arian yn cyfiawnhau, neu yn gwneuthur dyn yn gyfiawn, am hynny y maent yn anfuddiol: Ac nid yw'r llygaid yn cyfiawnhau, am hynny y dylid eu tynnu allan; felly di-yſtyr yw'r dadl hwn, nid yw'r ddeddf yn cyfiawnhau, am hynny y mae yn anfuddiol. Ond nid ydym ni yn barnu ac yn dirymmu'r gyfraith, ond yn dywedyd yn ôl geiriau'r

Apoſtol,

Apoſtol, 1 *Tim.* i. 8. *Da yw'r gyfraith, os arfer dyn hi yn gyfreithlon: A gwir yw'r gair, fel y byddo i'r ſawl a gredaſant Dduw, ofalu ar flaenori mewn gweithredoedd da; y pethau hyn ſydd dda, a buddiol i ddynion.* Tit. iii. 8.

Neoph. Yn wir, Syr, o'm rhan i, yr wyf fi yn rhyfeddu fod fy nghymmydog *Antinomiſta* mor hyderus ar ei ffydd yng NGHRIST, ac etto yn diyſtyru ſanctеiddrwydd buchedd, ac ufudd-dod i orchymynion CRIST, fel y gwelir ei fod wrth ei ymadrodd. Canys yr wyf fi yn awr(i DDUW y diolchaf) yn credu mewn rhyw feſur bychan fy mod wedi fy ngyfiawnhau yn rhad, ac yn gyflawn, ac wedi fy rhyddhau oddi wrth fy holl bechodau gan GRIST; ac am hynny nad rhaid i mi na gwrthod y drwg, na gwneuthur y da, rhag ofn coſpedigaeth, neu obaith o wobr; ac etto mae fy nghalon i debygwn, yn fwy ewyllyſgar, ac yn fwy ei hawydd, i wneuthur y peth a orchymynno'r Arglwydd, ac i ymwrthod â'r peth a waharddo ef, nac y bu erioed cyn i mi gredu. Yn wir yr wyf fi yn dyall, nad yw ffydd yng NGHRIST yn rhwyſtro duwioldeb buchedd, megis y tybiais i gynt ei bod.

Efan. Fy anghymmydog *Neophitus*, od yw *Antinomiſta* yn ymfoddloni ei hun â gwybodaeth yn unig o'r efengyl, ac wedi cyrraedd at ryw liw o gydnabyddiaeth o GRIST, ac heb ei gyrraedd trwy allu CRIST; gadewch i ni doſturio wrtho, a gweddio troſto; Ac yn y cyfamſer gwybyddwch, fod gwir ffydd yng NGHRIST mor belled oddi wrth fod yn rhwyſtr i dduwioldeb bywyd a gweithredoedd da, hyd onid yw yr unig beth ac ſy yn eu gyrru ymlaen. Canys trwy ffydd yn unig y nerthir dyn i ymarferyd pob gras Criſt'nogaidd yn weddus, ac i gwblhau pob dyledſwydd Griſt'nogaidd yn iawn, yn amgen nac y medrai gynt. Yn lle eſampl, cyn y gallo dyn iawn gredu cariad Duw tu ag atto yng NGHRIST, er bod ynddo ryw fath o gariad at DDUW, fel y mae ef yn Greawdwr ac

yn

yn Geidwad iddo, ac yn Rhoddwr hael o lawer peth daionus tu ag at ei fywyd presennol: Etto pe agorai Duw ei lygaid ef i ganfod ymha gyflwr y mae ei enaid ef, sef, pe gadewid iddo weled yr angnghyfattebolrwydd sy rhyngddo ef a Duw, yn ôl deunydd y cyfammod gweithredoedd, yna ni feddyliai ef am Dduw yn amgen, nac am Farnwr digllon wedi ei arfogi â barn yn ei erbyn ef; yr hwn y byddai raid ei lonyddu â gweithredoedd y ddeddf, i ba un y mae ef yn gwybod fod ei nattur yn wrth'nebol: Am hynny efe a gasâ Dduw a'i gyfraith, ac yn ei galon a ddymuna yn ddirgel, na bae na Duw, na chyfraith; ac er cymmaint o fendithion daearol y roddai Duw iddo, etto ni all ef mo'i garu ef. Canys pa ddrwg weithredwr a garai y barnwr hwnnw na'i gyfraith, oddi wrth ba un y disgwyl ef am farn o ddamnedigaeth? Ie, er iddo ei borthi ef wrth ei fwrdd â'r danteithion mwyaf. Eithr *yn ol ymddangos daioni a chariad Duw ei Achubwr, nid o weithredoedd cyfiawnder y rhai a wnaeth ef, eithr yn ol ei drugaredd, trwy ba un yr achubodd efe ef:* h. y. cyn gynted ag y gwelo ef ei hunan yn sefyll yng ngwŷdd Duw, yn ôl trefn y cyfammod o ras, yna efe a feddwl am ei Dad anwyl trugarog yng Nghrist, yr hwn a faddeuodd iddo ei holl bechodau yn rhad, ac a'i ryddhaodd yn llwyr oddi wrth y cyfammod o weithredoedd; ac yn y modd hwn y *Tywellir cariad Duw yn ei galon ef trwy'r Yspryd Glan, yr hwn a roddir iddo.* Ac yna *y câr ef Dduw, am iddo ef yn gyntaf ei garu ef.* Canys fel y byddo dyn trwy ffydd yn teimlo ac yn gweled cariad Duw tu ag atto yng Nghrist ei Fab, yn yr un modd y câr ef Dduw a'i gyfraith. Ac yn wir, peth ammhosibl yw i ddyn garu Duw, nes y gwypo ef trwy ffydd ei fod yntef yn cael ei garu gan Dduw.

Yn ail, er bod hyn yn debygol, y gallai fod mewn dyn, cyn y credai ef gariad Duw tu ag atto yng Nghrist, fesur mawr o ymostyngiad deddfol, a galar, ac ochain; hyd oni iselir ef, fel pe bae, hyd at

at borth uffern, lle y teimlo ef, ïe, dân uffern yn lloſgi yn ei gydwybod o herwydd ei bechodau: Etto nid yw ef felly o herwydd iddo anfoddhau DUW trwy bechod, ond yn hytrach am iddo beri niwaid i'w hunan; ſef, am iddo ddwyn ei hunan trwy bechod i berygl o farwolaeth a damnedigaeth dragywyddol. Ond, pan y mae dyn unwaith trwy ffydd yn ymaflyd yng nghariad DUW yng NGHRIST am faddeuant o'i bechodau a gollyngdod o'i gamweddau, yna y mae ef yn galaru ac yn triſthau am iddo ddigio DUW trwy ei bechod, yr hwn ſydd mor hael a thrugarog tu âg atto; ac efe a ymreſymma fel hyn â'i hun; Beth, ai felly y mae yn wir! A roddodd yr Arglwydd ei anwyl Fab ei hun i farwolaeth troſof fi ddyn gwael annuwiol! A gymmerodd CRIST fy mhechodau i gyd arno ei hun! A archollwyd ef am fy nghamweddau i! Och! Gwae yntef yn awr, gan derfyſg dieithr yn codi o'r tu fewn iddo; pa fath gynhyrfiad ſy yn awr yn ei ymyſgaroedd? Pa fath doddiad ſy yn awr yn ei galon edifeiriol? *Yna y cofia ef ei ffyrdd drygionus, a'i weithredoedd nad oeddynt dda, ac a ffieiddia ei hunan am ei holl anwiredd a'i ffieiddra; a chan edrych ar Griſt yr hwn a drywanaſai, efe a alara am dano megis un yn galaru am ei gyntaf anedig.* Yn y modd hwn yn ôl i ffydd wreſogi calon dyn â gwaed CRIST, hi a feddalheir ac a nawſeiddir cymmaint, nes yr ymddattod hi i ddagrau halltion o driſtwch duwiol; hyd oni byddo ef, wedi i GRIST droi ac edrych arno, yn barod, megis *Pedr*, i fyned allan ac i *wylo yn chwerw doſt.* A dyma'r gwir driſtwch, ac o'r fâth hyn yw'r gwir edifeirwch efangylaidd.

Yn drydydd, er y gallai dyn, cyn iddo wir gredu yng NGHRIST, felly ddiwygio ei fywyd, hyd oni b'o ef, megis yr Apoſtol, *yn ddiargyhoedd yn ôl y cyfiawnder ſydd o'r ddeddf.* Ac etto am ei fod ef yn aros tan y cyfammod o weithredoedd, nid yw ei holl ufudd-dod ef i'r gyfraith, na'i holl ymwrthodiad â phechod, na'i holl waſanaeth, na'i holl ymogeliad

rhag pob peth a waharddo'r gyfraith, na'i ufuddddod i bob peth a orchymyno'r gyfraith, ond y peth ſy'n cael ei genhedlu gan y gyfraith weithredol ar y gaeth wraig *Hagar*, trwy rym hunan-gariad; y maent yn ffrwythau a gweithredoedd Caeth-was, yr hwn a gyffroi'r, ac a gymmhellir i wneuthur y cwbl a'r y wnelo ef rhag ofn coſpedigaeth, ac er mwyn gwobr. "Canys nid yw'r gyfraith, ebe *Luwther*, a roddwyd ar fynydd *Sinai*, yr hwn a elwir gan yr Arabiaid, *Hagar*, yn cenhedlu neb ond gweiſion; am hynny pa beth bynnag y wnelo y fath ddyn, nid yw ond rhagrith; am ei fod ef yn gwneuthur lliw o waſanaeth i DDUW, lle nad yw ef, mewn gwirionedd, yn amcanu ar ddim amgen nac i waſanaethu ei hunan. A pha fodd y gwna ef amgen? Canys cyhyd ac y b'o dyn yn ddi-ffydd, y mae arno ddiffyg o bob peth: Y mae ef yn winwydden wâg, yn dwyn ffrwyth iddo ei hunan yn unig." Yn y cyflwr hwn ni fyn ef waſanaethu'r Arglwydd CRIST, nes y darfyddo iddo waſanaethu ei dro ei hunan yn gyntaf. Ie, cyhyd ac y b'o ef yn ddiffydd, y mae ef yn ddi-gariad at GRIST, ac am hynny nid yw ef yn byw i GRIST, ond iddo ei hun, am ei fod yn caru ei hun yn fwy nâ CHRIST. Am hynny da y dywedodd Dr. *Preſton*, "Mai o ragrith y gwneir y cwbl oll a wnelo dyn heb gariad; pa le bynnag nad oes cariad, nid oes ond rhagrith yng nghalon hwnnw." Ond cyn gynted ac y derbynio ddyn Yſpryd CRIST trwy wrandawiad ffydd, y mae'r Yſpryd hwnnw, yn ôl meſur ei ffydd, yn 'ſgrifennu bywiol gyfraith cariad yn ei galon ef; yn ôl geiriau *Tindal*, trwy ba un y mae ef yn cael ei nerthu i weithredu yn rhwydd ac yn ewyllyſgar, heb na'i yrru, na'i gymmell gan y gyfraith; canys y cariad hwnnw, â pha un y carodd CRIST ef, neu DDUW yng NGHRIST ef, ac â pha un y mae ef yn ymaflyd ynddo trwy ffydd, a'i gymmell ef i wneuthur felly, yn ôl geiriau'r Apoſtol, *y mae cariad Criſt yn ein cymmell ni* 1 Cor. v. 14. h. y ſe a bar

cariad

cariad iddo wneuthur hyn a hyn; nid all beidio, ac ni feder ef amgen na'i wneuthur. Hyn a ddywedaf yn hŷf wrthych, cymmaint ac y mae cariad CRIST wedi ei dywallt yng nghalon dyn, y mae yn gymmhelliad crŷf i'w yrru yn y blaen i wasanaethu ac i foddloni'r Arglwydd ymhob peth; yn ôl gair Mr. *Town*; "Y mae, ebe efe, serch ac ewyllys Creadyn, yn ôl y mesur o ffydd ac o'r Yspryd y dderbynio ef, yn bywioccau yn hyfryd, ac yn gogwyddo i ddewis, i serchu, ac i hoffi pa peth bynnag sydd dda a chymmeradwy yngolwg Duw a dyn, gan fod yr Yspryd yn ei gyffroi, ac yn ei ogwyddo yn rhwydd ac yn llawen i gadw'r gyfraith, nid rhag ofn uffern, nac er mwyn gwobr nefol." "Canys y mae'r gwir Gristion, ebe *Tindal*, yn gweithredu pob peth yn unig o herwydd fod ei Dad nefol yn ei ewyllysio; canys yn ôl ei orchfygu gan gariad a daioni Duw, efe a gais ymhob rhyw fodd i ufuddhau i'w ewyllys ef, fel pe bae hyn yn naturiol iddo, a pha beth bynnag y wnelo ef, efe a'i gwna yn rhwydd, yn ôl esampl CRIST, megis plentyn naturiol." A phe gofynnech iddo pa ham y gwna ef hyn a hyn? Ei atteb a fydd i'r ystyr hyn; "Hyn yw ewyllys fy Nhad; ac yr wyf yn gwneuthur felly, fel y gallwyf ryngu ei fodd ef. Canys yn wir, nid yw cariad yn chwennych cyflog; y mae ef yn ddigon o gyflog ei hunan, y mae ef yn felus, ac yn hyfryd ddigon o hono ei hunan, ac ynddo hunan, heb geisio dim chwanegiad, y mae ef yn talu cyflog i'w hunan." Am hynny ufudd-dod mabaidd yw hwn, a genhedlwyd trwy ffydd o'r *wraig* rŷdd trwy nerth cariad Duw; ac felly yr unig wir ufudd-dod yw. "Canys, ebe Dr. *Preston*, i wneuthur peth mewn cariad, yw ei wneuthur mewn purdeb; ac yn wir, nid oes na gwell, nac amgen ffordd nâ hyn i wybod beth yw purdeb."

Nom. Ond arhoswch, attolwg, Syr; ai ni fynnech chwi i'r ffyddloniaid ymwrthod â'r drwg, a gwneuthur y da, rhag ofn uffern, ac er mwyn y Nef?

Efan. Na fynnwn yn wir i un dyn crediniol na gwneuthur y naill na'r llall i'r diben hwnnw: Canys cyn belled ag y gwnelont hwy felly, nid yw eu hufudd-dod hwy ond caethiwus, ac anewyllyſgar; am hynny er iddynt ddymuno, gyd â'r mab afradlon, eu bod hwy ond fel gweiſion cyflog ar eu deffroad a'u hargyoeddiad cyntaf o'u trueni, ac ar eu dechreuad ar y ffordd o fywyd; etto cyn gynted ag y gwelont â llygad ffydd, drugaredd a dioddefgarwch eu Tâd nefol yng NGHRIST yn rhedeg i gyfarfod â hwy, ni fynnwn i ddim iddynt ſôn ymhellach am fod yn weiſion cyflog; eithr mi a ddymunwn arnynt felly i ymdrechu yn erbyn pob amheuaeth, ac felly i ymarfer eu ffydd, nes y credont eu bod hwy wedi eu gwaredu trwy GRIST oddi wrth ddwylo pawb o'u caſeion; ſef, y ddeddf, pechod, digofaint, marwolaeth, y cythraul, ac uffern, fel y *gwaſanaethont yr Arglwydd yn ddiofn, mewn cyfiawnder a ſanctteiddrwydd, ger ei fron ef, hall ddyddiau eu bywyd.* Luc i. 74, 75. Mi a ddymunwn arnynt felly i gredu cariad DUW tu ag attynt yng NGHRIST, fel y cymmhellid hwy trwy hynny i ufudd-dod.

Nom. Ond, Syr, chwi a wyddoch, pa fodd y mae ein Iachawdwr yn cynghori, ſef, *Ofnwch yr hwn a all ddiſtrywio enaid a chorph yn uffern.* Luc xii. 5. Ac y mae'r Apoſtol yn dywedyd, *Nyni a dderbyniwn gan yr Arglwydd daledigaeth yr etifeddiaeth.* Col. iii. 24. Ac fe ddywedir am *Moſes* ei fod ef yn *edrych ar daledigaeth y gwobrwy.* Heb. xi. 26.

Efan. Yn ddiau, amcan ein Iachawdwr bendigedig yn yr 'ſgrythur gyntaf a ſoniaſoch, yw, i ddyſgu pob Credadyn, pan y b'o DUW yn gorchymun un peth, a dyn beth arall, i roi ei ufudd-dod i DDUW yn hytrach nac i ddyn; ac nid yw ef yno yn eu cynghori hwy i ymwrthod a drwg rhag ofn uffern. Ac am y lleoedd eraill a enwaſoch, os y'ch chwi yn dyall gwobr, a'r moddion i'w gael, yn ôl yſtyr y 'ſgrythur; yna peth arall yw hynny: Ond mi a ſeddyliais, eich bod chwi yn meddwl yn ein hyſtyr gyffredin ni, ac nid yn ôl yſtyr y 'ſgrythur. *Nom.*

Nom. Pa wahaniaeth, Syr, attolwg, ſy rhwng y wobr a'r moddion i gael y wobr, yn ein hyſtyr gyffredin ni, ac yn ôl yſtyr y 'ſgrythur?

Efan. Gwobr, yn ôl ein yſtyr gyffredin ni, yw'r peth y debygir ei fod yn dyfod oddi wrth DDUW, neu i'w roddi gan DDUW, gan wâg-feddwl am y nefoedd dan ryw ddych'mygion cnawdol, gan edrych arno megis ar ryw fan, lle y cair rhydd did oddi wrth pob trueni a thrallod, a llawnder o bob hyfrydwch a dedwyddwch i'w gael er mwyn ein gweithredoedd ein hunain. Eithr yn ôl yſtyr y 'ſgrythur, nid yw Gwobr cymmaint yn y peth a ddelo oddi wrth DDUW, neu a roddir gan DDUW, a'r peth ſydd yn gorwedd ynddo ef, ſef, mwynhad perffaith o'r Arglwydd DDUW ei hunan yng NGHRIST. *Myfi* (ebe DDUW wrth *Abraham*) *yw dy darian, a dy wobr mawr iawn.* Gen. xv. 1. *Pwy ſydd gennyf yn y nefoedd* (ebe Dafydd) *ond tydi? Ac ni ewyllyſiais i ar y ddaear neb gyd â thydi.* Sal. lxxiii. 25. *Digonir fi, pan ddihunwyf â'th ddelw di.* A'r moddion trwy ba rai y mwynheir hyn o wobr, yw, nid ein gweithredoedd, ond ein ffydd, ſef, *neſâu atto â chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd.* Heb. x. 22. Ac felly yn rhad y roddir. Gan hynny nid oes i chwi ddyall y wobr hynny, am ba un y mae yr 'ſgrythur yn coffâu, fel pe bae yn gyflog gwas, ond fel y mae yn etifeddiaeth meibion. A phan y b'o'r 'ſgrythur yn gwahodd y ffyddloniaid i ufuddhau, gan addo'r wobr yma, rhaid i chwi yſtyried, fod yr Arglwydd yn llafaru wrth y ffyddloniaid, fel y llefarai Tad wrth ei blentyn, ſef, gwna hyn, neu hyn, ac yna myfi a'th garaf di; lle mae yn hyſpus, fod y Tad yn caru ei blentyn ar y cyntaf; ac felly y mae DUW. Am hynny dyma ymadrodd y ffyddloniaid, *Yr ydym ni yn ei garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni.* Y mae'r Arglwydd yn talu iddynt hwy, neu o'r lleiaf, yn rhoddi inſel o'u cyflog, cyn y paro iddynt weithio un pwyth; am hynny nid yw y Credadyn (yn ôl meſur ei ffydd)

yn gofyn, beth a rydd Duw iddo ef, ond beth a roddai ef i Dduw; *Beth a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddaioni i mi? Canys dy drugaredd ſydd o flaen fy llygaid; ac mi a rodiais yn dy wirionedd.* Sal. cxvi. 12.

Nom. Wrth hyn, Syr, y mae'n debyg, nad yw ſancteiddrwydd bywyd a gweithredoedd da yn achos o ddedwyddwch tragywyddol, ond megis y maent fel y llwybr yn unig tu ag yno.

Efan. Onid y'ch chwi yn cofio, fod ein Harglwydd Iesu ei hun yn dywedyd, *Myfi yw'r ffordd, y gwirionedd, a'r bywyd?* Ac onid yw'r Apoſtol yn cynghori'r *Coloſiaid* crediniol fel hyn? *Megis y derbyniaſoch Griſt Ieſu yr Arglwydd, felly rhodiwch ynddo*; h. y. megis y derbyniaſoch ef trwy ffydd, felly ewch yn eich blaen yn eich ffydd, a thrwy ei nerth ef, rhodiwch yn ei orchymynion ef. Felly gweithredoedd da (yn ôl fy meddwl i) ſy i'w galw yn rhodiad y Credadyn ar hyd y llwybr i ddedwyddwch tragywyddol, yn hytrach nâ'r llwybr ei hunan. Ond hyn ſydd wir, mai yn y derbyniad o Grist Iesu trwy ffydd, ac yn ein ufudd-dod i'w gyfraith ef, yn ôl y meſur o'r derbyniad hwnnw, y cynnhwyſir holl ſwm a ſylwedd y llwybr, a'r rhodiad yn y llwybr hefyd.

Neoph. Syr, yr wyf fi yn coelio, ddarfod i'm cymmydog *Nemiſta* â'i holiadau eich rhwyſtro rhag myned yn y blaen yn eich ymadrodd, i ddangos pa fodd y mae ffydd yn nerthu dyn i ymarferyd ei raſuſau, ac i gwblhau ei waſanaeth Griſt'nogol yn weddus; am hynny, attolwg, ewch yn eich blaen.

Efan. Beth a ddywedaf yn y chwaneg? Canys yr amſer a ballai i mi i fynegi pa fodd y mae hynny yn dwyn gwir heddwch cydwybod i ddyn yn ôl meſur ei ffydd ef; canys medd yr Apoſtol, *Gan ein bod ni wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae gennym heddwch tu ag at Dduw.* Rhuf. v. 1. Ie medd y Prophwyd, *Ti a gedwi mewn tangnefedd heddychol yr hwn ſydd a'i feddylfryd arat ti, am ei fod yn ymddiried ynot.* Eſa. xxvi. 3. Dyma'r lle mae gwir a diogel dangnefedd.

Am

Am hynny o ffydd y mae (ebe'r Apoſtol) *fel y byddai yn ôl gras, fel y byddai'r Addewid yn ſicr i'r holl hâd.* Rhuf. iv. 16. Ac megis y b'o ffydd dyn, trwy ba un y cred ef ei fod wedi ei *gyfiawnhau yn rhad trwy ras Duw, trwy'r prynedigaeth ſydd yng Nghriſt Ieſu,* felly y mae gwir oſtyngeiddrwydd ei yſpryd ef, er ei fod yn meddiannu llawer o ddoniau a graſuſau, ac er cymmaint o gyflawniadau a wnelo, etto mae ef yn ymwadu â'i hun yn y cwbl; heb wneuthur yſgol o'i weithredoedd i ddringo ar hyd-ddi i'r nef; ond ei ddymuniad yw, *Ei gael yng Nghriſt, heb ei gyfiawnder ei hun, yr hwn ſydd o'r ddeddf; ond yr hwn ſydd trwy ffydd Criſt,* Phil. iii. 9. Nid yw ef yn meddwl ei fod gam yn nês i'r nef er ei holl weithredoedd a'i waſanaeth; a phe clywai ef neb yn ei ganmol am ei raſuſau a'i ddoniau, ni feddwl ef, mai trwy ei ddiwydrwydd a'i boen ei hunan y cafodd ef y fath drugareddau (er bod rhai yn euog o'r fath hyn o falchder calon) ac nid yw ef ychwaith yn dywedyd, yn ôl ofer ymarfer rhai ymffroſtwyr, ſef, nid am ddim y cefais i hyn a hyn o raſuſau, a gwybodaeth; fe orfu i mi gymmeryd llawer o boen cyn eu cael hwy. Ond efe a ddywaid, *Nid myfi, ond gras Duw yr hwn oedd ynof fi; trwy ras Duw yr ydwyf yr hyn ydwyf,* 1 Cor. xv. 10. A phe gwelai ef ryw ddyn anwybodus, neu ryw ddrwg-fucheddwr, nid yw ef yn ei alw ef yn anifail cnawdol, neu yn ddyn brwnt aflan, nac yn dywedyd wrth arall, *Saf ar dy ben dy hun, na neſâ attaf fi; canys ſanctëiddiach ydwyf nâ thydi,* Eſai. lxv. 5. (fel y dywaid rhai) Ond efe a doſturia wrth y fath ddyn, ac a weddia droſto, ac yn ei galon efe a ofyn iddo ei hun yn ddirgel, *Pwy a wnaeth y rhagoriaeth rhyngot ti ac arall? Beth ſydd gennyt a'r na's derbyniaiſt?* 1 Cor. iv. 7. Felly mi allwn fyned rhagof i ddangos, mai yn ôl ffydd pob dyn y mae ei lawenydd ef yn yr Arglwydd, a'i wir ddiolchgarwch i Dduw, a'i oddefgarwch yn ei holl gyſtuddiau a'i flinderau, a'i foddlonrwydd ymhob cyflwr, a'i barodrwydd i ddi-

oddef,

oddef, a'i lawenydd dan y groes, a'i ewyllyſgarwch i ymadael â phob peth daearol; ïe, ac yn ôl meſur ffydd dyn, y mae ganddo galon i weddio yn iawn, i wrando, ac i ddarllen gair Duw yn bwyſig, ac i dderbyn y Sacrament o Swpper yr Arglwydd er budd a chyſur, ac i wneuthur pob gwaſanaeth i Dduw, ac i ddyn, yn drefnus ac yn weddus, ac i ddiben union; ïe, yn ôl meſur ffydd dyn, y bydd ei gariad ef tu ag at Grist, a thu ag at ddyn er mwyn Crist: Ac yn yr un modd y bydd ei barodrwydd ef, a'i ewyllyſgarwch i faddeu camwedd; ïe, i faddeu i'w elyn, ac i wneuthur daioni i'r ſawl a'i caſâo. A pha fwyaf o ffydd y f'o mewn dyn, llai o hynny y bydd ei gariad ef at y byd, neu bethau bydol: Ar un gair, pa fwyaf y f'o ffydd dyn, parottach ac ewyllyſgarach yw ef i ymadael â'r byd hwn.

Neoph. Da iawn, Syr; yr wyf fi yn awr yn dyall mai gras godidog a rhagorol yw ffydd, ac mai dedwydd yw'r dyn a feddianno feſur helaeth o honi.

Efan. Dyma'r gwir; ffydd yw'r gras pennaf a ddylai Criſt'nogion gael eu hannog a'u cynghori i'w geiſio a'i ymarfer; am hynny pan y gofynnai'r bobl i'n Iachawdwr, *Pa beth y wnaent fel y gweithredent weithredoedd Duw?* Yntau attebai, *Hyn yw gwaith Duw, Credu o honoch yn yr hwn a anfonodd efe*; Ioan vi. 9. i ddangos, mai hyn yw'r gwaith pennaf. Canys yn wir oddi wrth ffydd y mae pob gweithred a gwaſanaeth arall yn deilliaw. "Pan archwyf, ebe *Mr. Reloc*, i ddyn gredu, yr wyf yn erchi iddo weithredu pob daioni." "Canys y gwirionedd o ffydd, ebe Dr. *Preſton*, a ddwg allan wirionedd o ſanctteiddrwydd; Os dyn a gred yn iawn, gweithredoedd o ſanctteiddrwydd a ddilynant ei ffydd ef, am fod ffydd yn tynnu ar eu hôl gyfiawnder a ſanctteiddrwydd, fel peth cyſylltedig wrthi. Gan hynny, ebe efe dracheſn, os â dyn ynghylch hyn o orchwyl mawr, ſef, adnewyddu ei fywyd, i orchfygu rhyw bechod, fel na b'o yn teyrnaſu arno, i buro ei gydwybod oddi wrth weithredoedd meirwon, ac i gael ei wneuthur

wneuthur yn gyfrannog o'r annian nefol, nac eled ef ddim ynghylch y fath orchwylion, fel gwr moesawl, h. y. na ofynned pa orchymynion sy wedi eu rhoddi, neu pa uniondeb y mae'r Gyfraith yn ei ofyn, neu pa fodd y dwg ef ei galon atti; ond eled yn ei flaen fel Cristion, gan gredu yng NGHRIST; a gwybydded hyn, *y bydd i waed Crist buro ei gydwybod oddi wrth weithredoedd meirwon i wasanaethu'r Duw byw.*"

Neoph. Ond o ba le, Syr, y mae ffydd yn cael y nerth a'r rhinwedd hwn i wneuthur y cwbl fel hyn?

Efan. Oddi wrth ein Harglwydd IESU GRIST; canys y mae ffydd yn impio dyn, yr hwn sydd wrth nattur yn Oliwydden wyllt, yng NGHRIST, megis yn y gwir Oliwydden, ac yn sugno Nôf allan o'r gwreiddyn, sef, CRIST, ac wrth hynny a bar i'r prenddwyn ffrwyth yn ei ryw; ïe, y mae ffydd yn sugno rhinwedd goruch-naturiol oddi wrth fywyd a marwolaeth IESU GRIST, trwy nerth pa un y mae yn newid calon y Credadyn, ac yn ei greu o'r newydd, trwy osod ynddo egwyddor newydd i weithio; hyd onid yw ffydd yn sugno ac yn tynnu cysoeth yr holl rasusau a drysorwyd yng NGHRIST i'r Credadyn; am fod ffydd fel pistyll yn dyfrhau holl lysiau'r ardd; ïe, y mae ffydd yn cymmhwyso gwaed CRIST at galon y Credadyn; ac y mae yng ngwaed CRIST y fath rinwedd, nid yn unig i olchi ymaith holl euogrwydd pechod, ond hefyd i lanhau a phuro rhag gallu a theyrnasiad pechod. " Am hynny, ebe *Hwcer* dduwiol, os dymunech gael gras, ceisiwch ffydd yn bennaf; a hon a ddwg y lleill oll ar ei hôl; eled ffydd at GRIST, ac yna hi a dynn ar ei hôl addfwynder, amynedd, gostyngeiddrwydd, a doethineb, ac a'u gosod hwy yn yr enaid: Gan hynny na ddiisgwyliwch am sancteiddiad, hyd oni ddeloch at GRIST trwy wir alwedigaeth."

Nom. Yn wir, Syr, yr wyf yn gweled yn eglur fy siommi, a'm myned i ar ddidro oddiar y iawn ffordd o weithredu, am i mi dybied, y gorfyddai i

sancteiddrwydd

ſancteiddrwydd bywyd fyned o flaen ffydd fel ſail iddi; ac i'w thynnu hi yn y blaen; lle yr wyf yn awr yn gweled yn amlwg, mai ffydd a ddylai fyned yn flaenaf, a thynnu ſancteiddrwydd-bwyd ar ei hôl hi.

Efan. Yr wyf yn cofio'r peth a ddywedodd gwr mawr ei oleuni yng ngwybodaeth yr efengyl, ſef, "Y mae llawer, ebe efe, yn meddwl mai fel y mae dyn yn dewis gwaſanaethu Brenin, felly y mae iddynt fwriadu ar waſanaethu Duw; gan feddwl, mai'r neb a wnelo orau waſanaeth i'w Arglwydd, a gaiff fwyaf o ffafr ar ei law ef; a pha fwyaf yr ymoſtyngo ef i'w Arglwydd, yn ôl ei anfoddhau ef, mai cynt o hynny y caiff ef ei ffafr drachefn. O'r un gyffelyb, medd efe, yw meddwl llawer dyn ynghylch Duw a'i hunan; ond nid felly y mae'r matter yn ſefyll rhyngddynt, ond yn y gwrthwyneb. Canys dyma eiriau ein Iachawdwr, *Nid chwi am dewiſaſoch i, ond myfi a'ch dewiſais chwi*; Ioan xv. 16. A pha'm hynny? Nid am ein bod ni yn edifarhau, neu yn ymoſtwng ein hunain, neu yn gwneuthur gweithredoedd da: Ond y mae ef yn rhoi i ni ras, a hynny ſydd yn peri i ni edifarhau, ac ymoſtwng ein hunain, ac i wneuthur gweithredoedd da." Ni oleuwyd dyall y lleidr ar y groes am iddo gyffeſu CRIST; ond efe a gyffeſodd GRIST am ei fod ef wedi ei eleuo. "Canys rhaid yw i'r pren fod yn gyntaf yn dda, ebe *Luwther*, ac yna'r ffrwyth; gan nad yw'r afalau yn gwneuthur y pren, ond y pren yr afalau. Felly ffydd yn gyntaf a wna y dyn yn dda, ac yntef, wedi hynny, a ddwg ffrwythau o weithredoedd da. Gan hynny i gwblhau'r gyfraith heb ffydd, yw, ceiſio gwneuthur afalau o'r pren heb y ddaear; ond ni fydd y fath afalau a rhai'n ond gwag ddych'mygion, ac nid ffrwyth ſylweddol." O herwydd pa ham fy nghymmydog *Nomiſta*, yr wyf yn deiſyf arnoch, mai fel y diwygiaſoch chwi eich buchedd gynt er mwyn credu, ar i chwi yn awr gredu yn gyntaf, fel y galloch ddiwygio eich buchedd, ac na phoenwch eich hunan ymhellach i

ynnill

ynnill eich hawl yng NGHRIST; ond credwch fod i'ch hawl yng NGHRIST, fel y galloch felly weithio; ac yna ni ddywedwch chwi ddim fel gynt, mai diwygiad eich buchedd yw ſail eich ffydd, megis y mae llawer yn tybied, fel y gwelir wrth eu hatteb-ion; canys os gofynnir iddynt, beth a barodd iddynt gredu, hwy a attebant, mai ar eu edifeirwch, ac ar ddiwygiad eu buchedd y bu hyn.

Anti. Ond, Ŝyr, beth y debygwch chwi am bregethwr a glywais i yn dywedyd, na feiddiai ef gynghori, neu berſwadio pechaduriaid i gredu fod eu pechodau wedi eu maddau iddynt, cyn y gwelai ef ynddynt ddiwydrwydd buchedd, rhag iddynt gymeryd mwy o rydd-did i bechu?

Efan. Beth a ddywedwn ni am y pregethwr hwnnw amgen, na'i fod ef yn anwybodus o ddirgelwch ffydd; canys dyma nattur ffydd, ei bod hi yn gyffelyb i ddyfroedd meddyginiaethol, y rhai ſy felly yn puro ac yn golchi brynti'r archoll, hyd onid oerant hefyd y gwres, ac y ragflaenant ymdanniad y clefyd, ac o'r diwedd, bob yn ronyn a'i iachant ef.

Anti. Ac yr wyf yn adnabod proffeſwr (ond un anwybodus iawn ydyw) yr hwn a ddywaid; os efe a gredai, cyn iddo ddiwygio ei fywyd; yna efe a allai gredu, a rhodio yn ei flaen yn ei bechodau. Beth, attolwg, a ddywedwch chwi, Syr, am y fath ddyn a hwn?

Efan. Hyn a ddywedaf, creded yn gywir, os dichon ef, a gwneled hyn; ond peth ammhoſibl yw: creded ef, ac fe ganlyn y llall; canys gwirionedd ffydd a ddwg allan wirionedd ſancteiddrwydd; canys pwy, pe yſtyriai efe yn iawn, a fyddai cynddrwg ei dyb, a meddwl fod y fath rydd-did cnawdol mewn un enaid crediniol ac a gyſylltwyd, ac a briodwyd â CHRIST? Ymae y gyfraith, fel y mae hi yn gyfammod o weithredoedd, a CHRIST, wedi eu goſod y naill gyferbyn a'r llall, fel dau o wyr a briodent yr un wraig ôl yn ôl. Canys tra'r oedd y gyfraith (y gwr

gwr cyntaf) yn fyw yn y gydwybod, yr oedd y ffrwythau oll yn feirw; ond pan y cymmerodd Crist y wraig honno iddo ei hun (yn ôl marw'r gyfraith) efe trwy ei Yſpryd bywiol, a'i gwnaeth yn ffrwythlon i Dduw; ac wrth hynny a gyfododd hâd i'r gwr cyntaf. Canys o ran y ſylwedd, gweithredoedd y gyfraith yw y rhai'n, ond eu bod wedi eu dwyn allan gan Yſpryd Crist yn yr eſengyl.

Anti. Ac etto, Syr, yr wyf yn credu yn lle gwirionedd, fod llawer o Bregethwyr a phroffeſwyr yn y wlad hon, o'r un opiniwn a'r ddau hynny.

Efan. Hyn ſydd wir; y mae llawer o bregethwyr yn llafaru am ryw rinweddau moeſawl, neu yn dywedyd yn erbyn rhyw bechodau ſy mewn ymarferiad, heb annog byth i gredu. Eithr ein damnedigaeth, ebe ŵr dyſgedig, ſydd, os carwn ni dywyllwch yn fwy na'r goleuni; ac os dymunwn ni ganlyn moeſoldeb noeth, ſef, cyfrwyddiadau dynion moeſawl, yn hytrach nâ rhodio yng wir oleuni duwioldeb, ſef, yn nyſgeidiaeth Crist Iesu. Ac yr wyf yn toſturio wrth ofal anrhefnus, a phoen ddiffrwyth llawer gwr ſynwyr-gall, ſy'n ymofyn am ymarfer y rhinwedd hyn a'r rhinwedd arall, gan eſgeuluſo y rhinwedd wreiddiol; fel pe bae gwr yn dyfrhau'r pren i gyd ond y gwreiddyn; felly y mae arnynt hwythau chwant llewyrchu, o ran eu amynedd, addfwynder, a zel at waſanaeth Duw; ac etto nid ydynt ddim yn ofalus i ſicrhau a gwreiddio eu hunain yn y ffydd, yr hon a ddylai gynnal y lleill i gyd; am hynny ofer a diffrwyth yw eu holl boen hwy.

Nom. Yn wir, Syr, myfi a ŵn wrth fy mhrawf fy hun fod hyn a ddywedaſoch ddiweddaf yn wir ddigon; canys myfi a ymboenais, ac a geiſiais lawer gwaith i gael y llaw drechaf ar ryw lygredigaeth, megis tywyllwch fy nyall, ac i waſanaethu Duw yn llawen; ond ofer y bu fy holl boen.

Efan. Nid rhyfedd; canys y mae mor boſſibl i haiarn nofio, neu i garreg godi ei hunan tu a'r nef, ac y mae i chwi, o honoch eich hunan, iawn weddio,

ddio, neu fyfyrio neu gadw'r ſabbath yn ſanctaidd, neu fod a'ch ymarweddiad yn y nef; ac etto nid oes dim yn ammhoſibl i ffydd; canys hi a wna bob peth yn naturiol i chwi, hi a ddichon droi Twrch dall daearol yn Enaid nefol. Am hynny, gan ddarfod i chwi brofi pob mâth o foddion moeſawl o amcanu, addunedu, ymroi, ymprydio, gwyliad, a choſpi eich hunan, a'r cyffelyb, heb gael gronyn erioed o leſâd; etto ewch yn awr at GRIST, a cheiſiwch â llaw ffydd gyffwrdd âg ymyl ei wiſg ef, a chwi a gewch deimlo rhinwedd yn dyfod oddi wrrho a'iachâo eich holl gleſydon. O herwydd pa ham, yr wyf fi yn erfyn arnoch ddyfod allan o honoch eich hunan at GRIST, a chymmeryd gafael arno ef trwy ffydd, megis y gwnaeth ein cymmydog *Neophitus* (i DDUW y b'o'r diolch) ac yna y cewch chwithau hefyd deimlo y cyffelyb gaſineb yn erbyn pechod, a chariad at gyfraith CRIST ag ſydd ynddo ef yn awr; ïe, yna y gwelwch chwi eich llygredigaethau beunydd yn marw ac yn darfod fwy-fwy, fel y mae yn hyſpus gennyf y caiff yntef.

Neoph. Ond, Syr, a gâf fi ddigon o nerth i orchfygu fy holl lygredigaethau, ac i roi ufudd-dod perffaith i gyfraith CRIST, fel y dymunwn (DUW a'i gŵyr) â llwyr ewyllys fy nghalon?

Efan. Pe gallech chwi gredu yn berffaith, yna y byddai i chwi yn ôl eich dymuniad. Canys megis y dywaid *Luwther*, "Pe gallem ni gymmeryd gafael berffaith ar GRIST, yna y byddem yn lân, oddi wrth bechod." Ond O! Tra byddom ni yma ar y ddaear, *O ran y gwyddom*, ac o ran y credwn; ac felly nid ydym yn derbyn CRIST, ond o ran; yn ôl tyſtiolaeth *Jago*, yr hwn a ddywaid, gan oſod ei hun hefyd yn ein myſg, *Mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro*; ac y mae *Ioan* yn tyſtiolaethu'r un peth, *Os dywedwn, nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunan, a'r gwirionedd nid yw ynom.* Ac hefyd y dywaid *Luwther*, "Y mae i'r Criſtion gorph, o'r tu fewn i aelodau pa

un, yn ôl geiriau *Paul*, y mae pechod yn aros ac yn rhyfela, *Rhuf.* vii. 20. ac er na b'o ef yn euog o ryw bechodau mawrion cyhoeddus, fel o lofruddiaeth, godineb, lladrad, neu'r cyffelyb; etto nid yw ef yn rhydd, neu yn lân oddi wrth bechodau dirgel, fel annioddefgarwch, grwgnach yn erbyn Duw, neu'r cyffelyb: "Ie, Yr wyf (ebe efe) yn teimlo ynof fy hunan gybydd-dod, trachwant, digter, balchder, rhyfyg, ofn marwolaeth, trymder, caſineb, a grwgnachrwydd; fel nad oes i chwi ddiſgwyl bod yn llwyr lân oddi wrth bechod, tra byddoch yn y byd hwn." Etto mi a ſicrhâf hyn, fel y cynnyddoch chwi mewn ffydd, felly y cynnyddwch hefyd fwy fwy, o nerth i nerth, ymhob gras arall. O herwydd pa ham y dywedodd gwr duwiol, "Cadarnhewch y gras hwn o ffydd, a chwi a gadarnhewch y cwbl; os cyrrhaeddwch chwi at feſur mawr o ffydd, chwi a feddiannwch feſur mawr o ſancteiddrwydd." "Canys y neb ſy (ebe wr da arall) ganddo y ffydd gadarnaf, ac a gredo helaethaf yr addewid o faddeuant pechodau, a feddianna'r galon ſanctaiddiaf, a'r fuchedd lannaf." Am hynny yr attolygaf arnoch chwi geiſio ymhob modd i ymgadarnhau yn ffydd yr efengyl. *Phil.* i. 27.

Neoph. O Syr, dyna lwyr ddymuniad fy nghalon; am hynny mynegwch i mi, attolwg, beth y ddymunech chwi i mi i'w wneuthur, fel y tyfwyf yn gadarnach mewn ffydd?

Efan. Y cyngor gorau a ſicraf a allaf fi ei roi i chwi, yw, ar i chwi ymarfer y ffydd ſydd ynoch eiſoes, ac ymdrechu yn erbyn pob amheuaeth, a bod yn daer ar yr Arglwydd mewn gweddi, ar iddo gynnyddu eich ffydd. "Yn gymmaint (ebe *Luwther*) ac y mae y ddawn hon o ffydd, yn nwylo'r Arglwydd yn unig, yr hwn a'i cyfranna, pa bryd bynnag, ac ar bwy bynnag, y mynno ef; mae'n rhaid i ti neſâu atto ef trwy weddi, gan ddywedyd gyd â'r diſgyblion, *Chwanega ein ffydd, O Arglwydd.* Ac mae'n rhaid i chwi fod yn ddiwyd hefyd i wran-

do'r

do'r gair; canys megis y mae ffydd yn dyfod ar y cyntaf trwy glywed; felly y cynnydda hi hefyd trwy glywed. Ac y mae'n rhaid i chwi hefyd ddarllen y gair, a myfyrio ar addewidion rhad a grafol yr Arglwydd: Canys yr addewid yw'r hâd anfarwol, trwy ba un y mae Yſpryd CRIST yn cenhedlu ac yn cynnyddu ffydd yn nghalonnau pawb o'i eiddo. Ac yn ddiweddaf, y mae'n rhaid i chwi fynnych ddyfod at y Sacrament o ſwpper yr Arglwydd, a'i dderbyn cyn fynyched ac y galloch yn gyfleus.

Anti. Ond trwy'ch cennad chwi, Syr, os rhodd Duw yw Ffydd, ac os efe a'i rhydd, pan y mynno ef, ac i bwy bynnag a fynno ef, yr wyf fi yn tybied, am fod dyn yn ymarfer â'r fath foddion a hynny, nad yw yn peri mwy o chwanegiad i'w ffydd, nag y rhyngo bodd yr Arglwydd i'w roddi.

Efan. Yn wir, yr wyf fi yn addef, nad y moddion ſy'n ynnill, neu yn cynnyddu ffydd, ond Yſpryd Duw yn yr ymarferiad o'r moddion. Megis ag y mae moddion, o honynt eu hunain, yn anfuddiol heb yr Yſpryd; felly ni wna'r Yſpryd y gwaith heb y moddion, yn enwedig lle y bônt i'w cael. Am hynny na rwyſtrwch eich cymmydog, attolwg, rhag ymarfer y moddion.

Neoph. O'm rhan i, Syr, yr wyf fi yn bwriadu, trwy gymmorth Duw, er y ddywedo efe, i fod yn ofalus ac yn ddiwyd i ymarfer y moddion a gyfarwyddaſoch i mi yn awr, fel y byddwyf aplach, ar chwanegiad fy ffydd, i ymoſtwng i ewyllys yr Arglwydd, ac i rodio felly, fel y rhyngwyf ei fodd ef.

Ond yn gymmaint ac i *Antinomiſta* cyn hyn geiſio fy mherſwadio i gredu rhai pyngciau nad allwn gyttuno â hwynt, mi a debygwn, fy mod i yn awr yn gweled ymddangoſiad o wirionedd ynddynt; am hynny os gwelwch chwi fod yn dda, mi a ddywedaf wrthych beth ydynt, i'r diben i mi gael eich barn a'ch cyfarwyddyd yn eu cylch.

Efan. Cwnewch felly, attolwg.

Neoph. (1.) Efe amcanodd fy mherſwadio, nad yw'r Credadyn dan y ddeddf mewn un yſtyr, ond ei fod ef wedi ei ryddhau yn hollol oddi wrthi. (2.) Nad yw Credadyn yn gwneuthur pechod. (3.) Nad yw'r Arglwydd yn gweled dim pechod mewn Credadyn. (4.) Nad yw'r Arglwydd yn anfoddlon i Gredadyn o herwydd ei bechod. (5.) Nad yw'r Arglwydd yn ceryddu Credadyn am ei bechod. Ac yn (6.) Nad oes gan Gredadyn achos i gyfaddef ei bechod, neu ymofyn meddeuant gan DDUW am dano; neu i ymprydio, na galaru, neu ymoſtwng o'i herwydd.

Efan. Os mynnem ddyall yn eglur y pyngciau hyn, rhaid i ni wahaniaethu rhwng y gyfraith, ſel y mae hi yn gyfammod o weithredoedd, ac ſel y mae hi yn gyfraith CRIST. Yn awr, ſel ac y mae hi yn gyfraith o weithredoedd, ſe ellid dyweud yn wir, nad yw'r Credadyn dani; ond ei fod wedi ei waredu oddi wrthi, yn ôl ymadrodd yr Apoſtol yn *Rhuf.* vi. 14. *Nid ydych chwi tan y ddeddf, eithr dan Ras.* A Rhuf. vii. 6. *Ond yn awr chwi a ryddhawyd oddi wrth y ddeddf.* Ac etto ſe ddywedir, am Gredadyn, ei fod ef *dan y ddeddf i Grift.* 1 *Cor.* ix. 21. Ac yn yr un modd y gofynnir, *Wrth hynny a ydym ni yn gwneuthur y ddeddf yn ddirym trwy ffydd? Na atto Duw: Eithr yr ydym ni trwy ffydd yn cadarnhau'r ddeddf.* Rhuf. iii. 31.

Am y ail beth, yn 1 *Ioan* iii. 6. y dywedir, *Pob un a'r ſydd ynddo ef,* ſef CRIST, *nid yw yn pechu*; ac yn y 9 adn. *Pob un a aned o Dduw, nid yw yn gwneuthur Pechod.* Ond etto ſe ddywedir am yr unrhyw, ſel hyn 1 Ioan i. 8. *Os dywedwn, nad oes ynom bechod, yr ydym yn ein twyllo ein hunain, a'r gwirionedd nid yw ynom.* Ac yn yr un modd *Iago* iii. 2. *Mewn llawer o bethau yr ydym ni bawb yn llithro.*

Am y drydydd beth, yn *Num.* xxiii. 21. ſel hyn y dywedir am y Ffyddloniaid, *Ni wel ef anwiredd yn Jacob, ac ni wel ef drawſedd yn Iſrael.* Ac ſel hyn y dywaid CRIST wrth ei Eglwys, *Tydi oll*

yduyt

ydwyt dêg, fy anwylyd, ac nid oes ynot frycheuyn. Can. iv. 7. A'r *Diar.* v. 21. ſe ddywedir am y Ffyddloniaid, megis am eraill, fod *Ffyrdd dyn yngolwg yr Arglwydd, a'i fod yn dal ar ei holl lwybrau ef.* Ac yn yr un modd, *Heb.* iv. 13. *Pob peth ſydd yn noeth ac yn agored i'w lyguid ef, am yr hwn yr ydym ni yn ſôn.*

Am y pedwerydd beth, yn *Eſa.* xxvii. 4. y mae'r Arglwydd yn dywedyd am y Ffyddloniaid, *nad oedd llidiawgrwydd ynddo ef,* ſef yn eu herbyn hwy. Ac *Eſai.* liv. 9. fel hyn y 'ſgrifennir, *Megis y tyngais nad elai dyfroedd Noa mwy dros y ddaear, felly y tyngais na ddigiwn i wrthyt, ac na'th geryddwn.* A'r *Sal.* cvi. 39, 40. ſe ddywedir, *Y bobl,* ſef Iſrael, *a butteiniaſant gyd â'u dychymygion eu hunain; am hynny y cynneuodd dig yr Arglwydd yn erbyn ei bobl, fel y ffieiddiodd ef ei etifeddiaeth.* A *Deut.* i. 37. y mae *Moſes* ei hun, gwr tra ffyddlon, yn addef, *ddarfod i'r Arglwydd ddigio wrtho ef.*

Am y pummed beth, yn *Eſa.* xl. 2. y dywaid yr Arglwydd am y Ffyddloniaid, *Dywedwch wrth fodd calon Jeruſalem, llefwch wrthi hi, gyflawni ei milwriaeth, ddileu ei hanwiredd, o herwydd i Dduw dderbyn o law'r Arglwydd yn ddau-ddyblyg am ei holl bechodau*; h. y. CRIST a dalodd i'r Tad, hyd oni ddywedodd, Digon, a'i fod ef wedi ei lwyr foddloni. Ac am hynny y dywedir, Jer. l. 20. *Yn y dyddiau hynny, ac yn yr amſer hwnnw, y ceiſir anwiredd Iſrael, ac ni bydd; a phechodau Juda, ond ni's ceir hwynt*; Pa ham felly? Am fod CRIST ar ei farwolaeth wedi gorchfygu a chaethiwo Satan, pechod, ac angau, a pha beth bynnag a ellid ei ddodi yn ein herbyn ni a ddilewyd. Ac etto er hyn i gyd, ſe ddywedir yn fygythiol am hâd a phlant CRIST *Sal.* lxxxix. 30. *Os hwy a adawant fy nghyfraith, ac ni rodiant yn fy marnedigaethau; yna mi a ymwelaf â'u camweddau â gwialen, ac â'u hanwiredd â ffrewyllau.* Ac yn yr un modd y dywedir am y *Corinthiaid,* fod llawer o honynt, o achos eu pechodau, *yn weiniaid, ac yn lleſg, a llawer wedi huno.*

Am y chweched beth, yſtyriwch eiriau *Dafydd*, *Sal.* xxxii. 5. *Addefais fy mhechod wrthyt, dywedais, cyffeſaf yn fy erbyn fy hun fy anwireddau i'r Arglwydd; a thi a faddeuaiſt anwiredd fy mhechod.* Ac ar ôl ei gwymp y mae yn dywedyd, *Sal.* li. 4. *Yn dy erbyn di, dydi dy hunan y pechais, ac y gwnaethum y drwg hwn yn dy olwg. Glanha fi âg iſop, a mi a lanheir; golch fi, a byddaf wynnach nâ'r eira.* A *Phedr* ar ôl iddo wadu CRIST, *a aeth allan, ac a wylodd yn chwerw doſt.*

Yſtyriwch yn awr, er bod yr holl fannau hyn o't 'ſgrythyrau yn groes i'w gilydd mewn ymddangoſiad, etto y maent oll yn wirionedd; canys geiriau DUW ydynt, fel y gwelwch yn eglur. Gwybyddwch gan hynny attolwg, pan y dywedir am y ffyddloniaid eu bod hwy yn rhyddion oddi wrth y ddeddf, ac nad ydynt tani, y mae'n rhaid i ni ddyall hyn ynghylch y ddeddf, fel y mae hi yn gyfammod o weithredoedd; a lle yr ydys yn dywedyd, fod y Ffyddloniaid dan y ddeddf, a bod ffydd yn cadarnhau'r ddeddf, y mae i ni yſtyried hyn am y ddeddf, megis ac y mae hi yn gyfraith CRIST. Yn awr, os y Ffyddloniaid nid ydynt dan y cyfammod o weithredoedd; ond a ryddhawyd oddi wrtho, yna er iddynt droſeddu'r ddeddf, etto nid ydynt yn troſeddu'r cyfammod o weithredoedd; ac oni throſeddant y cyfammod o weithredoedd, yna ni wel DUW un camwedd ynddynt: Ac onis gwel ef, yna ni's digia efe wrthynt, ac ni's cerydda efe hwynt. Ond os y Ffyddloniaid ſy tan y ddeddf, ac os ffydd ſy'n cadarnhau'r ddeddf fel y mae hi yn gyfraith CRIST, yna os troſeddant hwy yr un o'r dêg gorchymun, hwy a droſeddant gyfraith CRIST; a CHRIST a ddigia wrthynt, ac a'u cerydda hwynt am hynny.

Yn awr gan hynny, tu ag at gymhwyſo'r hyn a ddywedais attoch chwi, fy nghymmydog *Neophitus*, a thu ag at roi i chwi atteb neillduol i'ch gofyniad, bydded hyſpys gennych, nad ydych yn awr dan y ddeddf, ond wedi eich rhyddhau oddi wrthi, ſel y mae hi yn gyfammod o weithredoedd; am hynny,

pa

pa bryd bynnag y troſeddoch chwi yn erbyn un o'r dêg gorchymun rhagllaw trwy wendid, nid oes i chwi feddwl ar hynny, eich bod chwi wedi troſeddu 'r cyfammod o weithredoedd; ac nid oes i chwi ychwaith dybied, fod yr Arglwydd nac yn gweled eich pechodau, nac yn ddig wrthych, nac yn eich ceryddu o'u plegid, fel y maent yn droſedd yn erbyn y cyfammod hwnnw; canys a chwi yn rhydd oddi wrtho, ac ar hynny yn ddibechod yn ei erbyn, rhaid yw eich bod chwi hefyd yn rhydd rhag pob llid, digter, trallod, blinder, a chyſtuddiau, fel y maent yn ffrwythau, neu yn weithrediadau o un troſedd yn erbyn y cyfammod hwnnw. Ond etto tra fyddoch byw, meddyliwch eich bod tan gyfraith CRIST; ac am hynny, pa bryd bynnag y digwyddo i chwi droi oddi wrth y rheol o un o'r dêg gorchymun, gwybyddwch eich bod wedi troſeddu cyfraith CRIST, a'i fod ef yn ei weled, a'i fod ef yn ddîg wrthych o'i blegid; ac onid ymoſidiwch chwi am dano, ac oni wellhewch chwi rhag pechu rhagllaw, CRIST a'ch cerydda ac a'ch coſpa chwi am hynny, naill ai trwy guddio ei wyneb oddi wrthych, trwy ddwyn oddi arnoch, dros amſer, heddwch a diddanwch yn-ddo ef; neu efe a'ch coſpa chwi â rhyw groes, neu golled oddi allan yn y byd hwn: Canys dyma goſp gyfraith CRIST; hyd oni byddoch chwi, neu un Credadyn arall, os troſeddwch chwi gyfraith CRIST, cyn ſicred, os bydd rhaid, o goſpedigaeth amſerol, ac yw'r anghredadyn, yr hwn a droſeddo'r ddeddf weithredoedd, o gael ei goſpi yn dragywyddol yn nhan uffern. Gan hynny yn ôl fy nghyngor i o'r blaen, attolwg, ac yn ôl eich taer fwriad chwithau, byddwch yn bennaf yn ofalus i ymarfer eich ffydd, ac i wneuthur defnydd o bob moddion i'w chyn-nyddu, fel y b'o hi yn rymmus i weithio trwy gar-iad. Canys yn ôl meſur eich ffydd, y bydd eich gwir gariad tu ag at GRIST, a'i ewyllys, a'i orchymy-nion: Ac yn ôl meſur eich cariad tu ag attynt hwy, y bydd eich ewyllys arnynt, a'ch parodrwydd i'w gwneu-

gwneuthur. Ac am hynny dywaid CRIST, *Os cerwch fi, cedwch fy ngorchymynion.* Ac o hyn y daw yr enaid crediniol, yn ôl meſur ei ffydd, i ddywedyd gyd â *Dafydd, da gennyf wneuthur dy ewyllys, O fy Nuw, a'th gyfraith ſydd o fewn fy ngbalon. Canys hyn yw cariad Duw,* ebe *Ioan, bod i ni gadw ei orchymynion ef, a'i orchymynion ef nid ydynt drymion.* Ie, y gwir yw hyn, ni fydd dim drymmach i'ch enaid, na'ch bod yn ffaelu eu cadw hwy fel y dymunech. Canys hyn o gariad at DDUW, wedi ei wreiddio unwaith yn eich calon, a wna i chwi ddywedyd gyd â *Joſeph* dduwiol, pan eich temtier, fel y temtiwyd ef, *Pa fodd y gallaf wneuthur y mawr ddrwg hwn, a phechu yn erbyn Duw?* Pa fodd y gwnaf i hynny, a wn i, a anfoddha y fath Dad graſuſol, a'r fath Iachawdwr trugarog, ac yw'r Arglwydd fy NUW? O! Na wnaf, ïe, ni's gwnaf er dim.

Yn ail, os digwydd i chwi un amſer, trwy wendid eich ffydd, a nerth ryw brofedigaeth lithro, neu'ch gyrru i dorri yr un o orchymynion CRIST, yna ymogelwch rhag cymmeryd achos i ammeu cariad CRIST tu ag attoch: Ond credwch cyn ſicred, ei fod ef fyth yn eich caru chwi mor anwyl, ac y caraſai ef chwi, cyn i chwi droſeddu yn ei erbyn ef. Canys gwirionedd diddadl yw hyn, ſef, megis nad oedd, ac na's dichon bod ynoch un daioni, ac na's gwnaethoch un weithred ddaionus i annog neu i wahodd CRIST i'ch caru ar y cyntaf, mwy nac yn awr; felly nid un drwg a f'o ynoch, neu a wneloch, a ddichon beri iddo newid ei gariad arfaethol tu ag attoch. Canys gwybyddwch hyn, fel y carodd ef chwi yn rhad ar y cyntaf, felly y meddyginiaetha ef eich ymchweliad, ac a'ch câr chwi yn rhad hyd y diwedd. Am hynny megis ac y mae'n rhaid i chwi ymwadu a'ch hunan, ar ôl eich gwaſanaeth a'ch ufud-ddod perffeithiaf, felly mae'n rhaid i chwi ddyrchafu CRIST i fod oll yn oll i chwi, pan fetho arnoch roddi ufudd-dod perffaith iddo. Ac os felly y gwnewch, fe a gymmell cariad CRIST chwi i

alaru

alaru â galar eſangylaidd, gan ymreſymmu fel hyn â'ch hunan; Beth, a'i felly mae yn ſicr! Er i mi bechu fel hyn ac fel hyn, etto ni chân yr Arglwydd ſi ronyn lai! Ac a ydwyf cyn belled yn ei gariad yn awr fyth, a chyn ſicred o ddedwyddwch tragywyddol gyd â CHRIST ac y bum gynt, cyn i mi bechu ddiweddaf! O! Pa fath Iachawdwr graſol yw hwn! O! Pa fath ddyn gwael ydwyf ſi i bechu yn erbyn y fath DDUW a hwn, a'r fath GRIST a hwn! O! Ni all na thodda hyn eich calon chwi, ac na's paro i'ch llygaid ddiferu dagrau o driſtwch duwiol; ïe, ni all hyn lai na'ch cymmell chwi i ſyned at eich Tad yn ufudd i gyffeſu eich pechodau gyd â'r Mab afradlon, a deiſyf gyd â *Daniel* a'r iddo drugarhau wrthych er mwyn yr Arglwydd. Ond, ymogelwch rhag tybied, eich bod mewn perygl o gael eich condemnio, hyd oni faddeuir i chwi eich pechodau; canys dyna goſp y gyfraith weithredoedd, dan ba un nid ydych chwi yn awr; ond gan gredu yn ſicr, fod eich Tad yn ddîg wrthych, ac y cewch chwi etto eich curo a'ch ſflangellu ganddo, nes y maddeuo ef i chwi eich pechod; canys dyma goſp cyfraith CRIST, dan ba un yr ydych chwi yn awr; ïe, a hyn a'ch cymmell chwi i ffieiddio eich hun am eich anwireddau; ïe, nid yn unig i ffieiddio eich hunan, ond i'w gadael hefyd, gan ddywedyd gyd âg *Ephraim, beth ſydd i mi mwyach a wnelwyf âg eulynod?* Hoſ. xiv. 8. Ie, ac i chwi eu gwaſgaru hwynt fel cadach Miſglwyf, gan ddywedyd wrthynt, Dos ymaith. Ac yn y modd hwn trwy ffydd yr arwain daioni DUW chwi i edifeirwch.

Yn drydydd, yn ôl i chwi bechu fel hyn, trwy wendid eich ffydd; neu ddiffyg o'i hymarfer, os y chwi ni wewch fel y dywedais, neu os metha arnoch ei wneuthur mor gyflawn ac y dylaſech; ac ar hynny fod eich Tad cariadus doeth yn gweled achos i roi i chwi gwppanaid chwerw i'w yfed, er dwyn ar gof i chwi eich pechodau, fel y gwnaeth ef â brodyr *Joſeph*: Ac yn ôl geiriau'r wraig weddw o *Sarepta*;

ac

ac yn ôl ymadrodd yr Yſpryd Glan trwy *Eſaia*, *i'w glanhau a'u tynnu ymaith oddi wrthych*; ac yn ôl geiriau'r Apoſtol, *i'ch gwneuthur chwi yn gyfrannog o'i ſancteiddrwydd ef*. Yna ymogelwch, attolwg, rhag tybied fod eich cyſtuddiau wedi dyfod arnoch fel coſp ddialeddol, neu daledigaeth am eich pechodau; canys dyna goſp y cyfammod o weithredoedd, oddi wrth ba un i'ch gwaredwyd chwi. Ond credwch yn hytrach (megis y mae'r gwirionedd) eu dyfod hwy oddi wrth gariad tadol yr Arglwydd, fel peth meddyginiaethol i'ch iachau o'ch holl bechodau, ac i beri i chwi fod yn fwy eich ufudd-dod a'ch daroſtyngiad i gyfraith CRIST, dan ba un yr ydych chwi yn awr. Canys moddion godidog, trwy fendith yr Arglwydd, yw cyſtuddiau i buro a bwrw allan y llygredigaeth pechadurus hwnnw ſydd byth yn aros oddi fewn i nattur y ffyddloniaid; ac oherwydd hynny y cyffelybir hwy i feddyginiaeth; canys o'r fath hyn y maent hwy oll i holl blant DUW, ſef, fel phyſygwriaeth i iachau eu holl ddoluriau yſpryddol. Ac yn wir, y mae arnom ni bawb eiſiau mawr o hyn o feddyginiaeth, "Am nad ydym etto, fel y dywaid *Luwther*, yn gwbl ſanctaidd, o herwydd bod pechod byth yn aros yn y cnawd, cyhyd ac y b'om ar y ddaear; ac y mae DUW yn carthu ymaith y gweddillion hyn o bechod." O herwydd pa ham, yn ôl i DDUW faddau pechodau, a derbyn pechadur i'w fynwes raſol, yna y geſyd ef arno geryddon, ac a'i golch, ac a'i glanha, ac a'i hadnewydda trwyddynt o ddydd i ddydd. Ac ar y pwngc hwn, gwir yw ymadrodd *Tindal*, ſef, "Os edrychwn ni ar y cnawd, ebe efe, ac ar y gyfraith, nid oes dyn mor berffaith, a'r na cheir yn bechadur, nac un cyn lanned, ar nad rhaid iddo gael ei buro fwy fwy." Yn awr os o'r fath hyn y bydd eich tyb am eich ceryddon, chwi a fyddwch foddlon iddynt, ac a ddywedwch gyd âg *Ephraim* wrth yr Arglwydd, *Coſpaiſt fi, ac mi a goſbwyd, fel Llo heb gynefino â'r iau*; *dychwel di fi, ac myfi a ddychwelir, oblegid ti yw yr Arglwydd*

fy

fy Nuw. Yn ddiau, wedi i mi ddychwelyd, mi a edifarhais; ac wedi i mi wybod, mi a drewais fy morddwyd, myfi a gywilyddiwyd, ac a waradwyddwyd hefyd, am i mi ddwyn gwarth fy ieuenctyd. Ie, ac yna y dywedwch gyd â *Dafydd, gwyn ei fyd y gwr a geryddi di O Arglwydd, ac a ddyſgi yn dy gyfraith.* Ac yn y modd hyn, fel y clywſoch, y gwnaethum fy ngorau i roi atteb cyflawn i'ch gofyniad.

Neoph. Ac yn wir, Syr, chwi am hattebaſoch i yn dda iawn; yr Arglwydd am nertho i fyw yn ôl eich cyfarwyddiad chwi a'ch cyngor.

Nom. Ac yn hyn o atteb a roeſoch chwi, Syr, i'w ofyniad, chwi a'm attebaſoch innau hefyd, ac a roeſoch i mi foddlondeb ynghylch llawer o bynghiau, am ba rai y bu llawer o ymrafael yn fynych rhyngof a'm cyfaill *Antinomiſta*; canys myfi a haerwn â'm holl egni, fod y ffyddloniaid tan y ddeddf heb eu rhyddhau oddi wrthi, a'u bod hwy yn pechu, a bod yr Arglwydd yn gweled eu pechodau, ac yn digio wrthynt o'u plegid, ac yn eu coſpi hwy am danynt; ac am hynny eu bod hwy yn rhwymedig i ddaroſtwng eu hunain, ac i alaru am eu pechodau, ac i'w cyffeſu, ac i ddeiſyf maddeuant gan Dduw am danynt; ac etto yn wir, yr wyf fi yn addef, na's gwyddwn i, beth yr oeddwn yn ei ddywedyd, nac yn ei haeru. A'r unig achos o'm anwybodaeth i oedd, am na wyddwn i pa wahaniaeth oedd rhwng y ddeddf, fel y mae hi yn ddeddf ó weithredoedd, ac fel y mae hi yn ddeddf i Grist.

Anti. Ac yn wir, Syr, yr oeddwn innau yn haeru mor ddi ofn, a chyn ſicred ac yntef, fod y Ffyddloniaid wedi eu rhyddhau oddi wrth y ddeddf, ac am hynny nad oeddent yn pechu, ac na welai Duw ddim pechod ynddynt; ac o herwydd hynny na's digiai ef ddim wrthynt, ac na's coſpai ef ddim o honynt; am hynny nad oedd ddim rhaid iddynt nac i ymoſtwng, nac i alaru, nac i addef eu pechodau, nac i geiſio maddeuant am danynt; ac am fy mod i yn credu mai gwir oedd hynny, ni allwn i ddyall

pa

pa fodd y byddai'r gwrthwyneb yn wir hefyd. Ond yn awr y gwelaf yn eglur, ar eich gwahaniaeth rhwng y gyfraith, fel y mae hi yn gyfraith i GRIST, fod rhyw wirionedd ym mhob un o'r ddau. Am hynny pa bryd bynnag yr haeroch chwi, fy nghyfaill *Nomiſta*, neu neb arall rhagllaw, fod y Ffyddloniaid dan y ddeddf, ac yn pechu, a bod DUW yn eu gweled, ac yn digio wrthynt, ac yn eu coſpi am danynt, ac mai eu dyledſwydd yw ymddaroſtwng eu hunain, a galaru ac ymofidio am eu pechodau, a'u cyffeſu, a cheiſio maddeuant am danynt; felly os meddyliwch chwi hyn yn unig, fel y maent dan gyfraith CRIST, myfi a gyttunaf â chwi, ac ni's amheuaf eich ymadrodd mwyach.

Nom. Ac yn wir, fy nghyfaill *Antinomiſta*, os chwi neu un dyn arall a haera rhagllaw, fod y ffyddloniaid wedi eu rhyddhau oddi wrth y ddeddf, ac nad ydynt yn pechu, ac nad yw DUW yn gweled pechod ynddynt, nac yn ddîg wrthynt, nac yn eu coſpi hwy; neu nad rhaid iddynt alaru, cyffeſu eu pechodau, na cheiſio maddeuant am danynt; os byddwch chwi yn eu hyſtyried, fel y maent hwy heb fod dan y cyfammod o weithredoedd, myfi a gyttunaf â chwithau, ac ni's amheuaf eich ymadrodd mwyach.

Efan. Y mae yn llawen gennyf eich clywed chwi eich dau yn ymddiddan mor decced â'ch gilydd. Ac yn wir, yr wyf fi yn gobeithio, y dychwelwch chwi eich dau oddi wrth eich camſyniadau, ac y cyfarfyddwch â'm cymmydog *Neophitus* yn y canol, gan fod ynoch, yn ôl geiriau'r Apoſtol, yr un cariad, a'r un meddwl, ac yn ſynied yr un peth yn gyttun.

Nom. O'm rhan i, Syr, yr wyf yn awr, i'r Arglwydd y byddo'r diolch, yn gweled yn eglur i mi gam-ſynied yn aruthr, am i mi geiſio fy nghyfiawnhau, fel pe bae, trwy weithredoedd y ddeddf; ac etto ni's credwn i mo hyn er dim hyd yn awr, oni buaſai i chwi agoryd y tair rhyw hyn o ddeddfau

mor

mor oleu. Ac yn wir, Syr, yr wyf fi yn ddiragrith yn dymuno ar i mi allu ymwadu â'm hunan, a pha beth bynnag a wnaethum i erioed, ac i lynu yn unig wrth GRIST trwy ffydd: Canys yr wyf fi yn awr yn gweled, mai efe ſydd oll yn oll. Ac O! na's nerthai yr Arglwydd fi i wneuthur felly! Ac yr wyf fi yn deiſyf arnoch, Syr, i weddio troſof.

Anti. Ac yn wir, Syr, nid allaf finnau lai nag addef, fy mod wedi cam-ſynied o'r tu arall, am fy mod i cyn belled oddi wrth geiſio cyfiawnder trwy weithredoedd y ddeddf, fel nad oedd brîs gennyf am y ddeddf na'i gweithredoedd. Ond yn awr, gan i mi weled fy meiau, yr wyf fi, trwy gennad DUW, yn bwriadu gwellhau.

Efan. Yr ARGLWYDD IESU a ganiattâo i chwi yn ôl eich dymuniad.

Ond Pa fodd yr y'ch chwi, fy nghymmydog *Neophitus?* Canys yr y'ch chwi, debygwn, yn edrych yn athriſt.

Neoph. Yn wir, Syr, yr oeddwn i yn meddwl am y man hynny o air DUW, lle y mae'r Apoſtol yn ein cynghori *I broſi ein hunain, a ydym yn y ffydd.* 2 Cor. xiii. 5. O ba le yr wyf fi yn gweled, mai peth poſſibl yw i ddyn feddwl ei fod yn y ffydd, pan nad yw, am hynny fe fyddai yn dda gennyf glywed, Syr, pa fodd y câf fi ſicrwydd o'm bod i yn y ffydd.

Efan. Ni fynnwn i, i chwi er dim ammau eich ffydd, gan i chwi ei ſeilio ar y fath ſail gadarn ar na's derfydd byth. Canys y mae addewid DUW yng NGHRIST cyn ſicred fel na's twyllodd un dyn erioed, ac ni's twylla byth: Gan hynny yr wyf fi yn dymuno arnoch i gadw gafael ar GRIST yn yr addewid, heb nac ymofyn, nac ammau a ydych yn y ffydd ai peidio. Canys y mae ſicrwydd yn cyfodi oddi wrth ymarfer ffydd ar hyd linyn union, ſef, pan yr ymaflo dyn yn gymmwys trwy ffydd ar GRIST, ac y tynno ſicrwydd iddo ei hun oddi yno.

Neoph. Mi a wn, fod y ſail, ar pa un y mae i mi adeiladu fy ffydd, yn aros yn ddiyſgog; ac yr wyf fi yn gobeithio, fy mod i wedi ei hadeiladu arno eiſoes. Ond etto, am fy mod i yn tybied, ei fod yn boſſibl i ddyn feddwl ddarfod iddo iawn adeiladu ei ffydd, ac yntef heb ei wneuthur, am hynny y dymunwn i chwi ddangos i mi pa fodd y câf fi ſicrwydd o iawn adeiladaeth i'm ffydd.

Efan. Da iawn, yr wyf fi yn awr yn dyall eich meddwl; mae'n debyg, nad oes arnoch ddim eiſiau ſail i'ch ffydd, ond ſicrwydd o hono.

Neoph. Ie, dyna'r peth ſy arnaf eiſiau ei wybod,

Efan. Y ffordd neſaf i wybod hyn yw, i daflu golwg yn ôl ar eich calon, ac yſtyried pa weithrediadau a fu ynddi; canys yn wir, dyma'r budd ſydd i'r enaid rheſymmol, ei bod hi yn gallu troi yn ôl, a chymmeryd golwg o'i gweithredoedd gynt; a dyna fwy nag y ddichon yr anifail ei wneuthur. Yſtyriwch, attolwg, i chwi gael eich hargyoeddi yn eich yſpryd eich bod yn ddyn pechadurus, ac am hynny a ofnaſoch ddigofaint Duw a damnedigaeth dragywyddol; ac yr y'ch wedi eich hargyoeddi o'ch anallu eich hun, ac wedi clywed yn amlwg ei brofi fod Crist Iesu yr unig gymmorth holl-ddigonol; ac oni ddadguddiwyd hefyd râd a chyflawn addewid Duw yng Nghrist cyn eglured i chwi, fel nad allech ammau nad oedd yr addewid honno yn perthyn i chwi yn neillduol? Ac oni welſoch chwi barodrwydd ac ewyllyſgarwch yng Nghrist i'ch derbyn chwi megis ei anwyl ddyweddi? Ac oni chyttunaſoch chwi âg ef ar hynny? Ac oni theimlaſoch ar ôl hynny gariad yn eich calon tu ag at Grist, a'i gyfraith, a pharodrwydd ac ewyllyſgarwch i waſanaethu Duw, fel y gwaſanaethai plentyn ei dad yn ddigymmell? Dywedwch y gwirionedd, attolwg; oni phrofaſoch chwi bob peth fel hyn ynoch?

Neoph. Do yn wir, Syr, mewn rhyw feſur, fel yr wyf yn gobeithio.

Efan. Ar hyn y dywedaf wrthych yn yng ngeir-

iau'r

iau'r Apoſtol, *Yr ydych chwi o'r gwirionedd, ac a ellwch ſicrhau eich calon ger bron Duw.* 1 Ioan iii. 19.

Anti. Ond, Syr, onid yw edrych yn ôl at ei hên brofiadau yn ei dynnu at y cyfammod o weithredoedd oddi wrth y cyfammod o ras, ac oddi wrth GRIST atto ei hunan?

Efan. Gwir yw, os edrych ef ar y pethau hyn ynddo ei hunan, gan derfynu fod yr Arglwydd, o herwydd ei weithredoedd a pharodrwydd ei waſanaeth, yn ei dderbyn ef, ac yn ei gyfiawnhau, ac ar ſedr ei gadw, fel pe bae ei ddaioni ei hun yn ſail o'i ffydd, yna efe a droai oddi wrth y cyfammod o ras at y cyfammod o weithredoedd, ac oddi wrth GRIST atto ei hunan. Ond os edrych ef ar y pethau hyn ynddo ei hunan, gan derfynu o herwydd fod hyn yn ei galon ef, fod CRIST yn aros ynddo trwy ffydd, a'i fod ef o herwydd hynny yn gymmeradwy gyd â Duw, ac wedi ei gyfiawnhau, ac mewn ſicr obaith o Iachawdwriaeth dragywyddol, gan eu goſod hwy fel hyſpyſrwydd o'i ffydd, a darfod iddo gredu; yna nid yw hyn ddim yn droi oddi wrth y cyfammod o ras at y cyfammod o weithredoedd, nac oddi wrth GRIST atto ei hunan. Felly am hynny, er na ddichon y pethau hyn ſy yn ei galon ef, a hwy yn blant ffydd ac yn ffrwythau o GRIST, eſgor ar eu mam, etto mewn amſer adfyd, hwy a allant ei chynnorthwyo hi.

Nom. Ond, onid oes pethau eraill, attolwg, Syr, heb law y rhai y gyfrifodd ef, i edrych arnynt fel hyſpyſrwydd o'i ffydd, neu, fel yr ydych chwi yn eu galw hwy, megis arwyddion o'i fod ef yn credu?

Efan. Oes yn wir; canys y mae heblaw hyn o gynneddfau yn y galon oddi fewn, gynneddfau eraill oddi allan yn y bywyd, ſef, iawn olygiad ar holl orchymynion CRIST; canys ſe ddichon dyn edrych arnynt fel tyſtiolaeth iddo wir-gredu. Ac mi a enwaf dri o honynt.

Y cyntaf yw, pan y mae dyn yn caru gair Duw yn wirioneddol, ac yn gwneuthur defnydd da o ho-

no; yn (1.) Pan y mae arno newyn a ſyched ar ôl y gair, ac yn ei wneuthur fel ymborth i'w enaid, gan ei ddymuno bob amſer, fel am ei ymborth angenrheidiol. (2.) Pan y mae ei ewyllys a'i hyfrydwch yng nghyfraith yr Arglwydd ddydd a nos, h. y. yn waſtadol. (3.) Pan y mae ef yn derbyn y gair fel gair Duw, ac nid fel gair dyn, gan oſod ei galon, yn amſer gwrando, a darllain, fel ym mhreſennoldeb Duw, ac yn cael effaith oddi wrtho, fel pe bae'r Arglwydd yn llafaru wrtho; ac yn cael yr effaith mwyaf oddi wrth y weinidogaeth hynny, neu'r rhan hynny o'r gair, ſy'n dangos iddo ei bechod, ac yn chwilio allan ei lygredigaethau dirgelaf; gan ymwadu â'i ddoethineb a'i ſerchiadau ei hun, ïe, â'i elw a'i bleſerau, neu pa beth bynnag arall, pan y b'o yr Arglwydd yn galw am dano. (4.) Pan b'o dyn yn gwneuthur gair Duw y cyſur pennaf iddo yn amſer trallod, trwy ei brofi y pryd hynny i fod yn cynnhaliaeth pennaf i'w galon.

2. Arwydd ydyw, pan y mae dyn yn gwir garu Plant Duw (1 *Ioan* v. 1, 3, 14. h. y. yr holl ddynion duwiol o flaen pawb eraill) mewn gwirionedd, ac nid o herwydd rhyw ddibennion cnawdol, ond o herwydd y gras a welo efe ynddynt. A phan y mae yn ymhyfrydu yn eu cymdeithas hwy, ac yn eu gwneuthur yr unig gymdeithion iddo. A phan y b'o ei ddaioni, yn ôl ei allu, yn cael ei yſtyn iddynt, trwy fod yn doſturiol ac yn dyner o galon tu ag attynt, a'u derbyn yn llawen, a chyfrannu i'w hangenrheidiau gyd â pharodrwydd meddwl. A phan nad yw yn dal ffydd Crist gyd â derbyn wyneb, ond yn wir yn gyd-oſtyngedig â'r iſel-radd. A phan y mae yn eu caru hwy bob amſer; ïe, pan y byddont mewn adfyd, megis tlodi, dirmyg, clefyd, neu ryw ofid arall.

3. Dyſtiolaeth yw, pan y dichon dyn garu ei elynion yn ddiffuant; *Math.* vi. 14. A hyn y mae yn ei wneuthur, pan y dichon efe weddio droſtynt, a maddeu iddynt eu troſeddiadau, yn neillduol yn ei

erbyn

erbyn ei hun, gan fod arno fwy o flinder am eu bod hwy yn pechu yn erbyn Duw, nag am y camwedd a wnaethant iddo ef; a phan y gallo ef fendithio a goddef ganddynt, pan y mae yn ei allu i ymddial arnynt, 1 *Ped.* iii. 9. *Rhuf.* xii. 14. A phan y mae yn ymdrechu i orchfygu eu drygioni trwy ddaioni, gan fod yn ewyllysgar i'w porthi hwy yn eu hangen, ac i wneuthur pob daioni iddynt mewn enaid neu gorph. Ac yn olaf, pan y dichon ef, yn rhydd ac yn ewyllysgar, roddi'r clôd i'w elyn ac sy'n perthyn iddo, fel pe bae ei gyfaill anwylaf.

Neoph. Ond, Syr, rhowch gennad i mi, attolwg, i ofyn un cweſtiwn yn 'chwaneg; ſef, beth pe bawn i heb weled un arwydd oddi allan, ac ar hynny yn ammau fod ynof un dyſtiolaeth oddi fewn, fy mod i erioed yn gwir gredu ai peidio? Beth ſydd i'w wneuthur yn y fath gyflwr a hwn?

Efan. Yn ddiau, Peth tebygol yw i chwi allu dyfod i'r fath gyflwr; am hynny yr y'ch yn gwneuthur yn dda i ymofyn am gyfarwyddyd mewn pryd. Yn awr gan hynny, os bydd i'r Arglwydd eich rhoi chwi i ymogelyd na byddoch yn cymmell eich hunan, fel pe bae, o'ch anfodd i ufuddhau i orchymynion Duw, er ail gyrraeddyd ſicrwydd ffydd, neu er cael ſail i oſod eich cred arno, o'ch bod chwi yn gwir gredu; ac felly i bryſſuro eich ſicrwydd yn rhŷ gynnar.* Canys er nad y'ch chwi wrth hyn yn troi yn eich gwrthol (canys path ammhoſibl yw hynny i un gwir Gredadyn) etto yr ydych chwi yn gogwyddo tua'r cyfammod o weithredoedd; fel y

* Nid yw rhoddi y fath gyngor a hyn i Griſtion yn achlyſur iddo i yſlacchau yn ei ymdrech o ail gyrraeddyd ſicrwydd ffydd, ond yn hytrach yn annogiad ac yn rhybudd iddo rhag dechrau'r gwaith o chwith, ac felly i'w lafur fyned yn ofer; canys rhaid bod ei ymdrech a'i ufudd-dod yn tarddu oddi ar ffydd; yn gymmaint mai *Heb ffydd ammhoſibl yw rhyngu bodd Duw*; Heb. xi. 6. A lle b'o iawn ffydd, y mae hi yn ammyneddgar yn dal gafael ar addewid Duw yng Nghrist, ac nid yw yn pryſuro i gael ei hamcan i ben trwy un moddion anghyfreithlon: Canys, *Ni fryſia yr hwn a gredo.* Eſa. xxviii. 16.

gwnaeth *Abraham*, yr hwn, yn ôl iddo ddiſgwyl dro hîr am yr Hâd addawedig, er ei fod wedi ei gyfiawnhau cyn hynny trwy gredu'r Addewid, etto, er rhoi boddlonrwydd buan i'w ffydd, efe a gymmerodd *Hagar*, yr hon oedd (fel y clwyſoch) yn arwydd o'r cyfammod o weithredoedd. Felly nid hon yw'r ffordd union: Ond y ffordd union i ail gaffael eich ſicrwydd yw, pan ballo pob peth arall, i edrych yn gymmwys at GRIST, h. y. ewch yn eich cyfer at y gair a'r addewid, a pheidiwch ag ymholi neu ymreſymmu ynghylch gwirionedd eich ffydd, a goſodwch eich calon ar waith i gredu, fel pe buaſech heb gredu erioed; gan ddywedyd yn eich calon, wel Satan! Beth, pe dywedech di, nad oedd ſy ffydd erioed yn gywir; etto mi a ddechreuaſ, ac a ymwrolaf i gyrraedd gwir ffydd yn awr: Am hynny, O Arglwydd, yr wyf fi yn bwrw fy hunan o'r newydd ar dy drugareddau di, canys ynot ti y caiff yr ymddifad drugaredd. Yn y modd hyn, meddaſ, deliwch wrth y gair, ac na throwch eich cefn, eithr ymgedwch yma, a chwi a ddygwch ffrwyth trwy ammynedd. *Luc* viii. 16.

Neoph. Da iawn, Syr, chwi a'm boddlonaſoch i yn hollol yn hyn o bwngc; ond cyn belled ag yr wyf fi yn ei gofio, fe a ofynnir yn niwedd yr adn. honno, ymha un y cynghorodd yr Apoſtol i ni *Broſi ein hunain*, fel hyn, *Ai nid ydych yn adnabod eich hunain, ſef, bod Ieſu Griſt ynoch, oddi eithr eich bod yn anghymmeradwy?* 2 Cor. xiii. 5. Am hynny mi a ddymunwn gael clywed pa fodd y gŵyr dyn fod IESU GRIST ynddo ef.

Efan. Os bydd CRIST mewn dyn, y mae ef yn byw ynddo ef, yn ôl geiriau'r Apoſtol, *Nid myfi ſy yn byw, ond Criſt ſydd yn byw ynof fi.*

Neoph. Ond pa fodd y gŵyr dyn fod CRIST yn byw ynddo ef?

Efan. Yn wir, ymha ddyn bynnag y b'o CRIST yn byw, yn ôl meſur ei ffydd ef, fe ddengys CRIST ei dair ſwydd, ſef o Brophwyd, o Offeiriad, ac o Frenin ynddo ef. *Neoph.*

Neoph. Mi a ddymunwn gael clywed ychwaneg ynghylch y tair ſwydd hyn; am hynny mynegwch, Syr, attolwg, yn gyntaf, pa fodd y gŵyr dyn fod CRIST yn cyflawni ei ſwydd o Brophwyd ynddo?

Efan. Cyn belled ag y gwypo dyn fod cyfammod wedi ei wneuthur rhwng Duw a holl ddynolryw yn *Adda*, ac mai cyfammod union ydoedd, ac nad allai cyfiawnder Duw lai nag ymddangos ei hunan ar dorriad o'r cyfammod, a bod pob dyn ar hynny yn euog o farwolaeth a damnedigaeth dragywyddol, fel pe condemniaſai Duw bob dyn yn ddiarbed; etto ni buaſai hyn ond barn Barnwr union, cyfiawn, a geiſiai gwblhad o'i gyfiawnder yn fwy nâ diſtryw dyn; ac ar hyn efe a fyfyria yn ddirgel yn ei galon, ac a'i cymmhwyſa atto ei hunan yn neillduol; ac yn y modd hynny a argyoeddir ei fod ef yn ddyn truan, colledig, di-gymmorth. Cyn belled, meddaf, ac y gwnelo dyn yn y modd hyn, y mae CRIST yn gweithredu ei ſwydd o Brophwyd ynddo, gan ddyſgu a datguddio iddo y cyfammod o weithredoedd. A chyn belled ac y gwypo dyn, neu y teimlo ef, fod yr Arglwydd DDUW wedi gwneuthur cyfammod âg *Abraham* a'i holl hâd crediniol yng NGHRIST IESU, gan ei gynnyg ef yn rhad i bawb a glywent lais yr efengyl; ïe, a chan ei roi ef yn rhad i bawb a'i derbynient ef trwy ffydd, er eu cyfiawnhau hwy, a'u cadw yn dragywydd. A chyn belled ag y byddo ei galon ef yn agoryd i dderbyn y gwirionedd, nid fel rhyw wrthddrych yſgafn, neu ryw bwngc o ddifinyddiaeth a'i gwnelai ef yn rhwyddach ei dafod i ymddadlu, ond fel gwirionedd yn cymmeryd gafael ar ei galon, ag a ddylid ei gyhoeddi yn weithredol, gan ei dderbyn i'w galon trwy ffydd yr efengyl, a chan ei gymmhwyſo atto ei hun yn neillduol, a chan fwrw ei hun, a'i gyflwr tragywyddol arno, ac wrth hyn yn goſod ei ſêl fod Duw yn eirwir. Cyn belled, meddaf, ac y gwnelo dyn y pethau hyn, y mae CRIST yn cyflawni ei ſwydd Brophwydol ynddo ef, gan ei ddyſgu,

ddyſgu, a chan ddatguddio iddo y cyſammod o ras. A chyn belled ag y gwypo neu y dyallo dyn, mai *Hyn yw ewyllys Duw, ſef ei ſanctteiddiad ef*, 1 Theſ. iv. 3. ac ar hynny yn terfynu, mai ei ddyledſwydd ef yw ei ddyfal geiſio. Cyn belled ag y gwnelo dyn fel hyn, y mae CRIST yn dangos ei hunan yn Brophwyd ynddo ef, gan ei ddyſgu, a chan ddatguddio ei gyfraith iddo. Ac y mae hyn (fel yr wyf fi yn gobeithio) yn atteb digonol i'ch gofyniad cyntaf.

Neoph. Dangoſwch, Syr, yn neſaf, attolwg, pa fodd y gŵyr dyn fod CRIST yn cyflawni ſwydd Offeiriad ynddo?

Eſan. Cyn belled ac y gwypo, neu y dyallo ddyn roddi o GRIST ei hunan yn aberth perffaith digonol dros bechodau'r ffyddloniaid, ac iddo ef eu huno hwy âg ef ei hun trwy ffydd, ac yntef â hwythau trwy'r Yſpryd Glan; a'u gwneuthur yn un âg ef; a'i fyned ef i'r nef ei hun i ymddangos yn awr ger bron DUW troſtynt. *Heb.* ix. 24. A chyn belled ac yr ymhyfhao ef i fyned yn hyderus at yr Arglwydd mewn gweddi, fel at Dad, gan gyfarfod âg ef yng NGHRIST, a chan gyflwyno ei hun gyd â CHRIST, fel gyd âg aberth diſeius a diſrycheulyd. Cyn belled, meddaf, ac y gwnelo dyn yn y modd hyn, y mae CRIST yn cyflawni ſwydd Offeiriad ynddo.

Neoph. Ond, Syr, a fynnech chwi i Gredadyn fyned yn uniawn at yr Arglwydd? Os felly, pa fodd y dywedir, fod CRIST yn erfyn troſom ar ddeheulaw DUW, yn ôl geiriau'r Apoſtol? *Rhuf.* viii. 34.

Eſan. Gwir yw, y mae CRIST, fel Perſon cyffredin, a ſafai tros yr holl ffyddloniaid, yn ymddangos ger bron DUW'r Tad, ac yn ewyllyſio yn ôl ei ddwyfol anian, ac yn deiſyf, fel y mae ef yn Ddyn, ar i DDUW, er mwyn y Iawn y wnaeth ef, ganniattâu iddynt y pechau a ofynnant yn ôl ei ewyllys ef. Ond etto er hyn i gyd, y mae'n rhaid i chwi fyned yn uniawn gyrch at DDUW yng NGHRIST yn eich gweddiau: Ac nid oes i chwi gyfeirio eich gweddiau at

au at GRIST yn unig gan eu terfynu hwy yno, fel pe bae ef i'w derbyn a'u cyflwyno hwy ger bron y Tad; eithr y lle i chwi gyflwyno eich gweddiau yw DUW ei hun yng NGHRIST. Ac nid oes i chwi ychwaith feddwl am GRIST y Mab, fel pe bae ef yn well ei ewyllys na DUW'r Tad i ganiattâu eich erfynniau i chwi; canys pa beth bynnag a ewyllysia'r Mab, a ewyllysia'r Tad hefyd yng NGHRIST, (gan ei fod yn foddlon iddo ef) Am hynny, meddaf, yng NGHRIST, ac nid mewn un lle arall, y mae i chwi ddifgwyl am gael attebiad o'ch erfynniau: Ac fel y mae i chwi ddifgwyl eu cael hwy yng NGHRIST yn unig, ac nid mewn un man arall, felly y maent hwy i'w cael yn unig er mwyn CRIST, ac nid er mwyn dim arall. Ac am hynny cofiwch hyn, attolwg, a gwyliwch na byddoch yn myned at y Tad allan o GRIST yn eich gweddiau drofoch eich hun, nâ thros eraill; yn enwedig, gwyliwch pan fyddoch yn gweddio am faddeuant o'ch pechodau, na byddoch yn meddwl y gwrendu DUW yn gynt arnoch, neu y canniattâ ef i chwi un arch, am eich bod yn ymprydio, neu yn wylo, neu mewn un modd yn daroftwng eich hunan, pan y byddoch yn gweddio; gwyliwch rhag y fath feddyliau a rhai'n. Canys rhaid yw i chwi gyfarfod â DUW yng NGHRIST, gan ei gyflwyno ef â'i ddioddefiadau; felly arno ef y dylech chwi yn unig ac yn hollawl fwrw eich llygad, a'ch meddwl, a'ch llwyr ymddiried; yna chwi ellwch fod yn hyderus ac yn ddiogel o gael eich dymuniadau. Ie, yma chwi ddylech, ac a ellwch ymrefymmu, fel â DUW ei hun, gan ymbil âg ef i'r yftyr hyn; Wele, Arglwydd, dyma'r lawn fy'n dymuno ac yn ewyllyfio'r peth y geifiwyf, fef CRIST, ymha un y dywedaift, dy fod ti yn foddlon; Ie dyma'r Perfon yr hwn a dalodd y dyled i gyd, ac a ddïlëodd fy holl bechodau i! am hynny y mae yn fefyll yn awr ar dy gyfiawnder di i faddeu i mi. Ac os gwnewch chwi yn y modd hyn, bydded ficr gennych fod CRIST yn cyflawni fwydd Offeiriad ynoch.

Neoph.

Neoph. Bellach, Syr, dangoſwch, attolwg, pa ſodd y gŵyr Credadyn fod CRIST yn gweithredu ei ſwydd Frenhinol ynddo?

Efan. Cyn belled ac y gwypo, neu y teimlo ef, fod pob awdurdod wedi ei roddi i GRIST yn y nef, ac ar y ddaear, *Math.* xxviii. 18. i orchfygu'r holl chwantau a'r llygredigaethau ſy'n aros yn y ffyddloniaid, ac i 'ſgrifennu ei gyfraith yn eu calonnau hwy; a chyn belled ac y cymmero achos ar hyn i fyned at CRIST am nerth i wneuthur felly ei hun, y mae CRIST yn cyflawni ei ſwydd frenhinol ynddo.

Neoph. Wrth hyn, Syr, fe welir mai calonnau'r ffyddloniaid yw'r fann, ymha un y mae CRIST, yn cyflawni ei ſwydd frenhinol.

Efan. Gwir iawn; canys nid teyrnas amſerol ddaearol yw teyrnas CRIST, i lywodraethu ar gyrph, a bywydau naturiol, a negeſau bydol dynion; ond un yſprydol, nefol, yw ei deyrnas ef, i lywodraethu ar eneidiau dynion, er gweithio ofn ac ufudd-dod yn eu calonnau hwy, er caethiwo eu gwyniau, daroſtwng eu meddyliau, a gorchfygu a thynnu i lawr gaerau cedyrn oddi mewn iddynt. Canys ar bechod ein Tad *Adda*, efe, a ninnau ynddo ef, a ymwrthodaſom â DUW, ac a ddewiſaſom y cythraul yn Arglwydd ac yn Frenin arnom; hyd onid yw pawb o bob gradd, fel eu gilydd, tan lywodraeth y cythraul wrth nattur; ac efe ſy'n teyrnaſu arnom, hyd oni ddelo CRIST i'n calonnau i'w yrru ef allan, yn ôl ei eiriau ef ei hun, ſef, *Pan ſyddo un cryf arfog yn cadw'r neuadd, y mae'r hyn ſydd ganddo mewn heddwch*, Luc. xi. 21, 22. h. y. medd *Calfin*, "Y mae Satan yn dal y rhai ſy tan ei lywodraeth yn y fath rwymau a dalfa lonydd, fel nad oes dim rhwyſtr yn erbyn ei reolaeth ef:" Ond cyn gynted ac y delo CRIST i galon un dyn trwy ffydd, yn ôl meſur ei ffydd, y mae yn bwrw y cythraul allan, ac yn aros ei hun yn y galon, ac yn diwreiddio, ac yn tynnu i lawr pa beth bynnag a wrthwynebo ei lywodraeth ef yno; ac fel Capten gwŷch, efe a

geidw

geidw ei afael, ac a gynnorthwya'r enaid i grynhoi ei holl nerth a'i rym ynghyd, fel y byddo ef aplach i wrthſefyll ei holl elynion ef a chaſeion CRIST; ac i ymoſod ei hunan o ddifrif yn ei herbyn hwy, os digwydd iddynt un amſer geiſio dychwelyd yn ôl i'w hên le. Ac yn enwedig, efe a nertha'r enaid i wrthſefyll, ac i ymoſod yn erbyn y gelyn pennaf, ſef, y pechod anwyl hwnnw ſy'n gwrthwynebu CRIST fwyaf yn ei lywodraeth; ac a'i cynnorthwya yn waſtadol i feddwl am y llygredigaeth ſy'n teyrnaſu fwyaf yn ei galon, ac a'i dŵg ef ar gôf i ymddîal ar hwnnw, ac i achwyn ger ei fron ef yn erbyn hwnnw, ac i alw arno am gael mwy o nerth i'w orchfygu; ar cwbl yw, o herwydd fod y pen pechod hwnnw, ſel bradwr, yn gwrthſefyll CRIST a'i lywodraeth: Am hynny efe a wna ei orau ymmhob ffordd i'w ddwyn ger bron gorſeddfa CRIST; ac yno efe a eilw am farn yn ei erbyn, gan ddywedyd, Dyma'r bradwr hwnnw, O Arglwydd IESU, ſy'n gwrthſefyll dy lywodraeth di ynof, gorchfyga ef, ïe, llwyr ddinyſtria di ef. Ac ar hyn fe rydd CRIST yr un atteb ac y roddes ef gynt i'r Canwriad, *Dos ymaith; a megis y credaiſt bydded i ti.* Math. viii. 13. Ac fel y mae CRIST yn y modd hyn yn bwrw pob llywodraethwr allan o galon y Credadyn, fel y teyrnaſo efe yn unig yno; felly y dilëa ef, ac y diddyma bob cyfraith arall, ac a 'ſcrifenna ei gyfraith ei hun yn eu lle hwy, yn ôl ei addewid. *Jer.* xxxi. 33. Ac a wna iddo fod yn barod ac yn ewyllyſgar i wneuthur ac i oddef ei ewyllys ef, o herwydd mai ei ewyllys ef yw. Felly mae meddwl ac ewyllys CRIST, fel y mae wedi ei oſod i lawr yn ei air, a'i amlygu yn ei weithredoedd, nid yn unig yn rheol o ufudd-dod i'r Credadyn, ond yn rheſwm o hono; fel nad yw ef yn unig yn gwneuthur ewyllys CRIST, ond efe a'i gwna, o herwydd mai ei ewyllys ef yw. O gwyn fyd y dyn hwnnw, yng nghalon pa un y mae cyfraith CRIST yn 'ſgrifenedig! Mae ef yn darllain, yn gwrando, yn

gweddio,

gweddio, ac yn derbyn y Sacrament, ac yn gwneuthur pob dyledſwydd o'r Llêch cyntaf o'r gyfraith, o herwydd ei fod ef yn gwybod mai meddwl ac ewyllys CRIST yw; ïe, ni wna ef yn ôl gorchymynion y Llêch gyntaf yn unig, ond yn ôl yr ail hefyd, o herwydd fod CRIST yn ei orchymun. O gwyn fyd y gwr, neu'r tad, neu'r meiſtr, neu'r ſwyddog hwnnw, ynghalon pa un y mae cyfraith CRIST yn 'ſgrifennedig! Canys efe a gyflawna ei ddyledſwydd i'w wraig, neu blentyn, neu was, neu ddeiliad, a hynny, o herwydd mai CRIST a'i gorchymynnodd. Ac yn yr un modd, gwyn fyd y wraig honno, neu'r plentyn, neu'r gwaſanaethddyn, neu'r deiliad hwnnw, yng nghalon pa un y 'ſgrifennir cyfraith CRIST; canys efe a wna yn ôl ei rwymmedig ddyledſwydd, i'r gwr, neu dad, neu feiſtr, neu lywodraethwr, am fod CRIST yn ei orchymun iddo. Yn awr os teimlwch chwi y pethau hyn yn eich calon, chwi ellwch derfynu, fod CRIST yn gweithredu ei ſwydd frenhinol ynoch.

Neoph. Da iawn, Syr; yn awr y gwelaf yn eglur, nad yw ryſedd fod fy nghalon mor ddiorphwys hyd yn hyn, am fy mod i yn arferol o geiſio gorphwysfa lle nid oedd un i'w chael.

Efan. Y mae fy achoſion yn galw arnaf i ymadael â chwi; ond gan i chwi goffâu gorphwysfa'r enaid, fel diwedd-nôd i'n holl ymddiddanion, trwy gennad yr Arglwydd, myfi a ſoniaf ychydig ynghylch hynny. Ond er agoryd y pwngc hwn yn oleuach, yſtyriwch, pan roddodd DUW i ddyn gorph elfennol, efe a anadlodd hefyd ynddo enaid anfarwol, o ſylwedd yſprydol; ac er rhoi o hono ef hanfod gyflëol i'r enaid yn y corph, etto efe a roddodd iddo ddedwydd-fôd yſprydol ynddo ei hunan, hyd onid oedd yr enaid yn y corph, o ran ymoſodiad, yn gyflëol, ac yn orphwyſol yn yr Arglwydd trwy gyfundeb a chyfrannogiad; ac yn hyn o ddedwydd-fôd yr enaid, yn yr Arglwydd ar y cyntaf y ſafai gwir ddedwyddwch y dyn. Eithr ar

gwymp

gwymp y dyn oddi wrth DDUW, DUW yn ei gyfiawnder a'i gadawodd ef iddo ei hunan, ac ar hynny y dirymmwyd yr undeb a'r cyfrannogiad hwnnw, a oedd i enaid dyn gyd â DUW ar y cyntaf. Canys DUW ac enaid dyn a wahanwyd y naill oddi wrth y llall; ac er y pryd hwnnw y mae'r enaid mewn cyflwr aflonydd. Ond etto, o herwydd i'r Arglwydd ddiogelu rhyw arwydd o hono ei hunan o'r tu fewn i enaid dyn, y mae'r enaid yn ôl ei wneuthuriad yn chwennych cyrraedd y pendaioni, ſef, DUW ei hunan, ac ni chaiff ef wir orphwysfa mewn un mann, hyd nes delo atto ef.

Nom. Ond attolwg, Syr, pa fodd y gellwch ddywedyd, fod enaid dyn yn ymgyrraedd tu ag at DDUW y Creawdwr, gan ei fod yn eglur, fod enaid pob dyn wrth nattur yn tueddu tu a'r creadur, ac yn ceiſio gorphwysfa yno?

Efan. I atteb i'ch gofyniad, yſtyriwch, attolwg, fod dyall dyn wrth nattur yn ddall, ac yn dywyll; am hynny yn anwybodus o ddymuniad ei galon ei hun, ac o'r peth a ddymunai ef fwyaf. Gwir yw, y mae'n gwybod fod rhyw ddiffyg ar yr enaid; ond hyd nes y goleuir ef, ni's gŵyr yn iawn beth ſydd ddiffyg arno; canys yn wir, y mae'r peth yn ſefyll gyd â'r enaid, megis y mae gyd â'r plentyn newydd eni, yr hwn, trwy ddirgel dynfa, a lêf, ac a egyr ei ſafn am luniaeth; ïe, ac nid am un math o luniaeth amgen nag a gyttuno â'i gorph tyner ef. Canys os y fammaeth, trwy anwybodaeth neu eſgeuluſdra, a âd y plentyn heb fwyd, neu a gynnyg iddo ryw fwyd diflas, y plentyn a'i gwrthyd, ac a lef fwy fwy, ac a ymofyn yn ddibaid am y fron: Ac etto, nid yw'r plentyn yn y cyflwr hwn yn gwybod wrth un math o hyſpyſrwydd ſynwyrol, dyallus, am beth y mae yn ymofyn; felly yn yr un gyffelyb, y mae'r enaid yn llefain ar DDUW, fel pe bae, am luniaeth iachus; ond ei ddyall fel mammaeth angnghyfarwydd na ŵyr beth y mae'r plentyn yn ei geiſio, a gynnyg ryw greadur i'r galon yn lle'r Cre-

awdwr. Yn y modd hyn y cedwir yr enaid, trwy ddallineb y dyall, llygredigaeth yr ewyllys, ac anrhefn y ſerchiadau, trwy drais, rhag cyffwidd â'i amcan priodol, ſef, Duw ei hun.

O! Pa ſawl mîl o eneidiau yn y byd a rwyſtrir rhag cael gorphwysfa yn yr Arglwydd, o herwydd fod eu dyall tywyll yn goſod amryw wrthrychau aflan ger bron eu blŷs anianol. Onid ydys yn rhwyſtro eneidiau llawer o ddynion anllad rhag cael gwir orphwysfa yn yr Arglwydd, o achos y glendid a roddodd nattur i wynebau rhai menywod? Yn enwedig, pan y byddo'r cythraul yn cyffroi ynghalonnau y cyfryw fenywod ryw awydd at ymdrwſiadau hardd, ac ymddygiadau anllad, a choluro eu hwynebau, a gwiſgo yn wŷch am eu pennau, fel eu mam *Jeſebel* gynt. &c.

Ac oni rwyſtrir eneidiau llawer o ddynion rhag cael gorphwysfa yn yr Arglwydd, o herwydd eu bod hwy yn edrych ar liw'r ddiod, ac yn blaſu meluſder bwyd moethus. O pa mor hôff ganddynt weled y gwîn yn gôch, a'r cwrw yn loyw, a'r bîr yn chwareu yn y ddiod-leſtr? Yr ydym yn darllain yn *Luc* xvi. 19. am *ryw wr a gymmerai fyd da yn helaethwych beunydd*; *rhyw wr*, ſel pe na buaſai onid un yn unig cynddrwg ei fuchedd. Ond yn ein hoes ni y mae llawer cant o wyr ac o wragedd a fwyttant, nid yn unig yn helaeth-wych, ond yn foethus, ïe, ac nid unwaith, ond ddwy-waith, neu yſgatfydd yn fynychach beunydd.

Ac oni rwyſtrir enaid llawer gwr uchel, balch, rhag gorphwys yn yr Arglwydd gan fawr glod a gweniaeth y bobl? Yr hwn, ſel y tyn-faen, neu *load-ſtone*, a lithia'r galon wag orfoleddus fwy fwy ei hawydd i geiſio chwanegu adlais ei ofer-glod a'i wag-orfoledd.

Ac oni rwyſtrir llawer gwr cerddgar rhag cael gwir ddiddanwch yn yr Arglwydd, gan wrando ar buroriaeth cyd-ſoniarus rhyw offeryn-gerdd? A pha ſawl dyn anfad ofer yn y byd fy yn cael ei ddenu

rhag

rhag perarogliad ei enaid yng NGHRIST, gan bêr-aroglau dillad, a blodau peraidd? Ac oni rwyſtrir llawer gwr trachwantus rhag cael gorphwysfa yn yr Arglwydd, gan fawr drwſt llewndid ei olud, a hudoliaeth ei elw?

Ac yn y modd hyn y mae'r cythraul, fel pyſgod-wr cyflym, yn abwydo ei fâch â rhyw wrthrych cnawdol er mwyn dal dynion; yn ôl iddynt lyngcu yr abwyd efe a'u cylch-arwain hwy yn ddibryder, hyd oni ſoddont yn ddiarwybod ynddo, ac a lwyr anghofiant eu tangneddef a'u gorphwysfa yn yr Arglwydd. Ac o hyn y mae yn dyfod, fod llawer yn treulio y rhan fwyaf, ïe, rhai eu holl einioes, yn ymofyn am foddlonrwydd i'w blŷs anianol.

Nom. Yn wir, Syr, yr ydym beunydd yn gweled cadarnhad o'ch ymadrodd, o herwydd fod llawer yn treulio eu dyddiau mewn oferedd, heb hepcor cymmaint o amſer ac i waſanaethu DUW, o'u bodd, hyd yn oed ar ei ddydd ei hun.

Efan. Gwir y ddywedwch; ac myfi a chwanegaf hefyd, mai peth poſſibl yw gyrru dyn, trwy nerth ei gydwybod naturiol, i addef, mai yn yr Arglwydd, ac nid yn y pethau hyn, y mae iddo ofod ei obaith o ddedwyddwch; ïe, ac i ymwrthod â phob elw, a phob math o ddifyrrwch cnawdol, fel pethau analluog i roi gwir foddlonrwydd i'w enaid; ïe, ac i ymarferyd pob gwaſanaeth crefyddol, ac etto heb fyned ronyn yn y blaen, trwy neſâu at yr Arglwydd am orphwysfa. A phan edrychom naill ai ar y lliaws o ddynion aflan cnawdol, ai ar y rhai ſy grefyddol mewn rhith a dangoſiad, ſe fyddai hawdd i ni ganfod eu gwaſanaeth mwyaf crefyddol yn eu twyllo yn aruthr, ac yn eu ſiommi yn rhyfeddol o ddedwyddwch i'w calonnau yn yr Arglwydd DDUW. Oblegid y rhyw gyntaf, er eu bod hwy o nifer y rhai a wnant dduwiau o'u boliau, ac aberthant yn unig, ac yn ddiorphwys i *Baccus*, *Apolo*, neu *Fenus*, trwy ddilyn meddwdod, glythineb, a phutteindra; ac er bod eu cydwybodau yn eu cyhuddo, mai drwg

ydyw eu harfer a'u buchedd ; etto am eu bod yn cael eu cymmeryd yn lle Criſt'nogion, ac am eu bedyddio, ac am eu bod yn mynych adrodd gweddi'r Arglwydd, a chredo'r Apoſtolion, a'r dêg gorchymun ; ac am eu bod yn ddiweddar yſgatfydd yn ymarfer o gyrchu i'r eglwys, a gwrando gwaſanaeth, a phregeth hefyd ambell bryd ; ac am iddynt dderbyn y Sacrament weithiau, ni chredant hwy nad yw'r Arglwydd (ſel y dywedant Duw yn y blaen !) yn foddlon iddynt ; ac y mae mor boſſibl peri iddynt goelio, nad ydynt yn ddynion, yn wŷr ac yn wragedd, a cheiſio ganddynt goelio eu bod yn ddrwg eu cyflwr o ran eu heneidiau. Ac am yr ail ryw, gan ba rai y mae ſynycha fwy o ddoethineb a dyall daearol, a dyſgeidiaeth naturiol, nac y ſy i'r rhai cyntaf ; hwy a ymddangoſant yn fwy ſanctaidd a chreſyddol na'r rhai anianol anwybodus eraill ; etto pa ſawl o rhai'n ſy'n myned ddim ymhellach na'r weithred, neu'r gwaſanaeth corphorol oddi allan ? A hynny, am eu bod hwy yn porthi eu hunain megis â breuddwyd wâg, gan dybied eu bod yn gyfoethog, ac yn feddianwyr ar bob peth, er nad oes yn eu helw amgen na llonaid eu ymmhennyddiau o wynt, a gwag ddychymmygion.

Ac onid oes rhai a roddant eu bryd ar fanylach chwiliad o'r 'ſgrythyrau am wybodaeth ac addyſg, a medr yſgolheigaidd yn y gelfyddyd hon, a'r iaith hyn neu arall, hyd oni bont yn medru traethu yn hawdd holl hanes y Bibl, ïe, a'r holl fannau o'r 'ſgrythur, ac a gadarnhant (yn eu tyb hwy) eu opiniwnau neillduol ynghylch defodau a llywodraeth eglwyſig, neu ryw byngciau amgylchiadol o grefydd ; ynghylch pa rai y maent yn dafod-rydd, ac yn dra pharod i ymreſymmu, ac i ymddadlu, ac i oſod allan ryw holiadau dieithr na's gellir eu hatteb yn hawdd ?

Ac onid oes rhai o honynt yn Sectwyr, ac yn ddych-'mygwyr o feddyliau newydd mewn crefydd, ac yn enwedig ynghylch dull gwaſanaeth Duw, ymha un

un yr amcanant ddechrau, heb fedru byth o'i orphen? Canys y mae eu gwybodaeth o grefydd wedi myned mor anwadal trwy amrywiaeth o feddyliau cyfrwys, ac o yſprydoedd ymryſongar, hyd onid yw einioes dyn yn rhŷ fyrr i gymmeryd golwg hollol arno. Canys y mae pob Sect yn dywedyd eu bod hwy yn foddlon i air y gwirionedd eu cyfarwyddo; ac er bod pawb o honynt yn ſon am y 'ſgrythyrau, fel ſail i'w opiniwnau; lle nad yw'r 'ſgrythur lân ond un (megis y mae Duw ei hunan yn un) etto o herwydd eu hamryw ddeongliadau o'r 'ſgrythyrau, a'u huchel feddyliau am eu doethineb dynol eu hunain, y maent yn llawer.

Ac onid oes eraill o honynt yn barod i gofleidio pob arfer neu drefn newydd o addoliad, yn enwedig os bydd honno wedi ei gorchuddio dan rîth o ddyſgeidiaeth 'ſgrythyrol; ac os bydd arni ryw ymddangoſiad o wirionedd wedi ei ſeilio ar y llythyren; ac os bydd honno mewn golwg yn dduwiolach nâ'r drefn gyntaf; yn enwedig, os meder y dyſgawdwr y ffordd newydd o anffurfio ei wyneb, gan fod yn athriſt, a chan gyfodi ei olygon tu a'r nef, ac och'neidio yn drwm ar ei gyhoeddiad o'i ddyſgeidiaeth newydd, a chan fynych ſon am ogoniant Duw? Ond er hyn i gyd y mae'r bobl yma yn derbyn meddyliau newydd mewn ychydig amſer drachefn, fel pe buaſai Duw (yn ol eu tyb hwy) wedi datguddio iddynt ryw ddirgelwch mawr ymhellach. Canys hyn ſydd wir, nad ydynt, gan dywyllwch eu dyall, yn abl i gyrraedd un gwirionedd goruch-naturiol, er cymmaint yr ymdrinant â'u dyſgeidiaeth lyth'rennol, a'u meder yſgolheigaidd ar y 'ſgrythyrau; am hynny y maent yn barod i dderbyn ac i roeſawi y drefn gyntaf o addoliad ag a gynnygir iddynt.

Ac onid oes rhyw arall o ddynion yn gyffelyb i'r rhai hyn yn rhŷ gyfnewidiol yn eu ymarfer o dduwioldeb? Yn ddiau, yr oedd *Paul* yn dirnad mai duw rhai yn ei amſer ef oedd hyn, am hynny y gorch'mynnodd efe i *Timothy* addyſgu eraill, *Nad*

oedd yr ymarfer corphorol ond i ychydig yn fuddiol, neu fel y cyfieithir y geiriau gan eraill, *yn llwyr anfuddiol:* Ac yna a wrth-ofododd wir *dduwioldeb* yn ei gyfer fel peth amgan nâ'r *ymarfer corphorol,* ac a ddywedodd, *ei bod yn fuddiol i bob peth.*

Ac onid oes, dybygwch chwi, rai yn yr oes hon, na wyddant ronyn ynghylch na chrefydd, na daioni amgen nac ymarfer corphorol, ac ni fedrant braidd wahaniaethu rhwng duwioldeb a'i ymarfer oddi allan? Yn awr yſtyriwch, fod ymarferion corphorol yn gyfnewidiol yn ôl amryw feddyliau dynion, am fod i bob Sect ei neillduol waſanaeth; etto, nid ydynt ond gwaſanaeth corphorol, ïe, ac yn unig yn gorphorol gan mwyaf; ymha rhai y maent yn gobeithio cael gorphwysfa i'w heneidiau, o herwydd eu bod heb ei gael ef yn yr Arglwydd. Ac oblegid hyn y mae, fod eu tangnefedd hwy a'u gorphwysfa yn anwadal, yn ôl fel y b'o eu gwaſanaeth, yn well neu yn waeth; am hynny rhaid darllen cynnifer o bennodau, a gwrando cynnifer o bregethau, ac adrodd cynnifer o weddiau, ac ar gynniſer o ddiwrnodau yn y flwyddyn neu'r wythnos i ymprydio, fel pe bae yn ammhoſibl i'w heneidiau gael gorphwysfa yn amgen nag wrth y fath hyn o waſanaeth goſodedig. Ond na cham-ſyniwch fi, attolwg, fel pe bawn i yn dywedyd yn erbyn gwneuthur un o'r pethau hyn, canys yr wyf fi fy hunan yn eu harferyd oll; ond yr wyf yn erbyn gorphwys ynddynt, yr hyn nid wyf yn dymuno ei wneuthur.

Ac wrth hyn y gwelwch, pa fodd y mae dallineb dyall dyn, yn goſod nid yn unig bethau anianol ger bron ei chwennychiad anianol, ond pethau rheſymmol ger bron ei chwennychiad reſymmol; hyd oni chedwir yr enaid truan heb orphwysfa yn yr Arglwydd, nid yn unig trwy ei fywyd anianol, ond trwy ei ffurfiol waſanaeth i'r Arglwydd. Canys yn hyn y gwelir cyfrwyſtra'r cythraul; os ffaela ef ein cadw ni rhag ceiſio gorphwys yn yr Arglwydd, trwy borthi ein llygaid a'n blŷs âg Afal ein hên fam

ſam *Eſa*, yna eſe a amcana ein twyllo trwy ddallu ein llygaid, a thrwy hynny ein rhwyſtro rhag troedio llwybrau'r eſengyl.

Nom. Ond, Syr, yr wyf fi yn coelio fod llawer gwr o ymarfer grefyddol, ac yn gwneuthur y pethau a enwaſoch heb orphwys ynddynt, ond yn gorphwys yn yr Arglwydd.

Eſan. Yn ddiammau fod Criſt'nogion, ac ſy'n edrych ar y fath ymarferion, megis moddion wedi eu hordeinio gan DDUW i weithio a chynnyddu ffydd, a phob graſuſau eraill; y maent yn ofalus i ymarfer y cyfryw ddyledſwyddau, ac y mae eu heneidiau hwy yn gorphwys yn NUW, ac nid yn y dyledſwyddau.

Ond Och! Y mae achos ofni, fod y rhan ſwyaf o'r rhai a goffais i yn hytrach yn meddwl, mai megis y digiaſant, ac yr anfoddlonaſant yr Arglwydd trwy eu anufudd-dod cyntaf, felly y gorfyddai iddynt ddiſtewi a boddloni DUW â'u ufudd-dod rhag-llaw. Ac ar hyn yr ymrwymant eu hunain i ddyfal ymarfer hyn a hyn o ddyledſwyddau, a'r gwaſanaeth hwn ac arall, er mwyn ail gaffael ffafr DUW a gollaſid; ïe, a chan dybied eu bod wedi llygru a nurddo eu hunain trwy eu cwympiadau i bechod, hwy a freuddwydiant mai rhaid yw iddynt buro, a glanhau eu hunain, trwy gyfodi oddi wrth bechod, yn eu nerth eu hunain, a rhodio mewn ufudd-dod newydd; fel pe baent yn ymroi i wneuthur pob daioni, ac i ymwrthod â phob drygioni, er mwyn gwneuthur iawn i DDUW a llonyddu eu cydwybodau. Ac os yn y modd hyn y ceiſiant orphwyſfa i'w eneidiau, y maent wedi troi at yr hên ffordd o'r cyfammod o weithredoedd, lle ni chyrraeddant byth at yr Arglwydd. Ie, trwy droedio'r ffordd hon y maent yn ceiſio dyfod at DDUW heb GRIST, allan o ba un y mae ef yn *Dân yſol*, am hynny ni's deuant byth atto.

Nom. Wrth hyn Syr, mae'n debyg, mai cymmeryd gafael ar DDUW yng NGHRIST, trwy ffydd, yw

yw yr unig ffordd i gael gwir orphwysfa i'r enaid.

Efan. Dyna yn wir yw'r unig wir orphwysfa; a dyna fe at ba un y mae *Dafydd* yn gwahodd ei enaid, gan ddywedyd, *Dychwel, O fy enaid, i'th orphwysfa.* Sal. cxvi. 7. *A nyni* (ebe'r Apoſtol) *y rhai a gredaſom, ydym yn myned i'r orphwysfa.* Heb. iv. 3. A *Deuwch attaf fi* (medd GRIST) *bawb ag ſydd yn flinderog ac yn llwythog, ac mi a eſmwythaf arnoch.* Math. xi. 28. Ac yn wir credwch fi, fy nghymmydogion anwyl, byth ni's cawn ni wir ddedwyddwch calon, a gorphwysfa enaid, nes y caffom yno. Canys er dywedyd, ac er dymuno, o ddyn (yn ôl arfer rhai) fel hyn; O na bae gennyf y fath ſynwyr ac y ſy gan y gwr hyn a'r gwr; O pe bae yn fy meddiant i olud hwn a hwn, neu pe bawn i cyfuwch fy mraint, neu gymmaint fy nifyrrwch a'r gwr hyn neu'r gwr accw; neu pe bae gennyf y fath wraig a hon, neu'r fath wr a hwn, neu'r cyffelyb blant, neu wafanaeth ddynion a'r rhai accw, yna fe fyddai fy nghalon yn foddlon, a'm henaid yn eſmwyth; ac etto, pa un o honom na chafodd brofiad o dwyll ei galon yn ôl meddiannu llawer o ddymuniadau? Canys yn ôl mwynhau'r pethau a chwennychafom gymmaint, ac yn y mwynhad o ba rai yr addawſom ddedwyddwch, llonyddwch, a boddlonrwydd i'n hunain; etto cyn nemmawr o ddyddiau ni chawſom ni ond oferedd a gwagedd ynddynt. Barned dyn yn union ei galon, er meddiannu o hono ar lawer o bethau dymunol, etto efe a wêl, ac a addef fod rhyw beth neu gilydd yn eiſiau arno; canys yn wir, nid ellir boddloni'r enaid âg un creadur; nag ychwaith â byd o greaduriaid: A hynny, o herwydd fod dymuniadau enaid dyn yn anherfynnedig, fel y daioni anherfynol a gollodd ef gynt trwy golli DUW; ïe, ac yſpryd yw enaid dyn, am hynny nid ellir ei ddigoni âg un peth corphorol gweledig. Felly yntau, am na cheir yr anfeidrol a'r yſprydol lewndid hwnnw yn y creaduriaid, ac a gollodd ein heneidiau, tu ag ba un y maent byth yn ceiſio neſâu, nid allant roddi iddynt gyflawn foddlonrwydd. Ie,

Ie, Mi ddywedaf ymhellach; er argyoeddi dyn yn ei gydwybod, ynghanol ei lawndid anianol, o'i fod mewn cyflwr o elyniaeth yn erbyn Duw, ac am hynny mewn perygl o'i ddigofaint a'i ddamnedigaeth dragywyddol; ac er ei annog ef i adgywirio ei fywyd, ac i wellhau ei lwybrau, gan ymegnio i gael tangnefedd a gorphwysfa i'w enaid; etto, o herwydd mai yn ôl yr hen lwybr o weithredoedd y mae hyn, ammhofibl yw byth ei gael. Canys fe fydd ei gydwybod yn ei gyhuddo yn waftadol, mae'r gorchwyl da hwn, neu'r gwafanaeth da arall y ddylafai ef ei wneuthur, ond etto na's gwnaeth ef ohono; neu mai ei ddyledfwydd ef oedd ymogelyd rhag y drwg hyn a'r drwg arall, ac etto iddo ei wneuthur; neu ei fod yn rhŷ efgeulus yn y cyflawniad o'r gwafanaeth hyn, ac yn anghryno yn y llall; ac fel hyn trwy lawer o ffyrdd yr aflonyddir yr enaid. Ond cyn gynted ag y credo dyn, fod ei holl bechodau wedi eu maddau yn gyflawn ac yn rhad iddo, a fu, ac fy', neu a fydd; * (O rhan rhwymedigaeth i ddamnedigaeth dragywyddol) a bod Duw yng Nghrist wedi ei gymmodi âg ef; yna, meddaf, y datguddia'r Arglwydd ei dadol wyneb-pryd iddo yng Nghrist, ac a gyhoedda iddo yr undeb annrhaethadwy fy rhyngddo ef a'i enaid, hyd onid yw ei galon ef yn efmwyth, ac yn gorphwys yn yr Arglwydd, yr hwn yw ei wir drigfa, a'i orphwysfa briodol. Canys ar hyn y daw i'r enaid y fath heddwch oddi wrth Ddduw'r heddwch, nes y llanwo gwagter yr enaid â gwir lewndid yng nghyflawnder Duw; hyd onid yw'r galon yn awr yn peidio a blino'r dyall a'r rhefwm â'r hen gais o amrywiaeth o bethau dymunol, neu o fwynhad o bethau darfodedig. A hyn, o herwydd fod anefm-

* D. S. Nad ymfoddlonodd *Dafydd* ar y weithred farnol o faddeuant er ei gyhoeddi iddo gan Ddduw, heb ddrylliad calon, a glanhad profiadol trwy waed Crist, yn llŷs y gydwybod. Yr hyn a arwyddoccâid trwy yr ymadrodd cyfgodol, *Glanhâ fi âg ifop, a mi a lanheir. &c.*

mwyth

mwyth chwant y galon, a barafai aflonyddwch ac anrhefn gynt yn yr amrywiaeth o ddych'mygion y meddwl, ac yn yr anianol a'r anifeiliaidd ymarferion o'r aelodau corphorol oddi allan, yn awr wedi ei ddiſtewi, a'i wir lonyddu. Canys pan y p'o calon dyn mewn heddwch â DUW, ac yn llawn o'r llawenydd a'r tangnefedd fydd uwchlaw pob dyall, nid oes i'r cythraul gymmaint o obaith i ortrechu'r enaid ag y fuaſai iddo gynt, am ei fod weithian yn gwybod mai ofer waith yw iddo abwydo ei fâch âg elw, neu feluſwedd, neu anrhydedd bydol, neu'r cyffelyb rîth o ddaioni, i ddal yr enaid hynny ag ſydd â'i ddigonolrwydd yn yr Arglwydd; canys y mae iddo eiſoes gyflawnder yn ei DDUW; ac yn ôl llenwi peth hyd yr ymmyl (fel y gwyddoch) pa beth bynnag a 'chwanegir atto a â yn ofer. Gwir yw, y mae'r eneidiau gweigion, fel lleſtri gweigion, yn barod i dderbyn pob peth a fwrier iddynt; ond y mae'r galon grediniol, yn ôl ei llanw trwy ffydd â heddwch a llawenydd, yn ffieiddio pob gwael hudoliaeth, am nad oes ynddi ddim lle i'w dderbyn. I fynegu'r gwirionedd, nid oes dim a lwyr ddiwreiddia anuwioldeb allan o galon dyn, ond yn unig gwir dawelwch y meddwl, a gorphwysfa'r enaid yn yr Arglwydd. Ac yn ſicr, y mae hwn y fath heddwch a gorphwysfa i'r creadur yn y Creawdwr, fel na's dichon un peth creuedig, yn ôl y meſur o'i ddiogelwch trwy ffydd, na 'chwanegu atto, na thynnu oddi wrtho; canys nid mwynhad o deyrnas a'i halaetha, ac nid colledion, na'r aflwydd mwyaf a'i lleihâ un gronyn; felly o GRIST y daw holl weithredoedd da'r ffyddloniaid, ac yno hefyd y dylent ddychwelyd. Ac y mae hyn yn wirionedd diamheuol, ſef, nad yw boſſibl i na phechod, na'r cythraul, na'r gyfraith, na'r gydwybod, nac uffern, na'r bedd eu diddymmu; am fod yr Arglwydd yn unig yn ei rhoi, ac yn ei gynnal. *Puy ſydd gennyf yn y nefoedd, ond tydi?* (ebe *Dafydd*) *ac ni ewyllyſiais ar y ddaear neb gyd â thydi*, Sal. lxxiii. 25.

25. Llewyrch wyneb Duw yng Nghrist a rydd lawenydd i'r galon: Ac os cuddia ei wyneb, yna y bydd yn helbulus. Ond er dangos hyn yn eglurach etto; beth pe lleihaid, heddwch a llawenydd y gwir ffyddloniaid, etto y mae eu tyſtiolaeth hwy, neu ryw arwyddion o hono, yn aros fyth cyn gryfed ynddynt, hyd oni fedront, ïe, ynghanol eu trymder mwyaf, ar ymadawiad Duw oddi wrthynt, ddywedyd, *Fy Nuw, fy Nuw, paham i'm gadewaiſt?* Sal. xxii. 1. Ie, ynghanol y tywyllwch mwyaf o abſennoldeb Duw, hwy a aroſant yn ddiyſgog yn eu gobaith *o weled gorfoledd erbyn y borau, er i wylofain aros tros nos.* Ie, *Pe lladdai'r Arglwydd hwy, etto hwy a obeithiant ynddo*, gan wybod yn hyſpys, *fod eu Prynwr yn fyw*; a hynny, am fod llawenydd yr Arglwydd yn eu nerthu hwy. Dyma'r bobl *a gedwir mewn tangnefedd heddychol, am eu bod a'u meddylfryd ar yr Arglwydd, ac yn ymddiried ynddo.* Eſa. xxvi. 3. Gan hynny ymogelwch, attolwg, fy nghymmydogion anwyl, rhag barnu fod un cyflwr amgen nâ'u gilydd yn ddedwydd nes y caffoch hyn o wir dangnefedd a gorphwyſfa i'ch eneidiau yn yr Arglwydd. Gwiliwch rhag i chwi ymfoddloni eich hunain â thangnefedd rithiol gwag, heb gael tangnefedd ſylweddol. Gwiliwch na byddoch yn ymhoffi neu yn pwyſo ar y fath dangnefedd ag a baro anghof o'ch pechodau, neu eſgeuluſdra i holi eich calonnau, neu un math o yſgafn dyb meddwl o'ch bod yn gwybod llawer o byngciau crefydd, ac yn medru llawer o ddifinyddiaeth, ac ar hynny yn gallu llunio rhyw ddadleuol rheſymmau i ddiſyrru amſer, ac i oſtegu llais cydwybod gyhuddol. Ond cymmered eich calonnau eu cennad oddi wrth bob rhith ddedwyddwch, gan ba un y cawſant eu hudo a'u maglu, mwy neu lai, a'u cadw rhag eu gwir orphwyſfa yn yr Arglwydd. O byddwch gadarn yn eich bwriadau, a chenwch yn iach i bob peth gwag twyllodrus, ac na arhoſwch, nag yn yr *Aipht* gyd â'r crochanau cig, nac ychwaith

yn

yn yr anialwch o ffurfioldeb, neu ddangoſiad oddiallan o grefydd: Ond dinoethwch eich hunain yn lân, a bwriwch oddi wrthych bob hoffder boddlonrwydd mewn anrhydedd, ac elw, neu ddifyrrwch anianol, neu mewn ymarferion neu waſanaeth crefyddol, tu ag at i'ch eneidiau gael gorphwyſfa yn unig yn yr Arglwydd.

Nom. Ond, Syr, a fynnech chwi na bae ein ſynhwyrau ni wedi eu goſod ar bethau gweledig daearol? A fynnech chwi i ni gymmeryd dim cyſur mwyach ym mhethau da y bywyd hwn?

Eſan. Na chamſyniwch fi, attolwg; nid wyf fi yn chwennych i chwi mewn ſarrugrwydd wrthod gweddus ymarfer o greaduriaid daionus yr Arglwydd, a ryngodd ei fodd ef i'w rhoddi i chwi. Canys yr wyf fi yn gwybod yn hyſpys, fod gan feddwl dyn ryw ogwyddiad naturiol i ymgyſuro ei hunan âg arferiad cyfreithlon o'r pethau hyn, a bod hyn o ogwyddiad yn aros ynghalon y dyn ag ſydd wedi ei ail eni. Ond etto, yſtyriwch hyn, fod gwahaniaeth rhwng ei gyflwr ef yn awr a chynt, ſef, y mae gogwyddiad y galon, a fuaſai gynt yn afreolus, yn awr yn ddôf, ac yn araf, fel nad yw ei awydd ef at y creadur yn awr fel gynt, am fod ei afreolaeth ef wedi ei ddaroſtwng yn awr yn nhangneddef y galon, ac wedi ei ſymmud i dymmer a threfn weddus; hyd oni feder yr awydd anianol yn awr gymmeryd pall o'i ddymuniadau yn llonyddach na chynt; ïe, fe fydd yr awydd anianol yn foddlon ddigon i oddef y peth a fyddo yn gwrthwynebu, neu yn croeſi ei ddymuniadau fwyaf, ſef, newyn, ſyched, oerfel, noethni, ïe, a marwolaeth. Canys dyma weithrediadau rhyfeddol y galon ſydd a'i gorphwyſfa yn yr Arglwydd; er bod ſynhwyrau y dyn yn ymarfer â gwrthrychau allanol, etto nid yw ei galon yn ymhoffi, neu yn cymmeryd boddlonrwydd ynddynt: Ond y mae yn ymarfer ei hunan, gan mwyaf, ar bethau nefol, ſef, argymmundeb yſprydol â DUW yng NGHRIST; hyd onid yw yn ymarfer â'r byd a'i bethau, fel pe bae heb eu hymarfer; ac nid yw ef yn cael un boddlonrwydd calonnog oddi wrth un math o ymarfer anianol o honynt, a hynny, am fod ei galon ef wedi ei diddyfnu oddi wrthynt. A hyn o ddiddyfniad calon a oſodir allan yn ymadrodd dyweddi CRIST. *Can.* v. 2. *Myfi ſydd yn cyſgu, a'm calon yn neffro.* Yn yr un modd y gellid dywedyd, fod y dyn hwnnw yn cyſgu, yn gweled, yn clywed, yn arogleuaethu, yn bwytta, yn gwledda, &c. Ond y mae ei galon ef wedi ei neilldio, ac yn *llawenychu yn Nuw ei Iachawdwr*, a'i *enaid yn mawrhau yr Arglwydd*; ïe, ynghanol pob difyrrwch anianol, efe a ddywaid yn ddirgel, nid yma y mae fy nedwyddwch.

Nom. Paham attolwg, Syr, yr ydych chwi yn galw ymarferion rheſymmol crefyddol yn anialwch?

Eſan. Am ddau rheſwm; y cyntaf yw hyn, megis y crwydrodd plant yr *Iſrael*, yn ôl eu dyfod hwy allan o'r *Aipht*, lawer o flynyddoedd yn y Diffeithwch, cyn eu dyfod hwy i mewn i wlad *Canaan*; felly y mae llawer o ddynion yn crwydro yn hir

yn

yn eu hymarferion rheſymmol a chrefyddol, wedi iddynt ymadael â'r hen fywyd anianol, cyn y delont i orphwys yn yr Arglwydd, o ba un yr oedd tir *Canaan* yn gyſgod.

Yn ail, megis y mae dynion, a deithiant trwy'r anialwch, yn colli eu hunain yn fynych, a'r iawn lwybr i'w harwain hwy allan; gan dybied eu bod hwy weithian (yn ôl cymmaint poen) yn agos i'w lle dymunol. ac etto heb fod ronyn nês i ben eu taith mwy nac ar y cyntaf. O'r fath hyn yw cyflwr y rhai hynny a dreiglant ar hyd lwybr rheſwm naturiol; y maent yn myned ar ddiâro ymlith y coedydd a'r dryſni o'u gweithredoedd eu hunain, hyd onid ydynt, pa fwyaf y teithiant ynddynt, yn myned bellach bellach oddi wrth DDUW a gwir orphwysfa ynddo ef.

Nom. Ond, Syr, chwi a wyddoch ddarfod i'r ARGLWYDD ein cynnyſgaeddu âg eneidiau rheſymmol; a fynnech chwi am hynny i ni beidio gwn uthur defnydd o'n rheſwm?

Efan. Na chamſyniwch fi, attolwg; nid wyf fi nac yn dibriſio nac yn dirmygu ymarfer rheſwm; ond mi a fynnwn ei ymarfer i'r diben a'r daioni pennaf. Ac mi fynnwn ar i chwi ei gadw dan law; ac os cynnyg ef, megis y gwnaeth *Hagar*, i feiſtroli ac i arglwyddiaethu ar eich ffydd, mi a'ch cynghorwn, ar i chwi yn noethineb yr Arglwydd, megis *Sara*, ei fwrw allan, fel na's caffo lywodraethu arnoch. Yn fyrr, mi a fynnwn i chwi fod yn gryfach mewn awydd a dymuniadau nac mewn manol ddychymygion; ac i hiraethu yn fwy am gael cymmundeb â DUW, nac am feder a dyſg i ymddadleu ynghylch rhyw ymholiadau dyfnion, a chweſtiynau dyſgedig, pa un ai ynghylch pethau dwyfol neu ddynol y bôm; a cheiſiwch yn daer i adnabod DUW trwy brawf neillduol grymmus. A phe baech yn rhagori ar eraill mewn gwybodaeth ac ufudd dod, etto mi a fynnwn eich bod yn diddymu ac yn gwadu eich hunain, a'ch dyſg, a'ch meder, a bod yn ffyliaid, o ran pob doethineb cnawdol, ac yn gwylied na byddoch yn gorfoleddu mewn dim, ond yn unig yn yr ARGLWYDD. Ac mi a fynnwn i chwi edrych â llygad o ffydd ar bob peth wedi ei crynhoi ynghŷd allan o un peth, ac yn hwnnw i weled y cwbl. Mewn gair, mi a fynnwn i chwi ymogelyd rhag ymadroddion a chweſtiynau anfuddiol, ac i fyfyrio llawer â'ch calon, heb wâg ymſiarad â'ch tafod; ac yn ôl cyngor *Iago* i. 19. *Byddwch ejgud i wrando, a diog i lafaru, a diog i ddigofaint.* Canys yn y modd hyn y daroſtyngir eich rheſwm, ac y gwneir ef yn un â'ch ffydd; canys yna y mae rheſwm yn un â ffydd, pan y byddo yn ddaroſtyngedig i ffydd; ac yna y ceidw rheſwm ei derfyn, a chwi a fyddwch yn fwy rheſymmol o lawer nac y buoch gynt. Ac weithian yr wyf yn gobeithio eich bod yn gweled yn awr, nad yw ymadawiad y galon oddi wrth fywyd teimladwy a rheſymmol, i'w yſtyried yn hollol, ond yn gydmariaethol, ac ni's meddylir ein hollol ymadawiad â'r naill na'r llall, ond y iawn arfer o bob un o'r ddau.

Ac weithian er cloi ein ymadrodd, gwybyddwch pan y delo eich eneidiau fel hyn i *anghoſio eu pobl eu hun, a thŷ eu Tad,*

Criſt eu Brenin a chwennych eu tegwch, ac a'u ſercha cymmaint, nes y tynno ei gariad ef, megis maen-tynnu (neu y Load Stone) yr enaid atto ef drachefn; ac yna, *Fel y breſa'r Hŷdd am yr aſonydd dyfroedd, felly yr hiraetha eich eneidiau am Dduw*; ïe, ac yna i'ch llenwir â chariad, a chwi a fyddwch cyn glafed o gariad, hyd oni ddangoſir ar gyhoedd wrth eich taer geiſiad yr *hwn a hoffa eich enaid*. Ac yn y modd hyn y daw eich eneidiau i gael gwir orphwysfa yn yr Arglwydd, ac yn ôl meſur eich ffydd, i'ch llenwir â llawenydd a gogoniant annrhaethadwy: A hynny, am fod eich eneidiau yn gyfrannogion â DUW ei hun, ac am i chwi trwy ffydd gael gwir brawf o bob uchelfraint nefol, a thrwy'r Yſpryd ſicr inſel o honynt, a chennych, fel pe bae, un troed eiſoes yn y nef, tra y byddoch ar y ddaear. Ac O! Pa fath gariad clodforawl a gyfyd o'ch calon ddiolchgar! Hi a ddengys ei hun ar gyhoedd, yn gyntaf tu ag at yr Arglwydd, ac yn ôl hynny tu ag at ddyn, er ei fwyn ef; am fod ei gariad tragywyddol ef yng NGHRIST wedi ei egluro i'ch eneidiau. Ac yn ôl meſur eich ffydd, nid rhaid i chwi weithian na gogwyddo, na chynnmell eich hunain, nac i garu DUW, na dyn, nac i wneuthur un gwaſanaeth i DDUW, na chymmwynas i ddyn; canys o herwydd eich ſierwydd o gariad DUW tu ag attoch yng NGHRIST, fe fydd eich eneidiau yn waſtadol yn rhwymmedig i garu DUW; ac yn ôl meſur y cariad hwnnw, chwi fyddwch yn rhwymmedig i gadw ei holl Orchymynion ef. A'r cariad hyn at DDUW a dorr ymaith eich ſerch arnoch eich hunain; hyd oni byddoch weithian yn hollawl o ochor DUW, a'ch bwyd a'ch diod chwi fydd gwneuthur ei ewyllys ef tra y byddoch ar y ddaear; a mwy ó lawer, pan eloch i'r Nef, y lle dedwydd hwnnw o orphwysfa dragywyddol a pherffaith lawenydd. I'r hwn le yr Arglwydd IESU GRIST a'n cymmero ni oll yn ei bryd priodol ei hun! Amen.

Y DIWEDD-GLO.

Neophitus.

BEllach, Syr, ni 'chwanegaf fi air y rhagor ond hyn yn unig, mai mewn awr ddedwydd y cyfarfyddais i â chwi, ac mai da i myfi y fu hyn o ymddiddan rhyngom; canys yn wir, nid adnabum i GRIST erioed hyd y dydd hwn. Ac yn awr pa achos mawr ſydd i mi roi diolch i'r Arglwydd am ſy nyfodiad yma attoch heddyw, ac i fy nau gymmydog hefyd a fuant foddion i ddyfod a mi yma; ac am y mawr boen y gymmeraſoch chwi gyd â mi i adeiladu fy enaid. Mi attolygaf i'r Arglwydd dalu i chwi; ac yn awr gan ddeiſyf arnoch fy nghofio yn eich gweddiau, ar i'r Arglwydd 'chwanegu fy ffydd, a chynnorthwyo fy anghrediniaeth, mi a gymmeraf fy nghennad oddi wrthych,

gan

gan ddeiſyf ar yr Arglwydd DDUW'r cariad ar tangneddef fod gyd â chwi.

Nom. Ac yn wir, Syr, yr wyf fi yn credu fod i minnau gymmaint o achos i gydnabod fy nedwyddwch o fod yma heddyw, ac y ſy iddo yntef; canys er fy mod i erioed yn rhagori arno ef mewn gwybodaeth, ïe, yſgatfydd mewn buchedd union ymochelgar, etto mi a welaf yn awr, nad oedd fy ngweithredoedd i nac yn dyfod allan o wreiddyn da, nac wedi eu gwneuthur i un diben da, ac am hynny nid oeddwn i mewn gwell cyflwr nag yr oedd yntef. Ac yn wir, Syr, nid allaf fi amgen nac addef, na's clywais i erioed gymmaint am GRIST a'r Cyfammod o Ras ac y glywais i heddyw. Yr Arglwydd a'i ſanctteiddio, ac a'i gwnelo yn fuddiol i mi: Ar yr wyf finnau, Syr, yn deiſyf arnoch i weddio droſof.

Anti. Ac yn ſicr, Syr, fe a'm argyoeddwyd i yn llwyr yn awr, fy mod wedi cyfeiliorni allan o'r iawn ffordd, am nad oeddwn yn priſio am gyfraith DDUW a'i gweithredoedd, fel y dylaſwn. Eithr trwy nerth DUW, os efe a eſtyn fy einioes, mi a fyddaf yn fwy fy ngofal, pa wedd y rhodiwyf, gan i mi glywed mai Cyfraith CRIST yw'r dêg gorchymun. A mi a attolygaf arnoch, Syr, fy nghofio innau yn eich gweddiau. Ac weithian, gan roddi i chwi fawr ddiolch am eich poen a'ch cariad, mi a gymmeraf fy nghennad oddi wrthych, gan weddio ar i *Ras ein Harglwydd Ieſu Griſt fod gyd â chwi. Amen.*

Eſan. Bellach, DUW'r *Heddwch, yr hwn a ddug drachefn eddi wrth y meirw ein Harglwydd Ieſu Griſt, Bugail mawr y defaid, trwy waed y cyfammod tragywyddol, a'ch perffeithio ymhob gweithred dda, i wneuthur ei ewyllys ef, gan weithio ynoch yr hyn ſydd gymmeradwy yn ei olwg ef, trwy Ieſu Griſt; i'r hwn y byddo y gogoniant yn oes oeſoedd. Amen.* Heb. xiii. 20, 21. *Os y Mab a'ch rhyddha chwi, rhyddion y fyddwch yn wir.* Ioan viii. 36. *Sefwch gan hynny yn y rhydd-did, a'r hon y rhyddhaodd Criſt ni; yn unig nag arferwch y rhydd-did yn achlyſur i'r cnawd, ond trwy gariad gwaſanaethwch eu gilydd.* Gal. v. 1, 13. *A chynnifer ac a rodiant yn ôl y rheol hon, tangneddef arnynt, ac ar Iſrael Duw.* Pen. vi. 16. *Yr ydwyf yn diolch i ti O Dad, Arglwydd Nef a Daear, am i ti guddio y pethau hyn rhag y doethion a'r rhai dyallus, a'u datguddio o honot i'r rhai bychain.* Math. xi. 25. *Mi a laſuriais yn helaethach na hwynt oll; ac nid myfi ychwaith, ond gras Duw yr hwn ſydd ynof fi.* 1 Cor. xv. 10. *Na ddeued troed balchder i'm herbyn.* Sal. xxxvi. 11.

DIWEDD.

Hyſpyſiad i'r Cyffredin;

YR wyf yn bwriadu Argraphu, wrth Rag-daliad, y Llyfr hynod hwnnw o waith Mr. *Ioan Bunyan*, a elwir, *Hanes Bywyd a Marwolaeth* Mr. *Drygddyn*, neu ddyn Annuwiol; mewn dull o ymddiddan, neu holiad ag atteb, rhwng Mr. *Doethineb* a *Mr. Yſtyriol*; Y mae yn gymmwys Ddrŷch i bawb, Canys fe fu, neu y mae pawb yn Annuwiol.

Yr Ammodau.

Yn (1.) fe gaiff y Llyfr ei ddiwygio o'r beiau ſydd yn Argraphiad *N. Thomas*, a'i roi ar well Papur. (2.) Fe gaiff ei roi yn yr Argraph-waſg cyn gynted ag y derbyniwyf fil o Rag-dalwyr. (3.) Ei bris ſydd Swllt, wedi ei blygu a'i bwytho mewn Papur glâs, chwe' cheiniog yni mlaen, a'rheſt wrth dderbyn y Llyfr. (4.) Nag ofned neb roi ei Arian ym mlaen, canys fe gaiff naill ai'r Llyfr, neu ei Arian yn ôl. (5.) Bydded i'r rhai ſydd wedi ſiarad â fi am y Llyfr, a phawb eraill ac ſydd yn ewyllyſio i'r gwaith fyned ym mlaen, anfon eu Harian i'm llaw erbyn diwedd Mîs Hydref neſaf; ynghyd â rhifedi y Llyfrau, eu henwau, ac enwau eu cartrefydd, eu plwyfau, a'u Sîroedd.

D. S. Y mae'n angenrhaid Rhag-daliadau ym mlaen, canys wrth hynny y gwybyddaf pa rifedi o Lyfrau i Argraphu.

Bryniog ucha,
Llanrwſt, Sîr Ddinbych,
Mai, 22. 1782.

JOHN RICHARD.

24 DE 67